

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Casnodyn

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Nerys Ann Howells, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Owen Thomas, BA, LLB, MSt

Golygyddion Ymgynghorol

†Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH CASNODYN

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1999

© Prifysgol Cymru ©, 1999.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 70 X

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Golygwyd gwaith Casnodyn am y tro cyntaf gan G.C. Ballinger yn 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14deg ganrif' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1991), lle y ceir cyfieithiad Saesneg o'i gerddi. Er fy mod yn cyflwyno golygiad newydd o gerddi Casnodyn yn y gyfrol hon, hoffwn gydnabod fy nyled i waith Dr Ballinger, a chyfeirir yn gyson at y gwaith hwnnw.

Testun Llyfr Coch Hergest (J 111) yw prif ffynhonnell cerddi 1–4, 6–11, a thestunau'r llawysgrif honno a Llawysgrif Hendregadredd (LIGC 6680B) yw prif ffynonellau cerdd 5: y mae'r holl gopïau diweddarach o'r cerddi yn tarddu o'r ddwy ffynhonnell hyn, ac felly ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn un o'r prif ffynonellau, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun. Y mae cerdd 12, sef un englyn dychan, ar gadw mewn 11 llawysgrif yn dyddio o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Defnyddiwyd tystiolaeth yr holl lawysgrifau hynny i greu testun cyfansawdd.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *gwedy*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith y bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau arwyddocaol a rhai sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan gyfeiriant at Dduw, Crist neu'r Drindod.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Bwrdd Golygyddol a Golygyddion Ymgynghorol y gyfres hon; Mr Daniel Huws, Dr Hywel Wyn Owen a Mr Tomos Roberts.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xvii
GWAITH CASNODYN	
RHAGYMDRODD	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron.....	17
2. Marwnad Madog Fychan o Dir Iarll.....	23
3. Moliant merch o Fôn	35
4. Moliant merch Gruffudd ab Iorwerth	38
5. Moliant Gwenlliant wraig Gruffudd Llwyd o Dregarnedd.....	42
6. Moliant Awd	46
7. Awdl i'r Drindod	51
8. Awdl i Dduw	65
9. Englynion i Fair.....	71
10. Englynion i Fair.....	74
11. Dychan i Drahaearn Brydydd Mawr	78
12. Dychan i Nest	90
NODIADAU	93
MYNEGAI.....	171
Enwau personau	188
Enwau lleoedd.....	190
LLAWYSGRIFAU	191
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	195
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	197

Byrfoddau

Llyfryddol

- ACDC G.C. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14ddeg ganrif' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1991)
- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. Rachel Bromwich a R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- Arch Cam *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P *Armes Prydein o Lyfr Taliesin*, gyda rhagymadrodd a nodiadau gan Ifor Williams (Caerdydd, 1955)
- Arm P2 *Armes Prydein ... from the Book of Taliesin*, ed. and annotated by Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd & J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)

- BI B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybie, 1989)
- l Br 'Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd' yn yr Hen Destament
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- BT *Brut y Tywysogyon Peniarth Ms. 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
- BT (cyf) *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes Peniarth Ms. 20 Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1952)
- BT (RB) *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CCM B.G. Owens and R.W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980)
- CGRG K.A. Evans, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Rianedd a Gwragedd: Astudiaeth Destunol a Beirniadol o Ddetholiad ohonynt' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1972)
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993;
Cambrian Medieval Celtic Studies, 1993—
- CO3 *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D.
Simon Evans (Caerdydd, 1997)
- 2 Cr ‘Ail lyfr y Cronicl’ yn yr Hen Destament
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd,
1960)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable
Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- ChO *Chwedlau Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam,
1926)
- D *Dictionarium Duplex*. ed. John Davies
(Londinium, 1632)
- Dat ‘Llyfr y Datguddiad’ yn y Testament Newydd
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym
Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG2 *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol.
Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg.,
Caerdydd, 1935)
- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences
and Analogues* (Oxford, 1996)
- DWB *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940*
(London, 1959)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*
(Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in
Welsh* (London, 1923)
- EL Henry Lewis, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*
(Caerdydd, 1943)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J.
Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel
(Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail
Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian
M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)

- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GCH iii *Glamorgan County History*, iii, ed. T.B. Pugh (Cardiff, 1971)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed ac Eraill*, gol. R. Iestyn Daniel (i ymddangos yn Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI2 *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans *et al.* (Aberystwyth, 1997)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)

- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GM *Gwassanaeth Meir*, gol. Brynley F. Roberts (Caerdydd, 1961)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University of North Wales, Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii *A Guide to Welsh Literature: Volume 2*, ed. A.O.H. Jarman and G.R. Hughes (Llandybie, 1984)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)

- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HMSS *Selections from the Hengwrt MSS*, ed. Robert Williams (2 vols., London, 1876, 1892)
- ID *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)
- IGE2 *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LIA *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris-Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW2 J.E. Lloyd, *A History of Wales* (second ed.; London, 1912)
- J.E. Lloyd: HW3 J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed.; London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MA2 *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed.; Denbigh, 1870)
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn crom-fachau)
- MED *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, Michigan, 1954–)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)

- J. Morris-Jones: WS John Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)
- NCE *The New Catholic Encyclopaedia* (New York, 1967–79)
- ODCC2 *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (second ed., London, 1974)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- PNP B.G. Charles, *The Place-names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992)
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. I. Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- PMWB *Poetry by Medieval Welsh Bards*, ii, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1926)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- Rec C *Registrum vulgariter nuncupatum, 'The Record of Caernarvon'*, ed. H. Ellis (London, 1838)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- RhELI *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-names*, gol. Elwyn Davies (trydydd arg., Caerdydd, 1967)
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)

- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TW Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* yn Pen 228
- TYP2 *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1962)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI I. Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WML A.W. Wade-Evans, *Welsh Medieval Law* (Oxford, 1909)
- YCM2 *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gn.	geiryn
<i>a.</i>	<i>ante</i>	gol.	golygydd, golygwyd
adf.	adferf		gan
amhff.	amherffraith	grb.	gorberffraith
amhrs.	amhersonol	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
<i>c. (g.)</i>	<i>canrif</i>	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrit.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	gradd gymharol	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	Nor.	Norseg
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dyf.	dyfodol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prff.	perffraith
e.c.	enw cyffredin	prs.	person, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	pth.	perthynol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.p.	enw priod	S.	Saesneg
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
f.	ffolio	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
ff.	ffolios	un.	unigol
Ffr.	Ffrangeg	v	<i>verso</i>
g.	(c.) canrif	vols.	volumes
g.	gwrywaidd		

Rhagymadrodd

Bywyd y bardd

Ei llysenw

Ni wyddys beth oedd gwir enw Casnodyn¹ ac y mae'n amlwg mai llysenw oedd *Casnodyn*. Yn ôl Lloyd-Jones,² gall *Casnodyn* fod naill ai'n ffurf a ddeilliodd o'r ansoddair cyfansawdd *casnawd*, sef *cas* (S. 'nasty') a *nawd* 'natur', a'r terfyniad bachigol *-yn*, neu ynteu'r un gair ag a rydd John Davies, Mallwyd, yn ei Eiriadur (D) dan *casnod* '*floccus, flocculus*', sef '*cudyn, lloeweth, dylwŷ*'. Yn ôl y tarddiad cyntaf, yr ystyr fyddai 'dyn bach cas ei natur', ac yn ôl yr ail, 'dyn bach fel cudyn'.³ Eithr anodd gweld y priodoldeb o gyffelybu dyn i *gudyn* bach a haws credu mai cynnig cyntaf Lloyd-Jones sydd agosaf ati. Posibilrwydd arall yw mai *nod* yw'r ail elfen, ond anodd fyddai penderfynu pa un o amrywiol ystyron y gair hwnnw a olygid⁴—'pwrpas', 'enwogrwydd', 'nodwedd' neu 'sain'? Y mae'r enw *Casnodyn*, o ran ffurf a'r awgrym sydd ynddo o fychander corfforol, yn debyg i'r llysenwau eraill ar feirdd, *Cnepyn Gwerthryniion* a *Sypyn Cyfeiliog* (am Ddafydd Bach ap Madog Wladaidd), a chwbl nodweddiadol o'r enwau hanfodol ddiurddas a chyntefig a roddai'r beirdd ar ei gilydd.⁵

Ei achau a'i fro

Ni chafwyd unrhyw oleuni ar achau Casnodyn, ond mewn cerdd ddychan iddo sonia Trahaearn Brydydd Mawr amdano ddwywaith fel un a hanai o Gilfái (ger Abertawe).⁶ Y mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth gadarn yng ngherddi Casnodyn mai de-ddwyrain Cymru oedd ei brif gynefin.⁷ Yn ei foliant i ferch o Fôn cyfeiria ato'i hun fel *gwas gruddlas ... / O bellfro Gaerllion*, sef Caerllion ar Wysg (3.1–2); yn ei foliant i ferch Gruffudd ab Iorwerth o Fôn (yr un ferch, efallai) dywed *Syrchawdd Glyw fy rhyw rhwng*

¹ Ymhellach, gw. 2.133n.

² G 116.

³ Ceir digonedd o dystiolaeth yng ngherdd ddychan Trahaearn Brydydd Mawr i Gasnodyn, GGDТ cerdd 13, ei fod yn fychan o gorff, fel y gwelir wrth y pethau mân a dirmygadwy y cyffelybir ef iddynt, e.e. *torogyn, brychewyn, morgrugyn, &c.*

⁴ Gw. GPC 2587–8.

⁵ Sylwyd ar ŵr o'r enw Ieuan ap Cadwgan Snodyn yn yr achau, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Edwin' 8.

⁶ GGDТ 13.83–4 *Cas mandwyll, câr caws mandai, / Conglau celfiau Cilfái, ib. ll. 97 Pryf waethwaeth ei faeth o fythau—Cilfái.*

⁷ Awgryma Iolo Morganwg mai o Langyfelach (Morgannwg) yr hanai Casnodyn, ond, fel y dywedir yn TLIM xv, 6, ar sail lle o'r enw Glyn Casnod yn y plwyf hwnnw y gwnaeth hynny.

Taf—a Thawy (4.7); yn ei foliant i Awd sonia am ei gyfarchion yn mynd ati i Landeilo *dros Nedd ... / A Thawy* (6.3–4) ac *O wlad faith ... / Forgant* (llau. 55–6); ac yn ei awdl i'r Drindod cyfeiria at [*G*]aerdyf (7.212). Amlwg, felly, mai ym Morgannwg a Gwent yr oedd gwreiddiau Casnodyn, ac nid syndod, o'r herwydd, fod ei farwnad i Fadog Fychan o Dir Iarll (cerdd 2) wedi ei chanu yn y parthau hynny, ac efallai hefyd ei ddychan i Drahaearn Brydydd Mawr (cerdd 11).⁸

Y mae'n bosibl fod tystiolaeth cerddi Casnodyn, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn anghyson ag eiddo Trahaearn Brydydd Mawr sy'n dweud ei fod yn dod o Gilfái, oherwydd yn yr Oesoedd Canol ystyrid y faenor honno yn rhan o Wŷr. Yr oedd Cilfái, er hynny, yn rhan o'r hen Forgannwg a ymestynnai o Abertawe i Afon Gwy ac fe safai ar lannau dwyreiniol Afon Tawe.⁹

Ei yrfa

Ni wyddys a dderbyniodd Casnodyn addysg farddol yn ei briod gynefin ym Morgannwg, ac yn groes i'r disgwyl, efallai, y mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym am y pwnc yn ein tywys, yn hytrach, y tu hwnt i Forgannwg. Yn gyntaf, sylwer ar y llinellau adnabyddus canlynol o awdl Casnodyn i Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron yng Ngheredigion, gŵr a flodeuai yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg:¹⁰

Llyw a'm dysgawdd hawdd hoddiaw—gerdd berffaith,
Nid fal sothachiaith beirdd caith Caew.¹¹

Byddai'n deg cymryd y geiriau hyn i olygu bod Casnodyn wedi ei hyfforddi'n fardd gan Ieuan Llwyd. Ar y llaw arall, gan ei bod hi'n dra thebygol fod Llawysgrif Hendregadredd, y casgliad cynharaf o waith Beirdd y Tywysogion, wedi bod ym meddiant Ieuan yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg,¹² y mae'n bosibl nad hyfforddiant, fel y cyfryw, a gafodd Casnodyn ganddo yn ogymaint â chyflwyniad—agoriad llygad, efallai—i'r cerddi gwych a ddiogelwyd yn y llawysgrif honno. Ond pa fodd bynnag, y mae'n amlwg, ar sail y llinellau uchod, fod Ieuan Llwyd wedi cael dylanwad pwysig ar Gasnodyn fel bardd.

Yn ail, yn ei ddychan i Drahaearn Brydydd Mawr a gyfansoddwyd efallai heb fod yn hwyrach na 1314,¹³ dywed Casnodyn wrth ymdrechu i dalu'r pwyth i Drahaearn:

⁸ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 11.

⁹ TLIM xv, 6.

¹⁰ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 1.

¹¹ 1.7–8.

¹² Gw. Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii (1981–2), 12, 13.

¹³ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 11.

Mab o ddysg doethion, ffysg ffydd,
Môn ac Arfon a'i gorfydd.¹⁴

Bydd ef, ac yntau'n un a chanddo ddysg ragorach doethion Môn ac Arfon, yn trechu Trahaearn;¹⁵ ond y cwestiwn a gyfyd yw a ddylid deall ei honiad yn llythrennol neu'n ffigurol. Hynny yw, a dderbyniodd Casnodyn addysg fel bardd yng ngogledd-orllewin Cymru mewn gwirionedd, neu ai symbol yw *dysg doethion Môn ac Arfon* o'r math gorau o gerdd dafod? Canodd Casnodyn dair cerdd i noddwyr o lannau Menai (cerddi 3–5), a'r gyntaf pan oedd, chwedl ef, yn *was gruddlas* (3.1), sef yn laslanc, y mae'n debyg. Yr oedd, gan hynny, yn adnabod yr ardal yn dda er yn gynnar ac y mae'n bosibl mai trwy gael ei addysgu yno y bu hynny.

Ar sail y cyfeiriadau uchod, gellir awgrymu i Gasnodyn naill ai ymddiddori mewn cerdd dafod gain draddodiadol dan ddylanwad Ieuan Llwyd o Lyn Aeron ac yna fynd i ogledd-orllewin Cymru i fwrw ei brentisiaeth; neu ynteu iddo fynd i ogledd-orllewin Cymru yn gyntaf a chyfoethogi, neu ehangu, ei grefft yn ddiweddarach dan gyfarwyddyd Ieuan Llwyd. Os felly, yn y naill achos neu'r llall, y mae'n bosibl mai'r ddolen gyswllt rhwng y ddwy ardal oedd Gwenlliant ferch Cynan ap Maredudd, y canodd Casnodyn iddi (cerdd 5); yr oedd hi'n wraig i Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd ac yn gyfnither i fam Ieuan Llwyd, Ellyw.¹⁶

Os cafodd Casnodyn ei addysg farddol y tu allan i dde-dwyrain Cymru, y mae'n werth gofyn pam y bu hynny. Yn wyneb y ffaith nad oes gwaith unrhyw fardd o'r rhanbarth hwnnw, gydag un eithriad, wedi ei ddiogelu yn nwy haen gyntaf Llawysgrif Hendregadredd,¹⁷ gellid tybio nad oedd y traddodiad barddol mor gryf ym Morgannwg a Gwent ag yr oedd yng ngorllewin Cymru o ganlyniad i Normaneiddio helaeth. Fodd bynnag, rhaid cofio bod cynnwys Llawysgrif Hendregadredd yn adlewyrchu'n bennaf waith cynlluniwr a oedd â'i brif ddiddordeb ym meirdd Gwynedd.¹⁸ Y mae digon o dystiolaeth i ffyniant y traddodiad barddol ym Morgannwg yn oes Casnodyn: yr oedd Madog Fychan o Dir Iarll y canodd y bardd ei farwnad

¹⁴ 11.91–2.

¹⁵ Yn hytrach na threchu Môn ac Arfon, gw. 11.92n.

¹⁶ Gw. P.C. Bartrum: WGI 'Cadwgan Fantach' a 'Rhys ap Tewdwr' 6.

¹⁷ Dyddir yr haenau hyn c. 1300–25, gw. D. Huws, *art.cit.* 12, 13. Cadwyd un gerdd gan fardd o'r de-ddwyrain yn yr haenau hyn, sef cerdd fawl i Wenlliant ferch Cynan ap Maredudd (cerdd 5 isod), ond fel y dywedir, *ib.* 9, perthyn y gerdd hon o ran ei chynnwys i drydedd haen y Llawysgrif, sef haen y cysylltir ei chynnwys yn arbennig ag Ieuan Llwyd a'i deulu.

¹⁸ Cf. yr hyn a ddywedir yn GDB 101–2 am gynnyrch beirdd Powys, 'Ar ôl 1208, pan orfodwyd Gwenwynwyn i ildio i'r Brenin John, deuai tiroedd ac arweinwyr Powys gan amlaf dan hegemoni brenhinoedd Lloegr yn hytrach na thywysogion Gwynedd. *Y mae'n dra thebygol fod y ffaith hon yn esbonio'n rhannol pam y mae cyn lleied o gerddi o waith y Gogynfeirdd wedi eu hysgrifennu i dywysogion o Bowys yn y drydedd ganrif ar ddeg. Yn syml, nid oedd y tywysogion hynny yn ddigon pwysig yn hanes y Gymru annibynnol a ddaeth i ben yn 1282 i gael eu cofnodi yn y llawysgrifau cynnar megis Llawysgrif Hendregadredd a Llyfr Coch Hergest, ein prif ffynonellau ar gyfer gwaith beirdd llys y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg'* (fy italeiddio i).

(cerdd 2), a Llywelyn ap Cynwrig, Arglwydd Llantriddyd a Radur, yn noddwyr beirdd;¹⁹ ac, fel y dangosodd G.J. Williams, yr oedd beirdd Morgannwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn ystyried Tir Iarll yn ‘[f]agwrfa traddodiadau llenyddol eu talaith hwy’.²⁰ Y mae pwyntiau megis y rhain yn awgrymu traddodiad barddol ffyniannus ac iddo ddyfnder yn y gorffennol, ac ardal lle y gallai Casnodyn fod wedi derbyn hyfforddiant.

Efallai fod mwy o fri ar gerdd dafod gogledd-orllewin Cymru ymysg y beirdd. Odid nad oedd traddodiad Aberffraw yn dal i ffynnu’n gryf ym Môn yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg,²¹ ac nid syn, felly, fyddai i fardd o ben arall Cymru deithio i astudio cerdd dafod mewn lle ac iddo ryw oruchafiaeth ar holl ranbarthau eraill Cymru. Yn y cyswllt hwn, anodd peidio â meddwl am fardd arall tra galluog o’r un cyfnod, Dafydd ap Gwilym, y dadleuodd Saunders Lewis²² iddo raddio ym Môn cyn dyfod dan ddyllanwad ei ewythr Llywelyn ap Gwilym, *Llyfr Dwned Dyfed*.²³ Mawr oedd bri Ieuan Llwyd yntau, oherwydd yr oedd teulu’r gŵr hwn, fel y dangosodd yr Athro J. Beverley Smith,²⁴ yn un o’r rhai pwysicaf a chynharaf wedi’r Goncwest i ddechrau noddi beirdd a buont yn gyniweirfa i rai o feirdd blaenaf y dydd, gan gynnwys Dafydd ap Gwilym. Mewn lle o’r fath byddai Casnodyn yng nghanol bwrlwm cerdd dafod ei ddydd ac y mae’n bosibl ei fod wedi cwrdd â Dafydd ap Gwilym yno.²⁵ (Yng ngoleuni hyn, efallai nad cyd-ddigwyddiad pur yw rhai nodweddion cyffredin yng ngwaith y ddau fardd.²⁶)

Canodd Casnodyn i amryw o bobl mewn gwahanol barthau yng Nghymru, fel y dengys eu henwau a’u trigfannau. Dyma gylch clera a gwmpasai Forgannwg a dyffrynnoedd Tywi a Theifi yn y De, a Môn ac Arfon yn y Gogledd.

Nodwedd ddiddorol ynglŷn â’r tair cerdd a ganodd yn y Gogledd yw ei fod ym mhob un ohonynt yn cyferbynnu gogledd-orllewin Cymru â’r deddwyraïn. Yn ei gerdd i ferch o Fôn dywed, *Cyn bwyf gwas gruddlas ... / O bellfro Gaerllion, / Dawn obaith ... / Dyn gŵyl, yw f’annwyl o Fôn* (3.1–4); yn ei gerdd i ferch Gruffudd ab Iorwerth o Fôn, *Syrchawdd Glyw fy rhyw rhwng Taf—a Thawy, / Serchir uwch Conwy fal y canaf* (4.7–8); ac yn ei

¹⁹ Ar Fadog, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 2. Ar Lywelyn, gw. TLIM 7.

²⁰ *Ib.* 33.

²¹ Gw. S. Lewis, ‘Dafydd ap Gwilym’, LICy ii (1952–3), 205.

²² *L.c.*

²³ GDG³ 31 (12.1).

²⁴ J.B. Smith, ‘Einion Offeiriad’, B xx (1962–4), 339–47, a gw. GLIBH 6 (troednodyn 24) am gyfeiriadau pellach.

²⁵ Canodd Dafydd ap Gwilym farwnad i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd (GDG³ cerdd 16), hynny yw, o fewn yr un genhedlaeth â Chasnodyn. Hefyd y mae Daniel Huws, *art.cit.* 18, wedi awgrymu ei bod yn dra phosibl fod englynion Dafydd i’r Grog o Gaer (GLIBH cerdd 4) wedi eu cofnodi yn Llawysgrif Hendregadredd gan y bardd ei hun yn ystod ail chwarter y 14g., pan oedd y llawysgrif yn ‘llyfr llys’ yng nghartref Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron.

²⁶ Gw. 3.1n.

gerdd i Wenlliant o Ddinorwig, gwraig Syr Gruffudd Llwyd, *Mau geiriau golau gŵyl Wyndodeg, / ... / ... Mor ddiawlud fy ngwawd yng Ngwenhwyseg* (5.21–4). Y mae'n deg tybio nad oedd yn beth arferol yn y cyfnod mwy sefydlog cyn 1282 i feirdd proffesiynol o Forgannwg glera yng Ngwynedd, a chan nad oedd y cyfnod hwnnw ond prin wedi dod i ben yn oes Casnodyn, dichon ei fod yn teimlo rhyw angen i esbonio neu i gyfiawnhau ei bresenoldeb yng Ngwynedd Uwch Conwy.

Ac yntau'n fardd yn y traddodiad penceirddaidd, y mae Casnodyn, fel prifeirdd eraill ei gyfnod, yn dangos dirmyg at y beirdd isradd hynny a adwaenid yn gyffredinol fel y glêr²⁷ pan ddywed yn ei awdl i'r Drindod, *Gorau oedd faddau, ornau oernyf, / Gorwacter y glêr ofer a yf* (7.198–9).²⁸ Yn baradocsaidd, fodd bynnag, y mae hyn hefyd fel pe bai'n tystio i Gasnodyn ymhél i ryw raddau ei hun â'r union feirdd a gondemniai.²⁹ Ond ni ddylai hynny beri gormod o syndod. Fel y dywed Dr Huw Meirion Edwards,

Since the twelfth century, at least, these popular minstrels were generally regarded by the bardic establishment with deep contempt. However, particularly during the turbulent and necessarily innovative years of the fourteenth century, it is an attitude which surely belies a considerable degree of interaction between the various grades of poets. The precise nature of this interaction remains unknown ...³⁰

Odid nad yn erbyn y cefndir ansefydlog hwn y dylid ystyried geiriau Casnodyn, cefndir lle yr oedd croesi ffiniau yn haws i'r prifeirdd; gallai ei englyn dychan maswedus i'r ferch anllad, Nest (cerdd 12), yn hawdd fod yn gynnyrch ysbaid 'ofer' gyda'r glêr.

Ond os croesodd Casnodyn y ffin rhwng prydyddiaeth a chlerwriaeth, y mae lle i dybio iddo hefyd groesi ffin arall, sef honno rhwng bywyd bardd a byd crefydd. Y rheswm pennaf dros dybio felly yw ei awdl i Dduw a'i ddwy gyfres o englynion i Fair (cerddi 8–10). Yn ei awdl i Dduw sy'n fath o farwysgafn, sonia tua ei diwedd amdano'i hun, trwy ei *oriau cyson*, yn [*g*]orffen *gwrion ganon genau* (8.77–8), sef yn adrodd y Salmau, yn ôl pob tebyg, fel y gwneid gan yr urddau crefyddol yn eu bywyd beunyddiol (gw. *ib.n.*); awgryma hyn fod Casnodyn yn aelod o un o'r urddau hyn. Y mae'r ddwy gerdd i Fair yn bur ddiwinyddol, fel pe bai eu hawdur wedi derbyn hyfforddiant mewn diwinyddiaeth. Ac er nad yw angerdd crefyddol ei awdl fawr i'r Drindod (cerdd 7) o reidrwydd yn arwyddocáu mai gŵr crefydd rhagor

²⁷ Ar hyn, gw. DGIA 20–37.

²⁸ Nid yw mor sicr mai at y glêr y mae Casnodyn yn cyfeirio yn 1.8, gw. *ib.n.*

²⁹ Cymerir bod geiriau Casnodyn i'w deall yn llythrennol a neilltuol yma yn hytrach nag yn ffigurol a chyffredinol gan fod ymhél â chlerwriaeth yn beth rhy ddiriaethol a phenodol i'w drin fel, e.e., un o'r saith bechod marwol. Go brin y byddai unigolyn ychwaith yn cyffesu i bechod nad oedd wedi ei gyflawni. Cf. hefyd eiriau Casnodyn yn gynharach yn yr un gerdd, *Seiliaith, nid gwyrtaith gorwag* (7.193).

³⁰ DGIA 37.

lleygwr duwiolfrydig a dysgedig a'i canodd, eto y mae'n bosibl ei bod yn dynodi nid yn unig dröedigaeth ym muchedd y bardd ond hefyd drobwynt yn ei yrfa. Y mae lle cryf i gredu bod y beirdd Elidir Sais a Meilyr ap Gwalchmai, ac efallai Einion ap Gwalchmai, yntau, wedi mynd yn fynach (a hynny nid yn unig er mwyn treulio eu dyddiau olaf mewn llecyn tawel a heddychlon).³¹ Yr oedd y Brawd Madog ap Gwallter yn aelod o un o urddau'r Brodyr—y Ffransisgiaid efallai—ac yn gyfansoddwr cerddi coeth.³² Yr oedd awdur y traethawd ar gyfriniaeth 'Ymborth yr Enaid' yn aelod o urdd y Dominicaniaid ac yn feistr ar gerdd dafod ei ddydd.³³ A diddorol hefyd, efallai, fyddai gwybod mwy am fywyd Gruffudd ab yr Ynad Coch, gŵr y mae chwech allan o'i saith awdl sydd ar gadw yn gerddi crefyddol a'r rheini wedi eu disgrifio fel 'ffrwyth myfyrdod y bardd wedi ei gyflwyno ar ffurf homiliau mydryddol'.³⁴ Yn nes at gyfnod Casnodyn ceir Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug, ac y mae'n bosibl fod Dafydd ap Gwilym hefyd wedi bod mewn urddau is. Sylwer hefyd fod y beirdd hyn i gyd yn feistri ar eu crefft, ac nid yn ddiletantiaid dawnus. Os aeth Casnodyn, felly, yn ŵr crefydd yn ddiweddarach yn ei oes, yr oedd yn perthyn i linach hir ac anrhydeddus, a llinach a barhaodd ymhell wedi ei oes ef a hyd yr unfed ganrif ar bymtheg. A barnu oddi wrth yr elfen ddiwygiol, athrawiaethol a phregethwrol gref yn ei gerddi crefyddol, hawdd fyddai credu ei fod yn aelod o un o'r urddau cardodol megis y Dominicaniaid neu'r Ffransisgiaid.

Diau fod llawer o'r beirdd hefyd yn greaduriaid gwleidyddol i raddau, a cheir cip ar agwedd Casnodyn yn hyn o beth yn ei farwnad i Fadog Fychan o Dir Iarll. Y mae ei hiraeth amlwg ar ôl ei noddwr a'i hoffter ohono tra oedd yn fyw, ynghyd â'i gyfeiriadau cymeradwyol ato yn lladd Saeson,³⁵ yn peri i ni gredu nad oedd y bardd yn hoffi'r drefn Seisnig a oedd ohoni, oherwydd yr oedd Madog wedi cymryd rhan yng ngwrthryfel Llywelyn Bren yn erbyn arglwyddi'r Mers, De Bohun a Mortimer, yn 1316 ac yn y gwrthryfel diweddarach yn 1321 a arweiniwyd gan garfan gymysg o uchelwyr yn erbyn Hugh Despenser, arglwydd Morgannwg.³⁶ Y mae'n bosibl hefyd fod cerdd ddychyan Trahaearn Brydydd Mawr mewn manau yn adlewyrchu anghytundeb rhwng Casnodyn a noddwr Trahaearn ar y pryd, Llywelyn ap Cynwrig, oherwydd teyrngarwch Llywelyn i Loegr.³⁷ Diau mai'r un anfodlonrwydd sylfaenol hwn ar lywodraeth y Sais a welir yn nisgrifiad Casnodyn o gyndeidiau Gwelliant, gwraig Syr Gruffudd Llwyd, fel *gweilch di-Saesneg* (5.18). Dylid nodi hefyd ei gondemniadau mynych o

³¹ GMB 319–24 *passim*, 429, 507–8.

³² GBF 347–404.

³³ Gw. YE 1–li.

³⁴ GBF 410.

³⁵ Gw. 2.19n.

³⁶ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 2.

³⁷ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 11.

drais yn ei awdl i'r Drindod,³⁸ er y gall hefyd fod y rhain, yn unol â natur grefyddol y gerdd, yn fwy cyffredinol. Tybed, gyda llaw, a gymerodd Casnodyn ei hun ran yn y brwydrau gwaedlyd uchod?

Y mae dwy ffaith arall am Gasnodyn y dylid eu crybwyll cyn cloi'r adran hon, er nad ydynt yn ymwneud â'i yrfa fel y cyfryw. Yn gyntaf, dywed iddo geisio llaw Awd, merch a drigai yn Llandeilo, mewn priodas ond i'w thad warafun hynny.³⁹ Ac yn ail, yn ei awdl i'r Drindod, sonia am ei fwriad i fynd i'r Tir Sanctaidd gyda gŵr o'r enw Morgant.⁴⁰ Dywed hyn ychydig wrthym am wedd fwy personol bywyd y bardd hwn.

Ei ddyddiadau

Cerddi Casnodyn yw prif sail ein gwybodaeth am ei ddyddiadau, a nodir yn gyntaf yr hyn y gellir ei loffa am adeg eu cyfansoddi.⁴¹ Cesglir bod moliant Ieuan Llwyd (cerdd 1) wedi ei ganu rywbryd yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef yr adeg y bernir bod Ieuan yn ei flodau, a'i bod yn bosibl, yn ôl fel y dehonglir y cyfeiriad at Ieuan fel *câr ieuanc* (1.58 ac *ib.n.*), fod Casnodyn yn ifanc ar y pryd. Ni chanwyd marwnad Madog Fychan o Dir Iarll (cerdd 2) yn gynharach na 1329 oherwydd yn y flwyddyn honno y ceir y cyfeiriad hysbys diweddaraf ato. Y mae'n debygol fod y moliant i ferch o Fôn (cerdd 3) wedi ei ganu pan oedd y bardd yn ifanc, fel yr awgrymir gan y geiriau agoriadol *Cyn bwyf gwas gruddlas*. Os un o ferched Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd o Fôn yw gwrthrych cerdd 4, yna, gan mai tua 1270 oedd adeg geni ei chenhedlaeth hi yn ôl Bartrum,⁴² efallai mai tua 1300 y canwyd y gerdd hon, ond brasamcan ar y gorau yw hyn ac nid oes sicrwydd ychwaith mai merch Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd ydoedd. Yr ydym ar dir diogelach yn achos moliant Gwenlliant, gwraig Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd (cerdd 5), oherwydd y tebyg yw mai rywbryd yn ystod ail garchariad Syr Gruffudd, sef 1316–18, y'i canwyd. Ym moliant Casnodyn i Awd (cerdd 6) dywed y bardd ei fod wedi ei cheisio mewn priodas, a dichon, felly, ei fod yn ŵr ifanc ar y pryd, ond ni ellir dweud mwy na hynny am amseriad y gerdd hon. Ni all yr awdl i'r Drindod (cerdd 7) fod yn ddiweddarach na thua 1330 gan fod dryll ohoni ar gadw yn llawysgrif Pen 20.⁴³ Math o farwysgafn yw'r awdl i Dduw (cerdd 8), ac os yw hi'n adlewyrchu amgylchiadau personol Casnodyn, teg tybio mai ym mlynnydoedd diweddarach ei oes y canwyd hi. Nid oes dim i amseru'r ddwy gerdd i Fair (cerddi 9 a 10), ond y mae'n debygol na chyfansoddwyd y dychan i Drahaearn Brydydd Mawr (cerdd 11) yn ddiweddarach na 1314. Y

³⁸ Gw. 7.17–18n.

³⁹ Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 6.

⁴⁰ 7.110 ac ymhellach *ib.n.*

⁴¹ Ymhellach ar yr hyn a ddywedir yma am y cerddi, gw. y sylwadau rhagarweiniol arnynt isod.

⁴² P.C. Bartrum: WG1, i, 6.

⁴³ Ar ddyddiad y llsgr. hon, gw. isod ar y llawysgrifau.

mae'n bosibl mai'r un person yw'r ferch Nest a ddychenir yng ngherdd 12 â'r ferch o'r un enw a grybwyllir mewn dychan gan Drahaearn Brydydd Mawr, bardd a oedd, efallai, yn ei flodau yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg,⁴⁴ ond ni ellir gwybod i sicrwydd.

Ar sail y dystiolaeth hon, gellir honni'n hyderus mai hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd cyfnod blodau Casnodyn, ond efallai y gellir manylu ychydig ar hyn. Os nad yw'r dychan i Drahaearn yn ddiweddarach na 1314, yna y mae aeddfedrwydd crefft y gerdd a'i hamgylchiadau yn awgrymu'n gryf nad gwaith glaslanc pedair ar ddeg oed ydyw a bod Casnodyn, felly, wedi ei eni cyn 1300. Efallai, felly, na fyddem yn bell iawn o'n lle yn awgrymu bod dyddiadau Casnodyn yn ymestyn o ryw gymaint cyn 1300 i tua 1350 fan bellaf.⁴⁵

Cyfeiriadau ato

Ceir y cyfeiriadau helaethaf o lawer at Gasnodyn yn nychan Trahaearn Brydydd Mawr iddo.⁴⁶ Y mae hwn yn llawn o'r math o ddisgrifiadau ystrydebol sy'n nodweddiadol o ddychangerddi y bedwaredd ganrif ar ddeg—er enghraifft, bod gwrthrych yr ymosodiad yn fardd sâl, yn isel ei dras, yn hagr ei olwg, yn bwyta bwyd gwael, yn hel cardod yn annheilwng gan ei noddwr, yn llwfr, yn ffiiaidd, yn frwnt ei arferion, ac yn y blaen—ac nid ydynt felly o arwyddocâd mawr. Y prif bethau, yn wir, a ddysgwn am Gasnodyn yw ei fod yn ddyn bychan o gorff ac, yn bwysicach, ei fod yn dod o Gilfái ac, o bosibl, nad oedd yn gyfaill mawr i Lywelyn ap Cynwrig (gw. uchod).

Yr unig gyfeiriad arall at Gasnodyn a welwyd yw'r un canlynol gan Ruffudd Gryg yn ei ffugfarwnad i Ddafydd ap Gwilym:

Fal Trahaearn y'i barnwn,
Neu fel Llywarch hirbarch hwn,
Neu Gasnodyn, dyn difas,
Neu Addaf frowysaf Fras.⁴⁷

Er nad yw hyn yn dweud fawr ddim wrthym am Gasnodyn, eto y mae'n werthfawr i'r graddau fod gan Ruffudd Gryg feddwl digon uchel o Gasnodyn i'w gynnwys yn ei litani byr o fawrion cerdd dafod.

Ei waith

Nid oes ond deuddeg cerdd o waith Casnodyn wedi goroesi, cyfran fechan,

⁴⁴ Gw. GGD^T 93.

⁴⁵ Yn ôl John Davies, Mallwyd, yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D, yr oedd yn ei flodau yn 1380; c. 1320 yn ôl WG xx; yn ôl DGG² 239, canai 1290–1340; yn ôl G 115, canai tua dechrau'r 14g.; yn ôl CLG² 92 yr oedd yn ei flodau 1320–40.

⁴⁶ GGD^T cerdd 13.

⁴⁷ GDG³ 428 (III.17–20).

yn ddiau, o gyfanswm ei gynnyrch. Awdlau ac englynion ydynt i gyd, ac y mae'r ffaith hon, ynghyd â'i flynyddoedd, yn ei osod gyda Gogynfeirdd diweddar megis Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli. Gellir dosbarthu'r cerddi fel a ganlyn: un awdl foliant (cerdd 1), un awdl farwnad (cerdd 2), dwy gyfres o englynion serch (cerddi 3 a 6), un awdl serch (cerdd 4), un awdl rieingerdd (cerdd 5), un awdl i'r Drindod (cerdd 7), un awdl i Dduw (cerdd 8), dwy gyfres o englynion i Fair (cerddi 9 a 10), a dwy gerdd ddychan ar ffurf englynion (cerddi 11 a 12). Cynhwysant gyfanswm o 985 o linellau.

Confensiynol yw moliant Ieuan Llwyd (cerdd 1) a nodweddiadol o'r dull traddodiadol o foli noddwr am ei ddewrder a'i haelioni. Felly hefyd y farwnad i Fadog Fychan (cerdd 2), ond yma y mae'r teimlad o golled a hiraeth am gyfaill annwyl yn angerddol ac yn codi'r gerdd ymhell uwchlaw'r cyffredin.

Ynglŷn â'r cerddi i ferched (cerddi 3–6), gwelir ynddynt rai elfennau newydd y tynnodd Dr Huw Meirion Edwards sylw atynt.⁴⁸ Ffurfiol a thraddodiadol eu naws yw'r cerddi i ferch o Fôn (cerdd 3) ac i ferch Gruffudd ab Iorwerth (yr un ferch efallai) (cerdd 4), ond er hynny y mae'r geiriau *meddw gofion* (3.5) yn amlygu thema nas ceir yng nghanu Beirdd y Tywysogion. Dylid crybwyll hefyd y llinell *Soredig eiddig elwig alaf* (4.12) gan nad amhosibl mai at Eiddig, y cymeriad stoc, y cyfeirir yma.⁴⁹ Y lleiaf traddodiadol o'r tair cerdd yw'r un i Awd (cerdd 6). Yma drachefn ceir thema meddwodod serch (6.17) ond hefyd themâu hud y ferch yn achosi poen yn ogystal â phleser (6.18, 50), cwyn y bardd nad oes yn aros iddo ond marw oni chaiff ei ddymuniad ganddi (6.27, 39–40), ac—yn fwyaf trawiadol—thema'r oed mewn coedlan (6.43–4) a ddatblygwyd yng Nghymru gan Ddafydd ap Gwilym yn bennaf. Y mae pwyntiau megis y rhain yn gwrthgyferbynnu'n drawiadol â cheidwadaeth gyffredinol Casnodyn ac yn dangos ei fod nid yn unig yn fardd mwy amlochrog nag y tybiwyd, ond hefyd yn rhagflaenydd pwysig i ganu serch a natur y Cywyddwyr. Ei gymar agosaf o'r cyfnod hwn yn hyn o beth yw Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, rhagflaenydd pennaf Dafydd ap Gwilym.⁵⁰ Yn wir, os bu Casnodyn a Dafydd ap Gwilym yn astudio cerdd dafod ym Môn (gw. uchod), yna, o gofio mai un o Fôn neu Arfon oedd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, y mae'n debygol nad ffasiwn cyffredinol yn unig sy'n gyfrifol am debygrwydd rhai elfennau yng ngwaith y tri yn ogymaint â chroes-ddylanwadu uniongyrchol a phenodol.

Rhieingerdd ffurfiol yn nhraddodiad Beirdd y Tywysogion yw awdl Casnodyn i Wenlliant gwraig Syr Gruffudd Llwyd (cerdd 5) a cheir digon o

⁴⁸ Gw. y sylwadau rhagarweiniol i'r cerddi.

⁴⁹ Gw. ymhellach 4.9–12n.

⁵⁰ Gw. T. Gwynn Jones, *Rhieingerddi'r Gogynfeirdd* (Dinbych, 1915) 31–40, ac am ei waith gw. GGD 3–42.

enghreiffiau eraill o'r confensiwn a welir ynnddi o anfon march yn llatai yng ngwaith y beirdd hynny (e.e. Hywel ab Owain Gwynedd, Cynddelw Brydydd Mawr a Phrydydd y Moch) a beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg (e.e. Hywel ab Einion Llygliw).⁵¹

Perthyn cryn hynodrwydd ac amrywiaeth i gerddi crefyddol Casnodyn (cerddi 7–10). Diau mai ei awdl i'r Drindod (cerdd 7) yw'r bennaf ohonynt a'r orau o'i holl gerddi. Nid oes ychwaith gysail union iddi yng ngherddi Beirdd y Tywysogion gan nad oes yr un o'u cerddi crefyddol hwy wedi ei chanu ar ei hyd i'r Drindod, er bod i'w cael gerddi symlach ar y thema hon. Gwahanol iawn yw'r awdl i Dduw (cerdd 8), math o farwysgafn sydd hefyd yn ddidactig a chlerigol ei naws a heb fod mor artistig â chynhyrchion eraill y bardd, efallai oherwydd ei gogwydd mwy ymarferol. Yn y ddwy gerdd hyn gellir gweld tebygrwydd digamsyniol i awdlau crefyddol Gruffudd ab yr Ynad Coch o ran themâu, ymagweddu pregethwrol, a disgrifio llachar. Diwinyddol iawn eu hosgo yw'r ddwy gerdd i Fair (cerddi 9 a 10). Yn wahanol hefyd i arfer Beirdd y Tywysogion, trinnir Mair ar ei phen ei hun, nid ynghyd â Duw neu Iesu, ac yn hyn o beth dyma rai o'r enghreiffiau cynharaf o'u bath.

Yng ngherddi dychan Casnodyn (cerddi 11 a 12) gwelir gwedd wahanol iawn ar weithgaredd y beirdd. Nodweddiadol yw ei ddychan i Drahaearn Brydydd Mawr o'r cerddi dychan a gadwyd yn Llyfr Coch Hergest. Cerddi ymosodol a didrugaredd yw'r rhain, yn llawn coegni a hiwmor bras, ond sydd hefyd yn waith meistri a oedd yn eu cyfansoddi mor greffus ac effeithiol â'u cerddi mawl ac yn amlwg yn etifeddion traddodiad hynafol o ddychanu na welodd y sawl a gopiodd waith Beirdd y Tywysogion yn dda gadw dim ohono. Pur anarferol yw'r englyn i Nest gan ei fod yn cynnwys geiriau unsill yn unig a chynghanedd sain chweodl ym mhob llinell.

O ran arddull ei gerddi yn gyffredinol, etifeddodd Casnodyn gelfyddyd draddodiadol y Gogynfeirdd yn ei chyflawnder ac yr oedd yn feistr arni. Y mae hefyd yn fwy cymhleth ei ymadrodd na hwy, ac fel y sylwodd G.J. Williams a'r Athro Ceri Lewis, anos eu deall yw ei awdlau na'r rhai a genid gynt gan feirdd Gwynedd a Phowys cyn i Gymru golli ei hannibyniaeth.⁵² Y syndod, er hynny, yw nad yw cymhlethdod y gystrawen byth yn andwyo'r synnwyr y cais y bardd ei gyfleu, a pherir i ddyn ryfeddu droeon fel y bydd y darnau mwyaf astrus ar yr olwg gyntaf yn graddol ildio ystyr i reswm a threfn cynlluniwr tra disgybledig a manwl a wyddai i'r dim at beth yr oedd yn anelu. Cymhlethdod, cywreinrwydd, cywasgedd, cadernid—dyna rai o brif nodweddiad arddull Casnodyn.

Yn fwy penodol, gellir gweld hefyd rai datblygiadau arwyddocaol. Un o'r amlycaf o'r rhain yw'r defnydd caeth iawn a wna'r bardd o'r gynghanedd (gw. isod). Rhaid crybwyll hefyd y ffordd y bydd Casnodyn yn fynych yn

⁵¹ Gw. y sylwadau rhagarweiniol i'r gerdd.

⁵² TLIM 8, GCH iii, 485.

ystwytho'i awdlau trwy ddefnydd cwbl amlwg o oferu, sef peri i linell lifo i'r llinell nesaf (gw., e.e., yr awdl i'r Drindod (cerdd 7)). Y mae hyn yn beth cymharol brin yn awdlau Beirdd y Tywysogion, a rhaid ei ystyried yn ddatblygiad yn arddull yr awdl.

Yn yr awdlau defnyddir yr wyth mesur canlynol: cyhydedd fer, cyhydedd naw ban, cyhydedd hir, englyn unodl union, englyn proest, gwawdodyn, rhupunt, toddaid; ac yn y cerddi hir amlganiad, sef marwnad Madog Fychan (cerdd 2) a'r awdl i'r Drindod (cerdd 7), gwelir defnyddio saith o'r mesurau hyn yn y gyntaf a phob un ohonynt yn yr ail. Yn y cyfresi englynion defnyddir mesurau'r englyn unodl union a'r englyn proest naill ai ar eu pennau eu hunain (cerddi 3, 10, 12) neu'n gymysg â'i gilydd (6, 9, 11). Gydag ambell eithriad, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd.

Gwna Casnodyn ddefnydd helaeth o'r gynghanedd, ac ychydig iawn o linellau a geir ganddo sydd hebddi. Fel y Gogynfeirdd yn gyffredinol, y gynghanedd sain a welir amlaf o lawer yn ei waith, gyda'r gwahaniaeth iddo ei datblygu ymhellach nag unrhyw fardd arall na chynt na chwedyn fel addurn cywrain. Gwelir hyn yn bennaf oll yn y defnydd mynych a wna o gynghanedd sain deirodl a'i hoffter o gynnwys dwy gynghanedd sain o fewn yr un llinell, gyda'r ail naill ai'n ymddolennu â'r gyntaf neu ynteu'n ei dilyn yn annibynnol. Ceir ganddo weithiau hefyd gynganeddion sain sy'n cynnwys pedair neu bum odl, ac yn ei englyn proest dychan i Nest (cerdd 12) cynnwys pob llinell gynghanedd sain chweod! Yn wir, oherwydd nodwedddion fel y rhain, nid gormod yw dweud mai Casnodyn yw'r mwyaf digamsyniol ei arddull o holl feirdd y cyfnod. Anodd gwybod a oes unrhyw arwyddocâd pellach na chwaeth bersonol a gogwydd athrylith arbennig Casnodyn i'r 'eithafrwydd' hwn, ond efallai y dylid nodi bod bardd arall cynharach a hanai (yn ôl ei enw) o dde-ddwyrain Cymru, sef Gwynfardd Brycheiniog, hefyd yn hoff iawn o batrymau geiriol cymhleth ac odlau mewdol,⁵³ er nad yw, yn unol â'i oes, hanner mor gaeth â Chasnodyn. Pethau eraill sy'n nodweddu cynghanedd Casnodyn yw cytseinedd cyfoethog, a defnydd mwy mynych na'r cyffredin o'r math o gynghanedd sain lle y mae'r cytseinedd ym nhraean olaf y llinell yn rhagflaenu'r acen.⁵⁴ Ceir ganddo hefyd gyfran ddigon sylweddol o gynganeddion sain pengoll. Prin yw'r cynganeddion cytsain, er y gallai Casnodyn eu plethu'n gampus, a phrinnach fyth yw'r gynghanedd braidd gyffwrdd; y gynghanedd sain oedd yn mynd â'i fryd. Er mor gymhleth, a chelfyddydol ar un olwg, yw cynganeddu Casnodyn, nid gorchest wag a dibwrpas mohono, ac yr oedd, fel y sylwodd D. Myrddin Lloyd a'r Athro Ceri Lewis, yn gam pendant ymlaen yn hanes mydryddiaeth y Gymraeg tuag at ddatblygu cyfundrefn y gynghanedd gaeth.⁵⁵

⁵³ Gw. GLIF 420-1.

⁵⁴ Cyfetyb hyn i'r gynghanedd sain drosgl lle y gwneir yr un peth, eithr yn ail draean y ll.

⁵⁵ CLC² 92, GCH iii, 483-4. Cf. hefyd E. Rolant, 'Arddull Canu Moliand y Bedwaredd

Ymysg addurniadau eraill Casnodyn ceir ei ddefnydd o gymeriad, megis cymeriad llythrennol a chynganeddol a chyrch-gymeriad.⁵⁶ Y mae ei bwyslais, megis Gwilym Ddu o Arfon, ar gymeriad llythrennol yn gyfryw nes peri i Mr Eurys Rolant ddweud, ‘Ac ystyried mor fanwl-gaeth yw’r grefft, syndod yw canfod fod fframwaith cystrawennol y llinellau heb ei dreisio’n ormodol.’⁵⁷ Gwelir defnydd Casnodyn o gymeriad ar ei fwyaf gorchestol ym marwnad Madog Fychan (cerdd 2) a’r awdl i’r Drindod (cerdd 7).

Ceir peth anghysonder yn null Casnodyn o gysylltu diwedd un rhan o gerdd (megis caniad) â dechrau’r rhan nesaf. Fel rheol fe gysylltir y rhannau â chyrch-gymeriad, ond ceir eithriadau. Pan newidir o un mesur i fesur yr englyn (neu *vice versa*) nis cysylltir gan amlaf, megis ym moliant Ieuan Llwyd (cerdd 1.32–3) lle y newidir o fesur gwawdodyn i englyn unodl union; ym marwnad Madog Fychan (cerdd 2.80–1) lle y newidir o englyn proest i fesur cyhydedd fer; ac yn yr awdl i’r Drindod (7.93–4, 191–2) lle y newidir o fesur gwawdodyn i englyn unodl union ac o doddaid i englyn proest. (Gthg. 8.80–1 lle y newidir o fesur gwawdodyn i englyn unodl union gan eu cysylltu â chyrch-gymeriad.) Ond ceir yr un diffyg cysylltiad weithiau hefyd rhwng englyn ac englyn, megis yn y dychan i Drahaearn (cerdd 11) sy’n englynion i gyd: yn llinellau 56–7 lle y newidir o englyn unodl union i englyn proest; yn llinellau 125–8, englyn proest sy’n sefyll yn annibynnol rhwng dau ganiad o englynion unodl union; a llinellau 140–1, 152–3, 164–5, llinellau sydd i gyd yn pontio rhwng englynion unodl union. Yn achos moliant Ieuan Llwyd (cerdd 1) a marwnad Madog Fychan (cerdd 2) gall y ffaith nad oes cyswllt ffurfiol rhwng y rhannau awgrymu bod pob rhan yn gerdd annibynnol; ond yn wyneb yr undod mewdol cryf a welir yn yr awdl i’r Drindod (cerdd 7) a’r dychan i Drahaearn (cerdd 11), ymddengys hyn yn llai tebygol.

Ceir arwyddion diamheuol fod Casnodyn yn ŵr darllengar. Sylwer yn neilltuol ar ei gyfeiriadau at y ceffylau Cain Galed a Bugethal (5.7, 9) sydd, fe ymddengys, wedi eu codi o destunau ysgrifenedig yn hytrach nag o draddodiad llafar.⁵⁸ Awgrymog hefyd yw’r wybodaeth ddiwinyddol a amlygir yn y cerddi crefyddol (cerddi 7–10). Un o’r pethau trawiadol am feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyffredinol rhagor eu rhagflaenwyr, Beirdd y Tywysogion, yw’r wybodaeth a ddangosant o gynnwys testunau ysgrifenedig⁵⁹—ni raid ond meddwl am y doreth o gyfeiriadau a geir yng

Ganrif ar Ddeg’, YB x (1977), 147.

⁵⁶ Ar ddefnydd Beirdd y Tywysogion o gymeriad, gw. Ann Parry Owen, ‘Cymeriad yn awdlau Beirdd y Tywysogion—rhai sylwadau’, *Dwned*, iv (1998), 33–58.

⁵⁷ Gw. E. Rolant, *art.cit.* 146.

⁵⁸ Gw. 5.7n, 9n.

⁵⁹ Cf. hefyd a ddywed D.M. Lloyd am naws wahanol y berthynas rhwng bardd a’i noddwr yn y 14g. yn sgil y Goncwest, ‘The Later Gogynfeirdd’ yn GWL ii, 38, ‘Part of this new intimacy is the increasing evidence of patrons sharing a technical understanding of the verse, and of

ngwaith Gruffudd ap Maredudd sy'n adlewyrchu gwybodaeth o 'ddysg lenyddol, y rhamantau, yr Ysgrythur a llawer maes arall'⁶⁰—a Chasnodyn efallai yw'r cynharaf yn y llinach hon.

Efallai y bu tuedd i feddwl am Gasnodyn fel math o arbrofwr academiaidd a wthiodd gelfyddyd Beirdd y Tywysogion i eithafion pedantig a diawen, neu ynteu fel fawr mwy na dolen gyswllt hanesyddol rhwng canu Beirdd y Tywysogion a chanu serch y Cywyddwyr. Eithr cam ag arbenigrwydd ei athrylith yw synio felly. Y mae crefft y bardd hwn yn ddigon o ryfeddod yn ôl unrhyw safon, ac yn ei awdl i'r Drindod, yn anad unman, cyfyd ei awen i wastad gwir fawredd.

Y llawysgrifau

Ceir y testun cynharaf o gerdd gan Gasnodyn, sef ei foliant i Wenlliant (cerdd 5), yn ail haen Llawysgrif Hendregadredd (chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg), a bron y cwbl o'i waith sydd wedi goroesi yn Llyfr Coch Hergest (c. 1400), colofnau 1233–48 yn llaw Hywel Fychan. Ceir dryll o'i awdl i'r Drindod (cerdd 7) yn Pen 20 (c. 1330) a dau ddryll ohoni yn Llist 3 (c. 1400–25) a LIGC 9048E (c. 1525–50). Ceir testunau diweddarach o'i gerddi mewn amryw o lawysgrifau o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen sy'n tarddu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o Lyfr Coch Hergest. Yr unig gerdd gan Gasnodyn nas ceir yn y Llyfr Coch yw ei ddychan i Nest (cerdd 12) y ceir y testun cynharaf ohono yn llawysgrif LIGC 3057D (c. 1558–63).

Dilysrwydd y cerddi

Fel y gwelwyd, ceir y rhan helaethaf o lawer o waith Casnodyn, sef cerddi 1–10, ynghyd yn Llyfr Coch Hergest, colofnau 1233–48. Rhagflaenir y gerdd gyntaf yno (cerdd 7) gan y geiriau *Casnodyn ae kant*, ac yn ddiweddarach, yng ngholofn 1247, ceir rhwng diwedd yr wythfed gerdd (cerdd 1 isod) a dechrau'r nawfed (cerdd 10 isod) yr enw *casnodyn*; eithr ni raid amau nad gwaith yr un awdur yw'r cwbl, a hynny ar gyfrif eu harddull

their being readers and collectors of the manuals of the art of poetry that began to appear.' Cf. Sypyn Cyfeiliog am lys Dafydd ap Cadwaladr, GSCyf 1.21–4, *A darllain llyfrau llin breninllwythau, / A chanmol achau ucheledig, / A gwybod teirraith a chlaws y gyfraith / A growndwal pob iaith weithrededig*; Llywelyn Goch ap Meurig Hen am ddau o'i noddwyr, Rhydderch ab Ieuan Llwyd a Llywelyn Fychan, GLIG 4.49, *Deallu barddlyfr da a ellynt, ac am ei neiaint yn Nannau, ib. 8.43–6, Fy swydd gyda'm harghlywddi, / Hyn fydd, a'u câr hen wyf i: / Darllain cyfraith, rugliaith raid, / Sifil, i'm cyfneseifiaid*. Yn ddiweddarach dywed Gruffudd Llwyd, IGE² 120 (XL.1–2), *Mawr yw rhadau llyfrau llên, / Rho Duw, nid llai rhad awen*. Gw. hefyd Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues', CMCS xxxiii (Summer 1997), 81–92, lle y dadleuir bod Dafydd ap Gwilym yn gyfarwydd â thestun Llyfr Gwyn Rhydderch.

⁶⁰ CLC² 290.

ddigamsyniol. Trafodir isod rai cerddi y mae lle i amau eu dilysrwydd.

Fy rhwy geir Conwy, gorau caniad—mydr

GSRh cerdd 7, sef awdl i Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy. Fe'i priodolir mewn pum llawysgrif i Risieryd ac mewn dwy, sef LIGC 1984B a BL Add 14970, i Gasnodyn.⁶¹ Eithr y mae'r ddwy lawysgrif hyn yn tarddu'n anuniongyrchol o Lyfr Coch Hergest lle y priodolir y gerdd heb unrhyw amheuaeth i Risieryd. At hynny, gwahanol yw arddull y gerdd i eiddo Casnodyn.

Graso wrthyd pryd pren sarn—cest gallawr (cerdd 11)

Ceir hon yng ngholofnau 1343–6 o Lyfr Coch Hergest yn llaw Hywel Fychan. Gan ei bod yn un o gyfres o gerddi dychan sy'n ymestyn o golofn 1337 hyd golofn 1348 a bod y rheini, heblaw'r un gyntaf, a briodolir i Hywel Ystorm, yn ddienw, yr oedd D. Myrddin Lloyd o'r farn mai Hywel Ystorm oedd awdur y cwbl⁶² ac fe'i dilynwyd yn hyn gan G.J. Williams⁶³ a'r Athro Ceri Lewis.⁶⁴ Eithr da y dangosodd N.R. Costigan (Bosco), gan ddilyn awgrym gan John Davies, Mallwyd, mai ateb ydyw gan Gasnodyn i ymosodiad gan Drahaearn Brydydd Mawr yn y gerdd sy'n ei blaenori.⁶⁵

Dylid sôn hefyd am yr englyn canlynol a geir yn nhestun Peniarth 20 o Ramadegau'r Penceirddiaid yn enghraifft o'r bai 'lleddf a thalgron':

Trahayarn, trwyn hen gathwrð,
Pennvreith gnuach, bwbach beird,
Ys amlach am dy semlgerd
O'r byt a chwyt noc a chward.⁶⁶

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y cwpled olaf yn adlais sicr o ddychan Trahaearn i Gasnodyn, ... *ys amlach ... / ... / A chwÿd am dy gerdd chwidach / Nog a chwardd, wrthlys bardd bach*,⁶⁷ ac awgrymwyd y gallai englyn y Gramadeg fod wedi bod yn rhan o ddychan Casnodyn i Drahaearn yn wreiddiol.⁶⁸ Os felly, gallai fod wedi sefyll yn annibynnol rhwng dau o'r chwe chaniad olaf o englynion unodl union yno, megis y saif yr englyn proest yn llinellau 125–8 rhwng yr ail a'r trydydd o'r caniadau hynny. Y mae'n berffaith bosibl, er hynny, mai cynnyrch rhyw fardd arall yw'r englyn.⁶⁹

⁶¹ GSRh 75.

⁶² ByCy 62–3.

⁶³ TLIM 6n16.

⁶⁴ GCH iii, 481.

⁶⁵ GGDT 94–5.

⁶⁶ GP 53 (llau. 14–17). Gw. hefyd GEO 174 (Atod Dd 40).

⁶⁷ GGDT 13.69–72.

⁶⁸ *Ib.* 95.

⁶⁹ Ni cheir enghraifft o'r bai 'lleddf a thalgron' yng ngwaith Casnodyn ac nid yw'r math o fai y disgwyliid ei weld yng ngwaith bardd mor fanwl greffitus. Tybed, er hynny, a 'addaswyd' rhai cerddi cywir eu mydryddiaeth ar gyfer y Gramadeg er mwyn rhoi enghraifft o fai

Pan wnêl Duw dangos Ei faran

GCBM ii, 272, sef llinellau 207–11, 213–14 o ‘Canu i Dduw’ Cynddelw Brydydd Mawr. Fe’i cambriodolir i Gasnodyn mewn dwy lawysgrif, sef LIGC 13232E, 14, a LIGC 6077C, 191.

Rhych gnych wrych wlych, nych drych drist (cerdd 12)

Ceir hon mewn 11 o lawysgrifau. Y mae’n ddiennw mewn pedair ohonynt, mewn pump fe’i priodolir i Gasnodyn, ac mewn dwy i Ddafydd ap Gwilym. Cwbl gydnaws ydyw ag arddull Casnodyn ar ei mwyaf eithafol a gwahanol iawn i unrhyw beth a gadwyd gan Ddafydd ap Gwilym.⁷⁰

neilltuol?

⁷⁰ Sylwyd hefyd ar y gwallau canlynol yn MCF ynglŷn â’r tair cerdd a nodir yno yng ngwaith Casnodyn sy’n dechrau â’r geiriau *Dyro Dad yn rhad anrhydedd; Moyl, goyl gul fydd arlwy beirl; a Tra fuam yn saith trisaith*. Cyfetyb y gyntaf i linell o farwnad Casnodyn i Fadog Fychan isod (2.159); yn llawysgrif Bangor (Mos) 3, 58^r, yn unig y ceir yr ail ac yno fe’i priodolir i Fadog Both Drosogl; a cherdd gan Beryf ap Cedifor yw’r olaf, sef GLIF cerdd 19.

1

Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron

- Llyw yw'r mau gorau, gŵraidd ganllaw,
 Llyw llawer haelder, ffêr ffurfeiddaw,
 4 Llewychfab arab i euraw—clod prudd
 Ieuan fab Gruffudd, fudd feddyliaw.
- Llyw ni'm gwnaid telaid (talm ddamunaw)
 Llewenydd â neb tra fewn hebddaw;
 8 Llyw a'm dysgawdd hawdd hoddiaw—gerdd berffaith,
 Nid fal sothachiaith beirdd caith Caeaw.
- Llwydd ragores les, luosydd fraw,
 Llwyddgar rhag ieuainc, fainc fyddinaw,
 12 Llym gyngor rhagor yn rhwygaw—darpar,
 Lladdgar rhag esgar, derw rhag ysgaw.
- Llathrwawr, nid oedd fawr eirf gawr guriaw,
 Llwrw bri daioni diau anaw,
 16 Llwybr digaeth i iarllaeth, i eurllaw—Ieuan
 Llwyd, llydan darian, llid i duriaw.
- Llwybrodd ehawnffysg addysg iddaw,
 Llwypra o'i nerthfraich i Frynaich fraw;
 20 Llid erddyrrn cedyrn Ceidiaw—neu Wrlais,
 Llais llwgr ddinastrais, Lloegr ddinistraw.
- Llam Lloegrfflam llwgrfflwch, dryswch dreisiaw,
 Llud durawdr huawdr Huail fab Caw,
 24 Llwybrdwrf môr-gynnwrf, mawr gannaw—nerthwir,
 Llanw enwir am dir yn ymdaraw.
- Lliaws gystlwn hwn, honnoid gyfiaw,
 Llawchblas a gafas, addas eiddiaw,
 28 Llys hysbys dyfrys, difraw—wasanaeth,
 Llwyrr uchelwriaeth, llary ffraeth ffrwythiaw.

- Llafuriwn, canwn, ceiniaid heb daw,
 Llafarfeirdd digeirdd, dygwn ataw,
 Lle mae mawr cur llawr cer llaw—llys haelnaf,
 32 Llan, ran rymusaf, goethaf, Geithaw.
- Cyrchais ŵr clydwr, clod tafarn—a thref,
 A thrafod medd o garn;
 Câr caeth ei fâr, coeth ei farn,
 36 Cadfalch, cadr eurwalch cadarn.
- Cadarn ei eirfarn a'i erfid—a'i hawl,
 Hael Ieuan ail Pebid;
 Ceidwad rhag brad, brwydr ymlid,
 40 Cad ôl, ail Eidiol ei lid.
- Llid rhwysg tân chweifrwysg, chwefrin—yw Ieuan,
 Llafn garthan, gyrthiwr trin;
 Llydanrhydd y gweinydd gwin,
 44 Llad llew beiddiad, llyw byddin.
- Byddinled, hirged, hwyrghardd—yw Ieuan,
 Baedd rhwyddgan, rhuddgoch dardd,
 Boddlyw croyw heilhoyw haelhardd,
 48 Buddlawn o'i fawrddawn i fardd.
- Bardd wyf i i'm rhi rhif llwyr—ar fawrgerdd,
 Arf aergad estrawnffwyr;
 Bardd yntau, gorau a'i gŵyr,
 52 Beirdd loywnerdd bwrdd oleugwyr.
- Gŵyr Ieuan ddifan, ddefawd ffrwst—brwysgdreth,
 Gŵr breisgdraul medd a mwst,
 Gerddfrait Geraint a Gorwst,
 56 Gwrddfri eurgosti o'r gwst.
- Gwst gynnal heildal haelder—gŵyr Ieuan,
 Gâr ieuanc, Nudd arfer;
 Gosgeiddig nur eilig nêr,
 60 Gosgordd loywffordd Eliffer.
- Ercwlff gryf, Selyf sail wledig,—Rhydderch,
 Rhwydd Ieuan wayw ysig,
 Arf aer ddirarf urddedig,

- 64 Ar glod y tri glud y trig.
 Trigiwys mawl hoywddwys mal haeddu—o iawn
 I Ieuan gan feirddlu;
 Addysg glod ffysg heb fysg fu,
 68 Udd cardd gorchudd, cerdd gyrchu.

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 312^r B—BL Add 15001, 195^r C—Card 4.140, 583
 D—J 111, 1246 E—LIGC 1984B, 71^v F—LIGC 4973B, 280^v G—Llst
 147, 127 H—Pen 118, 162

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

1 Kly6. 54 am 6st. 55 erdreint. 68 gorchur.

Moliant Ieuan Llwyd o Lyn Aeron

- [Yr] arglwydd gorau yw'r eiddof, noddwr gwrol,
 Arglwydd [o] haelioni mawr, yn perffeithio'n wych,
 Disgleirfab llawen i wobrwyo moliant doeth
 4 Ieuan fab Gruffudd, [un sy'n] bwriadu budd.
- Arglwydd rhagorol na wneid imi (dymuno cyfran [o'i amser yr
 ydwyf])
 Lawenydd â neb tra byddwn hebdo;
 Arglwydd a ddysgodd imi gerdd berffaith hyfryd [ei] hyrwyddo
 [clod],
 8 Nid fel iaith sothachlyd beirdd iselradd Caeo.
- Rhagorodd ei fudd yn rhwydd, [y] dychryn[wr] lluosydd,
 Llwyddiannus yw o flaen gwŷr ifainc, byddino [ger] bainc,
 Ystyriaeth graff [sydd ganddo ar] flaen brwydr wrth ddryllio
 cynllun [ei elyn],
 12 Angheuol yw o flaen gelyn, [fel] derwen o flaen ysgawen.
- Arglwydd disglair, nid oedd fawr [o] nychu [ar ei] arfau brwydr,
 Oherwydd bri [ei] haelioni sicr yw rhodd,
 Dull hael [sydd] i iarllaeth, i law goeth Ieuan
 16 Llwyd, [â] tharian lydan, [un llawn] llid i drywanu.
- Parodd [ei] ddewrder fedr iddo,
 Pair â'i fraich nerthol ddychryn i wŷr Brynaich;
 Ffymigrwydd arddyrnau cadarn Ceidiaw neu Wrlais [sydd
 ganddo],
 20 Llais [un sy'n cyflawni] trais dinistr[iol ar] ddinas[oedd], [gan]
 ddifa Saeson.
- [Un â'i] gyrch [yn] ymosodiad dinistriol yn rhoi Saeson ar dân,
 [gan] orthrymu [mewn] anhrefn,
 Ffymigrwydd cleddyf dur medrus Huail fab Caw,
 Twrw ar ei hynt [megis] cynnwrf y môr, ewyndon fawr sicr ei
 nerth,
 24 Llanw creulon yn taro yn erbyn tir.
- Perthynas lliaws yw hwn, cynhorthwy hysbys,
 Cafodd blas sy'n noddfa, eiddo addas,
 Llys adnabyddus prysur, diogel [ei] wasanaeth,
 28 Uchelwriaeth lwyr, [a honno'n] hael [ac yn] prysur gynyddu.

Ymdrechwn, canwn, yn ddatgeiniaid heb daw,
 Feirdd llafar di-warth, cyrchwn ato,
 Lle y mae[’r] damsang [ar] lawr yn fawr gerllaw llys arglwydd
 hael,
 32 [Yn] Llangeitho, [yr] ardal fwyaf grymus, fwyaf gwych.

Cyrchais at ŵr [sy’n] noddfa, [testun] clod [mewn] tafarn a thref,
 Ac arllwys medd o gorn yfed;
 Cyfaill llym ei ddigofaint, disglair ei farn,
 36 Grymus mewn brwydr, hardd wron gwych [a] chadarn.

Cadarn yw ei farn ar air a’i ymladd a’i hawl,
 Ieuan bonheddig tebyg i Bebid,
 Amddiffynnwr rhag brad, yn ymlid [mewn] brwydr,
 40 [Cynhaliwr] ôl-fyddin, tebyg i [eiddo] Eidiol yw ei ffyrnigrwydd.

[A’i] ffyrnigrwydd [fel] nerth tân chwyrn, gwyllt yw Ieuan,
 Cleddyf [mewn] amddiffynfa, ymosodwr [yn y] gad;
 Yn eang-hael y rhanna win,
 44 Diod gwron [a] rhyfelwr, arweinydd byddin.

Eang ei lu, gwastadol hael ei roddion, araf i [ddangos] dirmyg yw
 Ieuan,
 Baedd rhugl ei gân, tasg[iwr gwaed] rhuddgoch,
 Arglwydd ewyllysgar croyw [ei barabl a] llawen ei wledd [a]
 bonheddig a hardd,
 48 Llawn cyfoeth a’i rodd helaeth i fardd.

Bardd ydwyf i’m harglwydd [o] anrhydedd llwyr trwy [fy]
 marddoniaeth ddisglair,
 [Un ag] arf mewn ymladdfa sy’n gyrru arswyd ar estron;
 Bardd yw yntau, [y] gorau a ŵyr hynny,
 52 [Un a chanddo] gerdd ddisglair beirdd [wrth] gannwyll gŵyr olau
 [ar] fwrdd.

Gŵyr Ieuan di-fai, [un â] dull parodrwydd [wrth rannu] tâl medd,
 Gŵr [sy’n] rhoi’n hael fedd a gwin newydd,
 [Un ag] anrhydedd ar gerdd [megis] Geraint a Gorwst,
 56 Ddarparu gwych clodfawr oherwydd yr ymdrech [a wna].

Gŵyr Ieuan [sut i] gynnal gwledd-wobr [lawn] haelioni [drwy]
 ymdrech,
 Cyfaill [i’r] ifanc, o natur Nudd;

60 Lluniaidd bennaeth [o] arglwydd gwyh,
 [Un a chanddo] osgorodd Eliffer ddisglair ei dull.

64 Herawl cryf, arglwydd o gadernid Selyf, Rhydderch,
 [Dyna] yw Ieuan hael, briw ei waywffon,
 Arf ddiysgog mewn cad [ac] wedi ei urddo,
 Ar glod y tri dyfal-ddewr [hyn] yr erys.

Arhosodd mawl hardd a dwys i Ieuan megis [i un sydd wedi]
 haeddu [hynny]
 Trwy iawn gan lu o feirdd;
 Clod buan [am] ddysg heb amhurdeb a fu,
 68 Arglwydd [y byddai] gorchudd [drosto yn] warth, [un sy'n]
 ymofyn cerdd.

Marwnad Madog Fychan o Dir Iarll

- Bu oerchweddl ceneddl, cwyn enwawg—tristlon
 Camp Meirchon, cwmp marchawg;
 4 Budd a fydd rhygudd yrhawg,
 Bid heb fyd bod heb Fadawg.
- Madawg oedd marchawg meirch sarrug—ceinfwr,
 Ail Cynfawr Cadgaddug;
 8 Dywan garw Duw a'n gorug
 Dan sygn poen dygn pan 'i dug.
- Dug Duw Dad bost cad, cydfaeth heirdd—eirchiaid,
 O'i orchudd neb ni chweirdd;
 12 Dygai yng ngwylau digeirdd
 Digawn o'i fawrddawn i feirdd.
- Beirdd wisgog Fadog, o fod awr—hebod
 I hybarch Grist, ni'm dawr;
 16 Derw herw, hiraeth maeth meithfawr:
 Bwrw naf o lwrw nef i lawr.
- I lawr Fadog fawr, fur erfid—Trystan,
 Band trawstaer orddinid?
 20 Trallod Eingl giwdod, gedid
 Drylliau aelodau o'i lid.
- Lliidiog oedd Fadog, Fedwyr naws—garthan,
 Gyrthiai Eingl yng nghyngaws;
 24 Lled cadoedd, lluoedd lliaws,
 Llid Cedig, llaw dreisig, Draws.
- Traws Fadog arfog, eirf sathrsarn—aerllu
 Tra fu tu to haearn;
 28 Trech oedd ei nerth trwy ferth farn
 (Trwch adwy) no'r Tri Chadarn.

- Cadarnblaid eirchiaid, ei orchudd—bu trist,
 Trawsteg Fadog eilNudd;
 32 Cadrwalch llu, cyd fu ei fudd,
 Ced yn eurlled a'n arlludd.
- Arlludd yw i'n budd bedd angladd—Madog,
 Modur beirdd a neuadd;
 36 Arllwysiad cywlad, rad radd,
 Eurlliw helm, aerllew hyladd.
- Hyladd beirdd digeirdd (wyf digu—o'i ddwyn,
 Hylwydd cwyn) cyn darfu;
 40 Hawl fawl filwr, tŵr torflu,
 Hylaw rodd, hail fodd, hael fu.
- *****
- 44 Draig llu; can darfu dewrfur,
 Drud Fadog arfog arfer,
 Drwg na ddoeth mawr anlloeth môr,
 Dreiglfrys drais dyrys, dros dir.
- 48 Dirrwyn cwyn ceiniaid lwyrwys,
 Deryw llyw, lliwed aros,
 Dur brwydrdorf, cerddgorf carddgas,
 Dewr nen, ben perchen parchus.
- 52 Parchus Fadog, deifnog doeth,
 Pob cynhalawdr, llywawdr llwyth
 Pibl, i'r llawr, llu mawr, lle maith,
 Pawb gynt ydd ethynt, ydd aeth.
- 56 Aeth Madog enwog anwad,
 Uthr gyflam, Fargam fawrged,
 Athro brwydr gyffro, dro drud,
 Uthr esgudruthr ysgwydrod.
- 60 Rhodog Fadog, fodur lleng,
 Rhad winllad wenllys eang,
 Rhuddgledd cyn derwfedd durfyng,
 Rhaidd yrth aerflaidd Arthurflwng.

- 64 Blwng Eingl estwng, eiddwng oedd,
Blodau campau, cwypm Lloegrfaedd,
Blawdd galar am gân gŵraidd,
Blingur eirf, blaengar arwydd.
- 68 Arwydd ffwyr, Naflwyr nefLwyr,
A r'wnaethost, hoeddldost heddiw,
Aer gatraws, i'r lliaws llaw:
O'r Goetref dan llef dwyn llew.
- 72 Llew glew gloywLan gan Gynwyd,
Llafur naf Awdur nef aed,
Llaw anaw i'r llew enaid,
Llewenydd Llyw bedydd boed.
- 76 Boed llawen Rhên, Rhwyf Llên llwyr,
Wrth Fadog bur, enwog bair;
Byd am walch gryd bryd brwydrdaer
(Bai tes, nid eres) neud oer!
- 80 Oer fu i gyrdd fyrdd, feirddroeg,
Aros dydd cedrydd cadrwyg,
Arf, aergledd arwedd eurwaeg,
Eryr tud murddrud, mawrddraig.
- 84 Amdrist wyf, gorffwyf i'm gorffen
Ymdro call cyn dirwall derwen,
Ymdreigl brad yw brysiad bresen,
Ymdrawd ffawd, ni phaid fy ngohen
Am ddilyn am ddwylan Hafren,
Am ddwyn cwyn cynhebig Macsen,
Am fedru canu cyn angen
- 88 Am Fadog ddeifnog, ddofn awen,
Am nur pur fal pair Ceridfen,
Am nêr pêr parodedd Pasgen,
Am nerth berth a barthai ychen
- 92 A meirch eirch i archwyr aren.
O'm cyfoeth amcanddoeth y'm cên,
A'm cyfaillt (cefais wrth angen),
A'm cofawdr a'm llywiawdr llawen,
- 96 A'm cyfarch a'm parch a'm perchen
A'm cyfedd ym maenfedd y mên
Y'm cyfyd tristid, trais diwen;
A'm corf torf, tyrfaoedd ohen,

- 100 A'm câr rhag esgar, rhag asgen;
Am gystal eirf arial Urien,
Am gost Gustennin fab Elen,
Am fydroedd mesuroedd Moesen,
- 104 Am feidrol cymunol cymen,
Am fodur fal mab mur Morien,
Am Fadog bryd bodog Bradwen.
Aml nawdd Duw y Dewin addien,
- 108 Amledd hedd o rinwedd ei Rên.

- Rhên llên a llyfrau, golau galar,
Rhwyf glwyf o glefyd llew bryd brwydrbar,
Rhwym didwym doddi rhi rhwng daear,
112 Rhebydd rhydd rhwyddwin a dewin dâr.
Rhedaidd cawdd i'm cof dof difeflgar,
Rhwy a mwy y mae no gwae, nid gwâr;
Rhydranc ieuanc iawn dawn diwatwar,
- 116 Rhaid ryw, llyw lleas oesgas esgar,
Rhwyd ysgwyd esgud, drud wrth drydar,
Rhod arfod arfau, cenau cynnar,
Rhediad cad cedyrn, dëyrn diwar,
- 120 Rhyd byd, bwyd fyrddoedd, wisgoedd wasgar,
Rhyngwellyng wallaw, heiliaw hwyliar,
Rhif llif llu fu ail Ulcesar,
Rhaidd arfaidd arfod wedy clod Clâr;
- 124 Rheded fed feidrol dreigiol Drugar.

- | | | |
|------------------------------|---------------------|-----------------------|
| Trugar gwâr gwir, | triced hoed hir, | cwynir ceinudd, |
| Trist Grist, groywFrawd, | ymwyr wynnawd | am wawr eilNudd, |
| Trymgoll oll yw | tramgwydd ein llyw, | trymgawdd ni'n lludd, |
| 128 Treulffraeth maeth medd, | trais ei ddewredd, | traws ei ddeurudd, |
| Trosedd Merfyn, | treisiwr gelyn, | gerddbryn gwrddbrudd. |
| Trysor oedd ym | tra fu walch llym | gwiwrym gwaywrudd, |
| Trosedd ei glo, | manar amdo, | mynor ymdudd. |
| 132 Traethu o'i ddwyn, | trethau addfwyn, | hirgwyn hwyrgudd, |
| Traethawd enwog | tratheg Fadog | a fedr Gruffudd. |
| Trarhaid ymi, | rhag tra phrofi | costi cystudd, |
| Trwy arwyrain | treiddio Owain, | ddihain dduhudd; |
| 136 Trwy hir bara, | a Dduw, donia | ei ddadannudd. |

- Dadanhuddawl hawl yw hywledd—Owain,
Didwyllgain ysgain, ddwyrain ddewredd,
Deddfau traws genau, trais gwnedd—gyrchiad,
140 Dawn y tad roddiad, borthiad berthedd.

- Duw, gwae fi ddwyn rhi, ddyn rhyfedd—ei fyw,
 Wyf am rwyf rhwyddlyw nid byw, neud bedd.
 Dyfr wledig, eilig ei wyledd—am ged,
 144 Dyfed, ei drosed oedd edrysedd;
 Difai fal Gwalchmai gweilch maeth medd—a gwin,
 Diflin sarff byddin, yn nhrin rhiedd;
 Dewr dyfiant Rholant, rhuwldaeredd—plymlwyd,
 148 Diarswyd ysgwyd, eurglwyd aergledd;
 Dur ail Arthur mur mawr adwedd—ar lu,
 Darfu lle rhyfu llawer rheufedd.
 Dôr iôr dygyfor, da gyfedd—enwog,
 152 Deifnog oedd Fadog, fynog fonedd,
 Dâr doethion ganon Gwynedd—a Dehau,
 Y llwgr a giglau Lloegr a Gogledd.
 Dir yw ar gywir argywedd—derwin,
 156 Daearawl ysgrîn dewin diwedd.
 Dyrys dwyn o'i lys, lwys gyfannedd—llyn,
 Dyrawr gwawr gwaywryn cyn can mlynedd.
 Dyro, Dad, yn rhad enrhydedd—difraw,
 160 Deurudd udd iddaw, a hoddiaw hedd.
- Heddwledd senedd y saint, hael ddiwael fael faint,
 Hy dyly fry fraint gyd â'r Fraham.
 Hynwyf glwyf wyf oll, hon, galon don doll,
 164 Hwyr y gŵyr, ffwyr ffoll, getgoll gytgam.
 Hiraeth ffraeth maeth mau, hud drud lud lidiau,
 Herw ferw chwerw chweddla, goddau gwddam.
 Hwrdd dwrdd bwrdd beirddwin hoedwysg frwysg rwysg rin,
 168 Herwisg nêr ffêr ffin goflin gyflam.
- Hyddur nur, cur caer, hyddysg ffysg mysg maer,
 Hoed addoed oed aer ffloyw ddiglaer fflam.
 Hyder ffêr fêr fu, haid graid blaid blygu,
 172 Hed baeled lled llu, trychu tracham.
 Hyddir wir hir haf heb ateb neb naf,
 Hynt gwynt, cynt cwynaf mab mwynaf mam.
 Aeth ffraeth faeth fangor, uthrlawn dawn iawn iôr,
 176 Oeth ddoeth goeth gyngor, mawrgoeth Margam.
 Afar bâr câr caw, wyf rhwyf glwyf gludaw,
 Ef nef dref dreiddia, rhoddlaw rhwyddlam.

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 293^r B—BL Add 15001, 191^r C—J 111, 1240 D—LIGC 1984B, 66^r E—LIGC 4973B, 275^r F—Llst 147, 119 G—Pen 118, 155

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

18 bannodau taer. 32 yn neurlet. 40 *yn dilyn ceir y geiriau* Bu orchwedyl. & cetera *yn cyrchu dechrau'r caniad*. 44 dreigylbrys. 50 llŷa6dyr. 80 *yn dilyn ceir* Dreic llu kann daruu. & cetera *yn cyrchu dechrau'r caniad*. 98 Nym. 106 voda6c. 119 di uar. 122 vueil. 127 Trumgoll; nyn llud. 143 Dyfyrwledic; amget. 146 ynrin. 147 rôldaered. 168 her wisgner. 176 ma6rgoeth. 178 *yn dilyn ceir y geiriau* Amdrist 6yf. ut prius *yn cyrchu ll. 81*.

Marwnad Madog Fychan o Dir Iarll

Newyddion trist [i] genedl, [achlysur] galar hynod [a] llawn
tristwch am

[Un o] ratoriaeth Meirchion, fu marwolaeth marchog;

Cuddiedig fydd llesâd am yn hir,

4 [Bod] heb fywyd fydd bod heb Fadog.

Yr oedd Madog yn farchog meirch garw [a] gwych o gryf,

Yn debyg i Gynfor Gadgaddug;

Parodd Duw ddamwain ddybryd inni

8 Dan arwydd o boen lem pan ddug ef ymaith.

Dug Duw Dad ymaith amddiffynnwr [mewn] brwydr, cyfaill
deisyfwyr hardd,

Nid oes neb yn llawenychu oherwydd ei gladdu;

Dygai ar ddyddiau gŵyl gwych

12 Ddigonedd o'i rodd helaeth i feirdd.

Fadog [a oedd] yn arwisgo beirdd, o fod awr hebot

[A thithau] gyda Christ gwiwbarch, nid yw o bwys gennyf;

Bu anrheithiad, y mae hiraeth [am] gynhaliaeth feithfawr:

16 Fwrw arglwydd i lawr o gyferiad nef.

I lawr [y bwriwyd] Madog mawr, amddiffynnwr [a chanddo] ruthr
Trystan,

Onid un nerthol a thaer a dreisiwyd?

Trallod[wr] cenedl [y] Saeson, gadewid

20 Drylliau o aelodau ar ôl oherwydd ei ffyrnigrwydd.

Ffyrnig oedd Madog, [â] thymwr Bedwyr [ar] faes brwydr,
Hyrddiai Saeson mewn ymladdfa;

[Un â] helaethrwydd byddinau, lluoedd lluosog,

24 [Un â] ffyrnigrwydd Cedig Draws, treisgar [ei] law.

Madog grymus [ac] arfog, [a'i] arfau [yn creu] sarn sathru [i] lu
mewn brwydr

Tra bu [byw un a'i] ystlys [fel] amddiffynfa haearn;

Trech oedd ei nerth trwy [ei] farn wych

28 (Garw fyddai[r] bwlch [a wnâi]) nag [eiddo]'r Tri Chadarn.

Amddiffynnwr cadarn deisyfwyr, trist fu ei gladdu,
 Madog nerthol a theg cyffelyb i Nudd;
 32 Gwron cryf llu, cyhyd [ag eiddo Nudd] fu ei fudd,
 Rhodd [sy']n euraid a bair dramgwydd inni.

Rhwyrstr i'n lles yw claddedigaeth Madog [mewn] bedd,
 Pennaeth beirdd a neuadd;
 36 Erlidiwr gelyn, hael [ei] ystad,
 O liw aur yw [ei] helm, [y] llew brwydr dinistriol.

Un dinistriol [y] beirdd di-fai (trist ydwyf o'i ddwyn ymaith,
 Ebrwydd yw [fy] ngalar) cyn iddo farw;
 40 Milwr [a'i] foliant yn hawl [ganddo], amddiffynnwr llu lluosog,
 Hael [ei] rodd, [un yr oedd rhoi] gwledd [yn] arfer [ganddo], bu'n
 fonheddig.

Draig llu; gan fod amddiffynnwr dewr wedi marw,
 Madog gwrol arfog [ei] arfer,
 44 Y mae'n drueni na ddaeth llanw mawr [y] môr
 Dros dir, trais gwyllt cyflym ei dreigl.

Arteithiol yw galar tyrfa beirdd,
 Trengodd arweinydd, dioddef [y mae'r] dorf,
 Un duriol [mewn] byddin, cynheiliad cân [y mae'n] gas ganddo
 warthrudd,
 48 Arglwydd gwrol, prif reolwr anrhydeddus.

Madog anrhydeddus, un sylweddol [a] doeth,
 [A] phob cynheiliad, llywiawdr llwyth
 [O'r] Beibl, i'r bedd, lle maith, yn llu mawr
 52 Yr aeth pawb [ohonynt] gynt, [ac] yr aeth [yntau, Madog].

Aeth Madog gwir enwog,
 [I] Fargam fawr ei rhodd [trwy] ffawd sydyn ofnadwy,
 56 Meistr [yng] nghyffro brwydr [ac iddo] hynt feiddgar,
 [A] rhuthr chwim [ac] ofnadwy [â'i] darian gron.

Madog â tharian gron, arweinydd lleng,
 [Ei] lys displair [ac] eang [yn llawn] rhodd hael o win,
 Gwaedlyd ei gledd cyn [ei ddodi mewn] arch dderw galed,
 60 Gwaywffon gadarn blaidd brwydr yn lliidiog fel Arthur.

Yn darostwng Saeson yn ffyrnig, diwyro oedd,
 Y pennaf [ei] gampau, cwymp[wr] gwron Saeson;
 Aruthr yw galar am gyfaill gwrol,
 64 Tost eu hergyd oedd [ei] arfau, gormesol [ei] arwydd.

Arwydd braw, [O] Lyw nef sy'n Arglwydd cyflawn,
 Yr wyt wedi ei wneud, poenus i fywyd yw heddiw,
 Un nerthol ei fyddin [mewn] brwydr, trist yw i'r lliaws:
 68 Dwyn gwron o'r Goetref dan wylofain.

Llew dewr Llangynwyd loyw [a] disglair,
 Eled [yr] arglwydd brwydr [at] Greawdwr nef,
 Boed cyfoeth nawdd i'r [un ag] ysbryd llew,
 72 Llawenydd Pennaeth gwledydd Cred.

Boed [yr] Arglwydd, Pennaeth perfffaith Llên,
 Yn llawen wrth Fadog rhinweddol, [yr] arweinydd enwog;
 Y mae'r byd oherwydd gwron [mewn] brwydr [â] bryd dygn
 mewn ymladd
 76 (Pe bai'n wresog, ni fyddai'n peri syndod) yn oer!

Trist fu i fyrdd [o] finteioedd, [achlysur] dolef beirdd,
 Ddioddef dydd [marwolaeth] gŵr hael [a fu]'n rhwygo mewn
 brwydr,
 [Un megis] arf, cleddyf brwydr yn gwisgo bwcl aur,
 80 Eryr pobl ddewr wrth y mur, draig fawr.

Trist iawn wyf, boed imi gael yn niwedd [fy oes]
 Yrfa ddoeth cyn malltod arch dderw,
 Hynt twyll yw[r] byd diflanedig,
 84 Bu cyrch ffawd, [ond] ni phaid fy awydd
 Am ganlyn [fy nghreffft] ar ddwy lan [Afon] Hafren,
 Am draethu galar [am un] tebyg i Facsen,
 Am fedru canu cyn yr eneiniad olaf
 88 Am Fadog sylweddol, [ag] awen ddwys,
 Am arglwydd di-fai [a hynny ag ysbrydoliaeth] pair Ceridfen,
 Am bennaeth dymunol [a chanddo] barodrwydd Pasgen,
 Am [un o] nerth gwych a rannai ychen
 92 A meirch brych i ddeisyfwyr huawdl.
 Poenaf oherwydd fy nghyfoeth a fwriadwyd yn ddoeth,
 A'm cyfaill (cefaïs [haelioni ganddo] yn ôl fy angen),
 A'm cofiwr a'm meistr llawen,
 96 A gwrthrych fy nghais a'm hanrhydedd a'm harglwydd

- A'm cyd-wleddwr [sydd] mewn bedd maen lle
 Y cyfyd tristwch imi, gorthrwm aflawen;
 A'm cynhaliwr llu, cyrchfan tyrfaoedd,
 100 A'm cyfaill rhag gelyn, rhag niwed;
 Oherwydd un cystal [â] ffyrnigrwydd arfau Urien,
 Oherwydd [un â] darpariaeth Custennin mab Elen,
 Oherwydd [un a chanddo] fesurau deddfau Moses,
 104 Oherwydd un nerthol doeth sydd wedi derbyn Cymun,
 Oherwydd pennaeth fel mab [yr] amddiffynnydd Morien,
 Oherwydd Madog a chanddo fwriad diwyro Bradwen.
 [Boed iddo] aml drugaredd Duw y Dewin tirion,
 108 Amllder tangnefedd trwy rinwedd ei Arglwydd.
- [O] Arglwydd dysg a llyfrau, hygryw yw[’r] galar,
 Archoll [marwolaeth] arglwydd [sydd ynof] oherwydd salwch [ar
 ôl] llew [a chanddo] natur gwayw mewn brwydr,
 Caethiwed trist fu rhoi arglwydd mewn pridd,
 112 Pennaeth rhadlon [a] hael ei win a gŵr doeth [o] flaenor brwydr.
 Llifodd gofid i'm cof [am un] mwyn [a] chywir,
 Gormod ydyw a mwy nag ing, nid tyner [mohono];
 Marwolaeth enbyd un ieuanc [a] chyfiawn [a chanddo] rodd ddi-
 fai,
 116 [Un o] natur ymladd[gar], arweinydd lladdfa bythol ei gasineb [at]
 elyn,
 Rhwydwr tarian parod, beiddgar mewn brwydr,
 Tarian [rhag] ergyd arfau, milwr ifanc buan,
 Rhedwr [ym] myddin gwŷr cadarn, brenin ffyrnig,
 120 Cyfle [i lond] byd [o bobl], [darparwr] byrddau bwyd, un yn
 rhannu dillad,
 [Yn] gweini [gan] rannu ymysg pobl, yn darparu gwledd,
 [Un â] nifer rhyferthwy o lu fu[’r] un tebyg i Iwl Cesar,
 [Yr un â] gwaywffon [ag] ergyd feiddgar wedi [darfod] clod Clâr;
 124 Boed iddo brysuero hyd at Wŵr trugarog rhagorol [a] nerthol.
- [O’r] Gŵr trugarog tirion [a] ffyddlon, arhosed hiraeth [yn] hir,
 galerir am arglwydd gwych,
 Crist trist, Brawd pur, y mae wylofain yn gogwyddo [ataf] am
 arglwydd cyffelyb i Nudd,
 Colled drom yn gyfan gwbl yw cwmp ein harweinydd, nid yw
 tristwch mawr yn ein lluddias,
 128 Un parod ei ddarpariaeth [o] faeth medd, gorthrech yw ei
 ddewrder, cadarn ei anrhydedd,
 [Un o] ratoriaeth Merfyn, gorthrechwr gelyn, yn ennill clod [ac
 yn] gadarnddoeth.

- Un annwyl ydoedd imi tra bu'n arwr llym [a] godidog ei rym [a]
 gwaedlyd ei waywffon,
 Camwri yw[r] bollt [arno], manbridd yw [ei] amdo, marmor yw
 [ei] orchudd.
- 132 Datgan oherwydd ei ddwyn ymaith, [yr un] hyfryd ei roddion, alar
 maith [ac] amlwg am hir amser,
 Cerdd gofiadwy [i] Fadog tra theg a reola Gruffudd.
 Rheidiol iawn ydyw imi, rhag [iddo] ddioddef yn ormodol [ei]
 dreulio [gan] gystudd,
- 136 Ymweld ag Owain gyda moliant, [i roi] cysur di-boen [iddo];
 Trwy [gyfnod] hir [ei] barhad, O Dduw, bendithia ei feddiant!
- Meddiannol ei hawl yw Owain hael ei wledd,
 Un diamheuol wych [a] graslon, [o] ddewredd buddugol,
 [Â] dulliau milwr ifanc cadarn, trais ymosodwr [mewn] brwydr,
 140 [Ac iddo] rodd y tad roddwr, darparwr cyfoeth.
 [O] Dduw, gwae fi ddwyn ymaith frenin, dyn rhyfeddol ei fywyd,
 Nid byw ydwyf oherwydd arglwydd [a oedd yn] arweinydd hael,
 mewn bedd y mae.
- 144 [Un fel] Dyfr arglwydd Dyfed, gwych ei radlonrwydd am rodd,
 Gwychder oedd maint ei nerth;
 Di-fai megis Gwalchmai oedd [ei] ymladdwyr [a fagwyd ar]
 gynhaliaeth o fedd a gwin,
 Arwr egniol byddin, [un o] fawrhydi mewn brwydr;
 [Un o] gynnydd gwrol Rholant, [â] dygnwch disgyblaeth [mewn]
 brwydr,
- 148 Eofn [ei] darian, amddiffynnwr gwych [yn cario] cleddyf ymladd;
 Un durol cyffelyb i Arthur yw amddiffynnwr [yn dwyn] dinistr
 mawr ar lu,
 Darfu cyfoeth lawer lle y mae wedi bod.
- 152 [Yn] noddwr [ac] arglwydd llu, cyfaill da [ac] enwog,
 Sylweddol oedd Madog, [un o] fonedd urddasol,
 Safon [i] Wynedd a[r] Deheubarth [a oedd yn] arweinydd galluog
 gwŷr doeth,
 Clywodd Lloegr a'r Alban am y dinistr [a wnaeth].
- 156 Enbyd ar un union yw difrod arch,
 Blwch daearol yw diwedd [y] campwr.
 Blin yw cipio o'i lys, hardd drigfan diod,
 Angerdd arglwydd ffyrnig ei waywffon cyn [iddo fod yn]
 ganmlwydd.
- 160 Dyro iddo, [O] Dad, barch diogel yn fendith,
 Anrhydedd pennaeth, a thangnefedd dedwydd.

- [Yng] ngwledd lawn heddwch cynulliad y saint, [a] mesur [o]
fendith hael [ac] ardderchog,
Yn hyderus y teilynga uchod ragorfraint gydag Abraham.
Briw anesmwyth ydwyf i gyd, o'r braidd y gŵyr hon, [sef fy]
nghalon ddrylliedig [a] gwanedig,
- 164 Gellwair [am] goll rhoddion, [oherwydd] dychryn syfrdan.
Hiraeth brathog [am] gynhaliaeth yw[ʹr] eiddof, atyniad
cystuddiau gafaelgar [a] chwyrn,
Cynnwrf ergyd newyddion chwerw, gwyddom eu harwyddocâd.
Natur ysblander bywiog gofidus a fydd [i] chwa dadwrdd [wrth]
ford [ac arni] win i feirdd,
- 168 Ffawd annisgwyl flin fu [marw] arglwydd [â] gwisg ysbail [a]
chadarn [wrth] ffin.
Arglwydd cadarn fel dur, cystudd[iwr] caer, [un a ddangosai]
fuander hyfedr [wrth gyflawni] gwaith cymysg goruchwyliwr,
[Achos] niwed gofid[us] adeg brwydr oedd [yr un megis] fflam
ddisglair [a] gwresog.
Dewrder [un â] gwaywffon rymus a fu, lliaws yn darostwng
mintai [mewn] brwydr,
- 172 [Gan symud] led llu [fel] coeten hedegog, yn dryllio camwri
mawr.
Enbyd wir yw haf maith heb [glywed] ateb [gan] unrhyw
arglwydd,
[Megis] hynt [y] gwynt, galaraf yn gynt am fab mwynaf mam.
Aeth [yr un o] gynhaliaeth barod [i] loc cysegredig mawrwyth
Margam, arglwydd cywir aruthrol lawn o fendith,
- 176 [Un] rhyfeddol o ddoeth [ei] gyngor gwych.
Tristwch gofid[us] sydd [am] gyfaill cyson, yr wyf yn dioddef
clwyf [am] arglwydd,
[Ac] yntau'n cyrraedd cartref nef, [yr un] hael ei law [a] hwylus ei
ffawd.

Moliant merch o Fôn

- Cyn bwyf gwas gruddlas greddf anfon—bwyllfraw
 O bellfro Gaerllion,
 Dawn obaith cyfiaith cofion,
 4 Dyn gŵyl, yw f'annwyl o Fôn.
- Gwae biau maddau meddw gofion—dogngudd
 (Mau dyngawdd ofalon)
 8 Gwangain riain rudd ffion:
 Gweddus hael feinus haul Fôn.
- Teg ddygaf, yr haf, ar hoyw fanon—dwf
 Y dyfu ym gofion
 (Tawl hawl hylwyth ofalon)
 12 Taith hyder maith hoywdir Môn.
- Gwelais pan gerddais gorddwfr afon—rin,
 Gŵyl riain ddianfon,
 16 Gwir ddiseml a gwâr ddison,
 Gwawr hirddydd mawr harddedd Môn.
- Rhuddhyddnaid i'm rhaid, bu rhôn—fy nigio,
 Câr hwylio cur hoelion,
 20 Rhan ofal, lan rhin afon,
 Rhwyl y mae meinwyl ym Môn.
- Mygr wenyg a blyg am oblygion—main
 Mên y maen', fy nghofion,
 24 Myrdd yn wyrdd o Iwerddon,
 Môr a wylch mwyn amgylch Môn.
- Gwiw a waith (gwawdfaith gwŷd fanon—riain
 I riau a doethion)
 28 Gwir foli, gwŷr ofalon,
 Gwâr dremwalch, gwawr fwynfalch Fôn.

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 315^v B—BL Add 15001, 193^r C—J 111, 1243 D—LIGC 1984B, 78^v E—LIGC 4973B, 278^r F—Llst 147, 124 G—Pen 118, 160

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

17 Rud hydneit.

Moliant merch o Fôn

- Er fy mod yn ddyn ifanc gwelw ei rudd o fro bell Caerllion
 [Sy'n teimlo] dychryn meddwl [wrth] anfon [cyfarchion],
 Gobaith [fy] nawn [farddol yn] iaith meddyliau [serchog],
 4 Merch swil, yw fy anwylyd o Fôn.
- Gwae[’r sawl] piau ymwrthod â meddyliau [serchog] meddw
 cuddiedig eu maint
 (Eiddof i yw gofalon blin eu gofid)
 [Am] riain fwyn a hardd [a’i] grudd [o liw’r] ffion:
 8 Un brydweddol [a] bonheddig [a] lluniaidd yw haul Môn.
- Yn yr haf, dygaf yn deg at [un o] bryd rhiain brydferth
 Y daeth imi feddyliau [serchog amdani]
 ((Bydd hyn yn] ddiwedd erlyniad gofalon beichus)
 12 Daith [lawn] hyder mawr [i] fro brydferth Môn.
- Gwelais pan rodiais dir y tu draw i afon hudoliaeth,
 Rhiain wylaidd fonheddig,
 Gwir urddasol a gwâr dawel,
 16 [Un megis] gwawr diwrnod hir maith [o haf] harddwch Môn.
- Naid hydd coch yn fy nghaledi, [fel] gwayw y bu[’r] gofidio [a
 gefais]),
 Y mae hi’n hoffi peri gloes [sy’n gwanu fel] hoelion,
 [Achos] cyfran o ofid, [ar] lan afon [y] swyn,
 20 [Mewn] llys y mae[’r un] fain a gwylaidd ym Môn.
- Tonnau gwych sy’n torri o gwmpas haenau o feini
 Lle y maent, fy meddyliau [serchog],
 Myrdd [ohonynt] yn wyrdd o Iwerddon,
 24 Y mae’r môr yn golchi glannau tirion Môn.
- Gwaith gwiw (pell ei chlod yw[’r] arglwyddes nwyf [o]
 bendefiges
 I frenhinoedd a doethion)
 Yw gwir foli, [un sy’n achos] pryderon [i] wŷr,
 28 Un wâr [a] hebogaidd ei threm, arglwyddes fwyn a balch Môn.

Moliant merch Gruffudd ab Iorwerth

- 4 Synhwyrus Dëus, Duw goruchaf,
 Sywedydd, Dofydd, difai Haelnaf;
Sef wyf yt, fy Rhwyf, rhwydd araf—geiniad,
 Sef wyd Ucheldad mad Modrydaf.
- 8 Synhwyr a yn dda ddoniau ataf,
 Swydd ddidlawd o wawd a weinyddaf;
Syrchawdd Glyw fy rhyw rhwng Taf—a Thawy,
 Serchir uwch Conwy fal y canaf.
- 12 Saethfarch ceindrafnidr dinidr danaf,
 Seri eglurfryn cyn cynhaef;
Syw dymawr, rhwyfwawr, yr haf—arbennig,
 Soredig eiddig elwig alaf.
- 16 Am ferch Ruffudd, udd addysg Mordaf,
 Fab Iorwerth cannerth cynnwrf gorsaf,
Neud addwyf o glwyf yn glaf,—hwyr dianc
 (Naid addoed gyfranc) o'r transc trymaf.
- 20 Poen Ryawd ddefawd (od addefaf)
 Pan fu berygl wan am gan gunaf,
Peunydd, pwyll Berthydd, pell borthaf—er hon
 Penyd bron ddilon ddelw yd nychaf.
- 24 Hepgor goror môr Môn ni allaf,
 Hybarch dyno fro fraint taleithnaf;
Hyboen yw fy hoen, ni hunaf—o blaid
 Hebogaid lygaid euraid araf.
- 28 Heb fy chwaer wenglaer mor wyf wanglaf,
 Hebu gne nid lle, nid llwrw arnaf;
Hybwyll glod didwyll dodaf—ar esbyd
 Heb wÿd i loer bryd a lwyr brydaf.

32 Hir y ceinmygir cerdd wir waesaf
 Herwydd dawn digawn fal y'i dygaf;
 Hwyrdaw o'i heiliaw (hwylaf—ar feirddfyrrd)
 I fyrrd dros geinwyrdd a drawsganaf.

36 Hoen eglurfan can cynneiry gaeaf,
 Hi a wnaeth Celi (ac nyw celaf,
 Hylwydd wawd ddefawd) yn ddifeiaf—bun,
 Hoywlun hael eiddun, o hil Addaf.

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 316^r B—BL Add 15001, 193^v C—J 111, 1244 D—
 LIGC 1984B, 79^r E—LIGC 4973B, 278^v F—Llst 147, 125 G—Pen 118,
 160

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

11 dymawr *gyda'r arwydd trwynoli ar yr y yn ymestyn peth dros yr m.* 14 Joroerth. 18 gynaf.

Moliant merch Gruffudd ab Iorwerth

- Doeth yw Duw, [y] Duw goruchaf,
 Gŵr doeth, Pennaeth, Arglwydd haelionus [a] di-fai;
 Yr hyn wyf i Ti , fy Arglwydd, yw bardd tirion [a] rhugl,
 4 Yr hyn wyt Tithau yw Tad aruchel daionus [a] Llywodraethwr.
- Ystyria yn dda [y] doniau [a anfon] ataf,
 Cyflawnaeth wasanaeth dibrin ar gân;
 Ymserchodd [yr] Arglwydd yn fy math rhwng [afonydd] Taf a
 Thawe,
 8 Ymserchir yn [yr ardal] uwch Conwy wrth imi ganu.
- March [chwim fel] saeth [a] gyfnewid[iwyd yn] dda [ac sy'n]
 gyflym [sydd] o danaf,
 [Megis] sarn yw bryn amlwg cyn y cynhaeaf [iddo];
 Tymor gwyh, arglwydd balch, yw'r haf dihafal,
 12 Sarrug yw[r] gŵr cenfigennus [a chanddo] gyfoeth gwerthfawr.
- Oherwydd merch Gruffudd, arglwydd o ddysg [megis eiddo]
 Mordaf,
 Fab Iorwerth [sy'n] gymorth [mewn] terfysg [adeg] gwrthsafiad,
 Euthum o achos [fy] nghlwyf yn glaf, [ac] anodd yw dianc
 16 (Ffawd [sy'n] ymosodiad niweid[iol yw hyn]) rhag y farwolaeth
 dristaf.
- Poen o natur [eiddo] Rhyawd (os addefaf [hynny])
 Pan fu [ef] yn enbydus wan oherwydd [un] brydferth [a] mwyaf
 ardderchog,
 Yr wyf beunydd, [O] Roddwr doethineb, yn dioddef yn faith er
 mwyn hon
 20 Benyd calon aflawen wrth imi nychu.
- Ni allaf ymgadw rhag goror môr Môn,
 Bro maestir anrhydeddus [ac iddi] ragorfaint pennaeth talaith;
 Dirdynol yw fy angerdd, nid wyf yn cysgu oherwydd
 24 [Edrychiad] llygaid hebogaid [ac] ardderchog [a] mwyn.
- Heb fy nghariadferch ddisgleirwen mor wan a chlaf ydwyf,
 Nid oes achlysur [i] draethu am [ei] gwedd, nid oes fodd gennyf;
 Rhoddaf fawl synhwyrol [a] diffuant i westeion
 28 Heb [wneud] cam ag [un o] bryd[ferthwch y] lloer a glodforaf yn
 llwyr.

Yn hir yr anrhydeddir cerdd [o] wir warant
Oherwydd dawn helaeth fel yr wyf yn ei harfer;
[Cerdd] faith ei sôn oherwydd [dull] ei llunio (cyrchaf at fyrddau
beirdd)

32 A ganaf yn rymus i fyrdd yn gyfnewid am ddillad harddwyrdd.

[A hithau o] liw disglair o olau gwynder eira cyntaf [y] gaeaf,
Y hi a greodd Duw (ac ni chuddiaf hyn,
[Trwy] ddull [fy] nghân lwyddiannus) yn berffeithiaf merch,
[Yr un] brydferth ei phryd [a] bonheddig [a] hawddgar, o hil
Adda.

Moliant Gwenlliant wraig Gruffudd Llwyd o Dregarnedd

- 4 Aelaw iawn yw dawn gne gwawn gwawtchweg,
 Eiliw ewynfriw gwynwiw gwaneg;
 Eiliais erod glod, gloywdeg—Wenlliant,
 Eiliawdd dy foliant fil ychwaneg.
- 8 Elw dreiddiaw ni'm daw traw trwy gysteg,
 Elfydd twf clodrydd, dydd na deuddeg;
 Ail Cain Galed, rhed i'm rheidreg—obaith,
 Oleufaith hoywdaith, fraint ehedeg.
- 12 Ariall Bugethal, brif ddial breg,
 Arwydd dieilwydd, rhwydd fo'n rhedeg
 Ar hoywlun ludd hun, hoen gwenfaneg—maen
 Pan wisg ton frwysgflaen gaen am garreg.
- 16 Eirgall ddiwall ball, bwyll ogyweg,
 Eirioed yn ddioed hoed gyhydreg;
 Aur mâl a'm bu dâl, dolur atreg—fraw,
 Yn llaw, wyl andaw, gan ail Indeg.
- 20 Eirian ferch Gynan, cynran canrheg,
 Eryr tymyr gwŷr, gweilch di-Saesneg;
 Arglwydd Culwydd rhwydd, Rhwyf Gröeg—rhuglchwyrn,
 Ellwng o hëyrn y tëyrn teg.
- 24 Mau geiriau golau gŵyl Wyndodeg,
 Mi a wŷr moli hil rhi, hawl rheg;
 Meithir y cludir clod, anrheg—tafawd,
 Mor ddidlawd fy ngawd yng Ngwenhwyseg.
- 28 Mynnawd molawd gnawd, gne ton waeddeg,
 Manar wisg lasar afar ofeg;
 Myrdd a'i mawl heb dawl, dileddf chweg—lwysiaith,
 Mawrddawn ganhymddaith oestaith osteg.

Main firain riain gain Gymræg,
 Mwyn forwyn hunddwyn, hoenddygn gysteg;
 32 Mynych lle llewych lliw ehöeg—ym
 Man y'm dug gwelwlym ar rym redeg.

Myned er gweled (gwenned gwaneg!)
 Manon, wawr Arfon, gofion gofeg,
 36 Maengaer glod belltaer, glud ballteg,—mygrfan,
 Meingan ddyn eurwan, i Ddinorweg.

Ffynonellau

A—BL Add 14869 [= RWM 19], 190^v B—BL Add 14970, 289^r C—J 111,
 1239 D—LIGC 6680B, 129^v E—Llst 31, 389 F—Llst 147, 118 G—Pen
 118, 154 H—Pen 119, 453

Ymranna'r rhain yn ddau ddosbarth, ABIEFGH ac CD. Dichon fod testunau
 llawysgrifau C a D yn tarddu o'r un gynsail. Codwyd C i ABIEFGH un ai'n
 uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Codwyd amrywiadau o CD yn unig.
 (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Amrywiadau

1 C g6a6t hwec. 3 C hynot. 4 C y molyant mil. 5 C Eilw *gyda dotiau*
[?dileu] o dan il. 8 C breint. 11 C lu; g6ynuanec. 12 D u6rysgulan. 19 C
 gul6yd. 24 D mawr; C ygg6a6t. 25 C Mena6t, D menhawt. 26 C glassar; wa
 ouec. 27 D lwyseith. 28 D mawr dawn; C oestec. 31 D myneich. 32 C men;
 C g6ennl6 lymm.

Teitl

D Awdyl a gant kassnodyn y wenlliant M. gyan.

Moliant Gwenlliant wraig Gruffudd Llwyd o Dregarnedd

- Cyfoethog iawn yw dawn [yr un o] liw gwawn melys ei glod,
 Unlliw â briw[ion] ewyn ton wendeg;
 Prydais glod erot, Wenlliant ddisglair a hardd,
 4 Prydodd mil yn ychwaneg dy foliant.
- Ni ddaw ymweld budd[iol] imi draw,
 [Ym] mro[’r un o] bryd enwog, [am un] dydd na deuddeg trwy
 dristwch;
 Hefelydd Cain Galed, rhed er mwyn fy ngobaith [am] rodd
 angenrheidiol,
 8 [Ar] daith sionc [a] gloyw a maith, [gan] ehedeg yn freiniol.
- [Ac yntau â] nwyf Bugethal, mawr ddial[ydd] twyll,
 [Fel] arwydd [oddi wrth un sydd] heb wneud oed [â chariad],
 bydded yn ddi-rwystr wrth redeg
 At un brydferth [sy’n] rhwystr[o] cwsg [imi], [un o] liw ton wen
 [yn llifo dros] faen
 12 Pan wisg ton flaenwyllt orchudd am garreg.
- [Yr un] ddoeth dy air [mewn] mantell wych, yn llestair [i]
 synnwyr,
 Heb oediad erioed yw gwrthdaro [fy] hiraeth [amdanat],
 Bu aur gloyw [yn] dâl imi, [achlysur] braw gofid[us a] phoen[us],
 16 Yn [fy] llaw, [un sy’n] gwrando’n dirion [ydyw], gan un debyg i
 Indeg.
- Merch ddisglair Cynan, arweinydd [sy’n rhoi] cant o anrhegion,
 Eryr bro rhyfelwyr, gwroniaid di-Saesneg;
 Arglwydd Bennaeth hael, Meistr parod a chwim gwlad Groeg,
 20 Gollwng o[’i] heyrn yr arglwydd glandeg.
- Eiddof i yw geiriau disglair Gwyndodeg lednais,
 Cyfarwydd wyf â moli hil arglwydd, [gyda] hawl [ar] rodd;
 Yn hirfaith y cludir clod, anrheg [y] tafod,
 24 Mor ddibrin yw fy nghân yn y Wenhwyseg.
- Bydd [yr un o] liw ton groch yn dymuno mawl mynych,
 [Megis] tir glas [ac iddo] orchudd [o] bridd mân yw serch [llawn]
 tristwch;
 Bydd myrdd yn ei moli heb ball, [mewn] iaith gain felys [a]
 dianwadal,
 28 Cyfaill mawr ei dawn [i] brydyddiaeth taith oes.

Rhiain firain [a] main [a] chain ei Chymraeg,
 Morwyn fwyn sy'n dwyn cwsg [oddi arnaf], cystudd [sy'n achos]
 cyfyngiad ar lawenydd;
 Yn fynych lle y mae [hi]'n llewyrchu [y daw] i mi [wisgoedd] lliw
 porffor

32 Lle y'm cludodd march llwydwyn a buan gan redeg yn rymus.

Mynd er mwyn gweld (mor ddisglair yw[r un fel] ton!)
 Brenhines, arglwyddes Arfon, [testun] meddyliau serch[og],
 [Sy'n trigo mewn] caer o feini [sy'n] bell a thaer ei henwogrwydd,
 un hardd ei mantell [a chanddi] gyfoeth, un wych ac urddasol,
 36 Merch wen a main [a] thlws ac eiddil, [—sef mynd] i Ddinorwig.

Moliant Awd

- 4 Wythgant annerch, ddawnserch ddyn,
 Uthr frys, fro henRhys frenin,
 A aeth dros Nedd wedd wahan
 A Thawy ar lywy lun.
- 8 Llywiawdd llwyddrangawdd lludd rin
 Llathrfain gain, gan fan falchlun;
 Tros of cof pob cyfryw ddyn,
 Eithr Awd aeth â'm gwawd a'm gwên.
- 12 Perais ffysg glud-ddysg glod-ddull
 (Perygl hun!) er bun o bell;
 Peris gwen gwan yng nghyfrgoll:
 Parawd i Awd geinwawd gall.
- 16 Od ergyd, bryd brydu oll,
 I bob rhaiain fain fwynddull,
 Rhan Awd o'm gwawd a fydd gwell,
 Ne rhyn eirw, no rhan arall.
- 20 I'm dydd ef a fydd, o fedd-dawd—traserch,
 (Treisig yw fy nifrawd,
 I'm dig cadwedig ceudawd!)
 Â mi cyfoedi cof Awd.
- 24 Rhywyr ym yn llwyr cael llwrw ffawd—o'm serch
 Os archaf yn briawd;
 Rhyawdd y bûm ail Rhyawd,
 Rhy hir ymoedir am Awd.
- 28 Ys breinfawr liw gwawr a le gwawd—hirdrig
 A hwyrdry o'm ceudawd;
 Ys braidd ym fyw, glyw glwyfnawd,
 Ys braw pell adaw pall Awd.

- 32 Llyna lys nid â diwyrnawd—o'm bryd
Am bryder fy nifrawd;
Lle lloer wiwne llwyr waywnawd,
Llifgwyn llaes adwyn llys Awd.
- 36 Ciglau cyn Difiau defawd—cyntefin,
Cant afar fyfyrdawd,
Cyrdd ednaint glwysnaint gloesnawd,
Cerddgar cad adar coed Awd.
- 40 Y cof ys ynof, ys anynawd—y try,
Tragywydd, o'm ceudawd;
Anghenddydd, herwydd hirwawd,
Angau ym edau am Awd.
- 44 Da gyngor rhagor rhag fy nifrawd—ym
Am nas caf yn briawd:
Dwyn hwyl, dyn gŵyl goleuwawd,
Dan frig y goedwig ag Awd.
- 48 Erchi merch fy rhi rhoddnawd—ys gwneuthum,
Ys gwnaeth gwŷd tros folawd,
Arwydd nad rhadlwydd, rhydlawd,
Eres ymoedes am Awd.
- 52 Tra fwyf, rhyhirglwyf Rhyawd,—i wrthi,
Hoed beri, hud barawd,
Ni'm dywan diddan deddfnawd,
Ni'm daw cyfadaw cof Awd.
- 56 Llawer annerch serch seiliawd (—brad aele!)
Bro Deilaw a'i logawd
O wlad faith, gludwaith glodwawd,
Forgant a redant ar Awd.

Ffynonellau

A—J 111, 1244 B—LIGC 1984B [= Pant 15], 80^f C—Llst 147, 126 D—
Pen 118, 161

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniad y llawysgrif
13 bryduoll.

Moliant Awd

- Aeth wyth cant o gyfarch[ion], [oddi wrth] ddyn hael,
 [Gyda] brys aruthr, [ar gyfer] bro Rhys frenin gynt,
 Dros [Afon] Nedd [ac iddi] ddull sy'n gwahanu
 4 Ac [Afon] Tawe at [un] hardd ei llun.
- Arglwyddiaethodd un ddisglair a main [a] gwych, un gannaidd [ac]
 urddasol a syber ei llun
 Ar ofid helaeth ei ran cyfaredd lesteir[iol];
 Heibio imi [yr aeth] cof am bob merch o'r fath,
 8 Ond cipiodd Awd fy nghân a'm gwên.
- Gwneuthum ddull o glodfori cyfoethog ei ddysg [ac] angerddol
 Er mwyn merch o bell (perygl [i] gwsg [ydyw]!);
 Gwnaeth [yr] un deg [i] un gwan [fod] mewn colledigaeth lwyr,
 12 Yn barod ar gyfer Awd y mae canu gwych [a] doeth.
- Os cyrraedd, [yr] holl glodfori prydferthwch ar gân,
 At bob rhiain fain [a] mwyn ei ffordd,
 Bydd cyfran Awd o'm canu yn well,
 16 [Yr un o] liw tonnau geirwon, na chyfran [neb] arall.
- Yn fy oes i, oherwydd meddwdod traserch,
 (Gorthrymus yw fy ninistr,
 [Ac] yn fy nhristwch dan warchae y mae [fy] nghalon!)
 20 Fe fydd byw[r] cof am Awd gyhyd â mi.
- Rhy annhebygol yn gyfan gwbl ydyw imi gael cwrs llawenydd
 trwy fy serch
 Os ceisiaf hi yn briod;
 Rhy barod y bûm fel Rhyawd,
 24 Rhy hir yr ymoedir am Awd.
- [Un â] gwedd wedi ei breintio'n uchel yw[r] arglwyddes sy'n
 darllen barddoniaeth hirbarhaol
 A dreigla'n araf o'm calon;
 Anodd ydyw imi fyw, [a minnau'n] un clwyfus ei natur
 [oherwydd] ymladdfa,
 28 Dychryn yw gadael ymhell fantell Awd.

Dyna lys nad yw'n mynd [am] ddiwrnod o'm meddwl
 Oherwydd pryder am fy ninistr;
 Lle [un o] liw hardd [y] lleuad [ac] â natur sy'n achosi gwewyr
 [yn] llwyr,

32 [Achos] cwynfaniad dagreuol trist yw dwyn ymaith lys Awd.

Clywais cyn dydd Iau nodwedd[ion] dechrau haf,
 [Achos] can myfyrdod prudd,
 Cerddi adar dyffrynnoedd hardd[, cerddi] a'u natur yn peri gloes
 [imi],

36 Cerddgar yw llu adar coed Awd.

Yr atgof, ynof y mae, yn anfoddog y treigla,
 Yn ddi-baid, o'm meddwl;
 Dydd cyfrif angau, oherwydd canu maith,
 A adawa imi o achos Awd.

40

Cyngor da imi bellach rhag fy ninistr
 Am na chaf hi yn briod:
 Dwyn hynt, [a hithau'n] ferch fonheddig [ac iddi] gerdd ddisglair,
 Dan frig y goedwig gydag Awd.

44

Deisyf merch fy arglwydd cynefin â rhodd a wneuthum,
 Gwnaeth gam yn gyfnewid am fawlgerdd,
 Arwydd nad hael ei natur [mohono], [eithr] crintachlyd,
 Oedodd yn aruthr oherwydd Awd.

48

Tra bwyf oddi wrthi, [yn dioddef] poen faith ormodol Rhyawd,
 [Yr un sy'n] peri gloes, [ond] parod ei hud,
 Ni ddaw natur sefydlog ddiddan imi,
 Ni ddaw imi ymadael â[r] cof [am] Awd.

52

Llawer cyfarchiad seiliedig ar serch ([dyna] frad gresynus [a fu]!)
 [Ar gyfer] bro Teilo a'i eglwys
 O wlad helaeth [a] maith Morgan, [yn] gyfoeth o fawl,
 Sy'n rhedeg at Awd.

56

Awdl i'r Drindod

- Trindod dibechod, Duw bych—diwahan
 Â mi; Rhi rhwyddlan, o'm cân cenffych,
 Mab diadnair Mair, mor fynych—y'm bydd
 4 Aeth saeth saith briwydd! Ffydd a'm ffurfych
 I'm dwyn o'm gwenwyn, ni'm gwenych,—uffern
 Affaith, gaith gethern surwern nid sych,
 Lle mae llawer gwae, gwaelchwrych—anesgor,
 8 Llu du diystor, ffylor ffolddrych.
 Differ fi, fy Nêr, rhag nych—uffern gnwd,
 A'r tân brwnstan brwd, rhwd rhydwnnych,
 A'r pydew llenrew, llawnrych—cyllestrig,
 12 A'r pair gair garwddig peithfrig poethfrych,
 A'r pryfed caled colioc-chwrych—syrniog,
 Afrwydd swydd soddlog trysglog treisglych;
 A phob rhyw ddistryw trwy ddistrych—fflamdawdd,
 16 A ffwyr lwyr loesgawdd adrawdd edrych.
 Diriaid fydd telaid talgrych—wythlonder
 Dur aerfur arfer, ar ni gerych.
 Direidion ddynion ni ryddoniych,—Dad;
 20 Dirydd ffydd ffoad, brad a'i bredych!
 Dyro ran i'th wan wynfyd wrthrych—hawl
 O'th wlad fad feidriawl er mawl mynych,
 I'th wledd, Llyw buchedd, lle y bych—tragywydd,
 24 Llawr mawr mireindydd, Llywydd llewych
 Llys ddiddos ddinos ddawn wledych,—rhag llaw;
 Llen ôd, nod neidiaw, na glaw ni'm gwlych.
- Trindod dibechod, nid da bychan
 28 Tröi bryd atad, tro gloywrad glân;
 Tri ac Un cyfun, mor yw cyfan
 Trugar gerennydd Dofydd difan,
 Trugaredd, rhiedd, rheufedd, rhwyfan,
 32 Tragywydd y bydd, nid dydd diflan.
 Traha ni phara, ni phair diddan,
 Trahir dielir, dir darogan.
 Trais dyn a obryn, ennyn anian,
 36 Trist gosb, gost ffwrndost, gwst ufferndan.

- Trinheion dynion (daniel ogan)
 Traffalst cyn amdo gro a graean,
 Tru mor anghall dall dull aneirian,
 40 Trosedd trwy gamwedd a gymeran':
 Trannoeth heb gyfoeth, heb gyfrwyfan,
 Trawd angau aerau, feddau fyddan'.
 Trahy yw pob syw na synhwyran'
 44 Trymder Lusiffer a'i loes affan:
 Tros ei gam arfaeth cynfaeth cwynfan,
 Trymgwyddawdd heb nawdd i glawdd nid glân,
 Trafael nam o'i gam, gwaelfflam a'i gwân,
 48 Trachywedd llechwedd, lluch a tharian.
 Trefnawdr llwyr huawdr lloer a huan,
 Trefnaist a ffurfaist o ffyrf amcan
 Trefnau amryfflau; genau a gân
 52 (Traul gyfaddef nef, Naf pob adfan,
 Trengid a'u collo llwrw tro truan)
 Traethawd o'th folawd, filioedd gyman.
 Trefnaist sŷr a mŷr, morol ddylan,
 56 Trefnaist ddaear fawr a'i chlawr achlân,
 Trefnaist wern uffern, affaith Sathan,
 Trefred i bryfed lle ydd ymbrofan'.
 Troch heol ysgol esgar boethfan,
 60 Trallod i'r giwdod nid ymgadwan'.
 Traws y bu Iesu, Pen llu llydan,
 Traw er ymdaraw ar dorf swddan!
 Traul gyfor tros fôr, cyngor cyngan,
 64 Treiddle ydd ethyw ffraethLyw ffrwythlan,
 Traedloes yn Ei groes, Grist ehunan.
 Trarhaid ym erchi mal am orchan,
 Trarhwydd fydd Culwydd am bob calan,
 68 Trugaredd a hedd haeddwyf o'm cân
 Trwy eiriolawr mawr Mair a Ieuan.

 Trindod dibechod, Duw ni bechawdd,
 Treiddwyf i nef yn addef Ei nawdd,
 72 Trist fydd, tragwydd trwy gawdd,—a'i collo,
 Tristyd fryd frawdrow, frwydr gyfannawdd.
 Treiswyr nid ystyr amdost ansawdd,
 Trosir pob enwir yn hir yn nhawdd,
 76 Lle y trosed ciwed, cawatsawdd—nifer,
 Tru lu Lusiffer, aergler oerglawdd.
 Gwae a ddyd ei fryd mywn byd a'i bawdd,

- 80 Gwae a ddwg rhag gwan ei ran rynnawdd,
 Gwae ddig, gwir dreisig, drysawdd—ei amcan,
 Gwael drafael dryfan gwayw tân a'i tawdd.
 Gwae a fo cretffo, tro trwyddedflawdd,
 84 Gwae ddifwyn gwenwyn, cargwyn curgawdd,
 Gwae a ddifraint saint a seiliawdd—templau
 Gwawr mawr, Mur graddau greddf ymadrawdd.
 Gwae a fyn gobryn gobr ufferndawdd,
 Gwae ddifiawg llidiawg, lleidr tra allawdd,
 88 Am Berchen o bren a brynawdd—pumoes,
 Pêr ffêr ffurfeiddfoes, ffrowyll-loes ffrawdd,
 Er penyd bywyd, hoeddl fergyd hawdd,
 W'r glân diwahan yn Ei wahawdd
 92 I'r wlad fad feidrawl a fedrawdd—Andras,
 I'r wledd hedd haeddblas, heb gas, heb gawdd.

Anturiwn, hwyliwn heli—a thonnau

- 96 A thyniwn fedd ein Rhi,
 Ynad pob gwlad, rad roddi,
 Un Iôn athrawon a Thri.

- 100 Trindawd, ein gwarawd a'n gwarant,
 Tri uniawn unnerth gogoniant;
 Trwy y Tad â rhad i'n rheidiant,
 Trwy y Mab gwnaed bawb bob grymiant;
 Trwy yr Ysbryd i gyd y'u gadant,
 Trindod yn undod gweddiant.
 104 Trist fu Grist yn Ei groes dygiant,
 Trafael hael, hwylawdd ar foliant.
 Trawd Gwener bu ffêr Ei ffyniant,
 Trydydd dydd doddyw o ddifant.
 108 Tros ddydd deugeinfed ced cadwant,
 Tref nef Ei nifer Ef gwelsant.
 Treiddiom ni, a mi a Morgant,
 Trwy ddau fôr, cyngor cyngharant,
 112 Treth ymdaith, yn faith anfethiant,
 Traeth a bryn a phenrhyn a phant.
 Trew ni ludd rhylew ail Rholant,
 Traw er braw ar bryfed gormant!
 116 Trethwyf Dduw o ddiwedd fy mant
 Tra fwyf trafodwr un amrant;
 Tra mynud, trwm ynof y chwant
 Tremynu trais lu tros liant.

- 120 Trindawd ffawd ffêr, tref nef nifer gwarder gwirDad,
 Trech wyd no neb, trwy ddawn ateb treiddwn atad.
 Tra fwyf ym myd, tröych, heb wÿd, i'm bryd rhag brad
 Traul benydio, ardwy gurio, er Dy gariad.
- 124 Trafael a chur, gyda dolur, gwedy daliad
 Trwm gymeraist; traws y'n prynaist o'r pren crocrad
 Trwy Dy hoelio, draed a dwylio, drud adeiliad,
 A gwayw dan fron a gwaed gwirion gwerin Bryniad,
 128 Ar byd paladr yn ddiangadr am ddwy angad.
 A'r dall a'th want, o'th faddeuant ni'th fu ddiwad:
 Creaist, Dëus, yn ddilwygus ei ddau lygad,
 Credodd yntau i'r gwyrthfawr grau, golau Gwyliad
 132 A'i gwnaeth golwg o dywyllwg, a diwallad,
 Ac a'i gwnaeth ffydd, o ddifedydd ei ddyfodiad.
 Cryd a gymyrth rhag ofn mawrwyrrh Mur gwynieithiad,
 Cred a'i gwarawd o'i fawr bechawd, baich oedd anfad.
- 136 Crair pob terfyn credwn ddisgyn, credo ddysgad,
 Credadun air, Crist, ym mru Mair, mawr oleuad.
 Brenin ar Gred oedd pan aned, ein Pen-ynad,
 Breiniol esgor, braint saint, sail côr, Dôr dengraddwlad.
- 140 Cynefnglod Mab cyn bod na phab na ffyrf afrllad,
 Cant engylion, gain eglurion, 'Gloria' ganiad.
 Doeth trywyr teg â thair anrheg anrhydeddiad,
 Aur, tus a myrr i'r Gŵr nid byr yn Ei berffeithrad.
- 144 Seren bu rhwydd, bu cyfarwydd, bu cyfeiriad
 O flaen y tri i fenegi ein Rhi Rhoddiad.
 Erod greulawn ni bu gyfiawn, ni bu gofiad
 Ar addoli i Grist Celi, Colofn lleuad.
- 148 Archwn i'r Hael a ludd trafael ym mhob troead,
 A beris llên ac efferen ac effeiriad,
 A'r dwfr yn win a phob rhyw hin a phob rhyw had,
 A nos a dydd a gwellt a gwÿdd a ffydd ffyrfrad,
- 152 A gwyllt a gwâr, môr a daear, mawr Ardwyad,
 A dengradd nef a dioddef da a wyddiad,
 Er Ei haelder, er Ei nifer, fy Nêr Neirthiad,
 Bod ein diwedd yn nhrugaredd, ynn rho gariad. Amen

156 Trindod dibechod buchedd wirion,
 Trugar, trwm Ei fâr, câr gwâr gweddwon,
 Tri yw Duw Celi, Colofn deon
 Trwy rad, ac Un mad, Ceiniad canon.

160 Trech yw Ef, Tad nef, Naf gleinion—raddau,
 No'r creaduriau, gorau Gwron:

- Gŵr dinam, digam, dygn Ei alon,
 Gŵr dawnfaith, gobaith rhaith rheuduson,
 164 Gŵr diddig, Gwledig gwlad engylion,
 Gŵr deddfol gwrol biau'r goron,
 Gŵr a gynnydd dydd, dyddon—ymddangos,
 Gŵr a gynnu nos dros dreisogion,
 168 Gŵr a gyn nail sail saith urddolion,
 Gŵr a gennyw yw, awydd dynion,
 Gŵr cymen, Pen llên y lleodron,
 Gŵr cymwys, cynnwys, kannwyll deillon,
 172 Gŵr cymod a chlod a chleifion—ofwy,
 Gŵr cymorth gobrwy drwy drafaelion,
 Gŵr ni chudd Ei fudd i feddygon,
 Gŵr ni chêl a wnêl o ddichwelion,
 176 Gŵr ni châr murnfrad lledrad lladron,
 Gŵr ni cheinmyg trais clais cleddogion,
 Gŵr ni chymwyll twyll tyllod hoelion—braw
 Ei draed a'i ddwyliaw, ddolur calon.
 180 Gŵr a aeth yn Ei gnawd gaethrawd gethron
 (Gwrdd-dâl), gwŷn ddial gan Iddeon;
 Doeth o'i grau purgoeth, Perging drudion,
 Er pumoes pumloes, pumlif cochion.
 184 Duw Fab Mair yw crair Cristonogion—byd,
 Da y gŵyr goglyd mebyd meibon
 Rhag caffael trafael tri anwirion,
 Caiffas, Suddas, swddan Pabilon.
 188 Cyffeswn, ceiswn o rad cyson,
 Cyffes drwy benyd a iawnfryd Iôn,
 Caffom lwys gynnwys gan orchorddion—nef,
 Cartref, gwir addef, y gweryddon.
 192 Selyf ynad, Tad, tau deg
 Seiliaith, nid gwyr iaith gorwag,
 Saith drwy obaith, faith Feddyg,
 (Salm wrawl) seilm a urug.
 196 Gorugum ryred (pured Peryf!),
 Gormodd o bechawd â'r llwfrgnawd llyf;
 Gorau oedd faddau, ornau oernyf,
 Gorwacter y glêr ofer a yf.
 200 Gorwag bechadur glewddur gleddyf,
 Goruthrus ei air, a chwair, ni chwŷf.
 Gyrrir i benyd, ddedfryd ddidryf,

- 204 Garedd sawdd, garth gawdd, er gwerth gwddyf.
 Gorwedd hir ys dir, ystôr hybryf,
 Gorwisg llan uwch gran poendan pan dyf
 Gormail priddladd, nid nadd neddyf.
 (Gormes yw cludaw aelaw elyf,
 208 Gŵr hybwyll cymwyll cyn daear wrŷf.)
 Gorau da wyrthau yw Duw wrthyf,
 Gorffwyf daith ddidrist, neud Crist Udd cryf,
 Gorffen digynnen; da yw gennyf
 212 Gymwyll dysg ffysg ffêr, nid cer Caerdyf,
 Gem Gaerusalem, geirau Selyf.
- Trindod parod pur, traws maws moes eglur,
 Trwy rad mad Modur, Mur mireinwch,
 216 Tro fi, Rhi rhadlawn, trafnidr dinidr dawn,
 Tref nef Naf cyfiawn digawn degwch.
 Treiddwyf, Rhwyf rhwyddwynt (tros fôr côr cerrynt),
 Grôeg deg derfynt, hawdd hynt heddwch,
 220 Tir gwir gwerin gred, tymyr gwŷr gwared.
 Tad rhad, rhaid nodedd, ged gadarnwch,
 Tud lud lu dramwy, teg reg Rên ofwy,
 Taith faith faeth, gobrwy trwy atregwch
 224 Am gynnal gwâl gwŷdd saith brawaith briwydd,
 Pechawd rawd rewydd, cyn trechddydd trwch.
 Lluniau, Naf, neges, llunia ym, lym les,
 Llydan lân loches, gwares gwarwch,
 228 Llogail sail Selyf lle nid prifdde pryf,
 Llawn nerth berth Beryf, gryf ddigrifwch,
 Llyw gwlad fad fedydd, Llwythbair, crair crefydd,
 Lleithig Gwledig gwlydd, dydd diddanwch,
 232 Lleuad rad rinwedd, llyna dda ddiwedd!
 Lle ydd aeth, ffraeth ffrwythwledd (ym medd medrwch),
 Llariedd hedd hoddiauw, lle gŵyl hwyl heiliauw,
 Llawr nef dref dreiddiauw aelaw elwch,
 236 Llys fry hy hoywblwyf lles gne de diglwyf,
 Llwydd rwydd Rwyf, delwyf drwy ddadolwch!

Ffynonellau

A—BL Add 14970, 284^r B—BL Add 15001, 187^r C¹—J 111, 1131 (llau. 120–1) C²—J 111, 1233 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 102^r E—LIGC 4973B, 269^v F—LIGC 9048E, 114^v (llau. 214–17), 115^r (llau. 120–1) G—Llst 3, 494^v (llau. 214–17), 494^v–495^r (llau. 120–1) H—Llst 133, 270^r (rhif 816) I—Llst 145, 38^r [rhif 118] J—Llst 147, 109 K—Pen 20, 330 (llau. 120–1) L—Pen 118, 145

Ceir ychydig linellau o'r gerdd ar ffurf dyfyniadau yn y testunau o Ramadeg y Beirdd yn llawysgrifau C¹FGK ond ni cheir unrhyw amrywiadau o bwys ynddynt. Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C², yr un cyflawn cynharaf. Codwyd y gerdd i lawysgrifau A–FHIJL un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.¹ (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

7 waelchwrych. 10 rydunnych. 64 eth y6 ffraeth ly6. 124 Trauel. 133 fyd odi vedyd. 139 dengredwlat. 143 perffeithrat. 181 g6y. 201 guthrus. 204 ystir. 205 pandef. 219 ha6duynt. 213 selyf - Selyf. 220 g6beringret.

Teitl

Casnodyn a'e kant.

¹ Yn y ddau ddryll yn G, sy'n ddiweddarach na C²K ond yn gryn gynharach na'r llsgrau. eraill, ceir *trafynior dyfynnor* am *trafnidr dinidr* (ll. 216) a *vyd am wyt* (ll.121), ac amlwg mai gwallau ydynt.

Awdl i'r Drindod

- [O] Drindod berffaith, [O] Dduw, boed iti fod yn un
 Â mi; Arglwydd hael a sanctaidd, trwy fy nghân boed iti weld,
 Fab dibechod Mair, mor fynych y daw imi
 4 Boen saeth [y] saith prif bechod! Boed iti adeiladu ffydd imi
 Er mwyn fy nwyn o'm gofid, na'm trywana, [yn] ystad
 Uffern, cors wrthun nad yw'n sych [y] giwed gaeth,
 Lle y mae llawer trueni, berw dreng [a] diymwared,
 8 Llu du [a] thlodaidd, [megis] llwch ynyfyd yr olwg.
 Amddiffynna fi, fy Arglwydd, rhag nychdod haid uffern,
 A'r tân brwmstan poeth, malltod tra dolurus ei archoll,
 A'r pydew [ac iddo] orchudd rhew, rych llawn llathraid,
 12 A'r pair [a] sôn ofnadwy a gofidus [amdano] dinistriol ei frig [ac]
 amryliw gan wres,
 A'r pryfed didostur [a] phigog eu gwrych [a] lluosog,
 Tirioagaeth ddilewyrch rhai uchel eu sodlau [a] chramennog [lle y
 mae] clychau treisgar [eu sŵn];
 A phob math o ddinistr trwy ferw terfysglyd tawdd fflamlyd,
 16 A gweld mynegi trallod ingol llwyr [ac] echrydus.
 Truan fydd dyn urddasol [o] ffyrnigwydd sy'n crychu ei dalcen
 [Wrth iddo] ymarfer arfau dur [ger] amddiffynfa mewn brwydr, yr
 hyn nas ceri[, O Dduw].
 Na foed iti fendithio dynion drwg, [O] Dad;
 20 Caeth fydd cefnwr [ar] grefydd, boed i[w] frad ei fradychu!
 Dyro gyfran i'th ddyn gwan [a] hawl i obeithio am wynfyd
 O'th wlad ddaionus [a] chadarn yn gyfnewid am foliant mynych,
 Yn Dy wledd, Arglwydd bywyd, lle y boed iti fod yn
 dragywyddol,
 24 Campwr mawr [y] dydd ysblennydd, Pennaeth disglair
 Llys clyd [a] di-nos y boed iti ei reoli â gras maes o law;
 Ni bydd gorchudd o eira, chwyrliö dafn[au ohono], na glaw yn fy
 ngwlychu.
- [O] Drindod ddibechod, nid daioni bychan
 28 Yw troi bryd atat, troad disglair ei ras [a] sanctaidd;
 Tri ac Un cytûn, mor gyfan yw
 Cymod trugarog Duw difrycheulyd,
 [Ei] drugaredd, [Ei] ogoniant, [Ei] olud, [a'i] arglwyddiaeth,
 32 Bydd yn dragywyddol, nid [yn para am un] dydd diflanedig.
 Ni phery traha, ni phair hyfrydwch,
 Yn hir iawn y dielir, sicr yw[r] darogan.
 Haedda trais dyn, [trwy] losgi [ei] natur,

- 36 Gosb drist, pris poenus mewn ffwrn, dioddefaint tân uffern.
 [Ynglŷn â] rhyfelwyr [o] ddynion (gwatwar [a gaiff eu] rhincian
 dannedd)
 [A fu'n] ystrwygar iawn cyn [dodi] amdo gro a graean
 [amdanynt],
- 40 Truenus mor ffôl [a] dall yw [eu] dull gwrthun,
 Mwynhânt ragoriaeth yn gamweddus:
 Drannoeth heb gyfoeth, heb ynni,
 [Trwy] gyrch rhyfeloedd angau, byddant mewn beddau.
 Hy iawn yw pob rhai gwych nad ydynt yn ystyried
- 44 Gorthrwm Lwsiffer a'i boen angerddol:
 Oherwydd ei fwriad drygionus porthodd gwynfan,
 Cwmpodd yn drwm heb faddeuant i bwl aflan,
 Yn boen pechod oherwydd ei drosedd, fflam afiach sy'n ei wanu,
- 48 Dinistr [ei] llethr, mellten a tharan.
 [O] Drefnwr perffaith [a] doeth lloer a haul,
 Ordeiniaist a lluniaist trwy fwriad praff
 Ddulliau amryfal; y mae [fy] ngenau yn canu
- 52 (Darpariaeth ddiamau nef, [ac] Arglwydd pob lle,
 Bydd y neb a'u collo yn marw yn null tro truenus)
 Cân o fawl iti, cwmni miloedd.
 Trefnaist sêr a moroedd, [yr] eigion dyfrllyd,
- 56 Trefnaist [y] ddaear fawr a'i chlawr i gyd,
 Trefnaist gors uffern, canlyniad [gweithred] Satan,
 Trigfan i bryfed lle y maent yn ymrafael.
 Ffordd drist yw[r] ysgol [i] boethle[r] gelyn,
- 60 Trallod i'r giwed nad yw [ei haelodau] yn [gallu] eu cadw eu
 hunain [yn ddiogel].
 Nerthol y bu Iesu, Pennaeth llu niferus,
 Wfft am [y] gwrthdaro i bennaeth [y] dorf!
 [Megis] llanw dinistr[iol] dros fôr, [trwy] ystyriaeth briodol,
- 64 [Yn y] gyrcfan lle yr aeth Arglwydd parod [a] phur Ei
 weithredoedd,
 Dolurus Ei draed ar Ei groes, [sef] Crist Ei hun.
 Rheidrwydd mawr sydd arnaf i ddeisyf megis [yn gyfnewid am]
 fy nghân,
- 68 Hael iawn fydd [yr] Arglwydd ar bob calan,
 Boed imi haeddu trugaredd a hedd trwy fy nghân
 Trwy ymbiliau mawr Mair a Ieuan.
- [O] Drindod ddibechod, Duw na phechodd,
 Boed imi ddyfod i'r nef i mewn i drigfan Ei drugaredd,
 72 Trist fydd [y sawl] a'i collo, yn dragwyddol mewn trallod,

- Achlysur braw [i] feddwl [llawn] tristwch, brwydr barhaus.
 [Ynglŷn â] dynion treisgar nad ydynt yn ystyried natur boenus
 [uffern],
 Ymlidir pob un drwg yn faith mewn tawdd,
 76 Lle yr ymlidiwyd haid, nifer sy'n suddo mewn malltod,
 [Sef] llw truenus Lwsiffer, ciwed gynhennus pwll diflas.
 Gwae[r sawl] a rydd ei fryd ar fyd a fydd yn ei foddi,
 Gwae[r sawl] a ddwg oddi wrth un gwan ei fesur o eiddo,
 80 Gwae[r] un dicllon, gwir dreisgar, chwalodd ei fwriad,
 Bydd poen erwin blaenfain brath tân yn ei doddi.
 Gwae a fo'n anghredadun, achlysur dychryn [pan geir] mynediad
 [i uffern],
 Gwae[r] un ofer gwenwynllyd, [achos] gofid poenus drallodus [i]
 gâr,
 84 Gwae[r sawl] a ddifreinia bobl dduwiol a gododd gysegrfannau
 [I'r] Arglwydd mawr, Amddiffynnwr urddau [a chanddo] lais
 grymus.
 Gwae[r sawl] a fyn deilyngu gwobr tawdd uffern,
 Gwae[r] un milain [a] lliديو, ysbeiliwr tra gallodd [fod yn un],
 88 Ar gyfrif Arglwydd a brynodd drwy[r] pren bumoes [y byd],
 Un peraidd [a] chadarn [a] hardd Ei foes, [gwrthrych]
 ffyrnigwydd goes chwip,
 Drwy ddiodeffaint bywyd, [trwy] oes fer ei chwmni [a] hyfryd,
 [Y] Gŵr sanctaidd [ac] unplyg yn Ei wahodd
 92 I'r wlad ddaionus [a] chadarn a gyrhaeddodd Andreas,
 I wledd [lawn] tangnefedd [mewn] lle a haeddwyd, heb gasineb,
 heb alar.

- Anturiwn, hwyliwn [y] môr a[i] donnau,
 Ac ymdeithiwn tuag at feddrod ein Brenin,
 96 Gŵr doeth pob gwlad, [un sy'n] rhoi gras,
 Arglwydd dysgawdwyr [sy'n] Un a Thri.

- [O] Drindod, ein gwaredigaeth a'n sicrwydd,
 Tri chywir o'r un nerth [y perthyn iddynt] ogoniant;
 100 Trwy'r Tad â gras at ein hangen,
 Trwy'r Mab gwnaethpwyd pob grymuster i bawb;
 Trwy'r Ysbryd ystyriant hwy ynghyd,
 Gweddiant ar [y] Drindod [sydd] yn undod.
 104 Trist fu Crist yn llwyddiant Ei groes,
 Dioddefaint hael, aeth rhagddo yn glodforedig.
 [Yng] nghwrs [dydd] Gwener bu Ei wroldeb yn wych,
 [Ar] y trydydd dydd daeth o ddifancoll.

- 108 Cadwant hwy [gwmni'r] Un hael dros [y] deugeinfed dydd,
 [A] gwelsant, Ei deulu Ef, gartref nef.
 Boed i ni, myfi yn ogystal â Morgan, groesi
 Dros ddau fôr, [ar ôl] ymgyngoriad ceraint,
- 112 Taith [a fydd yn] wobr, yn llwyddiant mawr,
 [Dros] draeth a bryn a phenrhyn a phant.
 Ni rwystra tisian wron megis Rholant,
 Wfft am [eu] dychryn i bryfed gorniferus!
- 116 Boed imi dalu teyrnged i Dduw â blaen fy ngenau
 Tra bwyf yn symudwr un amrant;
 [Dydi sy'n] dra bonheddig, dwys ynof yw'r awydd
 [I] ymweld â llu grymus dros [y] lli.
- 120 [O] Drindod wych [Dy] fendith, cartref llu nef [sy'n mwynhau]
 tirionder [y] Tad perffaith,
 Trech wyd na neb, trwy fendith [Dy] ateb deuwn atat.
 Tra bwyf yn [y] byd, boed iti droi, [Dydi sydd] heb bechod, tuag
 at fy mryd rhag [imi ddiodef] brad
 Penydio nych[lyd], [a] gwanychu [Dy] amddiffyn [imi], er mwyn
 Dy gariad.
- 124 Poen a chur, ynghyd â dolur, wedi [Dy] ddaliad
 A ddiodefaiast yn hallt; yn wrol y'n prynaist o bren [y] grog sy'n
 rhoddi gras,
 Trwy Dy hoelio, draed a dwylaw, adeiladwaith enbyd,
 A gwaywffon dan [Dy] fron a gwaed cyfiawn Prynwr pobl,
- 128 Ar fagl piler yn gadarn wrth [Dy] ddwy law.
 A'r dyn dall a'th wanodd, oherwydd Dy faddeuant ni fu
 gwrthodiad [ohono] ar Dy ran:
 Gwnaethost [o'r newydd], [O] Dduw, ei ddau lygad yn ddiddiffyg,
 Credodd yntau yn y gwaed gwerthfawr, goleuni[r] Ceidwad
- 132 A barodd olwg iddo o dywyllwch, a chyflawnder,
 Ac a barodd ffydd iddo, ei ddyfodiad o [gyflwr] paganaidd.
 Cafodd ddychryn oherwydd ofn arwydd rhyfeddol [yr]
 Amddiffynwr bendigaid,
 Gwardodd crediniaeth ef o'i bechod mawr, baich a oedd yn
 ysgeler.
- 136 Credwn i Drysor pob gwlad ddisgyn, [yn unol â] dysg [y] Credo,
 Y gair ffyddlon, Crist, i groth Mair, yn oleuni mawr.
 Brenin ar fyd Cred ydoedd pan anwyd [Ef], ein Hynad pennaf,
 [Yr un] breiniol [Ei] enedigaeth, rhagorfraint saint, sylfaen cysegr,
 Pennaeth gwlad ac iddi ddeg o raddau.
- 140 Cyfarwydd Ei glod oedd [y] Mab cyn bod na phab nac afrlladen
 rymus,

- Canodd angylion, [rai] hardd [a] disglair, gân [y] Gloria.
 Daeth tri gŵr doeth â thair anrheg [yn] addoliad,
 Aur, thus a myrr i'r Gŵr nad yw'n grintach yn Ei ras perffaith.
 144 Bu[’r] seren yn hwylus, bu'n hebyrngwr, bu'n arweinydd
 O flaen y tri i ddangos [pa le yr oedd] ein Brenin Roddwr.
 Ni bu Herod greulon yn gyfiawn, ni bu'n gofiwr
 I addoli Crist Arglwydd, Cynhaliwr [y] lleuad.
 148 Deisyfwn ar Ŵr bonheddig sy'n atal helbul ym mhob digwyddiad,
 A wnaeth ysgrythur ac offeren ac offeiriad,
 A'r dŵr yn win a phob rhyw dywydd a phob rhyw had,
 A nos a dydd a gwair a choed a ffydd fendithfawr,
 152 A gwyllt a dof, môr a daear, [y] Cynhaliwr mawr,
 A dengradd nef a[’r] dioddef[aint] da a wyddai,
 Ar gyfrif Ei haelioni, ar gyfrif Ei lu, fy Arglwydd Gadarnhawr,
 [—Deisyfwn] fod ein diwedd mewn trugaredd, rho inni [Dy]
 gariad. Amen.
- 156 [O] Drindod ddibechod [a] phur [Ei] buchedd,
 Drugarog, dost Ei digofaint, cyfaill tirion y rhai amddifad,
 Tri yw Duw Arglwydd, Cynheiliad pobl rinweddol
 Trwy [Ei] ras, ac Un sanctaidd, Awdur [yr] Ysgrythur.
 160 Trech yw Ef, Tad nef, Arglwydd [yr] urddau sanctaidd,
 Na[’r] creaduriaid [dynol], [y] Gwron gorau:
 Gŵr di-fai, cyfiawn, dygn Ei elynion,
 Gŵr mawr Ei ras, gobaith cyfiawnder [i] rai anghenus,
 164 Gŵr hynaws, Tywysog gwlad angylion,
 Gŵr cyfiawn [a] gwrol piau'r goron,
 Gŵr sy'n helaethu[’r] dydd, [fel ei fod yn] ei amlygu ei hun yn
 hael,
 Gŵr sy'n peri disgyn nos dros ddynion treisgar,
 168 Gŵr sy'n cynnal sail saith [dosbarth o] wŷr mewn urddau,
 Gŵr sy'n canfod ydyw, [gwrthrych] dyhead dynion,
 Gŵr medrus, Pennaeth dysg y darllenwyr,
 Gŵr union, [rhoddwr] croeso, cannwyll deillion,
 172 Gŵr heddwech a chlod ac [un sy'n] ymweld â chleifion,
 Gŵr [sy'n rhoi] cymorth gwobr drwy gystuddiau,
 Gŵr nad yw'n celu Ei fendith i feddygon,
 Gŵr nad yw'n cuddio[’r hyn] a wnêl o weithredoedd,
 176 Gŵr nad yw'n caru twyll niweidiol lladrad lladron,
 Gŵr nad yw'n hoffi trais clwyf[au a wneir gan] wŷr cleddyfog,
 Gŵr nad yw'n crybwyll twyll tyllau hoelion brawychus
 Ei draed a'i ddwylo, gloes calon.

- 180 Gŵr yr aeth caethiwed hoelion yn Ei gnawd
(Taliad creulon [fu hyn]), dial [llawn] poen gan Iddewon),
Daeth o'i waed sanctaidd a phur, Pennaeth glewion,
Bum clwyf, pum llif o [waed] coch, er mwyn pum oes [byd].
- 184 Duw Fab Mair yw trysor Cristnogion [y] byd,
Da y gŵyr [sut i] amddiffyn ieuencid meibion
Rhag dioddef poen [y] tri gŵr beius,
[Sef] Caiaffas, Jiwdas, [a] phennaeth Babilon.
- 188 Cyffeswn, ceisiwn trwy ras ffyddlon,
Gyffes drwy benyd a meddwl cyfiawn [yr] Arglwydd,
Boed inni gael croeso gwiw gan luoedd [y] nef,
Cartref, gwir drigfan, y gwryfon.
- 192 Lluniodd Selyf [y] gŵr doeth, [O] Dad,
Mewn iaith gadarn [a] theg iti, nid iaith gam gŵr ofer,
Saith mewn gobaith, [O] Feddyg doeth,
([Ac yntau'n] wych ei salm) o salmau.
- 196 Yr wyf wedi cyflawni rhyseidd (mor bur yw[r] Arglwydd!),
Gormod o bechod â'r cnawd aflan;
[Y] peth gorau fyddai ymwrthod, [yr hyn sy'n] feiau [sy'n arwain
at] eira oer [uffern],
Â gwegi y glêr ofer sy'n diota.
- 200 Bydd pechadur ynfyd [a chanddo] gleddyf glew a chreulon,
[Ac sy'n] frawychus ei air, yn cwympto, ni fydd yn symud.
Anfonir [ef] i boenedigaeth, [i] ddiffeithwch [trwy] ddedfryd,
Dinistr camwedd, [lle] gofid [mewn] sorod, yn gyfnewid am bris
cryman [angau].
- 204 Y mae gorwedd maith yn sicr, cruglwyth cynrhonllyd,
Yn lledu poen fydd gorchudd mynwent uwchben grudd pan
gynydda
Gorthrwm sy'n difa trwy bridd, nid naddiad bwyall.
(Dinistr yw [canlyniad] hel cyfoeth lawer,
- 208 Y mae gŵr doeth yn ystyried cyn [ei ddodi dan] bwysau[r]
ddaear.)
Duw yw[r] gorau [Ei] wyrthiau daionus tuag ataf,
Boed imi gael siwrnai ddedwydd, Crist yw [fy] Arglwydd nerthol,
[Ac iddi] ddiwedd digweryl; da gennyf yw
- 212 Traethu dysg o angerdd gwych, [ac] nid ger Caerdydd,
[Sef] trysor Caersalem, geiriau Selyf.
- [O] Drindod ewyllysgar [a] sanctaidd, grymus [a] hyfryd [a] golau
[Ei] ffordd,

- 216 Trwy ras daionus [y] Pennaeth, Amddiffynnwr harddwch,
Tro fi, Frenin rhadlon, [trwy] gyfnewid dirwyrstr o fendith,
Arglwydd cyfiawn trigfan nef dibrin [Dy] degwch.
Boed imi, Arglwydd [sy'n anfon] gwynt hwylus (tros [y] môr y
mae amred [y] daith),
[Gan basio] gwlad Groeg hardd ei goror, [ar] daith ddymunol o
heddwch,
- 220 Ymweld â gwir dir [lle y gwelir] cred llu, bro gwŷr [yr]
iachawdwriaeth.
[O] Dad rhadlon, nawdd [mewn] angen, sicrwydd bendith,
[A minnau]'n tramwyo gwlad llu dyfal, [ac] yn ymweld ag
Arglwydd hardd Ei rodd,
[Ar] daith faith ei chynhaliaeth, [boed imi] wobr oherwydd
edifeirwch
- 224 Am gadw ffau drygioni [y] saith prif bechod dychrynlyd eu
heffaith,
Llu anllad pechod, cyn dydd trist [y] trech[u].
Lluniaf gais [iti], Arglwydd, llunia [dithau] imi, [trwy] lesiant
llym,
Loches eang [a] phur, trigfan [o] gariad,
- 228 Tŷ [ac iddo] sylfaen [aneddle] Selyf lle nad yw[’r] pryf yn bennaf,
Rhinwedd gyflawn [yr] Arglwydd hardd, llawenydd nerthol,
Pennaeth gwlad ddedwydd Cristnogion, Pennaeth pobl, Anwlyd
defosiwn,
Gorsedd [yr] Arglwydd tyner, dydd llawenydd,
- 232 [Un megis] lleuad [o] rinwedd raslon, dyna ddiwedd da!
Lle yr aeth Un ffraeth [i] wledd ffrwythlon (yn [Ei] fedd yr oedd
nerth),
Daioni tangnefedd dedwydd, lle [o] dywallt gorfoledd gŵyl,
Llawenydd mawr [o] gyrraedd llawr cartref nef,
- 236 Lllys uchod tyrfa nwyfus ddi-ofn [a chanddynt] fendith gwedd
eiddgar [a] dibryder,
[O] Frenin hael Dy fendith, boed imi ddod [yno] mewn cymod.

- Rhaid oedd ym o blaid y blodau—pennaf
 (Rhediad yw ataf yngaf Angau!),
 Rhad heb dwyll gariad o'r dull gorau
 4 I garu Gwledig, Lleithig llwythau.
 Canid oes na moes na mesurau—iawn
 Gan un anghristawn, rylawn rolau,
 Erbyn dydd dyfyn, terfyn tyrfau,
 8 Yr berchir pob gwir, goënwir gau.
 Ar fynydd Pibl bydd pobl beddau—i gyd
 Ar gynullyd cryd creaduriau,
 A Iesu a'i lu ar law ddeau,
 12 A'i loes dros bumoes a'i groes a'i grau,
 A'i farn lemddoeth goeth, herwydd gwythau—hawl,
 Wybodawl nodawl, ar eneidiau.
 Ni cherir enwir dyhir, diau,
 16 Ni cherydd Dofydd difanw camau,
 Ni châr hael drugar drygau—presennawl,
 Ni chanmawl diddawl deddf eglwysau.
 Ni chyrch camweddog, fradog frydiau,
 20 Heddiw (braw geithiw!) ar bregethau,
 Ac ef afory, feryf cythrau—wall,
 Dyn dall drud angall, dan draed Angau.
 Credaf W'r clydwr clod dieisau
 24 A wnaeth tri amser, bryder brodiau:
 Oes gyntaf Addaf, oddau—anolaithe,
 Heb raith, heb gyfraith, paith pechodau.
 Llewyd ail, cyngor Eurddor urddau,
 28 Llên taplys Foesen, gan Rhên rhiau;
 Llyna y bu da dechrau—dioleddf,
 Amser greddf dan ddeddf gynneddf gynnu.
 Trydydd daeth Bedydd doeth wybodau,
 32 Amser rhad Mab mad, Gwyliad golau:
 Hwn da a bara hwy no barau—cnawd
 Hyd Ddydd Brawd aerawd giwdawd gadau.
 Gwae ni châr, cyn cladd pridd gradd gruddiau,
 36 Cymryd rhan benyd rhag rhyn boenau;
 Gwae a gâr daear adwyau—adwedd

- Ac na châr buchedd senedd seinau;
 Gwae ni wŷr synnwyr llwyr uwch llyfrau;
 40 Gwae ni wŷl cyfyl y rhaid cofau;
 Gwae ni weinydd ffydd ffyrf Ddeddfau—Ddengair
 Er Mab mawrgrair Mair, Cadair cedau.
 Câr y tad, ynad enw diamau,
 44 Anrhydedda'r fam ddinam ddoniau,
 Na wna na thraha na thriniau—anfad,
 Na thrais na lledrad na brad brydiau,
 Na ladd galanedd, garedd gurau,
 48 Na losg dai nid llai no'r lladdfaau,
 Na fydd camdystydd, mor dost amau—'r iawn,
 Bydd Gristawn deddflawn ym mhob daddlau.
 Cais ymgadw â'th lw a'th ladd os gau,
 52 Casa gyd y byd budr ei gyfrau.
 Cysegrir cywir rhag cawadau—gwall,
 Cusul call nid dall, nid twyll eiriau.
 Rhed at beriglor, puror parau,
 56 Rheudus ceryddus rhag careddau;
 Edrych, y lle bych, bached dechrau—gwedd,
 Coffa dy ddiwedd, oerfedd arfau;
 Lluydd saith briwydd, rewydd rywau,
 60 Lliaws yw cyngaws ac eu ceingau:
 Llewyd syberwyd sybwll ffau—hirdrwyg
 Uffern dywyllwg, mwg meginau;
 Llycid cynghorfynt, clwyf letgynt clau,
 64 Llawer llawr nifer, llwyr anafau;
 Llid, gwae a'i dilid am dalau—camwedd;
 Llesgedd, gwael garedd, nid gwâl gorau;
 Cebyddiaeth hirgaeth waeth weithredau,
 68 Cabl a fyn erbyn oerboen adnau;
 Godeb glythineb, glwth enau—amhryd;
 Godineb hefyd, gwŷd gweddïau.
 Rhag y saith dylaith ac yw dolau,
 72 Rhygaeth elynaeth eu tadmæthau,
 Bid saith weithred Cred fal creirau—i'm plaid
 (Nid trwy geryddaid), trugareddau.
 Coelaf Naf pennaf, warthaf wyrthau,
 76 Colofn gwedd eofn y gweddïau.
 Duw a bair, a Mair, o'm oriau—cyson,
 Ym orffen gwirion ganon genau.
 Diwyd wyf i'm Rhwyf, ni'm gad clwyf clau,
 80 Diwedd enrhydedd Dewin rheidiau.

Rheodus wyf, ddyndlwyf Ddawnblaid,—yn gwrthrych,
 Rhag gorthrech cythreulaid,
 Gwraf Naf, nef i'm enaid,
 Gŵyr Celi, fy Rhi, fy rhaid.

84

Ffynonellau

A—J 111, 1237 B—Llst 145, 39^r (rhif 118) C—Llst 147, 116 D—Pen 118,
 152

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darllenïadau'r llawysgrif

13 darn. 21 kythreul; herwydgyth eu. 59 riweu. 61 lleuyt. 69 ampryt. 84 *dilynir y llinell gan y geiriau* Reit oed ym oblett et cetera *yn cyrchu dechrau'r awdl.*

Awl i Dduw

- Rheidrwydd arnaf oherwydd y grasusau pennaf
 ([Megis] rhedwr tuag ataf yw Angau mwyaf cyfyng!),
 Fyddai gras heb gariad ffals i garu
- 4 Yn y ffordd orau [yr] Arglwydd, Cynhaliwr llwythau.
 Oherwydd nid oes na moesoldeb na deddfau cyfiawn
 Gan un nad yw'n Gristion, [yn ei] sgroliau maith,
 Ar gyfer dydd [yr] alwad, diwedd torfeydd,
- 8 Yr anrhydeddir pob un ffyddlon, [ac] enwir fydd [y] drygionus.
 Ar fynydd [y] Beibl bydd pobl [wedi cyfodi o'u] beddau ynghyd
 Mewn cynulliad [a fydd yn] ddychryn [i] greaduriaid [dynol],
 A Iesu a'i lu ar ddeheulaw [y Tad],
- 12 A'i loes dros bum oes [y byd] a'i groes a'i waed,
 A'i farn lem a doeth [a] phur, yn unol â[i] ddieterau cyfiawn,
 [Barn] wybodus o benodol, ar eneidiau.
 Ni cherir un drwg [a] chnafaidd, yn sicr,
- 16 Ni cherydda Duw ddirmygu camweddau,
 Ni châr [yr un] bonheddig trugarog ddrygau trigolion y byd,
 Ni chanmola wrthod arfer eglwysi.
 Nid â un anghyfiawn, [gyda'i] feddyliau twyllodrus,
- 20 Heddiw (caethiwed brawychus [sy'n ei ddisgwyl!]) i [wrando]
 pregethau,
 Ac yntau yfory, [megis trwy] dwyll barcud [a'i] grafangau,
 Dyn dall [a] rhyfygus [ac] annoeth, dan draed Angau.
 Credaf yn [y] Gwron [sy'n rhoi] amddiffyn [ac sy'n] ddibrin [Ei]
 glod
- 24 A wnaeth dri chyfnod, [trwy] ofal barnau:
 [Yr] oes gyntaf[, sef oes] Adda, [un ac iddi] berwyl anochel,
 Heb ddeddf, heb gyfraith, anialwch [llawn] pechodau.
 Gosodwyd ail, cyngor Pennaeth rhagorol [yr] urddau,
 28 Dysgeidiaeth tablau Moses, gan Arglwydd [yr] arglwyddi;
 Felly y bu dechrau diwyro yn dda,
 Oes [o] gadernid dan foes deddf ynghynt.
 Yn drydydd daeth Cristnogaeth [a'i] moesau doeth,
- 32 Oes raslon [y] Mab mad, [y] Ceidwad disglair:
 Pery[’r cyfnod] da hwn yn hwy na thrachwantau[’r] cnawd
 Hyd derfysgoedd torf cynulliad Dydd [y] Farn.
 Gwae[’r sawl] ni châr, cyn [ei ddodi yn y] bedd [a'i] bridd [dros]
 urddas [ei] ruddiau,
- 36 Wneud cyfran o benyd rhag poenau geirwon;
 Gwae [’r sawl] a gâr gilfachau darfodedig [y] ddaear
 Ac na châr fuchedd cynulliad [y] saint;

- Gwae[’r sawl] na chaiff ddoethineb llwyr uwchben llyfrau[’r
Beibl];
- 40 Gwae[’r sawl] na chenfydd agosrwydd [yr] orfodaeth [i wynebu]
atgofion [am bechodau];
Gwae[’r sawl] na weithreda ffydd gadarn [y] Deg Gorchymyn
Er mwyn Mab mawr Ei anwylder Mair, Arglwydd bendithion.
Câr y tad, gŵr doeth [a] diamau [ei] glod,
- 44 Anrhydedda’r fam ddi-fai ei doniau,
Na chyflawna draha na brwydrau anfad,
Na thrais na lladrad na thwyll meddyliau,
Na ladd bobl, [trwy] ergydion [sy’n] bechod,
- 48 Na losga dai ddim llai na [chyflawni] lladdfeydd,
Na fydd yn dyst ffals, [peth] mor wael yw drwgdybio’r [gŵr]
cyfiawn,
Bydd yn Gristion cywir ym mhob ymwneud.
Cais gadw dy lw a fydd yn dy ladd os yw’n ffals,
- 52 Casâ gyfathrach y byd gwael ei ymddiddan.
Santeiddir un cywir rhag cawodydd camwedd,
Nid anwybodus [mo] gyngor gŵr call, nid geiriau twyll [mohono].
Rhed at gyffeswr, purwr gwaniadau [pechod],
- 56 [Ti sydd yn] un anghenus [a] drwg rhag troseddau;
Ystyria, pa le bynnag y byddych, mor fach [ar] ddechrau [ei oes]
yw[’r] corff,
[A] chofia dy ddiwedd, [sef] arfau[’r] bedd trist;
[A] byddin y saith prif bechod, mathau anweddeidd-dra,
- 60 Lluosog eu brwydr[au] a’u ceinciau:
Gosodwyd nythle maith ei ddrygioni cors balchder
[Yn] nhywyllwch uffern, [lle] mwg meginau;
Llygra cenfigen, [â] thristwch dolur[us] chwim,
- 64 Lawer cwmni tra rhagorol, [gan beri] clwyfau llwyr;
[Ynglŷn â] llid, gwae a ymroddo iddo am wobrau camwedd;
[Ynglŷn â] llesgedd, pechod iselwael, nid [y] nythle gorau
[mohono];
[Ynglŷn â] chybyddiaeth dra chaethiwus [a] gwaeth [ei]
gweithredoedd,
- 68 Y mae’n gofyn am gerydd yn wyneb poen alaethus [amser y]
claddu;
[Fel y gwna] lloches glythineb, [a’i] genau barus anamserol;
[A] godineb hefyd, drygioni [sy’n] ennyn] deisyfiadau.
Rhag y saith carchar a’u maglau,
- 72 [A] gelyniaeth dostlem eu tadau maeth,
Bydded saith gweithred Cristnogaeth fel amddiffynfeydd o’r
plaid

(Nid trwy geryddiadau), [sef y] trugareddau.

76 Credaf yn [yr] Arglwydd goruchaf, pennaf [Ei] wyrthiau,

Cynhaliwr gweddïau di-ofn [Ei] ffordd.

Pair Duw, a Mair, oherwydd fy ngweddïau cyson,

Imi gyflawni cyfraith uniawn [y] genau.

Ffyddlon wyf i'm Harglwydd, ni fydd yn caniatáu [imi ddioddef]
archoll sydyn,

80 [Y] Dewin anghenion yw pen-draw parch [defosiynol].

Anghenus wyf, Amddiffyn[nwr] graslon [y] ddynoliaeth, yn
gobeithio,

Rhag buddugoliaeth cythreuliaid [arnaf],

[O] Arglwydd gwrolaf, am nef i'm henaid,

84 Gŵyr Duw, fy Mrenin, fy angen.

Englynion i Fair

- 4 Gwedy crair Creawdr difai,
Llanw môr-gymlawdd nawdd Noe,
Nid gwall (ym mwynball y mae):
Nid gwell crair no Mair na mwy.
- 8 Mwyaf gair crair Creawdr nef,
Maint braint breinhol Dad uchaf;
Mawrdal gynnal yw gennyf
Mair yn eilgair anwylgof.
- 12 Cof Iesu, llwyth bru, braint noddfa—ddisglair,
Diwair Fair ferch Anna;
O ryw, mawr yw Maria
O rad pur Dad a'm pair da.
- 16 Da fu forwyn fwyn fenwyd,—arbennig
Erbyniaid Glân Ysbryd;
Deifnog Fair ddiwair ddiwyd,
Defnydd dwyn Bedydd i'r byd.
- 20 Byd Greawdr, Llywiawdr llawer,
Bid grair ym Fair rhag Ei fâr;
Pibl a wnaeth, ffraeth ffrwythdir,
Pobloedd a murioedd a môr.
- 24 Môr Amherawdr, Rhwyddiawdr rhodd,
Mur Greawdr llwyddwawd ni'm lludd;
Morwyn gan, pâr ym ran rydd,
Mawr gariad, o'i wlad a'i wledd.
- 28 Gwledd gyfiawn o'm dawn i'm dwyn—a'm hebrwng
Bwyf deilwng adolwyn
Disglair ddiwair Fair Forwyn,
Gwawr tud, gwir fynud, gwryw fyn.

Mwyniant a dalant: dyly—pob genau
(Y ganon yw hynny)

32

Moli Trindawd o'r frawd fry,
Molawd, mawr wawd, Mair wedy.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 195^v B—J 111, 1247 C—LIGC 4973B, 281^v D—Llst 133, 305^v (rhif 889) E¹—Llst 147, 128^v E²—Llst 147, 129 F—Pen 118, 164

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

30 gonon. 32 yn dilyn ceir y geiriau Gwedy vt supra yn cyrchu dechrau'r gyfres.

Teitl

casnodyn.

Englynion i Fair

- Ar ôl anwylyd [y] Creawdwr perffaith,
 [A] llanw môr-ymchwydd noddfa Noa,
 Nid gwall[us yw dweud hyn] (mewn mantell dyner y mae):
 4 Nid oes well anwylyd na Mair nac [un] ragorach.
- [Y] newydd pennaf yw anwylyd Creawdwr [y] nef,
 [Un]faint [ei] rhagorfraint [â'r] Tad breiniol goruchaf;
 Cyfrif mawr ei fudd gennyf
 8 [Yw cyfrif] Mair yn air newydd o gof annwyl.
- [Un sy'n dwyn ar] gof Iesu, llwyth [ei] chroth, ddisglair noddfa
 braint,
 Yw Mair ddiwair ferch Anna;
 O ran [ei] bath, mawr yw Maria
 12 Sydd trwy ras [y] Tad sanctaidd yn peri da imi.
- Da fu[r] forwyn fwyn ei natur, pennaeth
 Derbynwyr [yr] Ysbryd Glân;
 Mair fendithiol [a] diwair [a] ffyddlon,
 16 Modd i ddwyn Cristnogaeth i'r byd.
- [Am] Greawdwr [y] byd, Arglwydd llaweroedd,
 Bydded Mair yn amddiffynfa imi rhag Ei ddigofaint;
 Gwnaeth [Ef yr] Ysgrythurau, [a'r] ffrwythdir toreithiog,
 20 Pobloedd a[u] gwarchodwyr a[r] môr.
- [O] Ymerawdwr [y] môr, Rhoddwr anrheg,
 Ni fydd [yr] Amddiffynnwr-Greawdwr yn llestair cân ddedwydd
 imi;
 Forwyn wen, pâr imi gyfran hael,
 24 [Trwy] fawr gariad, o'i wlad a'i wledd.
- I'm dwyn a'm hebrwng trwy fy nawn i[r] wledd ddaionus
 Boed imi weddio yn deilwng ar
 Fair Forwyn ddiwair [a] disglair,
 28 Arglwyddes pobl, [un o] wir gwrteisi, gwry dyner.
- [Ad-]dalant [â] daioni: y mae pob genau dan rwymedigaeth
 (Rheol yw hynny)
 I foli[r] Drindod oherwydd y farn fry,
 32 [A chanu] moliant, [ar] gân fawr, [i] Fair wedyn.

Englynion i Fair

- 4 Ni ddywaid preladiaid prudd
Yn moli Mair gair gormodd,
Eglwys wogawn, wiwddawn wedd,
Eglurder deddf hanner dydd.
- 8 Dydd Barn, cadarn ortho, wrth
Dduw dy Dad, hirwad hwyrwarth,
Dywed, em barthred ym borth,
Diwyd air, diwair Fair ferth.
- 12 Berth obaith, gyfraith gyfrif,
Parch a haelder mam Nêr nef;
Pall y mae, nid cae i'm cof,
Pwyll mawr didwyll Mair dodaf.
- 16 Dodaf fy mryd rhag pyd poen,
Didawl hawl, ar hael forwyn;
Dyd i'm rhaid ym blaid o'r blaen,
Didwyll fawr gannwyll, Fair gain.
- 20 Cain firain forwyn ddibech,
Cannwyll pwyll, pell y llewych;
Cynneddf Mair cynnydd morach,
Cynnil hoeddl, cynnal heddwch.
- 24 Heddwch llary, digrifwch llwyr,
Hawdd clybod gwir glod gwawr glaer;
Hi yw ein gogawn, dawn dioer,
Haul gain hwyl firain hael Fair.
- 28 Mair a'm pair ym puro cred,
Mawr annwyd glawr, enaid glod,
Cyn bedd saith droedfedd sythdrud,
Cynys poen cynnwys penyd.

32 I'm penyd, ergyd argoel,
O'm bodd, rhag gormodd gormail,
Mi, fau ynni, fo annwyl,
Mau rwydd, Mair hylwydd mor hael.

36 Hael yw, harddfam Llyw pob llwyth,
Hylwydd ddawn o bob iawn iaith,
Haul ddwyrain fawr gain, Fair goeth,
Hwyl fawr annwyl fireiniaeth.

40 Mireiniaeth fal y gwnaeth gwnaed
Mad (mawr a rad!), Mair, eirioed;
Morwyn eurddwyn a urddwyd,
Min pob dewin a'i dywaid.

Ffynonellau

A— J 111, 1247 B—Llst 133, 305^v (rhif 889) C—Llst 147, 130 D—Pen 118, 164

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohono. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniad y llawysgrif

40 *yn dilyn ceir* Ny dyweit vt sup' yn cyrchu dechrau'r gyfres.

Englynion i Fair

- Nid yw preladaid doeth
 Wrth foli Mair yn dywedyd gair [yn] ormod,
 [Hyhi sy'n] ogoniant [yr] Eglwys, un rasmusol [ei] gwedd,
 4 [Ac iddi] ddisgleirdeb [megis hwnnw sy'n] arfer[ol am] hanner
 dydd.
- [Ar] Ddydd y Farn, [dydi sy'n] amddiffyn cadarn, wrth
 Dduw dy Dad, [ar achlysur] gwadiad hir [o un] maith ei
 waradwydd,
 8 Dywed, em bleid[iol sy'n] gymorth imi,
 Air ffyddlon, ddiwair Fair hardd.
- Gobaith hardd, [un sy'n ystyried] cyfiawnder,
 Parch a haelioni, yw mam Arglwydd nef.
 [Mewn] mantell y mae, nid oes rhwystr yn fy meddwl,
 12 Dodaf ddoethineb mawr [a] didwyll Mair [amdanaf].
- Dodaf fy mryd rhag perygl cosb,
 [Peth y mae] hawl ddibrin [iddo], ar forwyn hael;
 Rhydd yn fy angen gymorth imi o'm blaen,
 16 [Hyhi sy'n] oleuni mawr [a] didwyll, Mair hardd.
- Morwyn brydferth [ac] ardderchog [a] dibechod,
 Cannwyll doethineb, pell y disgleiria;
 Hynodrwydd Mair yw amlhad llawenydd,
 20 Bywyd doeth, [a] chadw heddwch.
- Heddwch tyner, hyfrydwch pur,
 Dymunol yw clywed gwir foliant [i'r] arglwyddes fwyn;
 Hi yw ein gogoniant, bendith ddiamau,
 24 Haul disglair ysblennydd [ei] gwrs yw Mair hael.
- Bydd Mair yn peri imi buro [fy] ffydd,
 [Hyhi sy'n] amddiffyn mawr ei serch, yn glod [i] enaid,
 Cyn [fy nodi mewn] bedd saith troedfedd [o ddyfnder] oer ac
 enbyd,
 28 Cyn i boen trigfan cosb [fy] ysu.
- Yn fy mhenyd, ernes [o] ergyd,
 O'm bodd, rhag [imi] ddioddef gormod gorthrwm,
 Boed imi, [dydi] fy nerth, fod yn anwylddyn,
 32 [Dydi] fy nghyfoeth, [i] Fair fuan [ei chymorth, hi sydd] mor hael.

36 Hael ydyw, mam brydferth Arglwydd pob llwyth,
Bendith ebrwydd ym mhob iaith briodol,
Haul buddugol mawr hardd, Mair ardderchog,
[Haul] mawr [ei] gwrs [o] harddwch hoff.

40 Boed i un fad (mawr o ras!), [sef] Mair,
Beri harddwch byth, fel y parodd [hi];
Anrhydeddwyd morwyn sy'n cludo aur,
Y mae genau pob gŵr doeth yn datgan hynny.

Dychan i Drahaearn Brydydd Mawr

- Graso wrthyd pryd pren sarn,—cest gallawr,
 Rhoch goedawr, rhech gadarn,
 Rhyserth, difawrnerth, dy farn,
 4 Rhus drahäus Drahaearn.
- Bramryw dwys gemyw disg, ym marn—rhwol
 Brwysg goffol, braisg uffarn,
 Breulestr gwaddod, ddyrnod ddarn,
 8 Bron afael, brenhin 'n nhafarn.
- Rhywiach id ymlid, amlwg warn—geidiog,
 Du fysog difasarn,
 Meddw di-barch, tewfarch tafarn,
 12 Maidd o gaul no medd o garn.
- Eingwir y bydd dir Drahaearn,—wŵr blin,
 Pan ddêl, blaenlloer gadarn,
 Athro anffawd fedd-dawd farn,
 16 I'th atal hual haearn.
- Graeso, arth buarth, nid buail—wallaw,
 Maidd giniaw modd gynnail,
 Tŵr mawnfwg taer salwddrwyg sail,
 20 Tarw cau sur arw, caws arail.
- Bwlian llychwelan, nid llawch weddail—gwrdd,
 Gwŷg odwrdd, gwag adail,
 Boly coly ceuffwrn, celwrn cail,
 24 Bwlmant carth, oesbarth ysail.
- Carn gwernfras, croendas, crindail—diwasarn,
 Drahaearn dra huail,
 Cawr trillawr udfawr adfail,
 28 Corf gwladaidd cyrf maidd, car mail.

- 32 Cysteg yw dy fyw, farch gefail—tinhwth,
Oed fygwth adfugail,
Costog fab, taer wrab tail,
Cest fawr bwyswest, faer biswail.
- 36 Graeso, dwlban gwlan gwlad Eryri,—faint
Cefn dyfnaint, cafn defni,
Croesanfarch cail, cribddail cri,
Crys arfau gwaelgau gweilgi.
- 40 Trahaearn tafarn, aeth Teifi—i'th gwm,
Bryd bonllwm, brad Benlli,
Fab Gronwy (oedd mwy no mi!)
Foel, faerwr berwr bwri.
- 44 Mab Gronwy min llwy, llid bricni—daeog,
Llwyth berthog llaeth borthi,
Fab Rhotbert, cuert ci,
Fab bloeddlwth bleidrwth Bledri.
- 48 Groeso, faerwr tŵr, taerfarch,—ys awen
Ysgawen, ŷs gywarch,
Pâl amdrwm flaidd, orchwyddfaidd arch,
Pŵl pen mydwl, pwn madarch.
- 52 Camel min uchel, mynycharch—gribddail
Cwm gefail, cam gyfarch,
Cawr a syrr, carw byr ei barch,
Cau eidion ceulfon, cawlfarch.
- 56 Groesaw, bwlian baw, rhag ein bod—yn chwerw,
Gof oerferw gyfarfod,
Twrf masw torf ymosod,
Torch llwyf tau glwyf, nid tew glod.
- 60 Castwrch rhyg gwŷg gwag awen,
Costog boliog o bwlian,
Cist amharch, morfarch mawrfin,
Cestaid blumynnaid blewmon.
- 64 Blewmon, oer eidion, eirioed,
Bloedd arth, blaidd llwyddwarth lladdwaed,
Trist aerfa noeth bla; no'th blaid,
Tyrstan glwyf, trech wyf, trwch wyd.

68 Trwch wyd, Twrch tryfrwyd Trwyd trist,
 Trahaearn waedfarn wawd-ddwst,
 Trig i'th wlad, faeddgad feiddgest,
 Tro, foeldin darw trafaeldost.

72 Trafaeldost oerffrost arwffriw,
 Trahaearn unsarn ansyw,
 Tau gabl tywyll barabl tew,
 Dincyr tawl dibencerdd, taw.

76 Tewi â mawrgi, mawrgaeth,
 Tad symledd, nid gwedd, nid gwaith,
 Croesanfarch collbarch ceillboeth,
 Tom, tŵr duffrom taer diffrwyth.

80 Ffrwyth nid oes, anfoes ynyd,
 O'th winllan, fwlian gwlan gwlad,
 Uthr bacsws, brwnt amws brwd,
 Eithr bocsach Ulltach alltud.

84 Alltud yw, carddryw cerddris,
 Ulltach gwlad anllad enllys,
 Wŷll udfawr tramawr trimws,
 Aill boly heiddgoly haeddgas.

88 Daramredwas bras bröydd—llawenffraeth,
 Llo iawnffrom hafodydd,
 Derwlestr trisestr, trwst gweilydd,
 Trahaearn tarw sarn ysydd.

92 March mallfras ceugas, cigydd—bogelsur,
 Bugeilson ar fynydd,
 Mab o ddysg doethion, ffysg ffydd,
 Môn ac Arfon a'i gorfydd.

96 Eidiog ewynnog, nid awenydd—coeth,
 Wyr y caeth wartheegydd,
 Palfau pryf cau cryf, ci crydd,
 Pŵl du fwdwl difedydd.

100 Perwch ddeol fföl, ffael anghelfydd—wawd,
 Gerdd odlawd gardd odlydd,
 (Bongaul rhaul, rhestr feidd-draul fydd,
 Biw bolfudr), o bob elfydd.

- 104 Bwlian baw drigiaw, dragywydd—argrai,
A garai heb geirydd,
Lle bu Fledri ddu 'n ei ddydd,
A rhyw fudr o'r hafodydd.
- 108 Swyniad praid ei dad pei dedwydd,—flewmon
Godreon, godröydd,
Bac llawn o well mawn mynydd,
Bwc melin clawdd ar fawdd fydd.
- 112 Boly chwÿd ci bawlyd, cebelydd,—dwlban,
Llachwethan, llyw chweithydd,
Byddai rhyg bawai, plyg plydd
Baddag, maidd nawn llawn llonydd.
- 116 Tarw sarn Drahaearn drahir,—fföl oergau,
Ffilorgerdd anghywir;
Llusg y tail, llesg y telir
I'th blant a dorrant o dir.
- 120 Tarw yw hwn tewfwn, tabar—du bradog,
Di-bryd i esgar,
Tad eirddiaid broniaid brynar
Tegach no'i forach ei fâr.
- 124 Tarw maerdai cylch crai, nid crair,—cynhebig,
Tŵr mwsglgryg gwÿg gwag air,
Llwyr annawn, llawer anair,
O'th ryw yn gwir ddistriw gwair.
- 128 Mywn cae y mae'r maerwr,
Plant a deilant ei dalar,
Mab a ardd carnhardd, carnhir,
A merch ffloch wylltgoch welltgur.
- 132 Craff y'i heirch y cleirch, clerswm—mŵn geilliau,
Mân gyllaill ac offrwm,
Cefnrhwd ribwd crwydrugd crwm,
Cafnrhwth grwth gwyrglwth garwglwm.
- 136 Tabwrdd mal godwrdd, moel gidwm—bratog
Mywn brytys ofergwm,
Sarffaidd roch, bloedd hengloch blwm,
Safn baedd mywn ennain baddwm.

- 140 Côt cewri, bleiddgi bloeddgwm,—câr clergwrth,
Cawr clawrgrach, tom barlwm,
Corff pannawr, car tramawr trwm,
Cur cansestr, yidlestr iadlwm.
- 144 Gwrdd ribwd ysgrwd, ais grëyr—aelgrwm,
Baw geugwm, bygegyr,
Garw gatarw, goet-hwch milwyr,
Gwrhyd Cai, nid llai no Llÿr.
- 148 Cafngau faedd codau cadr ebyr—ambawr
Â'i ymbil nyw hegyr,
Cart llewpart llopan lythwyr,
Car gwyddion a'i sôn uwch sÿr.
- 152 Rhyfawr yw'r crythawr, crwth eryr—ysgaw,
Esgyrn march digehyr,
Rhochedew rhefrdrew, glew glegyr,
Rhechdardd, cardd, cerddgarth, gwarth gwÿr.
- 156 Rhag dy faint gwyrrth saint, gwarth sengi—trillawr,
Trallod yw dy borthi,
Cerbyd nâg, carw gwag, gwae di,
Côt difwyn, cerwyn cewri.
- 160 Ysgerbwd rhibwd, rhabi—gosgeiddig,
Ysgwyddau pilwri,
Mynwgl hendwrdd, crinfwrdd cri,
Maen bonllwm mwy no Benlli.
- 164 Ni aned o Gred, grefft eri—grythawr,
Ên bloeddgawr, un bleiddgi,
Athro clêr, swmer somi,
Uthrach na thaerach no thi.
- 168 Llyma grythawr mawr, fy mâr—a'i gorfydd,
Gorfau hendwrdd byddar,
Duryndardd, oesgardd esgar,
Dawn nis caiff a Duw nis câr.
- 172 Sef yw, safn cemyw, cymar—lwyth lefrchan
Eithr lefan (uthr lafar!),
Bloeddleidr, tÿr ereidr tir âr,
Blif bleiddiau rhochgau rhechgar.

176 Blin yw maint ei fin, anfanïar—ribwd,
 Rhyw bydew cerdd watwar,
 Dwrdd dwfn, dabwrdd dan dabar,
 Dyrdan, llanw o dân mywn dêr.

180 Cau yw'r crythawr mawr mygrgraff—raff, marchgaul,
 Câr gwestraul, cawr gwastraff,
 Cur oerfrwydr, oesgrwydr ysgraff,
 Cosyn gren, caseg bren braff.

Ffynonellau

A—J 111, 1343 B—LIGC 4973B, 337^v C—LIGC 21287B, 96 D—Llst 147, 248 E—Pen 118, 241

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohono. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 191–3.)

Darlleniadau'r llawysgrif

5 d6ysg emy6. 8 aual; brenhin auarn. 13 Eigwir. 28 carr. 30 atuugeil. 47 palamdr6m. 53 d6lyan. 78 v6inlan. 103 nydyd. 112 meidna6n. 115 llust. 139 panor. 147 lythmyr. 175 dyf6n.

Dychan i Drahaearn Brydydd Mawr

- Croeso iti'r siâp pren drylliedig, bol [fel] crochan,
 [Un â] rhoch sy'n diaspedain trwy'r coed, nerthol [dy] rech,
 Rhy anghwrtais, tila, yw dy farn,
 4 Drahaearn ddychryn[llyd] o drahaus.
- Rhechlyd [ac fel] gleisiad tew [ar] ddysgl, ym [mater traethu] barn
 [seiliedig ar] reol
 Un meddw [a] ffôl, mawr [ei] fferau,
 Llestr brau [llawn] gwaddod, tipyn [lluiniwr] ergyd [o gerdd],
 8 Gafael[wr mewn] bron[nau], brenin mewn tafarn.
- Mwy arferol iti, [y] cadwr bacsau amlwg,
 Uffermol o ddrewllyd heb gwpan,
 Meddwyn di-barch, march tew tafarn,
 12 Yw canlyn gloywon llaeth o flochda na medd o gorn yfed.
- Llawn awydd y bydd Trahaearn aruthr, gŵr blin,
 Pan ddêl, [adeg] lleuad newydd gref,
 Athro [â] barn [seiliedig ar] feddwdod anffortun[us],
 16 Hual haearn i'th atal.
- Croeso, arth buarth, nid [un sy'n] tywallt [diod o] gyrn yfed,
 [Bwyta] cinio gloywon llaeth yw[r] arfer y mae'n ei gynnal,
 Tŵr [o ddyn sy'n drewi gan] fwg mawn [ac sy'n] erwin [ac megis
 adeilad] gwael a drwg [ei] sail,
 20 Tarw twyllodrus [ac] annymunol o arw, [un sy'n] gofalu am gaws.
- Tarw hurt, nid [un â'i] loches [mewn] deiliach nobl,
 [Gwneuthurwr] twrw ofer, [sy'n byw mewn] adeilad di-werth,
 [Un â llond] bol o gol[ion haidd o] ffwrn agored, [cludwr] celwrn
 [i] gorlan,
 24 [Bwytawr] cawl carthion, [un â] thragwyddol aelwyd [i] ysbail.
- Bryn bras ei wernydd [o ddyn], cruglwyth mewn croen, [un â]
 thail sych heb wellt,
 Trahaearn dra hualog,
 Cawr [cyfuwch â] thri llawr [a] mawr ei udo [sy'n byw mewn]
 murddun,
 28 [Pen-]gynheiliad garwfoes cynheiliaid [sy'n yfed] maidd, [cadwr]
 ffrâm [ac ynddi] ddiodlestr.

Helbul yw dy fywyd, farch gefail [gof] agored dy din,
 Bugail drwg [sy'n datgan] bygythiad [o] oed,
 Mab cerlyn, epa gerwin [uwchben] tail,
 32 [Un â] bol mawr [ar ôl bwyta] gwledd drom, ffermwr biswail.

Croeso, [gwisgwr] brethyn di-liw [wedi ei wneud o] wlân bro
 Eryri, [un o] faint
 Trum dwfn ei hafnau, [un â] thin [sy'n] diferu,
 March gwirion [gerbron] praidd, cribddeil[iwr] garw,
 36 [Un â] chrys arfau gwael ac ofer [ger y] môr.

Trahaearn [y] dafarn, llifodd [Afon] Teifi i'th grombil,
 [Dydi â] chorff tinnoeth, dichell Benlli,
 Mab Goronwy (mwy ydoedd na mi!)
 40 Foel, ffermwr berwr [ac iddo] dewder.

Mab Gronwy [a'i] enau [fel] llwy, [a] dicter adyn [o] daeog,
 [Aelod] goludog tylwyth [sy'n] cludo llaeth,
 Mab Rhotbert, [trigiannydd mewn] lloches ci,
 44 Mab croch o wancus ei lwyth Bledri.

Croeso, [y] ffermwr [tebyg i] dŵr, march gerwin, awen
 [Yr] ysgawen [sydd gennyf], bwyta gywarch,
 [Y] blaidd trwm dy bâl, [â] gwasg [wedi] gorchwydd[o gan] faidd,
 48 [Yr] hurtyn pen mwdwl, llond sach [o] fadarch.

Camel [a chando] enau uchel, cribddeil[iwr] mynych ei gais,
 Cwm [lle y mae] gefail, [un] anghyfiawn [ei] hawliad,
 Cawr sy'n sorri, carw byr ei anrhydedd,
 52 Eidion ffals a'i din wedi ceulo, march hoff o botes.

Croeso [iti], darw tomlyd, rhag inni fod yn chwerw,
 Gof di-ffrwt [dy] frwydr[o],
 [Gwneuthurwr] twrw di-werth [wrth] ymosod ar lu,
 56 Torch llwyfen [a haeddir gan] dy glwyf[au di], nid mawr glod.

Twrch cas diwerth [y] rhyg [a] gwag [ei] awen,
 Sarrug [a] boliog o darw,
 Cylla gwaradwydd[us], morfil mawr ei geg,
 60 Llond bol llethedig (?) [megis eiddo] negro.

Negro, eidion annymunol, [fuost] erioed,
 [Un â] bloedd [fel rhwad] arth, blaidd ffyniannus ei warth [a]
 lladdgar ei natur,

64 Pla llwyr [ar] ymladdfa drist; trech ydwyf [i],
Clwyf[wr fel] Trystan, na'th ochr, [ac] anffodus ydwyg [tithau].

68 Anffodus wyt, Twrch Trwyth trist brwydr,
Trahaearn gwaed[lyd] dy farn [a] salw dy gerdd,
Aros yn dy fro, [gyda'th] genfaint [a'u llond eu] bol [o] faidd,
Tro ymaith, [y] tarw moel dy din [a] thost dy helbul.

72 Tost dy helbul [a] thrist dy sŵn [a] garw dy olwg,
Trahaearn [y] llanastr unigryw [o ddyn] ffôl,
[Ac ynglŷn â] 'th enllib tywyll [ei] air [a] bras,
[Y] tincr tlodi diawen, taw.

76 Nid yw'n [fawr o] waith tewi â [sôn am] gi mawr [o ddyn], taecog
mawr,
Tad hurtrwydd, nid gweddeiddrwydd,
March gwirion wedi colli parch [a] gwyllt ei geilliau,
Cruglwyth, tŵr [o ddyn] ysgeler a ffromllyd [a] gerwin [a]
digynnyrch.

80 Nid oes gynnyrch, [yr] un anfoesgar [ac] ynfyd,
O'th winllan, [y] tarw [o ddyn sy'n gwisgo] gwlan gwlad,
... enbyd, stalwyn aflan [a] nwydus,
Ond ymfrost [megis eiddo] alltud [o] Wledd.

84 Alltud ydyw, un gwaradwyddus sy'n ceisio canu,
[O] Wledd, gwlad [sy'n] anllad [ac] atgas,
Tylluan uchel ei chri [a] mawr iawn [a] drewllyd deirgwaith,
Cerlyn [a] bol [llawn] col[ion] haidd sy'n haeddu cas.

88 Crwydryn corffol bröydd llawen a hael,
Llo gwir ffromllyd hafodydd,
[Daliwr] llestr derw [y tywalltwyd iddo] dri [llond] casgen [o
ddiod], [gwneuthurwr] twrw ofer,
Trahaearn [y] tarw [sy'n creu] llanastr sydd [wrthi].

92 March melltgedig a thew [a] ffals a chas, cigydd sur hyd ei
berfedd,
[Un â] llais bugail ar fynydd,
Bydd mab o ddysg doethion Môn ac Arfon,
[Trwy] ruthr [ei] hyder, yn ei orchfygu.

Un heini [ac] ewynnog, nid awenydd coeth,
 Wŷr y gwartheygydd caeth,
 96 [Un] â phalfau bwystfil [o ddyn] ffals [a] chryf, ci crydd,
 Penbwl mwdwl tywyll [ac un] anwar.

Parwch hel ymaith un ffôl, [a'i] gân yn fethiant anghelfydd,
 Odlwr cywilydd[us ar] gerdd druenus,
 100 ([Ynglŷn â] blochda [ei] din ..., rhes o faidd wedi ei dreulio fydd,
 [Megis eiddo] gwartheg budr eu bol[iau]), o bob bro.

Tarw [ydyw] a garai ymdroi [mewn] baw, un bythol flin,
 Y tu allan i gaerau,
 104 Lle bu Bledri ddu yn ei ddydd
 Ac [un] aflan ei natur o'r hafodydd.

Pe bai swynwr praid ei dad yn ddedwydd, negro[r]
 Godreon, [y] godrwr,
 108 [A'i] ddillad llawn o wellt mawn [y] mynydd,
 Bwch melin clawdd ar fin boddi fydd[ai].

Chwŷd [o] fol ci bawaid [yw'r eiddo], bwcedwr, [gwisgwr]
 brethyn di-liw,
 Anghenfil, pen-flaswr,
 112 Byddai[r] bwytawr] rhyg [o] ddyhiryn brwnt, [trwy] blyg meddal
 Cwlwm rhedeg, yn [folaid o] faidd llawn [a] llonydd [am] hanner
 dydd.

Trahaearn tra thal, ffôl [ac] ysgeler o dwyllodrus, [sy'n] darw [yn
 gwneud] llanastr,
 [Un a chanddo] ffilorgerdd ffals;
 116 [Am] lusg[o'r] tail, yn wael y telir
 I'th blant sy'n torri [cwysi] o[r] tir.

Tarw trwchus ei faich yw hwn, [a'i] wisg ddu fradwrus,
 Hagr yng ngolwg dieithryn,
 120 Tad aradrwyr bryniau braenar,
 Tecach yw ei lid na'i lawenydd.

Tarw hafodydd bro lom, nid un annwyl, yw [dy] debyg,
 Tŵr [o ddyn] croch ei lais [ac] ofer [a] gwag [ei] air,
 124 Cwbl ddi-ddawn, [llefawr] llawer enllib,
 Oherwydd dy natur yn gwir wastraffu gwair.

Mewn cae y mae'r ffermwr,
 Y mae [ei] blant yn teilo ei dalar,
 Y mae mab yn aredig [a chanddo] gorn yfed rhagorol, corn yfed
 hir,
 128 A merch lysti wyllt a choch [ei gwallt] yn curo gwellt.

Yn daer y cais yr henwr musgrell hi, crwydryn [a chanddo]
 geilliau [fel] metel,
 [Gan gynnig] cyllyll bychain ac anrheg,
 Trythyllwr crachlyd ei gefn [a] chrwydrol ei gwd [a] chrwm,
 132 Bol[iog o ddyn] agored ei din [a] gwyrgam a barus [a] garw ei
 ymgydiad.

[Un fel] tabwrdd [sy'n gwneud sŵn] fel twrw mawr, blaidd moel
 carpiog
 Mewn lldrau byrion [sy'n gorchuddio] tin ddiffaith,
 Sarfffaidd [ei] roch, [â] bloedd [sy'n swnio fel] hen gloch blwm,
 136 [Un â] safn baedd mewn ymolchfa baddon.

[Un cymaint â] chôr cewri, bleiddgi croch ei din, cyfaill crwth
 clêr,
 Cawr cramennog, cruglwyth [o ddyn] penfoel,
 [Un â] chorff pannwr, [un fel] cerbyd mawr iawn [a] thrwm,
 140 [Dioddefwr] cur can cawg, [bwytawr] di-wallt [o] lestr uwd.

Ysgerbwd gŵr trythyll hy, [fel] crëyr aelgam [o ran ei] galon,
 [Un â] thin agored baw[aid], cacynen,
 Tarw ymladdgar garw, hwch wyllt [a helir gan] filwyr,
 144 [Un o] faintioli Cai, nid llai [o faint] na Llŷr.

Nid yw[r] baedd agored ei din [a chanddo] gibau yn hepgor
 Gyda'i ddeisyfiad[au] borfa aberoedd hardd,
 Trol llewpart [o ddyn sydd ganddo ar gyfer] pobl wantan [sy'n
 gwisgo] esgid[iau] cyntefig,
 148 Cerbyd [llawn] brigau a'i sŵn [yn cyrraedd] tu hwnt i[r] sêr.

Rhy fawr yw'r crythor, ysglyfiwr ysgawen bol[iog],
 [Un ag] esgyrn march llipa,
 Aml ei roch [a] chneclyd, craig arw [o ddyn],
 152 Un rhechlyd, [achos] cywilydd, un gwael ei gerdd, gwaradwydd
 gwŷr.

Oherwydd dy faint, rhyfeddod [y] saint, yn camu dros dri llawr yn warthus,

Poen yw dy fwydo,

[Y] trwsglyn [llawn] nacâd, carw ofer, gwae di,
156 [Yr un â] cherdd anhyfryd, [defnyddiwr] casgen cewri.

Ysgerbwd [o ddyn], masweddwr, stalwyn heini,

[Un ag] ysgwyddau [sy'n haeddu] rhigod,

[Â] gwddf henwr swnllyd, [â] chroen crin garw,
160 Talp [o ddyn] tin-noeth mwy na Benlli.

Ni anwyd o [blith pobl gwledydd] Cred, [y] crythor [a'i] grefft [yn llawn] surni,

[Tydi â] gên cawr croch, un bleiddgi,

[Yr] athro beirdd, trawst [o ddyn sy'n] twyllo,
164 Mwy aruthr na mwy gerwin na thi.

Dyma grythor mawr, bydd fy llid yn ei orchfygu,

[Un â] chorff henwr stwrlyd byddar,

[Un] ploryn[nog ei] drwyn, dieithryn bythol gywilyddus,
168 Ni chaiff ras ac nis câr Duw.

Yr hyn ydyw, [y] safn gleisiad, yw ... [o] dylwyth tebyg [iddo]

Heblaw ... ysgrech (sw'n ofnadwy!),

Lleidr croch, tŵr [o ddyn sy'n gwthio] erydr [ar] dir âr,
172 Hwrdd rhyfel bleiddiaid [ac un] rhochlyd a ffals [a] rhechlyd.

Blinderus yw maint ei enau, cleberllyd yw[r] trythyllwr,

[Un sy'n] rhyw bydew [o] ganu gwatwar[us],

[Sy'n gwneud] twrw dwfn, [megis eiddo] tabwrdd dan [ei] wisg,
176 [Megis] coelcerth, llifeiriant o dân mewn derwen.

Twyllodrus yw'r crythor mawr [sy'n haeddu] rhaff wych o dynn,
[un â] bol march,

Cyfaill gwledd, cawr gwastraff[us],

[Teimlwr] gloes [mewn] brwydr drist, [un fel] ysgraff bythol
grwydrol,

180 [Bwytawr] cosyn [o] dwb, [un fel] caseg bren[naidd] braff.

12
Dychan i Nest

Rhych gnych wrych wlych, nych drych drist,
Rhawd gnawd tlawd llawd, gwawd ffawd ffust,
Rhid wrid bid, brid did llid llost,
4 Rhaid said blaid, graid baid naid Nest.

Ffynonellau

A—BL Add 14873, 53^r B—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 60 C—CM 25, 6
D—Gwyn 19, 245 E—LIGC 1553A, 550 F—LIGC 3051D, 307 G—LIGC
3057D, 281 H—LIGC 21582E, 16^r I—Pen 86, 267 J—Pen 99, 621 K—
Pen 111, 362

Pur debyg i'w gilydd yw testunau'r llawysgrifau hyn, a'r un darlleniadau yn union a geir yn EFK. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod 191–3.)

Amrywiadau

1 *A* grych, *D* gwrych, *IJ* gwych; *B* gnychwrych wlych. 2 *AC* dlawd; *DJ* tlawd blawd; *AJ* gnawd ffawd; *ABCE—IK* ffest. 3 *A* wrüd; *H* [did]. 4 *G* blid graid; *B* gwraid; *H* [baid], *DJ* braid.

Teitl/Rhaglith

A Englyn Gorchestol; *D* Englyn Proest gorchestol; *E* gwaith kasnodvn fardd; *H* Dafydd ap Gwilym ai Cant; *I* Gwaith kassnodin.

Olnod

B Kasnodn fardd ai Cant; *D* Casnodyn Fardd; *G* Dafydd ap gwilym ai kant; *J* Casnodyn.

Dychan i Nest

Gwlybaniaeth blew [adeg] ymgydiad ag agen, [achos] llesgedd
trist [ei] gyflwr,
Cnawd truenus [llawn] blys [a ddefnyddir gan] liaws, [testun] cân
[i] ffyniant gwialen,
Cochni a fydd [yn dod o'r] ymgydiad, rhwystr costus [i]
ffyrnigrwydd pidyn,
4 Cyni [i] ochr[au] cal, diwedd angerdd yw cytgnawd â Nest.

Nodiadau

1

Yr oedd Ieuan Llwyd o Lyn Aeron yn fab i Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron ac yn dad i Rydderch, y gŵr y cysylltir ei enw â'r Llyfr Gwyn.¹ Chwaraeodd y teulu ucheldras a llengar hwn ran flaenllaw yn niwylliant Ceredigion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg,² a dywed yr Athro J. Beverley Smith ein bod, wrth ystyried llinach Ieuan Llwyd, 'yn adnabod un o aelwydydd pwysicaf a chynharaf uchelwriaeth yr oesoedd canol',³ aelwyd yr ymwelid â hi gan gewri megis Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch.⁴ Y tebyg yw mai yn ystod ail chwarter y bedwaredd ganrif y blodeuai Ieuan Llwyd.⁵ Heblaw cerdd Casnodyn iddo, y mae ar gadw awdl, cyfres o englynion ac englyn gan Hillyn,⁶ a chanodd Dafydd ap Gwilym farwnad i'w wraig Angharad.⁷ Yr oedd Ieuan Llwyd hefyd yn fardd yn ei hawl ei hun (llau. 51–2) a ddysgodd ganu amgenach i Gasnodyn (llau. 7–8; gw. hefyd ll. 7n).⁸ Y mae'n dra thebyg, hefyd, iddo fod yn swyddog mewn llywodraeth leol dan y Goron, ac o bosibl yn ŵr cyfraith yn arbenigo ar gyfraith Hywel.⁹ Fel llawer o uchelwyr y cyfnod, cyflawnai wasanaeth milwrol ar adegau, ac yr oedd ei deulu yn graddol gynnull ystad.¹⁰ Canmola Casnodyn ef yn bennaf, yn y dull traddodiadol, am ei wrhydri fel milwr a'i haelioni fel noddwr beirdd.

Ymranna'r awdl yn ddwy ran: yn y gyntaf ceir wyth pennill ar fesur gwawdodyn (llau. 1–32) ac yn yr ail ceir cadwyn o naw englyn unodl union (llau. 33–68), gyda chyrch-gymeriad yn cysylltu diwedd pob englyn â dechrau'r un canlynol, a gair olaf y gadwyn yn cyrchu ei dechrau.¹¹ Ni chysylltir dwy ran yr awdl â'i gilydd â chyrch-gymeriad (ymhellach ar hyn, gw. uchod td. 12). Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell yn y rhan gyntaf,

¹ Ar Ieuan Llwyd, gw. yn arbennig GLIBH 6–13, 109 a ACDC 86–90. Golygydd y gerdd hon eisoes yn BI B XIV 28–30, ACDC 200–7, 437–52.

² GLIBH 6 a n24.

³ 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 345.

⁴ Gw. GIG 261, n76–7.

⁵ GLIBH 13.

⁶ *Ib.* cerddi 5–7.

⁷ GDG³ cerdd 16.

⁸ Ni chadwyd, er hynny, ddim o'i waith.

⁹ GLIBH 13.

¹⁰ Ymdrinnir â'r cefndir yn R.A. Griffiths, 'Gentlemen and Rebels in Later Medieval Cardiganshire', *Ceredigion*, v (1964–7), 143–67, yn enw. 152–3.

¹¹ J. Morris-Jones: CD 294–6.

ambell un yn deirodl neu'n ddwbl. Y gynghanedd sain sydd flaenaf eto yn yr englynion. Y mae hyd y llinellau'n rheolaidd, ac eithrio llinell 15. Cynhelir y cymeriad *ll-* trwy bron y cwbl o'r rhan gyntaf, a cheir defnydd helaeth o gymeriad yn yr ail ran yn ogystal.

3–4 **Llewychfab ... / Ieuan fab Gruffudd** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

4 **budd feddyliaw** Ceir sawl enghraifft o fe. yn cael ei ragflaenu'n uniongyrchol gan ei oddrych neu ei wrthrych yn y gerdd hon: cf. *talm ddymunaw* (ll. 5), *fainc fyddinaw* (ll. 10), *eirf gawr guriaw* (ll. 13), *Lloegr ddinistraw* (ll. 20), *dryswch dreisiaw* (ll. 21), *brwydr ymlid* (ll. 39), *gwst gynnal* (ll. 57), *cerdd gyrchu* (ll. 68). Yng ngwaith rhai o'r beirdd cynharach defnyddir cyfuniadau o'r math hwn yn enwol am berson weithiau, gw. D.M. Lloyd, 'Defnydd Cynddelw Brydydd Mawr o'r Berfenw', B vii (1933–5), 16–22: ystyr *budd feddyliaw*, felly, fyddai 'bwriadwr budd'; ond anodd yw gwybod a ddisgwyliid gweld y defnydd rhagenwol hwn mor ddiweddar â'r 14g.

6 **bewn** Ffurf 1 un.amhff.dib. *bod*, gw. GMW 138.

7–8 Gw. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg ... hyd at 1535* (Caerdydd, 1932), 53, 'Calon y Cantref Mawr rhwng Teifi a Thywi oedd Caew. Nid nepell oddi yno'r oedd y Cryngae, cartref Llywelyn ap Gwilym, ewythr ac athro i Ddafydd ap Gwilym. Dengys toddaid Casnodyn fod yr ardal yn enwog am farddoniaeth o fath newydd a phoblogaidd, "sochathiaith beirdd caith", y math o ganu a gysylltir yn arbennig ag enw Dafydd ap Gwilym. Canmolir Ieuan am na noddai ef y cyfryw ganu.' Gw. hefyd TLIM 113 lle y derbynnir y farn hon. Yn DGIA 21 gwelir yma gyfeiriad at y glêr, ac awgrymir iddynt efallai ddigio Casnodyn trwy ei ddychanu. (Ar ddirmyg penceirddiaid y cyfnod at y glêr, gw. uchod td. 5.)

7 **Llyw a'm dysgawdd ... gerdd berffraith** Gw. uchod, td. 2.

8 **caith** Fe'i deellir yn a. gyda'r ystyr ffigurol 'iselradd', gw. ACDC 439. Y mae'n bosibl, er hynny, mai e.ll. ydyw, ac os felly, gellir tybio bod y beirdd y cyfeirir atynt naill ai wedi codi o blith y taeogion neu ynteu'n canu iddynt. (Ar y posibilrwydd olaf, gw. DGIA 46.)

Caew Cwmwd yr oedd ei barth gogleddol yn ffinio â chymydau Mabwynion a Phennardd ac a oedd gan hynny heb fod ymhell o Lyn Aeron, gw. WATU 25, 252–3.

9 **lles** Nid yw'r rheswm dros ei dreiglo yn eglur gan mai anarferol fyddai treiglo'r goddrych ar ôl ffurf 3 un.grff.myn. y f. yn *-es*, gw. Treigladau 217. Dichon, er hynny, fod *ei* i'w ddeall o'i flaen.

10 **bainc** Sef bainc gwledd, y mae'n debyg.

- 13 Ergyd *nid ... guriaw* yw na fu raid i'r arfau aros yn hir cyn cael eu defnyddio. Cf. y syniad a fynegir yn y gerdd farwnad Ladin i'r Arglwydd Rhys, BT 140 (llau. 11–12), lle y sonnir am y rhwd sydd bellach yn gorchuddio ei arfau am eu bod bellach yn segur, *Resus obit ferrugo tegit galeam tegit ensem / Arma rubigo tegit cambria resus obit*.
- 15 Sylwer bod y ll. yn rhy hir o sill oni chywesgir i o flaen *iarllaeth* neu *eurlllaw*.
- 17 **addysg** Bron na ellid ei ddeall i olygu 'profiad', cf. GSCyf 10.48n ar *dysg*.
- 18 **Brynaich** Trigolion Bernicia yn wreiddiol, sef tiriogaeth rhwng afonydd Tees a Forth gynt; ond yn ddiweddarach, daethpwyd i'w ddefnyddio am y Saeson yn ddiwahaniaeth—gw. CA xvii, 82–3, G 80, GIG 182. Yng ngwaith Iolo Goch, fodd bynnag, dynoda'r Albanwyr bob tro, gw. *l.c.*, ac os dyna a ddynodir yma, y mae'n rhaid fod Ieuan Llwyd, fel llawer o uchelwyr Cymreig eraill yr oes, wedi brwydro yn yr Alban yn ystod ymgyrchoedd y Goron.
- Ceidiaw** Cofnodir nifer o wŷr o'r enw hwn, ond y tebyg yw mai'r arwr o'r Hen Ogledd yw hwn y defnyddir ei enw gan y beirdd fel safon o ddewrder milwrol, gw. G 123, TYP² 307, GDB 24.58n.
- Gwrlais** Iarll Cernyw a gŵr Eigr (mam Arthur), gw. GSRh 3.13n a CLC² 744.
- 20 **Lloegr ddistraw** Cf. ll. 21 *llam Lloegrfflam*. Ymddengys y datganiadau hyn o elyniaeth at y Saeson yn rhyfedd ar yr olwg gyntaf gan fod Ieuan Llwyd yn was i Goron Lloegr (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod) ond ceir digon o enghreifftiau eraill o'r un peth yng ngwaith beirdd y cyfnod. Da y dywed Dr Ann Parry Owen, GLIBH 109, 'Rhaid cofio bod honni gelyniaeth arglwydd yn erbyn y Saeson yn rhan mor annatod o ieithwedd y beirdd yn y cyfnod hwn ag yn y cyfnod blaenorol, nes ei bod hi'n anodd gwybod beth oedd safle gwleidyddol yr arglwydd mewn gwirionedd.' Gw. hefyd D.M. Lloyd, 'The Later Gogynfeirdd' yn GWL ii, 38; GIG 222 (d.g. *Eingl*). Y tebyg yw mai confensiynol yw'r cyfeiriadau at elyniaeth Ieuan Llwyd at y Saeson yn y gerdd hon, ond gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 2.
- 22 **huawdr** Estynnir peth ar yr ystyr 'galluog, doeth' a roddir i'r a. yn GPC 1905, a'i ddeall yn ddisgrifiad o'r cleddyf.
- Huail fab Caw** Brawd i Gildas a gwron a laddwyd gan Arthur, gw. TYP² 408–10, GDG³ 453.
- 23 **cannaw** Gair ansicr ei ystyr. Cynigir yn G 107 mai *cann* 'gwyn' a *naw* (o *nawf*, bôn y f. *nofio*) yw'r elfennau. Nis ceir yn GPC 414.
- 25 **lliaws gystlwn** Fe'i deallir yn gyfansoddair llac, ond yn ACDC 443, er

cydnabod y dehongliad hwn, deallir *lliaws* yn a. (*Lliaws gystlwn hwn* ‘y mae llawer carennydd iddo’).

cyfiaw Gair ansicr ei ystyr. Cynigir hefyd yr ystyron ‘cydraddoldeb, cyfartalrwydd, gwastadrwydd; cyfaddasrwydd; partneriaeth, cydymdeithas, cydieuad’ yn GPC 693.

- 26 **llawchblas a gafas** Cf. ll. 32 lle y lleolir hwn yn Llangeitho, ond o’r ddau le y cysylltir Ieuan Llwyd â hwy, sef Glyn Aeron a Pharc-rhydderch, gw. GLIBH 10–12, anodd yw gwybod am ba un y mae Casnodyn yn meddwl yma. Os y cyntaf, y mae’n bosibl mai cyfeiriad sydd yma at etifeddu cartref Ieuan ap Gruffudd Foel gan ei fab Ieuan Llwyd. Os yr ail, gall mai arwyddocâd *cafás* yw fod Ieuan Llwyd wedi ychwanegu’r lle at ei ystad, ac y mae Dr Ann Parry Owen wedi awgrymu y dichon mai at y cartref hwn y cyfeiria Hillyn mewn englyn i Ieuan Llwyd yn dathlu codi tŷ newydd iddo, er y gall hefyd mai adnewyddu’r hen gartref yng Nglyn Aeron a olygir, gw. *ib.* 11–12.
- 27 **llys ... dyfrys** Cf. GSCyf 1.3–4 *Ac yn ei lys, brys braswydd, / Meibion ufyddion a fydd* (Sypyn Cyfeiliog).
- 30 **dygwn** Cymerir bod *hynt* yn ddealliedig ar ei ôl. Ar yr ymadrodd, gw. G 403, GPC 1130.
- 32 **Llan ... Geithaw** Gw. ll. 26n.
grymusaf Cyfeiriad efallai at rym gweinyddol Ieuan Llwyd fel swyddog mewn llywodraeth leol (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod).
- 33 **gŵr clydwr** Ceir yr un ymadrodd yn 8.23 am Grist.
clod tafarn Cf. GDG³ 28 (10.36–7) *Tydi Ifor, tad yfed, / Enw tefyrn, ynad hoywfoes*.
- 35 **coeth ei farn** Cf. cyfeiriadau Hillyn at ddysg a doethineb Ieuan Llwyd, GLIBH 7.11 *Hydr, geirgoeth, synhwyrddoeth sôn*, 7.16 *Ys Iriael iaith Is Aeron*.
- 37 **geirfarn ... hawl** Ai cyfeiriad sydd yma at swyddogaeth Ieuan fel gŵr cyfraith (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod)? Cf. hefyd GLIBH 113.
- 38 **Pebid** Nodir un Pebid Penllyn mab Sulbych yn WCD 532, sef cyndad llinach hir o dywysogion Penllyn na wyddys dim amdanynt. Cf. hefyd enw’r cantref Pebidiog (S. *Dew(i)sland*) yn Nyfed, gw. GLIF 26.34n, PNP 197, WATU 170.
- 40 **cad ôl** Cf. GBF 20.19 *Gŵabr cadarn yn catwyt ol* (‘Arglwydd cadarn yn cadw’r ôl [wrth encilio]’).
Eidiol Yn WCD 227 nodir dau gymeriad o’r enw hwn a grybwyllir yn *Historia Regum* Sieffre o Fynwy: y naill yn frenin chwedlonol ar Brydain yn yr ail ganrif C.C. a’r llall yn gonswl Caerloyw a

gyflawnodd wrhydri mawr, gan gynnwys trechu Hengist a thorri ei ben. Y tebyg yw mai'r olaf a olygir yma.

- 44 **llad** Gellid hefyd yr ystyrion 'budd, bendith', gw. GPC 2076.
- 45 **byddinled** Nodir fel ystyr arall bosibl yn G 86 'digon i lu'.
hwyrgardd GPC 1955 'araf i gywilyddio, araf i dderbyn sarhâd neu waradwydd', ond ymddengys yn llai priodol yma.
- 46 **tardd** Rhydd D yr ystyrion '*ebullitio, emanatio, egressio, pullulatio, germinatio*' (TR '*a bubbling, flowing or issuing from, a springiug [sic], a budding or sprouting, a breaking out*'). Gw. hefyd CA 351 ar y f. *tarddu* 'neidio'.
- 48 Gellid hefyd ddeall y ll. yn frawddeg enwol, yn cyfeirio at y bardd: 'Llawn cyfoeth oherwydd ei rodd helaeth yw ei [llsgr. y] fardd.'
- 53 **brwysgdreth** Nodir hefyd yn G 80 yr ystyrion eraill posibl 'treth neu deyrnged chwim' ac, fel a., 'yn hawlio treth gyflym'.
- 54 **a mwst** Llsgr. *am 6st*, ond gan fod *gwst* yn digwydd yn niwedd yr englyn, derbynnir diwygiad ACDC 449.
- 55 **cerddfrait** Llsgr. *erdreint* a derbynnir diwygiad G 528 lle y nodir y gellid hefyd ddarllen *gerddreint* gyda'r ail elfen yn ll. *rhent* 'tâl'.
Geraint Geraint ab Erbin, pennaeth a drigai yn Nyfnaint yn y 6g. ac arwr y rhamant 'Geraint ac Enid', gw. G 528, TYP² 355–60. Y mae'n bosibl mai at gerdd neilltuol am Eraint y cyfeirir, megis y gyfres englynion amdano yn Llyfr Du Caerfyrddin, gw. Brynley F. Roberts, 'Rhai o Gerddi Ymddiddan Llyfr Du Caerfyrddin', AH 286–96.
Gorwst Gwrwst Ledlwm ap Ceneu ap Coel Hen o'r Hen Ogledd a grybwyllir yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', gw. G 577–8, WCD 343, CO³ 157. Yr oedd yn dad i Eliffer (Gosgorddfawr) y cyfeirir ato yn ll. 60. Fel yn achos Geraint (gw. y nodyn blaenorol), y mae'n bosibl iddo fod unwaith yn destun cerdd neu gerddi mawl.
- 58 **câr ieuanc** Gallai *ieuanc* gyfeirio at bobl ifanc yn gyffredinol, neu at 'un ifanc' neilltuol. Os yr ail a olygir, dichon mai at Gasnodyn y cyfeirir. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl mai a. yn goleddfu *câr* ydyw.
Nudd Nudd ap Senyllt a oedd, gyda Mordaf ap Serfan a Rhydderch ap Tudwal Tutglyd (llau. 61–2), yn un o 'Dri Hael' Ynys Prydain, a chyfeiria'r beirdd ato yn aml fel safon o haelioni, gw. TYP² 476–7 a cf. hefyd 2.30.
- 59 **nur** Cynigia GPC 2599 yn betrus yr ystyrion 'arglwydd, arwr, gwron', &c.
- 60 **Eliffer** Eliffer Gosgorddfawr, un o feibion Gwrwst Ledlwm (ll. 55) a thad Gwrgi a Pheredur, dau dywysog enwog o'r Hen Ogledd a fu farw yn 580, gw. G 469, TYP² 344–5, WCD 242–3.

- 61 **Ercwlff gryf** Enwir Ercwlff, Selyf, a Rhydderch ynghyd yma fel y *tri glud* (ll. 64), ond ni chrybwyllir hwy felly yn y Trioedd sydd ar glawr, gw. TYP². Er mai arwr Groegaidd oedd Ercwlff, neu Ercwlff gadarn (*Heracles / Hercules*), fe'i rhestrir yn y Trioedd fel un o dri dyn a gafodd gadernid Adda, gw. G 483, TYP² 122, 349. Sylwer nad yw *Ercwlff* yn ffurfio cyrch-gymeriad llwyr ag *Eliffer*.
- Selyf** Y tebyg yw mai Selyf fab Dafydd Broffwyd, patrwm doethineb, a olygir, gw. TYP² 506–7, yn hytrach na Selyf Sarffgadau, mab Cynan Garwyn, a syrthiodd ym Mrwydr Caer c. 615 (*ib.* 507, WCD 585–6).
- Rhydderch** Rhydderch Hael, mab Tudwal Tutglyd ac un o reolwyr Gwŷr y Gogledd yn ystod ail hanner y 6g. Yr oedd yn un arall o 'Dri Hael Ynys Prydain' (ll. 58n), gw. TYP² 504–5, WCD 567–8.
- 62 **rhwydd** Gellid hefyd ei gydio wrth *Rhydderch*, a deall y cyfuniad yn gyfystyr â'r teitl arferol *Rhydderch Hael*.
- 64 **tri glud** Gw. ll. 61n.
- 68 **gorchudd** Llsgr. *gorchur*; derbynnir diwygiad G 111 (d.g. *card*), 557 (d.g. *gorchud*) er mwyn yr odl. Cyfeirir at orchudd pridd y bedd.

2

Dywed yr Athro J. Beverley Smith am wrthrych yr awdl hon,¹ Madog Fychan o Dir Iarll:

His standing in society is clearly indicated in both record evidence and in poetry. His elegy by Casnodyn reveals him as a man of power and authority in his community and establishes that Madog was among the earliest of the Welsh landowners of the fourteenth century who provided a new social basis for the renaissance of Welsh court poetry.²

Yr oedd yn stiward arglwyddiaeth Tir Iarll (a gynhwysai blwyfi Llan-gynwyd a'r Betws) o dan arglwydd Morgannwg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Er hynny, fe gododd arfau ddwywaith yn erbyn yr awdurdodau Seisnig, y tro cyntaf yn 1316 pan ymunodd, ynghyd â llawer o uchelwyr eraill o Flaenau Morgannwg, yng ngwrthryfel Llywelyn Bren, a'r eildro yn 1321 gyda charfan gymysg yn erbyn Hugh Despenser,

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 208–30, 453–91.

² GCH iii, 83–4. Arno, gw. hefyd *ib.* 84, 86, TLIM 7–8, 211, ACDC 92–5. Ceir ei ach yn *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae*, ed. G.T. Clark (London, 1886), 537; P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 1, 10. Fodd bynnag, go brin y gallasai Madog fod yn fyw mor gynnar â 1250–62 fel y dywedir yn yr olaf, ac ymddengys ddarvoud ei ddrysu â'r Madog Fychan ap Madog ap Cynhaethwy a grybwyllir yn G.T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgancia Pertinent* (second ed., Cardiff, 1910), 582 a 660, 661 (er nad oes sicrwydd mai'r un gŵr sydd yn yr ail set o gyfeiriadau yno). Os felly, ni wyddys pwy oedd cyndeidiau Madog Fychan o Dir Iarll.

arglwydd Morgannwg. Yng ngoleuni hyn, efallai nad confensiwn pur yw'r cyfeiriadau mwy niferus nag arfer yma at ladd Saeson (llau. 19, 22, 61–2, 154).³ Er i Fadog wrthryfela ddwywaith, yn fuan wedyn adferwyd ei hawl-iau iddo, enghraifft o fawr ddibyniaeth brenin Lloegr ar yr uchelwyr Cymreig yn y gwaith o lywodraethu Cymru, boed y rheini'n gyson deyrngar iddo neu beidio. Ni wyddys adeg ei eni na'i farw, a pherthyn y cyfeiriad hysbys diweddaraf ato i'r flwyddyn 1329.⁴ Ymunodd ei fab Owain ag ef yng ngwrthryfel 1316 (gw. ll. 135n). Dywed Casnodyn am farwolaeth Madog, *Rhydranc ieuanc iawn dawn diwatwar* (ll. 115) ac y mae'n bosibl mai ystyr hyn yw fod Madog wedi marw cyn ei amser yn hytrach na'i fod yn ifanc fel y cyfryw. Claddwyd ef yn abaty Sistersaidd Margam (llau. 53–4, 176) nid nepell o'i gartref, a hynny yn yr haf (gw. ll. 173n). Gwelir ym marwnad Casnodyn iddo yr un dwyster, diffuantrwydd a chywreirwydd celfyddyd ag a geir yn ei awdl fawr i'r Drindod (cerdd 7), a diau i farw Madog fod yn wir ergyd iddo.

Yr oedd Madog Fychan hefyd yn noddwr beirdd o fri yn Nhir Iarll, tyst o'r farwnad, a hon, meddai G.J. Williams, yw'r 'gerdd gyntaf sydd gennym i un o foneddigion Morgannwg'.⁵ Diau mai gwaith noddwyr fel ef a'i feirdd a barodd fod beirdd Morgannwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn ystyried Tir Iarll yn lle o bwysigrwydd neilltuol yn hanes eu crefft.⁶

Ymddengys fod y gerdd hon wedi ei chanu gerbron cynulleidfa lle yr oedd meibion Madog Fychan, sef Gruffudd ac Owain, yn bresennol (gw. 2.133n).

Y mae saith caniad i'r awdl hon. Ceir cadwyn o englynion unodl union a chadwyn o englynion proest yn y ddau ganiad cyntaf, gyda diwedd pob englyn yn cysylltu â dechrau'r englyn canlynol trwy gyrch-gymeriad a gair olaf y ddwy gadwyn yn cyrchu'r gair cyntaf. Cysylltir diwedd y caniad cyntaf â dechrau'r ail ganiad trwy odl fewnol. Mesur cyhydedd fer a geir yn y trydydd caniad, heb ddim yn cysylltu ei ddechrau â diwedd y caniad blaenorol (ymhellach ar hyn, gw. uchod td. 12), cyhydedd naw ban yn y pedwerydd caniad, rhupunt yn y pumed, toddaid yn y chweched, a chyhydedd hir yn y seithfed. Yn y trydydd caniad hyd y seithfed ceir cyrch-gymeriad rhwng gair olaf pob caniad a gair cyntaf y caniad dilynol. Cynganeddwyd y gerdd ar y gynghanedd sain yn bennaf, gydag amryw o linellau teirol a phengoll.

- 2 **Meirchon** Brenin o Forgannwg, neu gyndad i Fyrddin, gw. TYP² 456–7.
- 4 **bid** Ffurf 3 un.pres.arf. y f. *bod* sydd yma, ac nid y 3 un.grch., gw. G

³ Gw. 1.20n.

⁴ G.T. Clark, *op.cit.* 1158; ceir cyfeiriad arall ato yn y flwyddyn 1326, *ib.* 2362.

⁵ TLM 8.

⁶ *Ib.* 33.

- 63, GMW 136 a hefyd 12.3.
- 5 **ceinfwr** Fe'i deallir yn a. 'gwyech o gryf', gan dderbyn yr ystyr 'tew, cryf, mawr' a roddir i *bwr* yn GPC 354 (ni restrir y ffurf *ceinfwr* yn *ib.* 453); gthg. G 124 lle y rhoddir i'r cyfuniad yr ystyr 'hardd ei dudded', ac *ib.* 84 lle y cymerir mai *bŵr* 'caer, amddiffynfa' yw'r ail elfen.
- 6 **Cynfawr Cadgaddug** Ymddengys mai mab ydoedd i Gynwyd Cynwydion, arwr o'r Hen Ogledd, gw. G 247, TYP² 322–3, 531.
- 10 Ar y syniad, cf. ll. 164 *Hwyr y gŵyr, ffwyr ffoll, getgoll gytgam*.
- 13 **beirdd wisgog** Cf. GCBM ii, 11.6 *But wasgar, beird wisgauc* ('dilladwr beirdd'). Gallai hefyd, fel y nodir yn G 686 (d.g. *gwiscawc*), olygu 'â' i feirdd wedi eu gwisgo'.
- 13–16 Byrdwn y pennill hwn yw nad yw'r ffaith fod Madog gyda Christ yn gysur i'r bardd gan fod Madog wedi derbyn ergyd angeuol o'r nef. Y mae achwyn ar Dduw yn dpos yn y marwnadau, cf., e.e., GBF 36.19–20 *Ys meu, gan deunydy, ymdiuan6 a Du6 / A'm edewis hebda6* (marwnad Llywelyn ap Gruffudd gan Ruffudd ab yr Ynad Coch). Gw. hefyd D. Myrddin Lloyd, 'The Later Gogynfeirdd' yn GWL ii, 48.
- 15 **derw** Ffurf 3 un.prff.myn. y f. *darfod*, gw. G 298, GMW 146. Cf. y ffurf *deryw* yn ll. 46.
- 17 **Trystan** Trystan fab Tallwg, gw. G 394, TYP² 329–33. Diau mai at ei filwriaeth y cyfeirir yma, gw. *ib.* 332 a cf. 11.64 (*Tyrstan*).
- 18 **band trawstaer orddinid** Ar hepgor y rh.pth., gw. WG 285, Treigladau 174, a cf. 7.25, 10.31, (?) 11.18.
- 19 **tralod Eingl** Am gyfeiriadau eraill yn y gerdd at drechu'r Saeson, gw. hefyd lau. 22, 61–2, 154 a'r sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 21 **Bedwyr** Un o'r blaenaf o farchogion Arthur, gw. G 53, TYP² 279–80.
- 22 **gyrthiai Eingl** Gw. ll. 19n.
- 24 **Cedig ... Draws** Ceir hanes amdano yn bwrw Rhun fab Maelgwn Gwynedd ar ei ben â chorn yfed yn llys Maelgwn cyn ffoi at Gyndeyrn am seintwar yn Llanelwy, gw. LBS iv, 385, G 121 a'r ychwanegiadau rhwng 480 a 481, TYP² 502–3, GGDT 29.
- 25 **eirf sathrsarn—aerllu** Hynny yw, yr oedd y celanedd a greai Madog wrth frwydro fel sarn dan draed. Ar y syniad hwn, cf. GLIF 25.16 *Seri gyuarpar, sathar sathru* (Gwynfardd Brycheiniog); GLIL 23.48 *Meir6 sengi mal seri sathar*; GBF 52.28 *Gwr balch yn holi seri sathar* (Bleddydd Fardd). Gw. hefyd CA 128–9, I. Williams yn 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 148–9, I. Williams: ELI 60.
- 28 **Tri Chadarn** Gw. TYP² 122 *Tri Dyn a gauas Kedernit Adaf: Ercwlf Gadarn, Ac Ector Gadarn, A Sompson Gadarn*.

- 30 **eilNudd** Ar *Nudd*, gw. 1.58n.
- 35 **cywlad** Cynigir yn betrus yr ystyr ‘ffin, terfyn’ i’r enghraifft hon yn G 273.
- 38 **cyn** Llsg. *kynn*, ond ceid cystal, os nad gwell synnwyr, o’i ddeall yn wall am *kann* ‘oherwydd’, cf. ll. 41 *can darfu*.
- 43 Ar y topos hwn gan y beirdd lle y dyheuir am weld diwedd y byd am nad yw’r noddwr yn fyw mwyach, cf., e.e., GBF 36.71 *Och hyt attat Ti, Duó, na daó—mor tros dir!* (Gruffudd ab yr Ynad Coch yn sgil lladd Llywelyn ap Gruffudd).
anlloeth Dilynir GPC 132 ynglŷn â’r ystyr; gthg. G 30 sy’n rhoi’r ystyr ‘cyfoeth, trysor’.
- 44 **treiglfrys** Llsg. *dreigylbrys*, ond diau, fel y dadleuir yn ACDC 462, ddarfod ysgrifennu *b* yn lle *u* ar gam (peth hawdd ei wneud oherwydd tebygrwydd ffurf y ddwy lythyren yn y llsg.). Cf. GDG³ 271 (100.9) *Drwy na thorro, tro treiglfrys, / Na’r croen nac unpwyth o’r crys*. (Ni restrir *treiglfrys* fel cyfuniad yn G 81 d.g. *brys*.)
- 46 **deryw** Gw. ll. 15n.
- 52 Yr hen dopos a geir yn llenyddiaeth Cymru (e.e. gan Feirdd y Tywysogion) a gwledydd eraill (cf., e.e., E.R. Curtius, *European Literature and the Latin Middle Ages* (London, 1953), 80–2) fod yn rhaid i bawb farw, gan gynnwys y mawrion.
ethynt Ffurf 3 ll.prff.myn. y f. *myned*, gw. GMW 132.
- 53–4 **Aeth ... / ... Fargam fawrged** Cf. llau. 175–6 *Aeth ffraeth faeth fangor ... / ... mawrgoed Margam*. Ar hepgor yr ardd. ar ôl bf. yn dynodi symudiad a threiglo’r cyrchfan, gw. GMW 19, Treigladau 227–8, a cf. llau. 70, 175, 3.12, 7.95, 233, 8.61–2, 9.25. Fe ellid, serch hynny, ddeall *Aeth* yn f. gyflawn—‘ymadawodd’—a *Fargam fawrged* yn sangiad yn disgrifio Madog (‘un mawr ei rodd i Fargam’). Ar *Fargam*, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 55 **brwydr gyffro** Cf. *cad gyffro* a’i ystyron, gw. G 222 (d.g. *kyffro*).
- 56 **ysgwydrod** Fe’i deallir yn gyfuniad o *ysgwyd* (‘tarian’) a *rhod*.
- 61–2 **Eingl estwng ... / cwymp Lloegrfaedd** Gw. ll. 19n.
- 63 **blawdd** Dilynir G 57 a’i ddeall yn a. yma; gthg. GPC 284 sy’n ei ddeall yn e. ‘dychryn’, &c.
- 64 **blingur** ‘Poenus, dygn’ yn ôl G 58.
arwydd Y tebyg yw mai at faner Madog, a gludid ar flaen byddin, y cyfeirir.
- 65 **Naflywr** Cf. ll. 73 *Rhwyfllên llwyr*.
- 67 **catraws** ‘Alaethus’ yn ôl G 89 ond fel y nodir yn ACDC 466, nid

hawdd gweld ar ba sail, a haws yw ei ddeall fel a. yn cael ei ddefnyddio fel e.

llaw Petrus yw'r ystyrion 'truan, truenus, trist' a gynnigir yn GPC 2105 (d.g. *llaw*²).

68 **o'r Goetref** Y Goetre-hen (*Coytrahen*) rai milltiroedd i'r de-ddwyrain o Langynwyd (SS 8885).

69 **gloywLan ... Gynwyd** Eglwys Cynwyd Sant ym mhentref Llangynwyd ychydig i'r de o Faesteg. Cyfeiria Rhys Amheurig at Langynwyd fel enw eglwys blwyf yn arglwyddiaeth Tir Iarll, Morgannwg, ac yn y cyffiniau yr oedd Nantydulais—neu 'Nant y dylles', yn ôl yr arwyddfeirdd (gw. TLIM 8, n21)—preswylfod Madog Fychan, gw. *Rice Merrick: Morganiae Archaioграфия*, ed. B.Ll. James (Barry Island, 1983), 102–3.

70 **llafur** Yn betrus y cynigir yr ystyr 'brwydr ... *battle, military action*' yn GPC 2087, ond ymddengys mai dyna sy'n gweddu orau yma.

nef aed Ar y gystrawen, gw. llau. 53–4n. Y drefn arferol fyddai *aed nef*.

76 **bai** Ar y gystrawen, gw. G 68a, (2).

(Bai tes, nid eres) neud oer Hynny yw, ni fyddai'n syndod pe bai'n gynnes, gan ei bod hi'n haf. Ond serch hynny y mae hi'n *oer*—a dichon y chwaraeir ar ystyr ddeublyg *oer*, sef 'oer; trist'. (Cadarnheir yn ll. 173 mai yn yr haf y bu farw Madog.)

77 **cyrdd** Gallai hefyd fod yn ll. *cerdd*, gw. G 133, er bod hynny yn llai tebygol yn y cyd-destun hwn.

beirddroeg Unig enghraifft. Derbynnir awgrym petrus G 52 ynglŷn â'r ystyr mai *groeg* 'twrw', &c. (gw. *ib.* 590, GPC 1533) yw'r ail elfen. Ni restrir *beirddroeg* yn GPC 270. Cf. hefyd GDB 28.2 *Ys gwrdd yn Ionawr, mawr morgroeg*, ac *ib.n.*

79 **arwedd** Fe'i deallir yn f. 'cludo, dwyn', &c., gw. G 43 a gthg. GPC 213 (d.g. *arwedd*²), lle y dosberthir yr enghraifft hon fel e. yn golygu 'dygiad, cludiad'.

81 **gorffwyf** Ffurf l un.pres.dib. y f. *gorfod*, gw. G 565 ac isod 7.210.

82 **ymdro** Cf. GBF 36.43–4 *Nys canlyn o'e da, o'e diuer—ymdro, / Eithyr y amdo, amdlaôf biner* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Nid yw'r rhgdd. *ym-* yn ychwanegu fawr yma at yr ystyr 'hynt, cwrs, llwybr', &c. a all fod i *tro*, cf. *ymdreigl* yn y ll. nesaf ac *ymdrawd* (ll. 84). Yn yr achosion hyn chwarae a wna'r bardd ar enwau cyfystyr bron yn y cymeriad.

83 **ymdreigl** Cf. y nodyn blaenorol ar *ymdro*.

brysiad Petrus yw ei ystyr fel a. yn G 81 a GPC 341.

84 **ymdrawd** *Trawd* 'cwrs, hynt' yw'r ail elfen; am y ffurf, cf. ll. 82

ymdro a ll. 83 *ymdreigl*.

- 86 **dwyn cwyn** Cf. yr ymadrodd *dwyn galar* a'r cyffelyb, gw. G 403.
- 87–8 **canu ... / ... ddofn awen** Cf. GCBM i, 24.29 *Kyn canwyf o dwfyn, o dofn awen* (hefyd GCBM ii, 1.6, GLIL1 23.6).
- 89 **pair Ceridfen** Sef pair ysbrydoliaeth yr awen, gw. TYP² 308–9.
- 90 **Pasgen** Cyfeiriad o bosibl at un o feibion Urien, neu ynteu at Basgen ap Gwrtheyrn, un o gyndeidiau Owain Cyfeiliog o linach Powys. Mewn awdl i Owain Cyfeiliog cyfeiria Cynddelw Brydydd Mawr at yr ail, gan briodoli iddo ffyrnigrwydd milwrol (gw. GCBM i, 16.43), ond y mae'n ansicr pa un a olygir yma, gw. TYP² 488.
- 93 **cên** Ffurf 3 un.pres.myn. bf. ddiffygiol yn golygu 'poeni, aflonyddu, blino' ac a geir fynyachaf yn y ffurf *y'm cên*, megis yma, gw. GPC 461 d.g. *cên*².
- amcanddoeth** Gthg. G 21 'doeth ei amcan, o fwriad da', ond mwy priodol fyddai hynny am berson.
- 98 **y'm** Llsg. *Nym* sy'n torri ar y cymeriad a gynhelir trwy weddill y caniad, ac yn rhoi ystyr chwithig. Tebyg i'r copïwr ailadrodd yr *-n* yn *men* ar gam.
- tristit** Ar odli *-yd* (sef *cyfyd* yma) ac *-id* mewn geiriau lluosillafog, gw. D.J. Bowen, 'Pynciau Cynghanedd: Odli *I*, *U*, ac *Y*', LICy xx (1997), 139–40.
- 101 **arial Urien** Cf. GGDT 7.42 *Am atal arial Urien yn ngryd*. Ar Urien, un o frenhinoedd yr Hen Ogledd y cyfeiria'r beirdd yn aml at ei filwriaeth chwyrn, gw. CT xlvii–lv, TYP² 516–20.
- 102 **Custennin fab Elen** Sef Custennin Fawr, yr ymherodr Cristnogol cyntaf, mab Constantius Chlorus a Helena. Fe'i cymysgwyd, fodd bynnag, ag enwogion eraill o'r un enw, a'i fam ag Elen Luyddog, nes ei fod wedi ennill lle pwysig iddo'i hun yn y traddodiad Cymreig erbyn y 10g., gw. G 188, TYP² 314–15, GDB 25.32n.
- 103 **mesuroedd** Cf. 8.5–6 *Canid oes na moes na mesurau—iawn / Gan un anghristawn, rhyllawn rholau*.
- Moesen** Sef Moses.
- 105–6 **mab ... Morien / ... Bradwen** Y tebyg yw mai'r arwr Morien Mynawg yw'r tad, gŵr a grybwyllir yn yr Hengerdd, ac fel aelod o lys Arthur yn chwedl 'Culhwch ac Olwen'. Yr oedd ganddo fab o'r enw Bradwen. Gw. CA 19 (llau. 465, 468), 20 (llau. 485, 495), 25 (llau. 628, 629), a tt. 157, 168, 169, 188, 228; LIDC 36 (18.6), 43 (18.190); CO³ 7 (llau.183–4) a td. 72; GCBM i, 24.12 ac *ib.n.*; GGDT 6.72 ac *ib.n.* Y tebyg yw fod *mab* yn ll. 105 yn achub y blaen ar *Bradwen* yn y ll. ddilynol.

- 106 **bodog** Llsgr. *voda6c*. Yn G 70 cynhwysir yr enghraifft hon yn betrus dan *boda6c*, ond mwy cydnaws â disgrifiad o arwr, a gwell o ran cyseinedd, yw *bodog* ac felly y'i deellir yn GPC 294. Sylwer hefyd ei fod wedi ei dreiglo yn y llsgr. Gan fod *bryd* bob amser yn eg., ymddengys *bryt voda6c* fel petai'n gyfansoddair llac—'diwyo ei fwriad'—ond os felly, chwithig yw perthynas *Bradwen* ag ef, a rhaid rhoi coma ar ôl *bryd fodog* a deall *Bradwen* mewn cyfosiad, yn golygu '[un fel] *Bradwen*'. Ceir synnwyr cwbl foddhaol, ar y llaw arall, trwy ddiwygio *voda6c* yn *boda6c*, a gellir priodoli'r treigladau yn y llsgr. i ddylanwad y gair *vyt* a dotiau dileu o dano sy'n dod rhwng *bryt* a *voda6c*.
- 107–8 Gellid hefyd gymryd *aml nawdd* fel ymadrodd enwol—'aml yw nawdd ...', a deall y *mae* o flaen *amledd hedd*, fel y gwneir yn ACDC 473.
- 109 **golau** Ar yr ystyr hon, gw. GPC 1445.
- 115 **ieuanc** Ar ei arwyddocâd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Cf. geiriau Iolo Goch yn ei farwnad i Ddafydd ap Gwilym, GIG 90 (XXI.2) *Hoyw o ddyn pe hwy fai'i ddydd*, a Madog Benfras yn ei farwnad yntau iddo, DGG² 127 (LXXI.43–4, 7) *Och na bai hir, goetir ged, / Oes Dafydd, eos Dyfed a Rhwyfo hoed, ni ryfu hen*; hefyd Guto'r Glyn yn ei farwnad i Lywelyn ab y Moel, GGI² 13(V.17–19) *Cwyn mawr ... am na bai'n hen*. Credir yn gyffredin i Ddafydd ap Gwilym farw'n ifanc, a thebyg mai 1395–1400 hyd Chwefror 1440 oedd blynyddoedd Llywelyn, gw. IGE² lvii–viii.
- 117 **rhwyd ysgwyd** GCBM ii, 16.221n: 'Digwydd yr ymad. *rhwyd ysgwyd* neu *ysgwyd rhwyd* yn gyff. [*sc.* yng ngwaith Beirdd y Tywysogion] am filwr sy'n rhwydwr tarian ei elyn'.
- 118 **cenau cynnar** Cf. GLIL1 23.16 *Ym arueu bu keneu Kynhyar*.
- 119 **rhediad** Gw. 8.2n.
diwar Llsgr. *di uar*, ond derbynnir diwygiad petrus G 376 ar sail ystyr.
- 120 **rhyd** Ar ei ystyr, gw. CA 143–4 ac ymhellach GPC 3126.
byrddoedd Llsgr. *vyrdoed*, sef treigladau o *myrddoedd* neu *byrddoedd*. Yn G 84 awgrymir mai ll. *myrdd* yw'r holl enghreifftiau o *fyrddoedd*; eithr yn GPC 355 rhestrir *byrddoedd* hefyd yn un o ffurfiau ll. *bwrdd* (er na roddir enghraifft), a gwell yw hynny o ran synnwyr.
- 121 **rhwyngwellyng** Llsgr. *Ryng wellyng*; fe'i deellir yn f. gyfansawdd o *rhwyng/rhyng* a *gwellyng*; cf. G 657 a GPC 1632.
- 122 Y *mae*'r ll. yn rhy fyr o sillaf.
bu ail Llsgr. *vueil* a ddeallir yn G 81 yn ll. *bual*, ond gwell o ran

rhythm ac ystyr yw *fu ail*.

Ulcesar Sef Iwl Cesar. Am gyfeiriadau eraill ato yn y farddoniaeth, gw. G 137, TYP² 414.

- 123 **Clâr** Medd Lloyd-Jones, G 143, ‘enw a fabwysiadwyd oddiwrth Iarll *Clâr* am un o’i randiroedd yng Nghymru, ym Morgannwg mae’n debyg’; cf. GGDT 13.12 *Traul rhad ar glawr gloyw-wlad Glâr* (Trahaearn Brydydd Mawr). Ond os felly, nid yw ystyr y ll. yn eglur—?‘[Un â] gwaywffon [ag] ergyd feiddgar [y mae ei] glod yn ail [ond i eiddo tir] Clâr’. Ar y llaw arall, o gofio bod Gilbert de Clare, yr arglwydd olaf o deulu de Clare ym Morgannwg, wedi marw yn 1314 ym mrwydr Bannockburn, haws efallai yw deall yr enghraifft hon yn gyfeiriad at ei deulu yn hytrach na’i diriogaeth. Ergyd y ll., felly, yw mai Madog Fychan oedd y Gilbert de Clare newydd o ran ei filwriaeth ar ôl 1314. Ar deulu de Clare, gw. DWB 75–7, GCH iii, 45–72.

- 126 **croywFrawd** Yn ôl G 178 *brawd* ‘barn’ yw’r ail elfen ac fe’i deellir i olygu ‘barn glir’ neu ‘pur ei farn’. Ond mwy cydnaws, efallai, â’r cyddestun yw’r syniad o Grist fel cydymaith nag fel barnwr.

ymwyr Nodir yn betrus fodolaeth y f. *ymwyr* yn G 749 d.g. *gŵyraw* a digwydd yn TW d.g. *inclino*.

wylnawd Nodir y ffurf yn G 538 d.g. *gnawt*³ ‘arferol, cyffredin’, &c. ond ni chynigir ystyr. Y mae’n haws credu mai’r elfennau yw *bôn* y f. *wylo* fel e. a *gnawd* neu *nawd* ‘anian, natur, ansawdd’, &c. (gw. G 538 d.g. *gnawt*², GPC 2556). O ran ffurf, gellid dadlau mai treigladd o *gŵylnawd* sydd yma, ond ni weddai hynny o ran ystyr.

eilNudd Ar *Nudd*, gw. 1.58n.

- 127 **trymgoll** Llsg. *Trumgoll*, ffurf a nodir yn betrus yn G 162 (d.g. *coll*²). Nid yw’n eglur beth fyddai’r ystyr, ac ni welwyd enghraifft arall. Haws credu mai bai sydd yma am *trymgoll*, cf. *trymgawdd* yn yr un ll.

trymgawdd ni’n lludd Ymddengys mai’r ergyd yw fod y sefyllfa mor ddu o ganlyniad i farw Madog fel na all *trymgawdd* hyd yn oed ei gwneud yn waeth. Fe ellid, er hynny, ddiwygio *ni’n* (llsg. *nyn*) yn *neu’n*.

- 129 **trosedd** Mewn ystyr dda yma ac yn 7.40, ond mewn ystyr ddrwg yn ll. 131. Gw. DGG² 226, GCBM ii, 436. Cf. hefyd HG Cref 98 (XLI.4) *A’m trosso y’r trossed goreu* (am Dduw) lle y’i deellir i olygu ‘mynediad, ffordd, llwybr’, *ib.* 245, ond ‘rhagoriaeth’ yn GBF 40.4 (Gruffudd ab yr Ynad Coch).

Merfyn Sef Merfyn Frych, yn ôl pob tebyg, brenin Gwynedd (*ob.* 844) a thad Rhodri Mawr, gw. J.E. Lloyd: HW³ 323–4, ByCy 591, TYP² 260–1.

131 **trosedd** Gw. ll. 129n.

mynor Gw. GPC 2538 am enghreifftiau eraill o ddefnyddio hwn yng nghyswllt claddu mewn tai crefyddol neu ar gyfer adeiladau gwych.

yndudd Cyfuniad o'r rhgdd. *ym-* (amrywiad ar *am-*, gyda grym cadarnhaol, gw. GPC 79 d.g. *am²⁻*.) a *tudd* fel yn *tudded*; cf. *amduddo* 'gorchuddio' ac *amduddedd* 'gorchudd, amddiffyn', gw. G 21, GPC 83.

132 **trethau** Gw. GCBM i, 26.18n ar *treth*, 'Gair a ddefnyddir am "dâl, teyrnged" noddwr i'w fardd yn ogystal â'r hyn a rydd y bardd iddo yntau.' Cf. 7.112 a ll. 116 *Trethwyf* a'r nodyn.

133 **Gruffudd** G 116 (d.g. *Casnodyn*), 'Os at y bardd, fel y mae'n debyg, y bwriedir cyfeirio yma, rhaid naill ai ystyried *Casnodyn* fel ei enw barddol neu briodoli'r awdl i fardd arall.' TLIM 8, n21, 'Yn ôl y llyfrau achau, yr oedd gan Fadog fab o'r enw Gruffudd, ond y mae'n fwy na thebyg fod y bardd yn cyfeirio ato ei hun, ac felly mai Gruffudd oedd ei briod enw.' (Crybwyllir Gruffudd, mab Madog, yn LPMG 537 ond nid yn P.C. Bartrum: WG1 'Godwin' 10.) Os *Casnodyn*, gan hynny, a olygir yma, yna ar gyfeirio gan fardd ato' i hun mewn cerdd, cf., e.e., GCBM i, 5.20 *Am Gyndelw Brydyt yd bryderynt!* Ar y llaw arall, yr oedd gan Fadog Fychan fab arall o'r enw Owain (gw. y nodyn nesaf) a chyfeirir ato yn y testun yn fuan ar ôl crybwyll Gruffudd (ll. 135). Y mae'n bosibl, gan hynny, mai mab Madog, ac nid *Casnodyn*, a olygir yma wrth Ruffudd, a gellid deall *medr* i olygu 'rheoli' (ar yr ystyr hon, yr ystyr wreiddiol, gw. GPC 2393). Yn ôl y dehongliad hwn y mae *Casnodyn* yn llwyddo i rannu sylw yn deg rhwng dau fab Madog Fychan, yn gyntaf trwy ddweud bod Gruffudd yn 'rheoli' ei gerdd, hynny yw, yn ei noddi, ac yn ail trwy droi i foli Owain fel etifedd Madog (ll. 137 ac ymlaen). O'r ddau bosibilrwydd, ymddengys yr ail yn fwy tebygol: os oedd Owain yn bresennol yn ystod datganiad *Casnodyn* o'r farwnad, yna odid nad oedd Gruffudd yntau yno.

135 **Owain** Fel y dywed J.B. Smith, GCH iii, 595, n245, y mae'n eglur wrth y cyfeiriad hwn fod gan Fadog Fychan fab o'r enw Owain, ac ymysg gwrthryfelwyr 1316 (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod) a ildiodd i'r awdurdodau Seisnig, cofnodir rhyddhau Madog Fychan ac Owain ap Madog, sef mab Madog, ond odid (nis crybwyllir yn yr achau).

dihain Deallir yr enghraifft hon yn G 350 i olygu 'gofidus, trallodus, blin' (sef cyfuniad o'r rhagddodiad cryfhaol *di-* a *haint*); gthg. GPC 1006 lle y rhoddir iddi'r ystyr 'rhydd oddi wrth haint; di-boen, diofid, llawen' (sef cyfuniad o'r rhagddodiad neg. *di-* a *haint*). Dilynir GPC yma, ond gellid hefyd ystyried y ffurf *diain* sy'n amrywiad ar yr a. *dien* 'teg, hardd, ffres, tîrf; iach di-fai, dianaf' ac ar yr e. *dien*

‘dihenydd, marwolaeth, angau, distryw; tynged’, gw. *ib.* 946, 974. Os yr olaf, yr ystyr fyddai ‘cysur [ar achlysur] marwolaeth’.

- 136 **dadannudd** GCBM i, 26.58n, ‘Gair ac iddo ystyr arbennig yn y testunau cyfraith. Fel yr esbonia T.M. Charles-Edwards, “Welsh *diffoddi*, *difa* and Irish *do-bádi* and *do-ba*”, B xxiii (1968–70), 212–13, “When the son comes to take possession of his father’s land and house, he was held to re-uncover (*dadannudd*) the fire which his father had left burning.” Yr oedd y weithred o *dadanhut*, boed yn llythr. neu’n ffig., yn symbol o barhad etifeddiaeth.’ Gellid dadlau mai ystyr *dadannudd* yma yw ‘datguddiad, dadleniad’ (gw. GPC 868) a bod Casnodyn, yn y geiriau *donia ei ddadannudd*, yn gofyn i Dduw fendithio ei ddatguddiad *ef* (y bardd) o glod Owain. Haws credu, er hynny, ar bwys y ll. ddilynol, *Dadanhuddawl hawl yw hywledd—Owain*, mai’r ystyr gyfreithiol sydd yma.
- 138 **ysgain** A. yma; ymhellach, gw. J. Lloyd-Jones yn ‘Nodiadau ieithyddol’, B iv (1927–9), 146–7, GM 46.
- 140 **tad** Uniaethir Madog â haelioni ei dad.
- 142 **neud bedd** Y mae ystyr leol i *bedd* yma a grym a.—’mewn bedd, claddedig’, gw. G 53–4, GPC 267 a J.E.C. Williams, ‘MIW *Neu, neut* as copula’, *Celtica*, xi (1976), 284; cf. hefyd 7.42 lle y ceir y ffurf l.
- 143–4 **Dyfr wledig ... / Dyfed** Rhestrir *dyf(y)rwledic* yn air cyfansawdd yn G 401 d.g. *dwff(y)r* ac *ib.* 690 d.g. *gwledic*, ond y mae’n fwy tebygol mai cyfeiriad sydd yma at Ddyfr fab Alun Dyfed, gw. *ib.* 20 d.g. *Alun¹ Dyuet*, 414 d.g. *Dyu(y)r¹*. Gw. hefyd GSRh 4.46n, 10.47n.
- 143 **am ged** Llsg. *amget*. Yn G 22 cynigir yn betrus yr ystyr ‘hael’; ni cheir y gair yn GPC 85 a haws cymryd, fel yr awgrymir yn G, mai ‘am ged’ a fwriedir.
- 144 **trosed** Ffurf gyfartal *traws* yma’n dwyn grym enwol, ‘ei gryfed, maint ei nerth’. Ar y defnydd hwn, gw. GMW 42.
- 145 **Gwalchmai** Gwalchmai fab Gwyar, un o farchogion Arthur, gw. TYP² 369–75. Crybwyllir ei farch Cain Galed yn 5.7. Oherwydd iddo gael ei enwi yn y Trioedd yn un o ‘Dri Deifniog Ynys Prydain’ (gw. TYP² 8), dichon, fel yr awgrymir yn ACDC 482, mai dyna pahan y dilynir ei enw yma gan restr o’i eiddo.
- 146 **yn nhrin** Llsg. *yn rin*, ond ni wedda *rhin* yma. (Ar yr amwysedd orgraffyddol, cf. 7.75n).
- 147 **Rholant** Arwr brwydr Roncesvalles yn Chwedlau Siarlymaen. Gw. hefyd 7.114.
- rhuwldaeredd** Llsg. *r6ldaered*; fe’i diwygiwyd a chymryd mai un o ffurfiau *riwl* (*rhuwl*, *ruwl*) yw’r elfen gyntaf, gw. GPC 2986. Er hynny, y mae’n bosibl fod *r6l* y llsg. yn cynrychioli ffurf amrywiol arall.

- Dilynir ACDC 482 ynglŷn â'r ystyr.
- 150 Deellir *Madog* yn oddrych *rhyfu*.
- 152 **deifnog** Fe'i defnyddir hefyd yn aml am un sydd â hawl i'w statws— yma trwy ei *fynog fonedd*, gw. GPC 921.
- 154 **ciglau** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *chlywed*, gw. GMW 124 (gthg. 6.33).
Lloegr Gw. ll. 19n.
Gogledd 'Gogledd Lloegr', y mae'n debyg, yn ôl G 549, ond os felly, rhyfedd yw ei ragflaenu gan *Lloegr*, ac fe'i deellir, yn hytrach, i olygu'r Alban.
- 156 **ysgrîn** GIG 359, 'Blwch i gadw pethau gwerthfawr, yn enwedig creiriau saint' (benthyciad o'r S.C. *scrine*).
dewin diwedd Ar galedu *d-* ar ôl *-n*, gw. Treigladau 26–7.
- 158 **gwaywryn** Nodir y ffurf yn G 604 a GPC 1607 ond ni roddir ystyr. Am enghreifftiau pellach o'r a. *rbyn* ('syth, ffyrnig, dewr', &c., gw. CA 92–3 a GPC 3140), a ddefnyddir yn gyffredin am arfau, gw. GCBM i, 16.161, *ib.* ii, 4.101 (*gwae6 rynn*).
cyn can mlynedd Awgrymir mai braf fyddai mwynhau cwmni Madog am lawer hwy.
- 161 Y mae'n ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *senedd y saint*.
- 162 **â'r Fraham** Llsgr. *ar vraham*. Yn G 6 rhestrir y ffurfiau canlynol eraill ar yr e.p. *Abraham: abrahe, Abram, avraham, Efrean*, ac ymddengys fod defnyddio'r fannod o'i flaen yma'n eithriadol. Efallai fod y llafariad ragobennol *a-* / *e-* wedi ei chamddehongli'n ffurf ar y fannod.
- 164 Ar y syniad, cf. ll. 10 *O'i orchudd neb ni chweirdd*.
- 168 **herwisg nêr** Llsgr. *her wisgner*. Dilynir awgrym petrus Lloyd-Jones ar slip yng nghasgliad Geiriadur Prifysgol Cymru mai *herw wisc ner* a gynrychiolir, a deellir *herw* a *gwisc* yn un gair.
- 169 **maer** Cyfeiriad, efallai, at swydd Madog fel stiwart Tir Iarll, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 170 Gellid hefyd ddeall y ll. i olygu 'Hiraeth [y sydd am] dranc [un a oedd megis] fflam ddisglair [a] gwresog adeg brwydr'.
- 173 **hir haf** Fel y dywedir yn ACDC 489, dyma gadarnhad mai yn yr haf y bu Madog Fychan farw.
- 175 **aeth ... fangor** Ar y gystrawen, gw. ll. 53–4n.
- 176 **Margam** Gw. ll. 54n.

3

Dyma'r gyntaf o dair cerdd serch a briodolir i Gasnodyn yn Llyfr Coch Hergest.¹ Fe'i canwyd i ferch fonheddig o Fôn nas enwir, ond fe ddichon mai'r un person ydyw â gwrthrych y gerdd nesaf (gw. y sylwadau rhagarweiniol yno). Ymddengys ei bod yn byw ar lannau gorllewinol afon Menai (gw. llau. 13n, 19–24, 23n).

Fel y mae Dr Huw Meirion Edwards wedi sylwi,² er bod y cerddi hyn yn sefyll yn bennaf yn llinach cerddi serch ffurfiol Beirdd y Tywysogion, eto ceir ynddynt hefyd elfennau newydd poblogaidd neu gyfandirol eu tarddiad nas ceir yn y canu hwnnw ac sy'n fwy nodweddiadol o ganu serch y Cywyddwr cynharaf. Elfen felly yn y gerdd hon yw thema meddwod serch (ll. 5) a geir hefyd yng ngerdd 6 (ll. 17).

Cyfeiria'r bardd ato'i hun fel *gwas gruddlas* (ll. 1) ac y mae'n debygol iawn iddo ganu'r gerdd ac yntau'n llanc neu'n ddyn ifanc.

Cadwyn o saith englyn unodl union yw'r gerdd hon gyda'r gair *Môn / Fôn* ar ddiwedd pob englyn yn eu cysylltu. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi gyda'r gynghanedd sain yn amlycaf yn llinellau 1, 3, 4 o bob englyn, gyda rhai llinellau pengoll, ond y gynghanedd gytsain (bengoll bron yn ddieithriad) rhwng y gair cyrch a'r ail linell. Ceir cymeriad llythrennol yn cysylltu llinellau 1, 3 a 4 ym mhob englyn ac eithrio'r cyntaf, a chan gysylltu pob llinell yn y pedwerydd englyn a'r chweched.

- 1 **cyn bwyf gwas gruddlas greddf anfon** Cf. GDG³ 155 (58.17–18) *Cyd bwyf was cyweithas coeth / Llwfyr yn nhrin, llawfron rhynoeth*, a chyfosodir *gwas* a *greddf* yn y ll. enwog o'r 'Gododdin', *Gredyf gwr oed gwas*, CA 1 (ll. 1). Ar gyfatebiaethau eraill rhwng gwaith Casnodyn ac eiddo Dafydd ap Gwilym nad ydynt o anghenraid yn dangos dylanwadu uniongyrchol, cf. 4.11–12, 6.43–4. 7.193, 195 a'r nodiadau arnynt.

gruddlas 'Fresh-cheeked' yng nghyfieithiad yr Athro Ceri W. Lewis o'r ll. yn GCH iii, 483. Cf. DGA 129 (45.7–8) *Ba les yt, fab olas* ['pale'] fu, / *Ei gael oni bai 'i gelu?*

- 2–4 **Caerllion, / ... / ... o Fôn** Dyma un o dair enghraifft yn y cerddi a ganodd Casnodyn yng ngogledd Cymru lle y sonia am y gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain ochr-yn-ochr. Ceir yr enghreifftiau eraill yn 4.7–8, 5.21–4. Ar arwyddocâd hyn, gw. tt. 4–5 uchod. Yn G 96 tybir mai Caer (*Chester*) a olygir yma wrth *Caerllion*, ond yn wyneb cysylltiadau Casnodyn â de-ddwyrain Cymru, y mae'n fwy tebygol mai Caerllion ar Wysg (Caerleon) a olygir.

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 231–4, 492–7.

² DGIA 99–100.

- 5 **meddw gofion** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
dogngudd Nodir y ffurf yn G 385 dan yr e. *cud*, ond gall *cudd* fod yn a. hefyd, gw. GPC 627, ac felly y'i deallir yma.
- 7 **ffion** Ar hoffter y beirdd o gyffelybu gruddiau iddo, gw. GBF 22.3n (Hywel Foel) a cf. GGrG 8.25n (Gruffudd ap Tudur Goch).
- 8 **meinus** Yn *Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977), 14, dyfynna D. Myrddin Lloyd y ll. hon (eithr gan ei chambridoli i Ruffudd ap Maredudd) a chymryd *meinus* i ddynodi *Venus* er mai *Venus* yw'r unig ffurf a nodir yn G 502.
- 9 **yr** Yn G 33 awgrymir yn betrus ei ddiwygio i *ar*, ar ddelw ymadroddion adferfol amser megis *ar unwaith*, *ar wledd*, &c., ond nid oes angen o ran yr ystyr.
ar Ar yr hen ystyr 'at', gw. GMW 187, a cf. (?) 4.26, 5.11, 6.4, 56, 8.20.
- 10 **Y dyfu ym gofion** Ar hepgor ffurf brs. ardd. mewn cymal pth. afrywiog fel hyn, gw. J. Morris-Jones: WS 90, GMW 66.
- 12 **hoiwdir Môn** Ar hepgor yr ardd. o'i flaen ar ôl *Teg ddygaf ... Taith*, gw. 2.53–4n.
- 13 **cerddais gorddwfr afon** Gallai hefyd olygu 'pan hwyliais [dros] lif afon'. Ar ystyrion *gorddwfr*, gw. GPC 560 ac ar *cerdded* yn golygu 'hwylio', gw. *ib.* 465, 1 (c). Y tebyg yw mai at Afon Menai y cyfeirir yma ac yn ll. 19.
rhin Fe'i deallir yn wrthrych y f. *gwelais*.
- 14 **dianfon** Y neg. *di-* ac *anfon* (bôn *anfonedd*); gw. G 325 a GPC 949.
- 16 Gellid hefyd ddeall y ll. yn frawddeg enwol—'[un megis] gwawr ... yw harddwch Môn'.
- 17 **rhuddhyddnaid** Llsg. *Rud hydneit*, ac felly y'i deallir yn GPC 1958, ond pair hyn gydio *rhudd* wrth *naid*, nid *hydd*. Ymddengys mai'r syniad yw fod cariad y bardd yn ffoi rhag ei gynigion megis *hydd*. Y mae'n bosibl fod *rhuddhyddnaid* yn cyfeirio at y bardd yn croesi'r afon cyn cyrraedd *rhwyl* (ll. 20) ei gariad, ond yn ôl yr englyn blaenorol y mae ef eisoes wedi gweld y ferch ar ei daith ati. Posibilrwydd arall fyddai diwygio *Rud* y llsg. yn *ryd* 'rhydd' (3 un.pres.myn. y f. *rhoddi*); os felly cariad Casnodyn fyddai'r goddrych.
- 19 Y tebyg yw mai fel cynghanedd draws y bwriadwyd y ll. hon, ond sylwer, er bod odl rhwng *rhan* a *lan* yn hanner cyntaf y ll., nad oes dim yn cyfateb i *lan* yn yr ail hanner megis mewn cynghanedd seindraws (gw. J. Morris-Jones: CD 183).

gofal Ymddengys mai cariad y bardd a olygir.

rhin afon Diau mai'r un afon yw hon ag *afon—rin* ll. 13, sef Afon

Menai, gw. ll. 13n. Awgrymir yn ACDC 496 y gall mai trychiad yw [*g*]lan rhin afon o *Glanyrafon*, lle nad yw'n bell o Drefdraeth, Môn, a milltir a hanner yn unig i ffwrdd o Gefni (cf. 1.32 *Llan, ran rymusaf, goethaf, Geithaw*), ond gw. ll. 23n.

- 21 **goblygion—main** Cf. Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, iii (1997), 89 (ll. 22) *A gwregys main ystlys Môn*.
- 22 **y maen'** Sef y *maent*, gw. GMW 136. Cyfeirir at *fy nghofion* sy'n sefyll mewn cyfosodiad â'r f.
- 23 Os oedd y tonnau yn dod o du Iwerddon, y mae'n rhesymol tybio mai yng ngorllewin Môn yn hytrach nag yn y dwyrain yr oedd cariad y bardd yn byw.
- 24 **gwylch** Hen ffurf 3 un.pres.myn. y f. *g(w)olchi*, gw. GPC 552.
- 25–8 Y gystrawen yw *Gwiw a waith ... / ... / Gwiw foli ... / ...gwawr fwynfalch Fôn*.

4

Yr awdl hon¹ yw'r ail gerdd serch a briodolir i Gasnodyn yn Llyfr Coch Hergest. Fe'i canwyd i riain o Fôn a oedd yn ferch i Ruffudd ab Iorwerth (llau. 13–14, 21), ac fe ddichon mai'r un ferch ydyw â gwrthrych y gerdd flaenorol. Yng ngwaith Bartrum nodir pedwar gŵr o Fôn o'r enw Gruffudd ab Iorwerth, pob un ohonynt o linach Hwfa ap Cynddelw, uchelwr yn y ddeuddegfed ganrif a ddaliai diroedd yng nghwmwd Llifon.² Yn y seithfed genhedlaeth ceir Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd, gŵr a chanddo amryw o feibion a dwy ferch, sef Gwenhwyfar Greg a Gwenllïan Fechan. Yn yr wythfed genhedlaeth ceir nai iddo, Gruffudd ab Iorwerth ap Gruffudd a chanddo ferch o'r enw Gwenllïan; ac yn y nawfed genhedlaeth ceir dau ŵyr iddo, Gruffudd Ddwn ab Iorwerth a oedd â merch o'r enw Gwenhwyfar, a Gruffudd ab Iorwerth Wystl. Yn ôl yr achau yr oedd tad Gruffudd Ddwn yn fyw yn 1305,³ a Gruffudd a'i gefnder, Gruffudd ab Iorwerth Wystl, yn fyw yn 1346.⁴ Yn nhyb J. Lloyd-Jones Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd oedd y gŵr y cyfeirir ato yn y gerdd hon,⁵ a dichon fod hyn yn gywir. Ac yntau'n fab i ŵr pwysig yn llys Llywelyn ap Gruffudd,⁶ trosglwyddodd ei deyrngarwch i frenin Lloegr yn 1277 a derbyn ganddo swydd beili ar Faelor Gymraeg a threfgordd Maenan yng ngorllewin cantref Rhos. Yn

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 235–8, 498–507.

² P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 1, 5, 7.

³ *Ib.* 7.

⁴ *L.c.* a 5.

⁵ G 592 d.g. *Gruffud*¹⁶.

⁶ Ar y ffeithiau bywgraffyddol canlynol, gw. GBF 634–5.

ddiweddarach, yn 1284, derbyniodd drefgordd Rhosmor ger Aberffraw yn gyfnewid am Faenan gan mai i Faenan y symudasid mynachlog Aberconwy. Yn ôl un o'r achau yr oedd yn fyw yn 1308, ond gan i Fledwyn Fardd ei farwnadu a chan y buasai'r bardd hwnnw (a anwyd tua 1220) mewn gwth o oedran ar y pryd, efallai fod yma ddryswch rhwng Gruffudd a'i fab Gruffudd Fychan, neu rhyngddo a Gruffudd ab Iorwerth, esgob Bangor 1307–9. Canwyd i nifer o'i ddisgynyddion gan y beirdd. Os cywir tyb Lloyd-Jones, efallai mai Gwenhwyfar Greg neu Wenllian Fechan oedd enw'r ferch y canodd Casnodyn y gerdd hon iddi.

O ran elfennau 'newydd' yng ngherddi serch Casnodyn (gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 3), y mae'n bosibl fod *Soredig eiddig* (ll. 12) yn gyfeiriad at W'r Eiddig diarhebol yr Oesoedd Canol (gw. llau. 9–12n), a gysylltir mewn barddoniaeth Gymraeg ag enw Dafydd ap Gwilym. Ar y llaw arall, y mae llinellau 23–4, lle y sonia'r bardd am effaith llygaid ei gariad arno, yn dwyn ar gof ganu'r *trouvères*,⁷ ond hawdd cael cyfochreb Gymraeg i hyn, fel, er enghraifft, yng nghywydd Sypyn Cyfeiliog i ferch a chanddi lygaid fel llus.⁸

Canwyd yr awdl hon ar fesur gwawdodyn ac y mae hyd pob llinell yn rheolaidd. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain ym mhob llinell bron gyda nifer ohonynt yn gynganeddion sain pengoll. Cynhelir cymeriad llythrennol amrywiol trwy'r gerdd.

3–6 Datganiad eglur o gred y beirdd eu bod, trwy ddefnyddio eu hawen i foli Duw (ll. 3 *Sef wyf yt ... rhwydd araf geiniad*), yn haeddu rhodd ganddo yn gyfnewid (ll. 5 *Synhwyra yn dda doniau ataf*), sef, yn yr achos hwn, y gras a alluogai Gasnodyn i ganu cerdd hardd i ferch Gruffudd ab Iorwerth (ll. 6 *Swydd ddidlawd o wawd a weinyddaf*). Gellir crynhoi'r swyddogaeth gilyddol hon yn y geiriau *laudo ut des* ('canmolaf fel y rhoddych'), gw. MWRL 5, 27, 29, 34, 53, 58, 62. Ceir yr un syniad yng ngherddi 7, 9, gw. 7.2n, 9.25n.

7–8 **Taf—a Thawy, / ... uwch Conwy** Ar y cyferbynnu, gw. 3.2–4n.

glyw Fe'i dosberthir yn G 537 d.g. *glyw*³ 'dewrion, milwyr; ?llu, byddin', eithr gan ofyn ai o dan *glyw*¹ 'pennaeth, arglwydd, arweinydd' y dylai fod.

rhyw Y tebyg yw, fel y dywedir yn ACDC 499, mai rhywogaeth beirdd a olygir. Ond gallai hefyd, fodd bynnag, olygu natur unigol y bardd.

8 **uwch Conwy** Sef y rhanbarth a adwaenid fel Gwynedd Uwch Conwy i'r gorllewin o'r afon mewn gwrthgyferbyniad â Gwynedd Is Conwy

⁷ Gw. DGIA 100.

⁸ GSCyf cerdd 3.

i'r dwyrain, gw. J.E. Lloyd: HW² 239. Ar y ffurf *ywch* a geir yn y llsgr., gw. GMW 2.

9–12 Sylwer nad oes yr un f. yn y llau. hyn. Fe'u disgrifir yn DGIA 99–100 fel 'a stanza describing the summer season which, as in the *gorhoffeddau*, is intended to set the mood for the poet's love ... In style and content—including the reference to *eiddig*—these lines echo the early gnomic poetry, as does Gwalchmai's *gorhoffedd*. And, as in the gnomic stanzas, *eiddig* need not be identified with the stock character of the jealous husband, although the adjective "soredig" is suggestive of the husband's antipathy towards spring and summer as it appears in the *cywydd serch*.' Gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol uchod; ac ar yr elfen o ddisgrifio natur, cf. 6.33–6.

9 **caindrafnidr** Yr oedd y bardd wedi bargeinio'n dda am y march. Ar *trafnidr*, gw. I. Williams, 'Lexicographical Notes', B ii (1923–5), 14 a n4, 303.

10 Medd I. Williams, 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 149, 'nid oedd eglurfryn, neu fryn amlwg uchel, ond fel *sarn* dan ei draed: nid arafai ei gamre. Seri oedd pob rhiw.' Ymhellach ar *seri*, gw. *ib.* 148–9 a GPC 3231.

cyn cynhaeaf Fel y dywedir yn ACDC 500, y mae i'r geiriau arwyddocâd deublyg oherwydd 'byddai'n anos mynd drwy gae cyn y cynhaeaf nag ar ei ôl oherwydd tyfiant y borfa neu'r cnydau; hefyd mae'n awgrymu amser y flwyddyn, cyn mis Medi'. Yr oedd yr amser hwnnw, sef yr haf, hefyd, wrth gwrs, yn dymor serch.

11 **tymawr** Llsgr. *dymawr* (gyda'r arwydd trwynoli ar yr *y* yn ymestyn peth dros yr *m*), a all gynrychioli *dymmawr* neu *dynmawr*. Os yr ail, dichon mai'r enw lle, *Dinmawr*, a olygir a gellir deall y ll. i olygu 'Gwych yw arglwyddes falch Dinmawr yn ystod yr haf dihafal'. Fodd bynnag, er y ceir lle o'r enw Trwyn Dinmawr ar lannau dwyreiniol Môn ychydig i'r gogledd o Benmon, rhan o dir parc priordy Penmon ydoedd a llecyn pur annhebygol felly ar gyfer aelwyd uchelwyr (ni chafwyd ychwaith unrhyw olion o'r cyfryw drigfan yno). Bernir felly, yn hytrach, mai ffurf dreigledig *tymawr* sydd yma.

rhwyfwawr Cf. geiriau Dafydd ap Gwilym am fis Mai, GDG³ 187 (69.3–4) *Cadarn farchog serchog sâl, / Cadwynwyrdd feistr coed anial*.

12 **eiddig** Gw. llau. 9–12n. Fe'i deallir yma yn gyfeiriad at y gŵr eiddig yn gyffredinol, ac nid at unrhyw unigolyn neilltuol. Y mae'r un mor bosibl, er hynny, mai'r cymeriad stoc, Eiddig, a olygir. Gw. ymhellach J.E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–9), 111.

13–14 **merch Ruffudd ... / Fab Iorwerth** Ar Ruffudd ab Iorwerth, gw. y

sylwadau rhagarweiniol uchod. *Joroerth* a geir yn y llsgr. a derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 592 d.g. *Gruffud*¹⁶.

13 **Mordaf** Mordaf ap Serfan a oedd, gyda Nudd ap Senyllt a Rhydderch ap Tudwal Tutglyd, yn un o 'Dri Hael' Ynys Prydain, a chyfeiria'r beirdd ato'n aml fel safon o haelioni, gw. TYP² 463.

15 **addwyf** Ffurf l un.prff.myn. y f. *myned*, gw. G 11 a cf. GLILI 26.114. Sylwer hefyd mai *athwyf* yn unig a nodir yn GMW 132 a GPC 237.

17 **poen** Saif mewn cyfosiad â *Penyd* (ll. 20) sy'n wrthrych y f. *pell borthaf* (ll. 19).

Rhyawd Crybwyllir Rhahawd ail Morgant yn 'Breuddwyd Rhonabwy' fel un o 24 cynghorwr Arthur, BRh 19 (llau. 24–5), ac yn y trioedd fel un o 'Dri Oferfardd Ynys Prydain' ac o 'Dri Gogyfurdd Llys Arthur', TYP² 21, 193, 497–8. Gellir casglu ar sail llau. 17–18, a hefyd 6.23, 49, fod unwaith chwedl amdano fel carwr cystuddiedig, ac er nad yw'r chwedl honno wedi ei chadw, dylid nodi ei fod hefyd, yn ôl y Trioedd, yn berchen Rhuddfarch, un o 'Dri Gordderchfarch Ynys Prydain', *ib.* 103. Y mae'n ansicr ai fel 'march serch' ai 'march annwyl' y dylid deall *gordderchfarch*, ond yng ngwaith beirdd y 12g. defnyddir y confensiwn o anfon meirch yn llateion, ac erbyn y 15g. deallid *tri gordderfarch* i olygu meirch carwyr, *l.c.* Y tebyg yw, fel y dywedir yn ACDC 502–3, ddarfod cynnwys y cyfeiriad hwn oherwydd fod Rhahawd, fel Casnodyn, yn garwr a ymwelai â'i gariad ar gefn ei farch.

18 **gwan** Sef yn wan gan gariad.

cunaf Llsgr. *gynaf*, a diwygir yn unol ag awgrym GPC 777, d.g. *cynach*¹, lle yr esbonnir mai bai o bosibl yw'r ffurf honno am *cunach*, sef gradd gymharol *cun*³ ('aruchel, gwyh', &c.). Gthg. G 243 lle y'i deallir yn radd eithaf *cynach* 'aruchelach, ardderchocach'.

19 **pwyl Berthydd** Ar y syniad, cf. ll. 5. Deallir [*P*]erthydd yn unig enghraifft o e. o fôn y f. *parthu* 'rhannu, dosbarthu' (cf. GCBM ii, 17.17) a therfyniad y gweithredydd *-ydd*. Gellid hefyd ddeall *berthydd* yn ffurf gysefin, yn e. o'r *a. berth*, yn golygu 'cyfoethogwr' (er na nodir y ffurf honno ychwaith yn G 56 na GPC 275). Ystyr *pwyl berthydd* wedyn fyddai '[un â] natur cyfoethogwr', hynny yw, disgrifiad o'r bardd sy'n cyfoethogi ei gariad â'i farddoniaeth; ond ymddengys y dehongliad hwn yn llai tebygol.

19–20 **porthaf ... / Penyd** Cf. GCBM ii, 18.79 *Nid porthi penyd ryfeddyliais*.

22 **tyno** Cf. GSCyf 10.33–4 *Yn dyno glas i danadd / Yn dir mwyn ir a main nadd* (Llywelyn ab y Moel). Gallai olygu 'dyffryn, pant' hefyd, cf. D 'area, areola, vallicula'.

taleithnaf Cyfeiriad, fe ymddengys, at Ruffudd ab Iorwerth. Cf. ll.

29n.

- 23 **ni hunaf** Ar dopos anhunedd yng nghyd-destun serch yng ngwaith y beirdd, gw. DGIA 87–8 a cf. GLIF 156 (10.1–2) *Caraf-y gaer ualchweith o'r Gyulchi*, / *Yny bylcha balchlun uy hun yndi* (Hywel ab Owain Gwynedd) a cf. isod 5.11, 30, 6.5, 10.
- hyboen yw fy hoen** Cf. GBF 54.6 *Neu wyf hoed hyboen heb arghwyti* (Bleddyn Fardd).
- 24 **hebogaid lygaid** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 25 **mor wyf wanglaf** Ar y gystrawen, gw. GMW 43, a cf. 7.29.
- 26 **llwrw arnaf** Anodd gwybod beth yw'r union ystyr ac awgrymir yn betrus fod yr ardd. *ar* yma yn dynodi meddiant, megis mewn ymadroddion fel *y mae camp arno*, gw. GPC 173, 1 (c). Neu ai 'llwybr tuag at' a olygir—hynny yw, nid yw'r ferch yn prysuro ei chamre tuag at y bardd? Ar yr ystyr hon i *ar*, gw. 3.9n; disgwylid gweld ei ragflaenu gan *f*, a dyna a geir yn yr enghreifftiau eraill yng ngwaith Casnodyn, ond gellid dadlau bod y syniad o symud yn ddigon cryf yn *llwrw* i wneud iawn am hynny. Ar ddeongliadau eraill posibl o'r ll. hon, gw. ACDC 505.
- 27–8 Ymddengys mai ergyd y llau. hyn yw er bod y mawl a rydd y bardd i westeion yn dda, fod y mawl a rydd i'w gariad yn rhagorach o lawer ac nad yw'r cyntaf yn tynnu oddi wrth yr ail (*heb wŷd i loerbryd*).
- 29 **gwaesaf** Y tebyg yw mai safon uchel y gerdd a olygir. Dywedir yn ACDC 505, gan ei fod yn gallu golygu 'noddwr, amddiffynnwr' hefyd, y dichon fod yma gyfeiriad at Ruffudd ab Iorwerth fel noddwr y gerdd; os felly, cf. ll. 22n a 6.46n a gw. P Tal 48.
- 30 **dawn ... dygaf** Cf. yr ymadrodd *dwyn cerdd*, gw. G 403 dan yr ystyron 'dwyn, cludo, cario' sydd i *dwyn*.
- 31 **hwyrdaw** Yn llythrennol 'yn hir yn tewi', gw. GPC 1943.
- 32 **trawsganaf** Digwydd y gair *trawsganu* yn nheithl cerdd Taliesin i Gynan Garwyn (gw. P Tal 1), a dadleuodd J. Morris-Jones, 'Taliesin', Cy xxviii (1918), 201, mai term technegol trancedig ydoedd yn dynodi ailadrodd gair cyntaf cerdd yn ei diwedd; ond amlwg na all olygu hynny yn y gerdd hon ac fe'i deallir yn llythrennol. Cf. y *f. trawsioli* yn GLILl 27.1 *Am ōnic treissic y trawsiolaf—Duw* ('erfyniaf yn daer').
- myrdd** Ymddengys mai noddwyr a olygir.
- 34–6 **difeiaf—bun, / ... o hil Addaf** Gormodiaith ystrydebol; cf. GEO 2.5–8 *Yr un dyn teca' o holl blant Adda, / Aro ... / ... / ... wely waelwedd*.
- 34 **nyw** Gw. GMW 56, GPC 2600 d.g. *nwy*^A. Y mae'n fwy tebygol ei fod yn cyfeirio ymlaen at *yn ddifeiaf—bun, / ... o hil Addaf* yn y llau. nesaf nag at *hylwydd wawd ddefawd*. Hefyd 11.146.

Cerdd o fawl yw'r awdl hon¹ i Wenlliant,² merch Cynan ap Maredudd,³ a oedd yn ddisgynydd i'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd o Ddeheubarth. Ei gŵr oedd Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd, un o'r ffigurau pwysicaf yng ngweinyddiad Cymru dan y Goron yn nhraean cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg a noddwr pwysig i feirdd.⁴ A hithau'n ferch i Gynan ap Maredudd, yr oedd Gwenlliant hefyd yn aelod o deulu tra llengar: yn y drydedd ganrif ar ddeg derbyniasai ei hewythr, Gruffudd ap Maredudd, gyfieithiadau o'r 'Transitus Beatae Mariae' a 'Cronicl Turpin' gan y gŵr crefydd Madog ap Selyf, a derbyniodd ei modryb, Efa ferch Maredudd, gyfieithiad o 'Gredo St. Athanasius' gan y Brawd Gruffudd Bola.⁵ Y tebyg yw, hefyd, mai am ei bod yn gyfnither i Ellylw, mam Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, y cynhwyswyd awdl Casnodyn iddi yn Llawysgrif Hendregadredd lle y ceir cerddi eraill i Ieuan ac aelodau o'i deulu.⁶

Yn yr awdl hon y mae Casnodyn yn anfon march yn llatai o Forgannwg i lys Gwenlliant yn Ninorwig (ll. 7 ymlaen), a cheir enghreifftiau o'r confensiwn hwn yng ngwaith Beirdd y Tywysogion (e.e. yn 'Rhieingerdd Efa' gan Gynddelw Brydydd Mawr) ac yn ddiweddarach gan feirdd megis Gruffudd ap Maredudd.⁷ Ynglŷn ag agwedd Casnodyn at Wenlliant, priodol yw dyfynnu geiriau Dr Huw Meirion Edwards wrth sôn am y math hwn o gerdd, '... the poet's stance as suitor to an unattainable noblewoman serves as a conventional metaphor for the essentially formal relationship between them. As a male patron should inspire admiration, a female patron should inspire love.'⁸

Deisyfa Casnodyn ar i Dduw ryddhau o *hëyrn y tēyrn teg* (llau. 19–20), a diau mai at garchariad Syr Gruffudd Llwyd y cyfeirir. Carcharwyd Syr Gruffudd deirgwaith yn ei oes, yn 1295, 1316–18, a 1327, y ddau dro cyntaf am resymau anhysbys a'r tro olaf am gydgyllwynio â Chymry blaenllaw eraill i ryddhau'r Brenin Edward II (a oedd wedi ei ddiorseddu) o gastell

¹ Fe'i golygwyd yn CGRG 161–4, 336–44; BI B XIV 30–1; ACDC 239–43, 508–18.

² Gw. G 662 d.g. *Gwenllian*⁵; P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 17, 'Rhys ap Tewdwr' 6.

³ G 244 d.g. *Kynan*¹¹; P.C. Bartrum: WG1 'Rhys ap Tewdwr' 6.

⁴ Arno, gw. yn arbennig GGDT 67–8. Ceir ei ach yn WG1 'Marchudd' 17.

⁵ Gw. YCM² xxx–xi.

⁶ Gw. D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii (1981–2), 11; sylwer bod Mr Huws yn priodoli'r awdl hon i haen II y llsgr. o ran ei ffurf, ond gan nodi ei bod, o ran ei chynnwys, yn perthyn i'r cerddi a gadwyd yn haen III, sef y cerddi sydd â chysylltiad ag Ieuan Llwyd a'i deulu, gw. *ib.* 9, 11–12.

⁷ Gw. DGIA 125–6.

⁸ *Ib.* 87. Gthg. J.E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–81), 83, lle y dywedir mai hon yw'r 'gerdd fawl ddiledryw gynharaf o bosib sydd gennym i wreigdda—mae'r elfen serch, flug neu ddiffuant, yn y cerddi cynnar eraill ...'.

Berkeley.⁹ Y tebyg yw mai at yr ail achlysur y cyfeiria Casnodyn, ac fe ganodd Gwilym Ddu o Arfon ddwy awdl ddwys iddo rhwng mis Rhagfyr 1316 a mis Mehefin 1317 yn ystod y carchariad hwnnw.¹⁰

Canwyd yr awdl ar fesur gwawdodyn. Y mae hyd pob llinell yn rheolaidd, a chynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain yn unig gyda chyfran sylweddol o gynganeddion teirol a phengoll. Defnyddir y cymeriad llafarog bron yn llwyr hyd at linell 20 a chymeriad llythrennol a chynganeddol wedyn hyd y diwedd, gyda phob llinell yn dechrau ag *m*.

- 1 **aelaw** 'Cyfoethog' yma, gw. GPC 36, a gthg. yr ystyron a roddir iddo yn G 11.
dawn Neu 'rinwedd, graslonrwydd'. Gellid hefyd yr ystyr 'un â chynheddfau neu allu godidog (am bennaeth arglwydd, &c.) ...', gw. GPC 906, (c); os felly, a. fyddai *gne gwawn gwawdchweg*.
- 2 Peth cyffredin iawn yn rhyddiaith a barddoniaeth y cyfnod yw cyffelybu lliw croen merch i ewyn dŵr, e.e. CO³ 18 (ll. 491) *Oed gwynnach y chnawd no distrych y donn*; GIG 101 (XXIV.5–6) *Cangen ddifethl aelgethloyw, / Ceginwrych geirwddwfr crych croyw*; GDG³ 147 (54.54) *Pan wnelech, lliw distrych llif*. Felly hefyd yn llau. 11–12, 25, 33.
- 3–4 Cf. llau. 15–16. Fel y dywed J.E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–81), 83, dengys y llau. hyn fod Casnodyn 'wedi canu o'r blaen i Wenlliant a'i fod wedi ei dalu fel un celfydd ei grefft'. Cf. hefyd lau. 31–2.
- 5 **traw** Ar y ffurf, gw. Treigladau 451; mwy cyffredin yw *draw*. Achuba y blaen ar *Elfydd* yn y ll. nesaf.
- 7 **Cain Galed** March yr arwr Arthuraidd Gwalchmai, gw. G 124, TYP² xxix, ciii–vi, 104, 106 a R. Bromwich, 'The Triads of the Horses' yn *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives*, ed. S. Davies & N.A. Jones (Cardiff, 1997), 113–14. Ynghyd â *Bugethal* yn ll. 9, dyma un o ddau gyfeiriad y bardd at feirch wrth eu henwau. Dadleua Dr Bromwich fod Casnodyn a beirdd diwedd y 13g. a'r 14g., pan gyfeiriant at enwau meirch yn eu cerddi llatai, yn dyfynnu o'r testun ysgrifenedig o Drioedd y Meirch yn Llyfr Du Caerfyrddin, neu ei wreiddiol, yn hytrach na thynnu ar draddodiad llafar, gw. *ib.* 113–14, 116 yn neilltuol.
rhed O ran ffurf, gall fod yn 2 un.grch. neu'n 3 un.pres.myn. y f. *rhedeg*, ac yn ACDC 240 fe'i cyfieithir fel yr olaf. Yn ll. 10 *rhwydd*

⁹ GGDY 67–8.

¹⁰ *Ib.* cerddi 6 a 7.

fo'n rhedeg cyfeirir at y march yn y trydydd person, ond nid yw newid o'r ail berson i'r trydydd yn anghyffredin yn y farddoniaeth (gw., e.e., GIG 285 d.g. *edryd*), a bernir mai mwy priodol yw'r modd grch. yma.

i'm rheidreg obaith Cytunir ag ACDC 510 mai mwy tebygol yw'r dehongliad hwn na 'tuag at fy ngobaith (sef Gwenlliant) [am] rodd angenrheidiol'.

- 8 **goleufaith** Fel y dywedir yn ACDC 510, gallai hefyd gyfeirio at Gain Galed yn hytrach na'r daith. Os felly, gellid aralleirio *oleufaith hoywdaith* yn '[un] mawr ei lewyrch [a] sionc ei hynt'.
- 9 **Bugethal** Bucephalus, march Alecsander Fawr yn wreiddiol, a'r un enw, ond odid, sy'n ymddangos yn Nhrioedd y Meirch fel enw march Gwgon Gledlyfrudd, gw. G 83, TYP² 101–2, R. Bromwich, *art.cit.* 111 ac uchod ll. 7n. Gan mai *Bucheslum / Bucheslom* yw'r ffurf yn y Trioedd, efallai mai o *Historia Gruffudd fab Cynan*, lle y cyfeirir ato fel *Bucefal* (HGK 5 (llau. 10–11), *Tebycaf oed y Cinnar, march Achelarw, ac y Bucefal, march Alexander amperauder*) y cafodd Casnodyn yr enw yn hytrach nag o destun Llyfr Du Caerfyrddin neu ei wreiddiol (gthg. ll. 7n).
- 11 **ar** Gw. 3.9n.
- hoywlun ludd hun** Gw. 4.23n.
- gwenfaneg** Llsg. C *gbynuanec*, ac yn G 745 (d.g. *gwenuanec*) awgrymir yn betrus y diwygiad *gwenwanec*. Ond gan fod *w* ac *f* yn ymgyfnwid weithiau, derbynir y diwygiad *y* yn *e* yn unig. Yn ACDC 511 cymerir mai *maneg*, nid *gwaneg*, yw'r ail elfen, ac ystyr *hoen gwenfaneg—maen* felly fyddai '[un o] liw maneg wen [o ewyn yn llifo dros] faen'. Fel hyn ceid delwedd drawiadol lle y cyffelybir y ffrydiau gwyn sy'n llifo ac yn ymwahanu pan olchir y graig â dŵr y don i fysedd maneg wen. Ond rhaid cyfaddef mai modernaidd braidd ac annodweddiadol o idiom y Gogynfeirdd fyddai delwedd o'r fath, a chan mor gyffredin oedd yr arfer o gyffelybu croen merch i liw'r don, diogelach cymryd mai *gwaneg* yw'r ail elfen.
- 13 **geirgall** Cymerir mai'r modd cyfarchol sy'n esbonio'r treigladd ac mai Gwenlliant a gyferchir. Am enghreifftiau o dreiglo ar ddechrau brawddeg mewn cyfarchiad, gw. Treigladau 420. Dichon hefyd, fodd bynnag, mai oherwydd y cymeriad y treiglwyd.
- 15 **aur mâl a'm bu** Yr oedd gŵr Gwenlliant, Gruffudd Llwyd, yntau'n enwog am ei haelioni'n rhannu *aur mâl*: pan oedd yn y carchar, cwynodd Gwilym Ddu o Arfon *Neur wŷr pawb yn llwyr ... / Nad hylithr aur mâl mel i wrthyd*, GGDT 7.49–50.
- dolur atreg fraw** Yr elfen o wewyr sy'n nodweddu canu serch.
- 16 **Indeg** Indeg ferch Garwy Hir a oedd yn safon prydfferthwch i'r

beirdd, gw. TYP² 354–5.

17 **Cynan** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

19 **Gröeg** Yn ôl G 590 (a cf. GPC 1533) y mae ystyr ehangach iddo weithiau. Y tebyg yw ei fod yn gyfystyr yma â'r Byd Cristnogol.

rhuglchwyn Yn ACDC 514 tynnir sylw at y cyfieithiad o Salm cxlvii.15 *velociter currit sermo ejus* yn GM 33 (ll. 88), *Ebrwyd y ryd* [sc. Duw] y *ymadrawd digabyll*, a gofynnir a oedd Casnodyn yn gyfarwydd ag ef.

20 Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a cf. geiriau Gwilym Ddu o Arfon i Syr Gruffudd Llwyd yn GGDT 6.94 *Ellwng ym fy rhi, Dduw Tri Trindawd*.

21–4 **Gwyndodeg, / ... Gwenhwyseg** Ar y cyferbynnu, gw. 3.2–4n. Dywed J.E. Caerwyn Williams, *art.cit.* 83, 'Anodd deall pam y pwysleisia [Casnodyn] ei feistrolaeth ar y Wyndodeg a'r Wenhwyseg oherwydd prin yr oedd lle i dafodiaith yn y math hwn o ganu, ond y mae'r cyfeiriadau'n dangos fod y bardd yn ymglywed â rhyw wahaniaethau tafodieithol.' Efallai, fodd bynnag, mai yn ddaearyddol yn bennaf y mae Casnodyn yn meddwl, gan awgrymu ei fod yn gallu canu cystal yng Ngwynedd ag ym Morgannwg a Gwent.

25 **mynnawd** Llsgrau. C *Menaót*, D *menhawt*. Awgrymir yn betrus yn Bl B XIV 195 mai 3 un.dyf.myn. *men(n)u* ydyw. Yr ystyr felly fyddai 'bydd mawl mynych yn effeithio ar [yr un o] liw ton groch', ond gwan yw'r ystyr felly. Hefyd, dilynir *menu* fel rheol gan yr ardd. *ar* ac yn GPC 2429 ni nodir ond un enghraifft ohono fel ba. a honno'n ddyddiedig c. 1585. Yn CGRG 342 ac ACDC 515 tynnir sylw at y gair *menaud* sy'n digwydd yn LIDC 20 (12.21) *Vy Devs domenvs menaud* a nodyn yn HG Cref 144 lle yr awgrymir yn betrus y gall gynrychioli *mynnawd*, sef 3 un.dyf.myn. *mynnu* (ar y terfyniad *-(h)awd*, gw. hefyd GMW 119 a cf. 3.53 *seiliawd*) gan y gall *e* ddnodi'r sain *y* (dywyll) yn y Llyfr Du a bod ansicrwydd yno hefyd ynglŷn â dyblu *n*. Dichon felly mai i ffactorau tebyg y dylid priodoli darlenniadau C a D. Posibilrwydd arall fyddai dal mai gwall sydd yn y ddwy lsg. am *menwyd* 'llawenydd, hyfrydwch' (gw. GPC 2540 d.g. *mynwyd*) a deall y ll. fel brawddeg enwol—'Hyfrydwch yw [canu] mawl mynych [i'r un o] liw ton groch' mewn gwrthgyferbyniad a'r ll. nesaf, ond gorfentrus fyddai hynny.

26 **manar wisg lasar** Hynny yw, y bedd. Daw *glasar* o *glas* ac *âr*. Gw. G 532 a GPC 1402 am enghreifftiau eraill o'i ddefnyddio ynglŷn â'r bedd. Ymddengys mai ergyd y ll. yw fod *afar ofeg* yn angeuol fel y bedd.

27 **dileddf** Dilynir barn ACDC 516, fod yma groeseb rhyngddo a *chweg*

megis yn yr ymadrodd S. 'bitter-sweet'. Cf. ll. 30 *hoenddygn gysteg*.

- 28 Ll. anodd ei dehongli ond cymerir mai'r hyn a feddylir yw fod Gwenlliant yn gyfaill hael i fardd yn ystod oes o deithiau datgan cerddi. Gan mai un o ystyron *gosteg* oedd galwad am dawelwch cyn i fardd ddatgan ei gerdd (e.e., GCBM ii, 10.15–16 *Gostecwyr llys, gosteg6ch! / Gostec, neirt: bart a gly6ch*), deellir *gosteg* yma yn ffigurol, er na nodir defnydd felly yn G 583 a GPC 1514. Cf. J.E. Caerwyn Williams, *art.cit.* 84, lle yr aralleirir y ll. yn betrus yn 'dawn fawr yn cydfyned â phrydyddiaeth taith oes'.
- 29 Cynghanedd sain bedeirol. Ar werthfawrogiad Casnodyn o Gymraeg Gwenlliant, cf. GCBM i, 5.4. *Kymraec laesdec o lys dyfrynt* (am Efa ferch Madog ap Maredudd); GLIF 8.8 *Doeth y'th gyuoeth dy goeth Gymraec* (Hywel ab Owain Gwynedd i ferch anhysbys).
- 30 **mwyn forwyn hundwyn** Gw. 4.23n.
- 33 **gwenned gwaneg** Gallai hefyd fod yn wrthrych *gweled* yn hytrach nag yn giadiad.
- 35 **mygrfan** Cf. GCBM ii, 16.160 *Meirch mygyruann, kynkan, kein*.
- 36 **Dinorweg** Disgrifir Gruffudd Llwyd yn yr achau fel arglwydd Dinorwig (Arfon) a Thregarnedd (Môn), gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 7. Sylwer hefyd fod ei fab yn dal ystadau Dinorwig a Thregarnedd yn 1348, gw. Rec C 167–8.

6

Y gyfres englynion hon¹ yw'r olaf o'r tair cân serch a briodolir i Gasnodyn yn Llyfr Coch Hergest. Fe'i canwyd i ferch o'r enw Awd y gofynnodd y bardd i'w thad am ei llaw mewn priodas eithr yn ofer (llau. 22, 42, 45–8). Ni wyddys mwy am Awd a'i thad na'u bod yn byw yn Nyffryn Tywi (ll. 2) yng nghyffiniau Llandeilo (llau. 2, 54) ac i'r tad fod yn noddwr i Gasnodyn (ll. 45). Diddorol yw'r cyfeiriad at gariad y bardd yn darllen barddoniaeth (ll. 25).

Fel y dywed Dr Huw Meirion Edwards,² y mae'r gerdd hon yn fwy o gerdd serch o'r iawn ryw na cherddi 3 a 4, sy'n agosach o ran dull ac ysbryd i rieingerddi Beirdd y Tywysogion, a cheir ynddi fwy o elfennau 'newydd' (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod i gerdd 3) nag ynddynt hwy. Heblaw thema meddwdod serch (ll. 17) a geir hefyd yng ngerdd 3, ceir themâu hud y ferch yn achosi poen yn ogystal â phleser (llau. 18, 50), cwyn y bardd nad oes yn aros iddo ond marw os na chaiff ei ddymuniad ganddi (llau. 27, 39–40), ac—yn fwyaf trawiadol—thema'r oed mewn coedlan (llau. 43–4) a

¹ Fe'i golygwyd yn Bl B XIV 31–3, ACDC 244–50, 519–27.

² DGIA 100.

ddatblygwyd yng Nghymru gan Ddafydd ap Gwilym yn bennaf.

Cyfres o bedwar englyn proest a deg englyn unodl union yw'r gerdd hon. Y mae hyd y llinellau yn rheolaidd ac eithrio llinell 37. Cynganeddwyd y gerdd bron yn llwyr (ceir cynghanedd braidd gyffwrdd yn ll. 11) gyda'r gynghanedd sain yn amlycaf a rhai llinellau pengoll. Cymeriad llythrennol neu gynganeddol a geir gan amlaf a diwedda'r englynion unodl union i gyd â'r enw *Awd*.

1–4 Cyfetyb yr englyn hwn yn agos o ran cynnwys a dilyniant daearyddol i un olaf y gerdd.

1 **dawnserch ddyd** Llsg. *daḅnserchdyd*; dilynir awgrym G 303 ynglŷn â'r darlleniad.

2 **henRhys frenin** Diau, fel yr awgrymir gan *Tawy* yn ll. 4 a *Bro Deilaw* yn ll. 54, mai'r Arglwydd Rhys ap Gruffudd a olygir, gŵr a oedd â'i lys yn Ninefwr ger Llandeilo ac a fu farw yn 1197. Dywedir yn ACDC 519, 'Mae'n ddiddorol nodi bod yr ardal wedi ei gysylltu [*sic*] â Rhys, er bod canrif o leiaf wedi mynd heibio, (er y parhaodd ardal Dinefwr a Llandeilo'n rhan o diriogaeth Rhys Fychan).' Diddorol hefyd yw ei fod yn cael ei alw'n *frenin* oherwydd yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif, wedi i Harri II ddod i'r orsedd, disodlwyd y term *brenin* mewn cofnodion swyddogol gan *arglwydd*—neu, yn achos Gwynedd, *tywysog*—am bennaeth teyrnas Gymreig, ac felly troes 'Rhys Frenin' yn 'Arglwydd Rhys', gw. T. Jones Pierce, *Medieval Welsh Society* (Cardiff, 1972) 26–9; hefyd GDB 562–3. Ymddengys fod y cof am deitl Rhys mor gryf â'r cof am ei diriogaeth.

3–4 **Nedd ... / ... Tawy ...** Sef yr afonydd.

3 **gwedd wahan** Ymddengys fod y bardd yn meddwl am yr afon fel ffin naturiol sy'n rhaid ei chroesi. Gthg. ACDC 519, lle y cynigir 'neilltuol neu arbennig ei hymddangosiad'.

4 **ar** Gw. 3.9n.

5 **llwyddrangawdd** Cyfuniad o *llwyddran* a *cawdd*, gw. G 118. Anghyflawn yw'r ystyr 'gofid helaeth' a roddir yn Bl B XIV 195. Ar ystyr *llwydd* yn *llwyddran*, cf. *llwyddged* 'hael ei roddion, haelionus', GPC 2242.

lludd Cwsg, y mae'n debyg, yw'r hyn a rwystrir. Ar y topos hwn, gw. 4.23n.

7 **trosof cof** Cf. GMB 10.13–14 *Ny'm gōna o neb tra trossi / Trossof ir gof arglwyti* (Gwalchmai ap Meilyr) a'r ymadrodd *mynd dros gof*.

8 **eithr** Gellid hefyd ei gydio wrth *pob* yn y ll. flaenorol, fel y gwneir yn ACDC 244, ond crea hynny doriad go chwyrn yn rhediad y frawddeg rhwng *Awd* ac *aeth*.

Awd Ymddengys mai Cymreigiad ydyw o'r S. *Aude*, gw. D. Myrddin Lloyd, 'The Later Gogynfeirdd' yn GWL ii, 52. Cf. *Mawd* o *Maude*.

- 9 **clud-ddysg** Gthg. G 149 lle y'i deellir i olygu 'cywrain'.
- clod-ddull** Gthg. *ib.* 148 lle y'i deellir yn a. 'o ddull clodfawr'. Ar *dull* ynglŷn â barddoniaeth, cf. GP 11 (ll. 21) *A'r mod hwnnw a elwir 'dull Kyndelw'*.
- 10 **perigl hun** Gw. 4.23n.
- 11 Cf. ID 12 (VII) *gwan im perris kyn mis mai / gwenn vchod am gwanychai*.
- 13 **ergyd** Dealler [*c*]einwawd gall y ll. flaenorol yn oddrych.
- 17 **medd-dawd—traserch** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 18 Cf. ll. 50 a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Cyfeiria'r bardd at ei *ddifrawd* hefyd yn llau. 30, 41.
- 19 **cadwedig ceudawd** Fel y dywedir yn ACDC 522, 'mae'r ffaith na thorrir calon y bardd yn achosi mwy o ofid iddo'.
- 22 Cf ll. 42 a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- os** Cyfuniad o'r cys. *o* a'r rh.m. *-s* yn cyfeirio at y ferch, gw. GMW 241.
- 23 **Rhyawd** Gw. 4.17n.
- 25 **lle** Ceir dwy f. *lleaf: llëu*, y naill yn golgyu 'darllen' a'r llall 'lleoli, gosod', gw. GPC 2122. O'r ddwy, y gyntaf sy'n taro orau o ran ystyr. Diddorol yw'r cyfeiriad hwn at allu merch fonheddig i ddarllen, a dwg ar gof waith y Brawd Gruffudd Bola yn cyfieithu'r 'Transitus Beatae Mariae' i Efa, merch Maredudd ab Owain o Geredigion yn y 13g., gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Rhyddiaith Grefyddol Cymraeg Canol' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. Geraint Bowen (Landysul, 1974), 331–5; hefyd *id.*, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–9), 110.
- 27 Cf. llau. 39–40 a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- clwyfnawd** Fe'i deellir yma yn a. Yn G 150 rhoddir yr ystyr 'archoll, dolur' ond heb gynnwys ystyr *nawd*.
- 32 **adwyn** Gthg. G 9 lle y'i rhestrir d.g. *adwŷyn*² 'tirion, gwydh', ond nid yw'r ystyr yn taro yma a deellir yn hytrach y be. *adwyn* (ar ei ystyr gw. G *adwŷyn*¹, GPC 30, 233 (d.g. *atygaf*)). Ystyr *adwyn llys* *Awd* yw na chaiff y bardd ymweld eto â'i gariad yn ei llys, geiriau mwy uniongyrchol a phlaen na'r arfer yn achos Casnodyn ond sydd eto'n cyfleu'n effeithiol iawn [*b*]ryder ei [*dd*]ifrawd (ll. 30).
- 33–6 Cf. 4.9–12n.

- 33 **ciglau** Ffurf 1 un.grff.myn. y f. *clywed*, gw. GMW 124 (gthg. 2.154).
- 35 Fel y dywedir yn ACDC 524, ‘diddorol gweld Casnodyn beth amser cyn Dafydd ap Gwilym yn disgrifio adar yn canu cerddi’.
glwysnaint Neu ‘nentydd hardd’.
gloesnawd Yn G 534 nodir yr enghraifft hon yn betrus, ond cf. ll. 27 *chlwyfnawd*, ll. 31 *gwaywnawd*, ll. 45 *rhoddnawd*, ll. 51 *deddfnawd* lle y ceir yr un ffurfiant (ar *nawd*, gw. GPC 2556 d.g. *nawd*¹).
- 37–40 Ymddengys mai ergyd y llau. hyn yw mai atgofion poenus a seithug y bardd ar ôl canu’n faith i Awd fydd achos ei farwolaeth.
- 37 Sylwer bod y ll. yn rhy hir o sillaf onis cywesgir.
- 40 **edau** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *adaw*, gw. G 7 a GMW 149. Y goddrych yw *cof* yn ll. 37.
- 42 Gw. ll. 22n.
- 43–4 Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 43 **dwyn hwyl** Rhydd GPC 1130 yr ystyron ‘*rush at, assault, attack; make for; fare, flourish*’.
dyn gŵyl Anodd gwybod ai’r bardd neu ynteu’r ferch a olygir gan y gellir trin *dyn* fel eg. yn ogystal ag eb. pan fo’n cyfeirio at ferch, gw. GIG 322, ond cyffredin yn y farddoniaeth yw’r a. *gŵyl* am ferch.
- 45 **rhoddnawd** Yn G 538 nodir y ffurf yn betrus d.g. *gnawd*³ (‘arferol’, &c.), ond y mae’n fwy tebygol mai *nawd* ‘anian, natur’ yw’r ail elfen.
ys Y geiryn berfol, gw. GMW 173. Felly hefyd yn y ll. nesaf.
- 46 Fel y dywedir yn ACDC 525, awgryma’r ll. hon fod Casnodyn wedi canu i dad Awd yn ogystal ag iddi hi.
- 49 **Rhyawd** Gw. 4.17n.
- 50 Cf. ll. 18n.
- 51 **deddfnawd** ‘Anian, natur, moes’ yn ôl G 305, GPC 912, ond ni chynnwys hyn yr ail elfen *nawd*. Ar galedu *dd-* yn *d-* ar ôl *-n*, gw. Treigladau 26–7.
- 53–6 Cf. llau. 1–4n.
- 53 **seiliawd** Ffurfia gyfuniad ansoddeiriol gyda *serch*. Ar y terfyniad, gw. GMW 166.
- 54 **Teilaw** Sef St. Teilo yr oedd ei brif ganolfan yn Llandeilo Fawr yn sir Gaerfyrddin. Gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 55–6 **gwlad ... / Forgant ...** Sef Morgannwg.
- 56 **ar** Gw. 3.9n.

Cerdd ydyw'r awdl hon¹ o edifeirwch, addoliad, ymddiwygiad, a gobaith—*dadolwch*, i ddyfynnu ei gair olaf—gerbron y Drindod. Medd D. Myrddin Lloyd amdani, 'Casnodyn's powerful sequence of monorhyming *awdlau* to the Trinity represent in several features the religious poetry of the late *Gogynfeirdd* at its best';² a thrachefn, '... in content, diction and imagery and intense conciseness [it] is a peak of Welsh religious poetry of the fourteenth century'.³ Efallai nad gormod fyddai ychwanegu ei bod hefyd yn un o binaclau cyfangorff canu crefyddol Cymraeg yr Oesoedd Canol o ddechrau'r cyfnod hyd ei ddiwedd, ac yn ei chyfuniad arbennig o ysbrydoliaeth rymus, duwiolfrydedd dwys, diffuantrwydd, cywreinrwydd a hyd y mae hi mewn manau yn cyrraedd arucheled. Dyma, yn ddiau, gampwaith Casnodyn a'r gerdd a rydd fwyaf o hawl i'w ystyried yn fardd mawr.

Fe'i rhannwyd yn wyth caniad y gellir crynhoi eu cynnwys fel a ganlyn:

1. (llau. 1–26). Y bardd yn cyfarch y Drindod ac yn gofyn i Dduw ei ystyried oherwydd y gân a gyflwyno iddo (llau. 1–2); gofyn i Grist am y ffydd angenrheidiol i'w achub rhag y saith bechod marwol ac uffern (llau. 3–5); disgrifiad o erchyllterau uffern (llau. 6–16); ni fydd Duw yn achub dynion drwg (llau. 17–20); y bardd yn deisyf ar Dduw, oherwydd ei fawl iddo, am gael mwynhau gwynfyd gwlad nef ac osgoi uffern (llau. 21–26).

2. (llau. 27–69). Cyfarch a moli'r Drindod dragwyddol (llau. 27–32); byrhoedlog yw traha a thrais dyn ond maith fydd y dial yn uffern (llau. 33–6); ffolineb yw i ddynion rhyfelgar beidio ag ystyried agosrwydd angau (llau. 37–42); anogaeth i ystyried cwmp Lwsiffer a disgrifiad o'i gwmp (llau. 43–8); creadigaethau amryfal Duw, sef y nef, rhyfeddodau'r bydysawd, ac uffern; y trueni o golli nef a mynd i uffern (llau. 49–60); ?Crist yn ysbeilio uffern (llau. 61–5); y bardd yn datgan ei obaith y caiff drugaredd a hedd gan Dduw yn gyfnewid am ei gân (llau. 66–9).

3. (llau. 70–93). Cyfarch y Drindod, mynegi gobaith am fynd i'r nef, y tristwch o'i cholli, diffyg ystyriaeth treiswyr a'r drygionus o boenau uffern, trigfan Lwsiffer (llau. 70–7); datganiadau gwae yn erbyn gwahanol fathau o bobl ddrygionus am ddiystyru aberth Iesu dros y ddynoliaeth a'i iachawdwriaeth (llau. 78–93).

4. (llau. 94–119). Y bardd yn mynegi ei ddymuniad i fynd dros y môr at fedd yr Arglwydd sy'n Un a Thri (llau. 94–7); disgrifiad o'r Drindod yn ymwneud y Tri â'i gilydd (llau. 98–103); disgrifiad o ddiodefaint ac

¹ Golygwyd yn ACDC 158–90, 363–410. Cyhoeddwyd testun o'r gerdd yn MA² 287^a–9^b, ond fel y sylwir yn ACDC 363, ychwanegwyd nawfed caniad ar gam o R 1176.32–1177.14, sef caniad olaf 'Canu i Dduw' Cynddelw, gw. GCBM ii, 16.195–224.

² GWL ii, 45.

³ *Ib.* 47.

atgyfodiad Crist (llau. 104–9); y bardd yn mynegi drachefn ei awydd i fynd, gyda dyn o'r enw Morgant, ar bererindod (llau. 110–19).

5. (llau. 120–55). Y bardd yn cyfarch y Drindod a datgan y bydd ef ac eraill, trwy Ei gras, yn dyfod ati (llau. 120–21); y bardd yn mynegi'r awydd i wneud penyd yn deilwng tra bo yn y byd (llau. 122–3); disgrifiad o fuchedd Crist gan ddechrau gyda'i ddiodeffaint, yna'r cyfnod cyn ac ar ôl Ei eni (llau. 124–47); deisyf ar Arglwydd rhyfeddodau'r cread am drugaredd yn nydd angau (llau. 148–55).

6. (llau. 156–91). Cyfarch y Drindod sy'n drugarog, trwm Ei digofaint, a grymusach na phob creadur (llau. 156–61); rhestr o briodoleddau Duw gyda phob priodoledd yn dechrau â'r gair *Gŵr* (llau. 162–79); diodeffaint achubol Crist (llau. 180–83); ffydd yn ngallu Duw i achub rhag cam (llau. 184–7); y bardd yn annog cyffesu a phenydio er cyrraedd nef (llau. 188–91).

7. (llau. 192–213). Datganiad o edmygedd o *seiliaith* Solomon (llau. 192–5); y bardd yn cyffesu pechodau'r cnawd ac ymhél â chlerwriaeth (llau. 196–99); anfonir y gŵr cleddyfog i uffern, sicr yw angau'r bedd ac uffern, ffôl yw pentyrru eiddo, ac ystyria gŵr doeth ei ddiwedd (llau. 200–8); y bardd yn mynegi ffydd yn naioni Duw, gobaith am orffen ei daith, a'i falchder o draethu geiriau megis eiddo Solomon (llau. 209–13).

8. (llau. 214–37). Y bardd yn cyfarch y Drindod, yn gofyn i Dduw ei gyfeirio tua'r nef, ac yn dymuno mynd ar bererindod am ei bechodau (llau. 214–25); yn deisyf ar yr Arglwydd am ganiatáu iddo fynd i lawenydd y nefoedd am ei edifeirwch (llau. 226–37).

Y gynsail amlycaf i awdlau crefyddol Casnodyn yw eiddo Gruffudd ab yr Ynad Coch,⁴ cerddi myfyrdodus a phregethwrol eu naws sy'n llawn rhybuddion am erchyllterau angau, y bedd, dydd y Farn, ac uffern, disgrifiadau llachar ohonynt, ac anogaethau i osgoi'r saith bechod marwol ac ymarfer â rhinweddau. Ceir y nodweddion hyn i gyd a'u tebyg yn awdlau Casnodyn, ond gyda gwahaniaethau pwysig hefyd. Y mae'r hyn a ddywed D. Myrddin Lloyd am ganu crefyddol y Gogynfeirdd diweddar yn wir am ganu crefyddol Casnodyn yn gyffredinol:

The trend set in the religious verse attributed ... to Gruffudd ab yr Ynad Coch, of dwelling at length on the horrors of death, the grave, judgement and hell, is continued, particularly by Casnodyn, and recurs at times throughout our period ... Time and again, however, the poets resort to intense meditation on the Passion of Christ and the Resurrection, together with the Harrowing of Hell. We know that there was a great increase in the production of popular religious prose throughout western Europe, and much of it in Welsh has survived. With the coming of the friars there was more preaching, including the use of *exempla*, and also there was much activity in the field of religious art, such as the setting up of crucifixes.

⁴ GBF cerddi 38, 40, 41, 42, 43. Ar ddyllanwdu crefydd yr oes ar Ruffudd, gw. *ib.* 410–11.

These trends are reflected in the religious verse by far greater detailing of individual sins and virtues, of the circumstances of the Passion and other theological points. The growth of the cult of the Blessed Virgin, and the closer defining of doctrine regarding her led to a far greater place being given to her in religious poetry; devotion to Mary expressing itself at its best in an intense and tender lyricism.⁵

Felly yn y gerdd hon, heblaw themâu angau, y bedd, y farn, ac uffern—a hyd yn oed rai cyfatebiaethau geiriol sy'n dwyn i gof waith Gruffudd ab yr Ynad Coch (gw. y nodiadau ar lau. 14 a 26)—ceir hefyd yr hyder gobeithlon yn nhrugaredd a chariad achubol Duw sy'n drech na phob ofn ac sy'n deillio o fyfyrdod ar y dioddefaint, yr atgyfodiad, a'r disgyniad i uffern;⁶ a gwelir cyfresi o rinweddau, pechodau, a phriodoleddau dwyfol sydd yn fynych yn drawiadol o benodol.

Wedi eu cyd-weu â'r elfennau hyn y mae dau beth arall a rydd hynod-rwydd i'r gerdd ac sy'n teilyngu sylw. Y cyntaf yw ei bod wedi ei chyflwyno i'r Drindod yn benodol. Ni cheir unrhyw awdlau felly yng ngwaith Beirdd y Tywysogion (er eu bod, wrth gwrs, yn cyfeirio ati'n fynych), a rhagflaenydd cynharaf cerdd Casnodyn yn hyn o beth yw'r gerdd grefyddol Gymraeg hynaf sydd ar glawr, sef y gyfres enwog o naw englyn a ysgrifennwyd yn hanner cyntaf y ddegfed ganrif yn Llawysgrif Juvencus.⁷ Dylid nodi hefyd y cerddi 'Y Tri ac Un' yn Llyfr Du Caerfyrddin,⁸ ac 'Edifeirwch gerbron y Drindod' yn Llyfr Taliesin;⁹ ac yn ddiweddarach awdl Dafydd y Coed¹⁰ a chywydd Gruffudd Llwyd 'Moliant i'r Drindod'.¹¹ Un o nodweddion hynotaf llenyddiaeth Gristnogol Cymru ac Iwerddon, rhagor eiddo gwledydd eraill yn yr un cyfnod, oedd defosiwn i'r Drindod,¹² ac y mae i awdl Casnodyn dras hynafol a pharchedig yn hyn o beth.

Yr ail elfen sy'n hynodi'r gerdd yw'r dyhead a fynega'r bardd am fynd ar bererindod, gyda rhywun o'r enw Morgant (gw. isod a ll. 110n), i'r Wlad Sanctaidd fel iawn am ei bechodau (llau. 94–119). Yr oedd pererindota yn hen arfer yng Nghymru'r Oesoedd Canol,¹³ a chadwyd llawer o gerddi sy'n

⁵ GWL ii, 39–40.

⁶ Cf. CLC² 92, 'Ymgyfyd i'w anterth nid yn gymaint yn ei ddisgrifio erchyll o boenau uffern ag mewn darnau o ddefosiwn dwys wedi'i gyflwyno gyda holl addurn ei gelfyddyd.'

⁷ BI BGCC 7–9.

⁸ *Ib.* 18–20.

⁹ *Ib.* 165–6.

¹⁰ R 1304.9–45.

¹¹ IGE² LII.

¹² Gw. Oliver Davies, *Celtic Christianity in Early Medieval Wales* (Cardiff, 1996), 5, 58, 67–8, 70, 130, 139–40. Yn P.S. Diehl, *The Medieval European Religious Lyric* (Berkeley, Los Angeles, London, 1985), nad yw'n cynnwys llenyddiaeth y gwledydd Celtaidd, dywedir, 59, 'Outside of the doxology, explicitly Trinitarian poetry is still less common, and examples of it often seem to be the reflex of a dogmatic controversy.'

¹³ Gw. G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London, 1912), *passim*, GDB 561–2, W.A. Bebb, *Machlud yr Oesoedd Canol* (Swansea, 1951), 83–7, WCCR 265–6, 488–503.

cyfeirio at hyn.¹⁴ O'r holl leoedd, gartref a thramor, y byddid yn mynd iddynt ar bererindod, Caersalem a'r Tir Sanctaidd a ystyrid y pennaf. Y gerdd debycaf i awdl Casnodyn yn hyn o beth yw awdl gan Wilym Ddu o Arfon.¹⁵ Perthyn i'r un cyfnod, i'r un lle y dymunir mynd, a gobaith a llawenydd yw ei phrif gywair hithau.¹⁶

Y mae'r gerdd hon yn bwysig nid yn unig fel llenyddiaeth ond hefyd o ran y goleuni a deifl ar fywyd Casnodyn, oherwydd yn y pedwerydd caniad datgan ei fwriad i gefnu ar ganu'r glêr—*Gorau oedd faddau, ornau oernyf, / Gorwacter y glêr ofer a yf* (llau. 198–9)—a chofleidio canu urddasol a sylweddol megis eiddo Solomon—*Seiliaith, nid gwyrtaith gorwag* (ll. 193). Awgryma hyn ei fod, er mai bardd yn y traddodiad penceirddiaidd ydoedd, wedi ymhél â chlerwriaeth i ryw raddau ond iddo gefnu arni wedyn.

Ymysg darnau mwyaf cofiadwy y gerdd y mae'r disgrifiadau o Dri Pherson y Drindod yn eu hymwneud â'i gilydd (llau. 27–30, 98–103, 156–9), y rhestr sydd megis litani o deithi Duw (llau. 162–84), a'r caniad olaf ar fesur carlamus y gyhydedd hir sy'n ddiweddglo priodol i'r awdl.

Er mor bersonol yw'r gerdd, y mae'r ffaith bod Casnodyn yn troi o berson cyntaf unigol y ferf i'r person cyntaf lluosog yn awgrymu cynulleidfa, a'r tebyg yw mai yn llys rhyw uchelwr y canwyd hi (gw. ll. 94n). Tybed ai ei gyd-bererin, Morgant (gw. uchod), oedd yr uchelwr hwnnw?

Cadwyd dryll ohoni, sef llinell 120, yn llawysgrif Peniarth 20 a ddyddir gan Mr Daniel Huws tua 1330, ac awgryma hyn mai rywbyrd cyn hynny y canwyd y gerdd.¹⁷

Dyma ganiadau'r awdl: i. llau. 1–26 ar fesur toddaid a'r brifodl yn *-ych*; ii. 27–69 ar fesur cyhydedd naw ban a'r brifodl yn *-an*; iii. 70–93 ar fesur gwawdodyn a'r brifodl yn *-awdd*; iv. 98–119 ar fesur cyhydedd fer a'r brifodl yn *-ant*; v. 120–55 ar fesur rhupunt a'r brifodl yn *-ad*; vi. 156–91 ar fesur dau gwpled o gyhydedd naw ban ar yn ail â thoddaid a'r brifodl yn *-on*; vii. 196–213 ar fesur cyhydedd naw ban a'r brifodl yn *-yf*; viii. 214–37 ar fesur cyhydedd hir a'r brifodl yn *-wch*. Cysylltir pob caniad, ac eithrio'r seithfed, gan y gair cyntaf ynddynt, *Trindod*. Ceir yn llinellau 94–7, rhwng y trydydd a'r pedwerydd caniad, englyn unodl union, ac yn llinellau 192–5, rhwng y chweched a'r seithfed caniad, englyn proest, y ddau ar brifodl wahanol i'r caniadau; a chan mai englynion unigol ydynt, y mae'n amheus a ellir eu hystyried yn ganiadau yn eu hawl eu hunain. Y mae llinell 119 yn cyrchu llinell 94 o ran synnwyr, ac y mae llinell 213 yn cyrchu llinell 192. Ac eithrio llinellau 23, 58, 76, 102, 140, 143, 180, y mae hyd y llinellau yn

¹⁴ Am rai enghreifftiau cynharach, gw. Bl BGCC cerddi 16, 26; GMB 14.10, 67–72, 81–5 (Gwalchmai ap Meilyr), 27.32, 39–40 (Einion ap Gwalchmai); GDB cerdd 36 (dienw).

¹⁵ GGDT cerdd 9.

¹⁶ Cf. hefyd GMB cerddi 31, 32 (Meilyr ap Gwalchmai) sy'n taro'r un nodyn.

¹⁷ Ceir dau ddryll arall, sef llau. 214–17, 120–1, yn llsgrau. Llst 3, 494^v, 494^v–95^v, a LIGC 9048E, 115^a a 114^v, ond diweddarach ydynt (gw. uchod ar llsgrau. y gerdd).

rheolaidd. Ac eithrio llinell 103, cynganeddwyd y gerdd drwyddi yn dra chywrair gan ddefnyddio cynganeddion sain yn bennaf oll, ac amryw ohonynt yn deirodl a phengoll. Cynnwys llawer o'r llinellau ddwy gynghanedd lle y dilyn y naill y llall yn annibynnol neu gan ymddolennu ynddi. Gwneir defnydd helaeth o gymeriad llythrennol, llafarog, a chynganeddol; ac yn y pedwerydd a'r seithfed caniad ceir cyrch-gymeriad rhwng diwedd yr englyn a dechrau'r llinell nesaf, a chyrcha diwedd y caniad ei ddechrau.

- 1 **Trindod dibechod** Er mai eb. yw *Trindod* fel arfer, ymddengys mai fel eg. y'i trinnir yn yr awdl hon: cf. llau. 156–7 *Trindod ... / Trugar, trwm Ei fâr ...*, ll. 214 *Trindod parod pur, traws maws moes eglur*. Dadleuir yn ACDC 405, ar bwys yr a. didreigladd yn yr enghraifft olaf, fod y bardd yn trin yr e. fel e.ll.; ond dengys *Ei fâr* yn yr enghraifft arall na ddichon hynny fod, ac ni chyfeiria Casnodyn at y Drindod, rhagor Ei Phersonau unigol, ond yn yr un. (gw. llau. 28, 71, 121, 157). Ymddengys mai'r rheswm am hyn yw fod y bardd yn Ei chyfarch yn yr un modd â Duw, y defnyddir eg. ar ei gyfer bob amser (e.e. *Rhi, Nêr &c.*). Dichon mai'r un ymdeimlad â gwryweidd-dra Duw sy'n peri trin yr e. *person*, sydd fel rheol yn f. mewn Cym.C., fel eg. yn GBF 39.21 *Nabd Undaô't Trindaô't y Tri Pherson* (Gruffudd ab yr Ynad Coch) a cf. GLGC 12 (1.420) *tri o unDuw yw'r Trindawd*.
bych diwahan Ar y diffyg treigladd i'r dibeniad yn dilyn *bych*, gw. Treigladau 322.
 - 2 **o'm cân cenffych** Ar y syniad o'r bardd a Duw yn cyfnewid rhoddion, gw. 4.3–6n, a cf. llau. 21–2 *Dyro ran i'th wan ... / ... er mawl mynych*; ll. 66 *Trarhaid ym erchi mal am orchan*; ll. 68 *Trugaredd a hedd haeddwyf o'm cân*; ll. 216 *Tro fi, Rhi rhadlawn, trafniidr dinidr dawn*; ac efallai l. 226 *Lluniaf, Naf, neges, llunia ym, lym les*.
 - 4 **saith briwydd** Sef y saith bechod marwol (balchder, cenffigen, llid, llesgedd, cybydd-dod, glythineb, a thrachwant). Cyfeirir atynt hefyd yn 8.59.
priwydd Cyfuniad o *pri(f)* a *gwýdd*. Y ffurf *gwýdd* yn unig a nodir yn G 728 a GPC 1749–50 (cf. hefyd *ib.* 2890 d.g. *prifwyd*), ond *-dd* a ofynnir gan y gynghanedd a *briwyd* a geir yn y llsg., lle y mae *-d* gan amlaf yn cynrychioli'r sain 'dd'. Cf. ll. 224 *gwýdd*, 8.59 *briwydd*, a D d.g. *prif*: '... Y saith brifwyd, *Septem peccata primaria; Antiqui Prifwydd*', ond gthg. 3.25, 8.70 *gwýd*.
- 5–16 Â'r disgrifiad llachar hwn o uffern, cf. yn arbennig ddisgrifiadau Gruffudd ab yr Ynad Coch yn GBF 40.33–55 a 43.34–41.
- 5 **gwenych** Ffurf 2 un.pres.dib. y f. *gwanu*.
 - 5–6 **uffern / Affaith** Hynny yw, yr un peth â bod yn uffern fyddai i'r

bardd gael ei daro gan Dduw.

- 7 **gwaelchwrych** Llsgr. *waelchwrych*; diwygir er mwyn y gynghanedd. Amrywiad yw *chwrych* ar *gwrych*, cf. ll. 13 *colioc-chwrych*.
- 8 **llu du** Y damnedigion, gw. GCBM ii, 263, 348.
ffylor Nid yw ei arwyddocâd yn eglur. Efallai mai'r syniad yw fod y *Llu du* yn niferus fel y llwch. Neu gellid ymestyn ystyr *ffylor* i olygu 'marwor', cf., e.e., GBDD 3.31–2 *Llawr ofn dofn daear, llys fflam gam gymar / Llachar o farwar yn ei ferwi*. Os felly, efallai mai '[mewn] marwor ...' a olygir.
- 10 **rhydwnnych** Llsgr. *rydunnnych*. Dilynir ACDC 366 a deall y ffurf yn gyfuniad o *rhy* a *tw*n a *nych* (er na chyfeirir yno at y ffaith mai *u* sydd yn y llsgr., nid *w*).
- 11 Sylwer fel y mae'r sôn hwn am rew uffern yn y ll. hon yn gwrthgyferbynnu â'r sôn am ei than yn y ll. flaenorol. Ar hyn, gw. HG Cref xiii–iv.
- 12 **gair garwddig** Gallai hefyd fod yn gyfeiriad at riddfannau'r eneidiau poenedig, cf. GBF 52.6 *Yn y may godric dic dila6ar!* ('Lle y mae trigfan dicter croch') (Bleddyn Fardd), neu'n sangiad yn mynegi meddwl y bardd.
peithfrig Nis rhestrir yn GPC 2720, ond fe'i deallir yn gyfuniad o *paith* (ib. 2670 'anialwch, diffeithwch ... diffeithiad, anrhaith ... ') a *brig*.
- 13 **colioc-chwrych** Ar ffurf yr ail elfen *chwrych*, gw. ll. 7n.
syrniog A. o *swrn* 'llawer, nifer (mawr), amllder'.
- 14 **swydd** Yn yr ystyr 'tiriogaeth, ardal' (megis yn Swydd Gaer, &c.); cf. LIDC 39 (18.93–5) *Bet llvch llaueghin ar certenhin avon / pen saeson suyt erbin / ny bitei drimis heb drin*.
soddlog Diau mai cythreuliaid a olygir gan y darlunnir cythreuliaid yn fynych fel creaduriaid a chanddynt draed gafr. Cf. GBF 40.41–1 *Ar kethri oscla6c ar kythreul corna6c / A'r kyrn llymsodla6c ar y sodleu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
trysglog Daw o'r e. *trysgli* S. 'thrush, fungus', a cf. TW d.g. *scabritia*, 'garwedh, trysgli, rhwt, brynti, butredhi: heuyt Cramen, crachen'; gw. I. Williams yn 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 141. Ar y syniad hwn ynglŷn â chythraul, cf. GIG 133 (XXIX.99–100) *Ni saing cythraul brycheulyd / Ar ei dir byth er da'r byd*.
treisglych Ymddengys fod y bardd yn ceisio portreadu uffern fel lle sydd hefyd yn llawn sŵn annioddefol. Ar y syniad hwn, cf. GBF 43.37–8 *A chynneu o dan, a defni br6nstan, / A phob marchdaran* ['taran uchel'] *yn ymdara6* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Gthg. GBF

33.75–6 *Y'th uolyant sonyant son clych—a llyfreu, Kerdeu, telyneu, crastanneu crych* (Madog ap Gwallter) lle y sonnir am glychau yn canu clod Dduw.

17–18 Nid oes unrhyw ddosbarth o droseddwyr y mae Casnodyn yn drymach ei lach arnynt yn yr awdl hon na threiswyr â'r cledd; gw. hefyd lau. 35–40, 74, 80, 177, 200. Cf. GMB 27.71, 80, 82, 108 (Einion ap Gwalchmai), GBF 40.74 (Gruffudd ab yr Ynad Coch).

17 **talgrych—wythlonder** Disgrifiad o filwr, cf. GLIF 18.15–16 *Oet ysgôn, oet tōnn taleith—y daryan, / Oet talarō kyuarweith* (Daniel ap Llogswrn Mew); GLIL1 1.87–8 *Rac talu y agheu, telōch! / Rac talarō cadeu, cōt wytōch?*

23 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *lle y*.

25 **dawn wledych** Ar hepgor y rh.pth., gw. 2.18n.

26 Cyfeirir at y nefoedd nad yw'n cael ei nodweddu gan briodoleddau uffern, megis glaw ac eira. Am y priodoleddau hynny, cf. BI BGCC 359 (33.114) *Yn y mae deincryt, yn y mae anwyt ac eiry a ia*, GBF 40.38–9 *A glabeir ac ot, a seirff a llewot, / A phaōb heb annot yn y boenneu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch), 41.46 *Eiry, ya a rreb a ruthyrwynt gleō a glab dinev* (eto). Cf. hefyd ll. 198 *oernyf*.

29 **mor yw gyfan** Ar y drefn, gw. 4.25n.

36 **ffwrndost** Yn llythrennol 'poenus ei ffwrn'.

37 **trinheion dynion** Cyfosod dau e.c. lle y mae'r cyntaf yn disgrifio'r ail ond heb beri treiglad, gw. Treigladau 125–6.

daniel Cyfuniad ydyw o *dant a gāl*, gw. J. Lloyd-Jones 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 127.

39 **anghall dall** Cf. 8.22 *Dyn dall drud anghall*; GMB 29.11–12 *Beich o bechodeu, nyd bychodrwyt, / Bychdid dall agall aghyuarwyt!* (Einion ap Gwalchmai); GCBM ii, 16.11 *'N y bo dull uadeu dall vydar—o dyn. Wrth dall golygir dall i'r ffydd Gristnogol, pechadurus.*

40 **Trosedd ... a gymeran'** Ar ystyr gadarnhaol *trosedd*, gw. 2.129n. Ar ddefnyddio *cymryd* gydag e. i fynegi teimladau a chyflyrau, gw. G 239.

41–2 Ar y syniad o agoswydd angau, cf. 8.21–2, *Ac ef afory, feryf cythrau—wall, / Dyn dall drud anghall, dan draed angau.*

cyfrwyfan Dyma'r unig enghraifft hysbys o'r gair, a phetrus yw'r ystyron 'awydd, chwant, ynni' a roddir yn G 218. Nis ceir yn GPC 720. Rhestrir yr ail elfen, *rhwyfan*, yn f. yn GPC 3115 â'r ystyr 'arglwyddiaethu dros, llywodraethu, rheoli, arwain; rhodresu, byw mewn ysblander', ond yn GCBM ii, 6.26 *Grugunan rwyuan rut onnen dichon mai e. ydyw yn golygu 'arglwyddiaeth, llywodraeth'*, gw. *ib.n.*, ac y mae'n bosibl mai rhywbeth tebyg yw ystyr *cyfrwyfan* hefyd.

- 42 **beddau fyddan'** Ar ystyr leol *beddau* a'i rym ansoddeiriol, gw. 2.142n.
- 45 **cynfaeth** Ffurf 3 un.grff.myn. *cynfagu*, gw. G 247, GMW 124. Dywedir hefyd yn G, *l.c.*, y gellir eg. ohono, ond bf. yn unig ydyw yn GPC 782 (er na chynhwysir yno'r enghraifft hon).
- 48 **trachywedd** Gw. CA 133 lle y rhoddir iddo'r ystyr 'distryw, mawr niwed'. Cf. GCBM i, 16.239, GLIF 31.7 (Gruffudd ap Gwrgenau).
lluch a tharian Cf. BI BGCC 218 (21.124–7) *A dyadu tan / Ar poploet anylan, / A lluch a tharian / A<r> llyaus llydan (lluchet a tharyan yn ib. 179 (20.25))*. Amrywiad ar *taran yw tarian yma*.
- 49 **huawdr** Fe'i deellir yn a. 'doeth' ond gallai hefyd fod yn e. 'crëwr (gwyh)', GPC 1905. Os felly, gyda hwn, nid *trefnawdr*, y dylid cymryd *llwyr*. Petrus, er hynny, yw'r ystyron a roddir *l.c.*
- 51 **amryfflau** Anghytuna G 24 (d.g. *amryffleu*) a GPC 100 (d.g. *amryfflau*) ynglŷn â'i ystyr a'i darddiad. Yn ôl G golyga '?amrywiol, amryfal' ac yn ôl GPC '?anferth, enfawr, dirfawr'; gw. hefyd J. Morris-Jones, 'Talesin', Cy xxviii (1918), 218. Dilynir G yma; cf. GLIL 4.2 *Amryffleu* ['amrywiol'] *donyeu dynyadon*. Am enghreifftiau eraill o ddynodi'r sain 'mhr' yn orgraffyddol â *pr*, cf. 8.69 *amhryd* (llsgr. *ampryt*), GCBM ii, 360 (*ampar, &c.*).
- 52 **traul** Ar yr ystyr hon, cf. GCBM i, 17.13–16 *Gwira6d Ywein llary, llawen—yd rotir / Yn y tir tu Hafren, / A threul hygar yw hagen, / A thraw y daw a Dygen* a gw. ymhellach GCBM ii, 436. Gthg. ei ystyr yn llau. 63, 123.
- 53 **trengid** Ar y terfyniad 3 un.pres.myn.annibynnol *-id*, gw. GMW 119.
- 54 **traethawd o** Ar y terfyniad 3 un.dyf.myn. *-awd*, gw. GMW 119. Ar o gyda'r f. *traethu* a berfau cyffelyb, gw. *ib.* 204, YE 83.
- 56 **trefnaist ddaear** Gallai'r terfyniad *-aist* beri treigladd neu beidio, gw. Treigladau 204.
- 58 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *lle ydd*.
ymbrofan' Ar yr ystyr, gw. Arm P 33 (Arm P² 38), GCBM ii, 6.39n. Ymddengys fod Casnodyn yn ceisio cyfleu darlun o bryfed y mae'n rhaid iddynt i gyd frwydro yn erbyn ei gilydd am eu bod mor niferus—neu ymgiprys â'i gilydd yn y rhuthr i ymosod ar y colledig rai. Cf. *Ystorya Gereint uab Erbin*, ed. Robert L. Thomson (Dublin, 1997), 6 (ll. 158) *ual y caffwyf ymbrawf a'r marchawc*. Fe all hefyd, fodd bynnag, mai 'profi' ('blasu') a olygir, gydag ystyr gryfhaol i'r rhgdd. *ym-* (ar hyn, gw. YE 65 d.g. *ymdangos*). Os felly, cf. R 1216.40–1 *Kynn proui or pryuet ffyrnic. pechodeu tremygeu tremic* (Gruffudd ap Maredudd); IGE² 272 (XC.9–10) *Ac wythgant, meddant i mi, / O bryfed yn ei brofi* (Siôn Cent).

- 59 **ysgol** Cf. Gen xxviii.12 *Breuddwydiodd* [sc. Jacob] *ei fod yn gweld ysgol wedi ei gosod ar y ddaear, a'i phen yn cyrraedd i'r nefoedd, ac angylion Duw yn dringo a disgyn ar hyd-ddi*. Ymddengys mai cymhwyso'r ddelwedd hon ar gyfer uffern a wna Casnodyn. Gynt darlunnid eglwysi plwyf fel safleoedd ysgolion i'r nef. Gw. hefyd NCE vii, 792 (lle y ceir darlun o'r ysgol) a Peter and Linda Murray, *The Oxford Companion to Christian Art and Architecture* (Oxford, 1996), 267. Sylwer mai *yscol* a geir yn y llsgr. Benthyciwyd y Llad. *schola*, S. 'school', i'r Gymraeg gan roi *ysgol*; a'r Llad. *scala*, S. 'ladder' gan roi *ysgawl* (*ysgol* yn ddiweddarach). Yr ystyr 'ladder', fodd bynnag, sy'n gweddu orau i'r cyd-destun, a gellir esbonio'r terfyniad *-ol* trwy dybio bod cymysgu eisoes wedi dechrau rhwng y ddau air.
- 61–5 Dichon mai cyfeirio a wneir yma at y thema ganoloesol boblogaidd o Grist yn ysbeilio uffern wedi ei farw er mwyn prynu'r eneidiau cyfiawn a fuasai'n gaeth yno. Ar y thema hon, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Efengyl Nicodemus yn Gymraeg', B xiv (1950–2), 108–12, yn enwedig 112, MWRL 86, 89 a cf. ll. 107n. Fodd bynnag, y mae'n bosibl mai cyfeirio a wna'r bardd at ddedfrydu Crist i farwolaeth gerbron Caiaffas, uchel offeiriad yr Iddewon, neu ynteu at fradychu Crist gan Jiwdas.
- 62 **traw** Gw. GGD 7.28n. Gwelir yr un patrwm cystrawennol, *traw er ... ar ...*, yn ll. 115 *Traw er braw ar bryfed gormant!*
- torf swddan** Caiaffas, Jiwdas, neu'r diafol, gw. llau. 61–5n. Cyfeirir yn GSRh 12.125 at Jiwdas fel *Suddas Swddan* (Gruffudd Fychan) ond fe'i deallir yn e.c. yma. Amrywiad yw *swd(d)an* ar *sawden*, benthyciad o'r S.C. *sauden*, *soudan*, GPC 3184, EEW 168. Y tebyg yw mai'r sain *dd* a gynrychiolir gan *d* y llsgr., cf. yr enghraifft arall yn ll. 187.
- 63 **traul gyfor tros fôr** Cf. Bl BGCC 105 (12.1–2) *Bendith y wenwas i'r dec diyrnas / breisc ton, bron ehalaeth* ('Bendith y nef i'r deyrnas deg / [Yw'r un megis] ton nerthol, helaeth ei fynwes'). Ar ystyr *traul* yma, gw. CLIH 118.
- 64 **ethyw** Ffurf 3 un.prff.myn. y f. *myned*, gw. GMW 132.
- 65 **yn Ei groes** Ar ddefnydd yr ardd. *yn* yma, cf. GCBM ii, 16.204 *G6r yg croc* ['ar grocbren'], *yg croes bedryuan*.
- 67 **calan** Sef diwrnod cyntaf blwyddyn (neu fis). Ceir digon o gyfeiriadau yn y farddoniaeth at haelioni noddwyr bydol adeg calan, a diddorol yw'r ffordd y mae Casnodyn yma'n cyfeirio at haelioni Duw ar yr adegau hynny.
- 69 **Ieuan** Ioan yr Apostol. Yn wyneb pwysigrwydd Mair fel eiriolwraig a'r hanes am Iesu yn ei thraddodi pan oedd ar y groes i ofal Ioan (Ioan xix. 26–7), nid yw'n syn bod Casnodyn yn gofyn am eiriolaeth Ioan

hefyd.

- 71 **yn** Ar yr ystyr 'i mewn', gw. GMW 215.
- 72 **'i** Sef *nef* neu *nawdd* yn y ll. flaenorol.
- 73 **cyfannawdd** Dilynir G 200 sy'n ei ddeall yn amrywiad ar *cyfannedd*; ni cheir y ffurf yn GPC 678.
- 74 **nid ystyr** Sylwer mai ll. yw'r goddrych *Treiswyr*. Ar y diffyg cytundeb hwn rhwng y goddrych a'r f. mewn cymal pth.neg., gw. T. Jones, 'Rhai Sylwadau Gramadegol a Thestunol', LICy viii (1962–3), 112–15; E. Rolant, 'Goddrych lluosog a chymal perthynol negyddol', B xxxiv (1987), 126–8.
- 75 **tawdd** Llsg. *ynhabd*, a allai gynrychioli 'yn hawdd', ond ni weddai hynny o ran ystyr yma. (Ar amwysedd yr orgraff, cf. 2.146n.) Ar *tawdd*, cf. ll. 86 *ufferndawdd*, GMB 20.16 *Ardelwaf o'th nabd rac tabd tanabl* (Elidir Sais) a GBF 52.1 *Duw, dy nawd rac tawd tanllachar—fffern* (Bleddyn Fardd). Rhywbeth fel lafa a olygir.
- 76 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *lle y*.
cawatsawdd Fe'i deallir yn gyfuniad o *cawad* yn yr ystyr 'malltod, haint' (gw. GPC 443, (c)) a *sawdd*, bôn y f. *soddi*. Gthg. G 117 lle y rhoddir yr ystyron 'cawod, llifeiriant,' neu a. '? lluosog', ond ymddengys nad yw ystyr *sawdd* yn gynwysedig. (Ni cheir *cawatsawdd* yn GPC 443). Ceir *sawdd* fel e. yn ll. 203.
- 77 **aergler** Derbynnir yr ystyr a roddir iddo'n betrus yn G 13 a GPC 38.
- 78–87 Ar y gwaeau a ddatgenir, cf. GMB 33.69–70, 72, 76, 88 (Meilyr ap Gwalchmai), GDB 10.63, 65, 67 (Llywelyn Fardd II), GBF 40.9–17, 19–21 (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Fe'u ceir hefyd yn 8.35, 37, 39–41.
- 81 **tryfan** Meddylir am ffurf neu siâp y fflamau tân wrth iddynt achosi poen.
curgawdd Fe'i deallir i olygu 'poenus drallodus'. Yn G 187 rhoddir yr ystyron 'llid dygn' neu 'poenus, gofidus' ond braidd yn wan yw'r ystyr ansoddeiriol yno.
- 86 **ufferndawdd** Cf. ll. 81n.
- 88 **pumoes** Y rhaniad canoloesol, sy'n gyffredin yng ngwaith y beirdd, o hanes yn bum oes neu gyfnod a ddaeth i ben gyda geni Crist, sef o'r creu hyd Noa, o Noa hyd Abraham, o Abraham hyd Foses, o Foses hyd Ddafydd, ac o Ddafydd hyd Grist. Fe'i crybwyllir hefyd yn ll. 183 a 8.12. Crist oedd dechrau'r chweched oes. Ceir disgrifiad o'r chwe oes yn Bl BGCC 354 (33.33–9); gw. hefyd HG Cref 214–15, GDG³ 434, MWRL 89–90, GCBM ii, 294–5, Bl BGCC 362.
- 90 **hoeddl fergyd hawdd** Llsg. *hoedel uergyd habd*. Fe'i deallir i olygu

'oes fer ei chwmmi [a] hyfryd', cyfeiriad at farw Crist yn ddyn ifanc. Ar yr ystyr hon i'r e. *cyd*, gw. G 195, (2) (b), GCBM ii, 376, a gthg. GPC 658 lle nas nodir. Y mae'r ffurf f. *ber* mewn cyfansoddiad â'r eg. *cyd* i'w phriodoli i genedl *hoeddl*, cf., e.e., yr a. *gwendwf* a *gwenllun* ynglŷn â merch, gw. G 745–6. Cynigir, *ib.* 55, y gellid diwygio darlleniad y llsg. i *hoedeluer gyt habd* neu gymryd *bergyt* 'bergyd' i olygu 'byrder', er cydnabod mai *byrgyt* a ddisgwylid felly (eithr ni raid ei gymryd fel e.). Ond y mae darlleniad y llsg. yn gwbl foddhaol fel y mae.

- 92 **Andreas** Andreas, brawd Pedr. Yn ôl y gwaith apocryffaidd cynnar 'Actau Sant Andreas', dioddefodd y sant ferthyrnod ar y groes, gw. Bl BGCC 319 (31.16a–c) *A glyweist-di a gant Andras / A odefawd croes leas? / 'Duw a rannawd, nef a gaf<as>' ac ib.* 331.
- 93 **haeddblas** Derbynir yr ystyr a roddir yn GPC 1803, 'lle neu blas wedi ei haeddu', &c.; gthg. G 758, 'lle'r teilwng, mangre'r gobrwy'. Gellid hefyd ei ddeall i olygu 'cyrhaeddfan'. (Ar *haeddu* yn yr ystyr 'cyrraedd', gw. G 759, GPC 1803.)
- 94 **anturiwn, hwyliwn** Dyma droi at y prs. 1 ll. am y tro cyntaf, ac yn llau. 94–191 fe'i ceir yn gymysg â'r prs. 1 un. Cf. hefyd ll. 98 *ein gwarawd*, ll. 145 *ein Rhi* a ll. 155 *ein diwedd*. Cf. GCBM ii, 264–5, lle y dywedir am 'Canu i Dduw' Cynddelw, 'Diddorol nodi sut y mae'n amrywio rhwng y person cyntaf unigol a'r person cyntaf lluosog yn y gerdd. Y mae hyn yn ein hatgoffa o'r emynwyr diweddarach sydd yn canu o brofiad personol ond hefyd yn lleisio profiad eu cynulleidfa ac yn awgrymu'n gryf mai cerdd lys ydyw hon yn ei hanfod yn hytrach na cherdd bersonol.' Cf. hefyd GBF cerdd 32 (Madog ap Gwallter) lle yr uniaetha'r bardd â'i gynulleidfa.
- 94–5 Cf. yr anogaeth debyg i fynd i'r Tir Sanctaidd ar bererindod yn GDB 36.7–8 *Gofynnôn, treulôn traet a byssed, / Tref yd aeth Duó nef o'e tangneued* (anh.)
- 95 **tynnwn fedd** Cymerir mai ystyr *tynnwn* yma yw 'tynnwn at, awn i' gyda *bedd* wedi ei dreiglo i ddynodi cyrchfan ar ôl bf. yn dynodi symudiad (ar hyn, gw. 2.53–4n). Ar yr ystyr hon i *tynnu*, cf., e.e., *Rhyddiaith Gymraeg*, ii (Caerdydd, 1956) 166, *myfi a genais yn iach a'm lletteuwr ac a dynnais tu ac adref*. Ystyrier hefyd yr ymadrodd *tynnu cwrs* a geir yn GDGor 6.79–80 *Owain a dynn i'r un daith / I Gaersalem gwrs eilwaith*.
- bedd ein Rhi** Y Bedd Sanctaidd, sef yr ogof greigiog yng Nghaersalem lle y credid bod Crist wedi Ei gladdu cyn Ei atgyfodi. Dyma oedd y pennaf o'r safleoedd sanctaidd, gw. ODCC² 665.
- 96 **Ynad** Ar yr ystyr 'gŵr doeth', cf. llau. 138, 192 a gw. GCBM ii, 16.155n.

- 97 Cf. IGE² 150 (LII.5–6) *Un yw hwn, iawn i'w henwi / Yn iôn athrawon, a Thri* (Gruffudd Llwyd).
- 98–103 **Â'r disgrifiad hwn o ymwneud personau'r Drindod â'i gilydd**, cf., e.e., GMB 14.17–24 (Gwalchmai ap Meilyr).
- 101 **gwnaed bawb** Deellir *gwnaed* yn ffurf amhrs.grff. y f. *gwneud* a phriodoli'r treigladd yn *bawb* i effaith yr ardd. *i* a gollwyd drwy gywasgiad (cf., e.e., GGD^T 6.28 *o Fôn Forudd* (Gwilym Ddu o Arfon)). Gthg. G 697 lle y deellir *gwnaed* yn ffurf 3 un.grch. y f. (ar dreiglo'r goddrych ar ei ôl, gw. Treigladau 211–12), ond llai boddhaol yw'r synnwyr. Dichon na ddylid ystyried *bawb* yn wrthrych *gwnaed* 'gwnaethpwyd', a *bob grymiant* yn sangiad ('gwnaethpwyd pawb [â] phob grymuster'), gan na threiglir y gwrthrych ar ôl ffurfiau amhrs. y f. fel rheol (gw. *ib.* 229–31).
- grymiant** Y tebyg yw mai grymustersau ysbrydol a olygir; cf. LIA 146 (ll. 6) *nerthoed a grymyant rinbedeu yr eglbys*.
- 102 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *Trwy yr neu* (ond yn llai tebygol) *i gyd*. Y mae hon yn frawddeg anodd ei dehongli ond ymddengys mai *[p]awb* yn y ll. flaenorol yw goddrych y f. *gadant* ac mai at y *Tad* ac y *Mab* (llau. 100, 101) y cyfeiria 'u. Os felly, cyfeiriad sydd yma at y syniad am yr Ysbryd Glân fel y *gluten amoris* ('glud cariad'), y grym sy'n clymu cariad Tri Pherson y Drindod ynghyd.
- gadant** Ar yr ystyr 'ystyried, barnu, cyfrif', gw. GPC 1367, (d); cf. GCBM ii, 6.217 *Cadarn prein, yn penn yt adwyd*.
- 103 Odl fewnol yn unig a geir yn y ll. hon.
- 104 **croes dygiant** Llsgr. *groes dygyant*. Deellir *dygiant* yn dreigladd o *tygiant*, amrywiad ar *tyciant* 'ffyniant, llwyddiant, budd' (gw., e.e., GMB 18.15, GLIF 31.6, GDB 23.39). Gallai hefyd fod yn dreigladd o *dygiant* 'dygiad' ac ystyr *croes ddygiant* yn 'dygiad [i'r / o'r] groes', ond ni nodir enghreifftiau o *dygiant* yn G 417 a GPC 1131 a chyfetyb y gwrtheiriad yn *croes dygiant* i *Trafael hael* y ll. ddilynol a'r gwrthgyferbynnu rhwng *Trist fu Grist a hwyllawdd ar foliant*.
- 105 **ar** Ar y defnydd adferfol hwn o'r ardd. *ar* gydag e., gw. GMW 184–6.
- 107 **doddyw o ddifant** Odid nad cyfeiriad sydd yma at Grist yn dychwelyd o uffern ar ôl ei hysbeilio, gw. llau. 61–5n. Ar y ffurf *doddyw*, 3 un.grff.myn. y f. *dod*, gw. GMW 134.
- 108–9 **cadwant ... / ... gwelsant** Deellir *Ei nifer Ef* (sef apostolion a dilynwyr Crist) yn ll. 109 yn oddrych.
- 108 **Tros dydd deugeinfed** Ymddengys mai ffordd arall yw hyn o ddweud 'am nid llai na deugain diwrnod'. Cyfeirir at y deugain diwrnod rhwng atgyfodiad Crist o'r bedd a Difiau Dyrchafael; cf. Bl BGCC 356 (33.69–72) *Ef kyuodes y trydyd dyd o'e orwedua, / Ac y doeth att y*

disgyblion gwedy bwyta. / Gwedy yspeit hir quadraginta [sef ‘deugain diwrnod’] / *Neur aeth men pan doeth: yn y Nef y bu, yn y Nef y byd, yn y Nef y mae etwa*; LIA 141.18–19 *ar deugeinvettyd ... ydysgynnaôd ar nefoed.*

110 **Morgant** Ymddengys mai cyfaill neu berthynas (gw. ll. 111 *cyngharant*) i Gasnodyn ydoedd. Ai ef hefyd oedd noddwr Casnodyn ar gyfer y gerdd (gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol uchod)?

111 **dau fôr** Rhesymol yw tybio mai Môr Udd (Y Sianel) a’r Môr Canoldir a olygir.

cyngharant Unig enghraifft. ‘Ceraint, perthnasau’ yn ôl G 224 a GPC 737, o *cy(ng)-* a *carant*, un o ffurfiau ll. *câr*. Ond gan y golygai *câr* ‘gyfaill’ hefyd, gallai *cyngharant* yntau olygu ‘cyfeillion’.

112 **treth** Gw. 2.132n.

113 **bryn a phenrhyn a phant** Hen drawiad, cf., e.e., GLILl 23.148 *Gwarthaf brynn a phenryn a phant*; GDB 20.19 *Gôyr gortho bro brynn a phant* (anh.).

114 **trew** Yr oedd tisian yn arwydd o anlwc, gw. DGG² 170, CT 57, BI BGCC 273. Â’r ll., cf. yn arbennig *ib.* 276 (26.10c) *Ny lut ar lev trev direid* (‘Ni bydd un tisian anffodus yn mennu dim ar ddyn dewr’) sy’n digwydd mewn cerdd bererindod arall. Mewn dihareb yn Llyfr Coch Hergest, dywedir nad yw tisian yn tycio yn erbyn angau, J 111, 1074.9 *Nac vn trew na deu. ny naôd rac agheu* (gw. W. Hay, *Diarhebion Cymru* (Lerpwl, 1955), 174).

Rholant Gw. 2.147n.

115 **Traw er ... ar ...** Gw. ll. 62n. Sen yw’r ll. i bryfed uffern, ar sail yr hyder a’r calondid a deimla’r bardd o fynd ar bererindod.

116 Â’r syniad hwn bod y bardd yn dal i ganu ar ei awr angau, cf. GDB 10.63–4 *Gwae ef draethadur, kyn llafur lleith, / Ny draetho honaôd arawd areith* (‘Gwae ef [y] bardd, cyn gwewyr angau, / Na fo’n datgan amdanat draethiad o fawl’) (Llywelyn Fardd II).

trethwyf Llsg. *Trethôyf* ac fe’i derbynnir yn betrus. Ar yr ystyr, cf. *treth* ‘tâl’ yn 2.132 (a gw. y nodyn) a ll. 112; hefyd GDLl 156 (71.11–14) *O chlyw im (ni chêl amarch) / Erchi na milgi na march, / Medd y bardd gormodd ei bwn, / Truthiwr oedd, trethu’r oeddwn! Y mae’n bosibl, er hynny, mai bai sydd yma am traethwyf.*

o ddiwedd fy mant Sef â’i dafod (trwy ganu barddoniaeth).

117 Rhywbeth fel ‘tra bo ynof anadl’ a olygir.

trafodwr Ar ystyron *trafod*, &c., gw. CA 94.

119 **tremynu** Bron na ellid yr ystyr ‘ymuno â’.

trais lu Cf. y defnydd o’r geiriau *byddin* a *breisglu* am bererinion yn

awdl Gwilym Ddu o Arfon (gw. ll. 110n), GGD 9.7–8 *Boddiannwn Grist, byddin ddirist, budd iawn ddedfryd. / Buan y tyn y breisglu gwyn, nid brwysgle gwŷd.* Os i Gaersalem yr oedd Casnodyn yntau yn dymuno mynd, efallai mai oherwydd presenoldeb y Mwslemiaid yno, y buasai Cristnogion yn brwydro yn eu herbyn, y meddylir am y pererinion fel byddin.

- 123 **traul** Gthg. ei ystyron yn llau. 52, 63. Nes ydyw yma i'r ail.
- 124 **trafael** Llsg. *Trauel*, ond y ffurf yn *-ae-* a geir yn yr holl enghreifftiau eraill o'r gair yn yr awdl (llau. 47, 81, 105, 124, 148, 173 (*drafaelion*), 186).
- 126 **dwylaw** Sylwer ar y terfyniad *-iaw* yma, lle y disgwylid *-aw* (*dwy a llaw*), drwy gamgydweddiad â ffurfiau gydag *i-*ymwrthol cyn y terfyniad.
- adeiliad** Derbynnir yr ystyr a roddir yn betrus yn G 8.
- 127 **Pryniad** Ystyr *pryniad* yn ôl GPC 2924 yw 'y weithred o brynu, pwrnasiad, ... prynedigaeth (o feddiant pechod, &c.)', ond cymerir mai'r terfyniad yn dynodi gweithredydd yw *-iad* yma.
- 129–33 Cyfeiriad at 'y chwedl fod gŵr dall o'r enw Longinus wedi gwanu ystlys Crist ar y groes a rhoi'r gwaed ar ei lygad, ac iddo wedyn ddod i allu gweld', gw. GDG³ 488 lle y rhoddir cyfeiriadau pellach at y chwedl gan y beirdd. Gw. hefyd G 292, ODCC² 835.
- 129 **diwad** Dilynir GPC 1053 a'i ddeall yn e.; gthg. G 375 lle y'i rhestrir yn a. 'gwrthodedig, amddifad'.
- 131 **Gwylid** Petrus yw'r ystyr 'ceidwad' a gynigir yn G 737 a GPC 1762.
- 133 **a'i gwnaeth ... o ddifedydd** Cf. GCBM i, 3.210 *A'm gwnaeth o burawr yn brydydd.*
- 135 **gwarawd** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *gwaredu*, gw. GMW 124.
- 138 **Pen-Ynad** Ar ystyr *ynad*, gw. ll. 96n.
- 139 **sail** Cf. y defnydd o *grwndwal* yn BT (RB) 30.1–2 *a chedernyt y doethon ac enrydet a grwndwal yr eglwysseu* (am Drahaearn, brenin Gwynedd).
- dengraddwlad** Llsg. *dengredwlat* a dilynir G 308 ynglŷn â'r ystyr a'r diwygiad. Ar *dengradd*, cf. ll. 153 *dengradd nef*. Cyfeirir at nawradd yr angylion a gradd Cristnogion y byd hwn, gw. BI BGCC 168–9, GCBM ii, 17.1n.
- 140 Y mae traean cyntaf y ll. yn rhy hir oni chywesgir *cynefinglod* yn *cnefinglod*, gw. G 246.
- ffyrf** Y tebyg yw mai at ras yr afrlladen y cyfeirir; cf. ll. 151 *ffyrfrad*.
- 141 Cf. BI BGCC 354 (33.45–6) *A'r nos y ganet Iessu, gwr a'n iacha, / Y*

clwyspwyt cor egylyon Nef yn canu 'Gloria'.

'Gloria' Luc ii.13–14 *Et subito facta est cum Angelo multitudo militiae coelestis laudantium Deum, et dicentium: Gloria in altissimis Deo, et in terra pax hominibus bonae voluntatis.*

- 142 **trywyr** Cymer y rhifolyn *tri* y ffurf *try-* hefyd pan fo'n elfen gyntaf cyfansoddair, gw. GSRh 10.60n.
- 143 Y mae'r traean olaf yn rhy hir oni chywesgir *yn ei yn 'n ei.*
- 146 **Erod** Sef Herod, y lladdwr babanod. Gw. hefyd GDB 36.18n.
- 147 **addoli i** Ar y gystrawen, gw. GBDD 7.4n, er y gellid hefyd gymryd *i* gyda [*c*]ofiad yn y ll. flaenorol.
- 148 **archwn i'r Hael** Ceir gwrthrych y deisyfiad yn y cymal enwol yn ll. 155.
- 153 **dengradd nef** Gw. ll. 139n.
gwyddiad Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod*, gw. GMW 122,148.
- 157 Cynghanedd sain bedair odl.
- 158–9 Cf. IGE² 151 (LII.33–4) *Teg fu ei alw, di-salw sôn, / Tri ac Un trwy y ganon* (Gruffudd Llwyd).
- 159 **Ceiniad canon** Cf. GDB 19.21–2 *A hyn a dyweit keineit kanon—bur / Yscrethyr, llaŕur y llyŕodron* (dienw) ('A'r pethau hyn a fynega datgeiniaid rheol sanctaidd / [Yr] Ysgrythur, gwaith y penaethiaid [gynt]'); GBF 39.15–16 *Naŕd y pedwar gŕar, gŕerydon—wryreit, / Agelystor, pleit keineit* [darlleniad *kyweit*] *kanon!* (Gruffudd ab yr Ynad Coch) ('Nawdd y pedwar llariaidd, diwair [fel] gweryddon, / Efengylwr, [o] gwmmi datgeiniaid yr Ysgrythur!'); BI BGCC 302 (30.ch 1–3) *Arthur, bendefig haelion, / O chredir geiriau'r Ganon, / Á Duw, ni thycia ymryson* ('geiriau'r Beibl', yn ôl pob tebyg, *ib.* 310). Ar amryfal ystyron *canon*, gw. GPC 416.
- 160 **gleinion raddau** Gw. ll. 139n.
- 167 Cyfeirir at ladron ac ysbeilwyr (*treisogion*), pobl a arferai weithredu liw nos, gw. GSH 152 (14.30n). Y mae Duw yn dda nid yn unig yn creu'r nos ond hefyd, trwy hynny, yn cyfyngu gweithgareddau carfan beryglus.
- 168 **saith urddolion** Nid hawdd gwybod at bwy y cyfeirir. Efallai mai'r esboniad mwyaf tebygol yw mai aelodau tair urdd uwch ('*major orders*') yr Eglwys, sef yr esgobaeth, yr offeiriadaeth, a'r ddiaconiaeth, a'r pedair urdd is ('*minor orders*'), sef eiddo'r porthorion, llëwyr ('*lectors*'), bwrwyr cythreuliaid, a'r acolytiaid, gw. ODCC² 860, 919, sydd gan y bardd mewn golwg. Dylid cofio, er hynny, y defnyddir y rhif saith i gyfleu perffeithrwydd ac y dichon, felly, nad oes iddo unrhyw arwyddocâd manwl yn yr achos hwn; gw. *Brewer's Dictionary*

- of Phrase and Fable*, ed. I.H. Evans (London, 1970), 984. Posibilrwydd arall yw mai atgof sydd yma am esgobion hen drefn Saith Esgopty Dyfed a grybwyllir yn y Cyfreithiau, gw. T.M. Charles-Edwards, 'The Seven Bishop-Houses of Dyfed', B xxiv (1970–2), 247–62, ond llai tebygol, efallai, yw hyn. Fe allai *saith* hefyd fod yn e. yn golygu 'sant' (o'r Llad. *sanctus*), gw. BI BGCC 193, GPC 3171, ac yn gyfeiriad at Iesu; ond os felly, annelwig yw arwyddocâd *sail*. Ar *urddol* yn yr ystyr sydd iddo yma, gw. GIG 403, BI BGCC 262 (59n). Ystyrier hefyd y *saith* angel yn Dat viii.2 *et passim*.
- 169 **cennyw** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *canfod*, gw. GMW 145.
- 174–8 Sylwer ar y cymalau pth.neg. ar ddechrau pob ll. lle y dilynir y neg. gan y treiglâd llaes, nid y treiglâd meddal. Y mae'n amlwg fod Casnodyn yn agosach i arfer y Cywyddwyr nag i eiddo Beirdd y Tywysogion yn hyn o beth, gw. Treigladau 355–6.
- 180 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *yn ei* (hynny yw, 'n ei).
a Gellid defnyddio'r geiryn *a* yn ogystal ag *y* mewn cymal pth. traws genidol, gw. GMW 65.
- 181 **gwŷn** Llsg. *gŷy*; dilynir y diwygiad a gynigir yn ACDC 399.
- 183 **pumoes pumloes** Ar y *pumoes*, gw. ll. 88n. Credai'r beirdd ymhellach fod pum clwyf Crist yn cyfateb i bob un o'r oesoedd hyn, megis pan ddywed Cynddelw *Can duc pymwan Crist pymoes o gaeth, / O yg, o gyuyg gymodogaeth*, GCBM ii, 17.109–10 a gw. hefyd *ib.* ll. 109n.
- 187 **Caiffas** Uchel Offeiriad yr Iddewon y dedfrydwyd Crist ger ei fron ac a anogodd Ei gondemnio, gw. ODCC² 218.
Suddas Sef Jiwdas, y disgybl a werthodd Iesu i'r Iddewon am ddeg darn ar hugain o arian, gw. *ib.* 750.
swddan Pabilon Cyfeiriad o bosibl at Nebuchadnesar. Ar *swddan*, gw. ll. 62n; ar y ffurf *Pabilon*, GSC 7.14n.
- 192–213 Byrdwn y llau. hyn yw fod y bardd, fel rhan bwysig o'i edifeirwch am ei fuchedd, yn dymuno rhoi'r gorau i *wyriaiith gorwag* (ll. 193) a'r *glêr ofer a yf* (ll. 199) ac efelychu, yn hytrach, *seiliaiith* (ll. 193) Solomon (*Selyf*), mab Dafydd Frenin. Ar y berthynas rhwng y beirdd proffesiynol a'r glêr, gw. uchod td. 5.
- 192 **Selyf ynad** Ar ystyr *ynad* 'gŵr doeth', gw. ll. 96n. Ar ddoethineb Solomon, gw. yn arbennig 1 Br iii.4–15, 2 Cr i.3–12; hefyd TYP² 127–8, 506–7, ODCC² 1493–4; cf., e.e., LIA 144 (ll. 15). Dylid cofio hefyd, er hynny, fod Solomon hefyd yn enwog fel barnwr, gw. 1 Br iii.16–28, vii.7, a cf., e.e., BI BGCC 82 (10.23).
- 193 **seiliaiith** Cf. hefyd ll. 228 *llogail sail Selyf* a'r nodyn. Dichon fod y bardd hefyd yn meddwl am seiliau tra chadarn teml Solomon (gw. ll.

- 228n) pan ddewisodd y gair hwn. Cf. GLIBH 4.87–8 *Gwedy maddeuaint, braint bryf, / Gwawdaml seilm gwiwdeml Selyf* (Dafydd ap Gwilym); R 1303 (llau. 11–12) *am cu 6rd seilma6l a'm kerd salmeu* (Dafydd y Coed).
- 194–5 **Saith ... / ... seilm a orug** Cyfeirir at y saith salm benyd (sef salmau 6, 32, 38, 51, 102, 130, a 143), gw. ODCC² 1265, a cf. DGA 63 (23.21–2) *Y gŵr a wnaeth, lliw gwawr ne', / Saith salm, yn saith ei salme.*
- 194 **Meddyg** Ar alw Duw yn feddyg, gw. hefyd GPC 2400.
- 196 **gorugum** Ffurf 1 un.grff.myn. y f. *gwneud*, gw. GMW 130.
- 197 **llyf** Petrus yw'r ystyron a gynigir yn GPC 2254 (d.g. *llyfi*), (a), '... brwnt, budr; dyn budr neu aflan'.
- 198–9 Ar y cyfeiriad at y glêr, cf. geiriau enwog Gruffudd Llwyd, IGE² 119 (llau. 17–18) *Dan bwyth nad anobeithiwyf, / Nid un o'r glêr ofer wyf.*
- 198 **oernyf** Ar arwyddocâd *nyf* 'eira', cf. ll. 26 *od* a gw. *ib.n.*
- 201 **goruthrus** Llgr. *guthrus*; dilynir diwygiad G 576.
chwaïr Ffurf 3 un.pres.myn. y f. **chwaraf: chwaru*, gw. GPC 843.
- 203 **gwddyf** Fel y dywedir yn ACDC 404, 'Darlunnir Angau yn aml yn dal cryman yn ei law mewn lluniau o'r cyfnod.'
- 204 **ys dir** Llgr. *ystir*.
- 205–6 Ymddengys mai'r hyn y mae'r bardd yn ceisio ei ddweud yw na fydd dinistr y pridd ar gorff marw yn ddim o'i gymharu â dinistr uffern ar enaid y corff hwnnw.
- 205 **poendan** Llgr. *poendann*. Daw'r ail elfen o fôn y f. *tannu* 'taenu, lledu', fel y nodir mewn slip gan Lloyd-Jones yn nghasgliad Geiriadur Prifysgol Cymru.
pan dyf Llgr. *pandef*, ond diwygir er mwyn yr odl.
- 206 **nadd neddyf** Cf. GLIBH 57 (4.83) *Gŵyr pob gradd mad nadd naddyf* (Dafydd ap Gwilym).
- 210 **gorffwyf** Gw. 2.81n.
- 212 **nid cer Caerdyf** Sef, y mae'n debyg, lle yr oedd y glêr yn canu. Nodir *cer* yn G 131 fel yr unig enghraifft sicr o'r gair yn cael ei odlu yn *cêr*.
- 213 **Gem Gaerusalem** Sef Crist.
- 219 **terfynt** Ar y *-t* anorganig, cf. y ffurfiau *cynghorfynt* a *cynghorfynt*, gw. GPC 738.
hawdd hynt Llgr. *habduynt*. Cynigir y diwygiad hwn yn betrus yn G 767 a hefyd *hawddwynt*, ond gan fod *rhwyddwynt* yn y ll. flaenorol, efallai mai'r cynnig cyntaf sydd orau.
- 220 **gwerin gred** Llgr. *göeringret*, a dilynir awgrym petrus G 667.

- 223 **maeth** Y tebyg yw mai ymborth ysbrydol a olygir.
gobrwy Nid oes f. yn y frawddeg sy'n ymestyn o lau. 221–5, ac yn ôl G 540, e. yw'r enghraifft hon o *gobrwy*. Tybed, er hynny, nad ffurf 2 un.grch. y f. *gobrwyaw* sydd yma gyda *Taith faith faeth* yn wrthrych? Ni restrir enghraifft o'r ffurf *l.c.* nac yn GPC 1419, 1693, ond cf., e.e., *gofwy*, 2 un.prs.myn. a 2 un.grch. *gofwy(aw)*, gw. G 547.
- 224 **gwŷdd** Ar y ffurf yn *-dd*, gw. ll. 4n; gthg. G 731 lle y'i cynhwysir yn betrus d.g. *gwŷð!* 'pren', &c.
saith ... briwydd Gw. ll. 4n.
brawaith Ar y diffyg treigladau ar ôl *saith*, gw. Treigladau 135.
gwâl Cf. R 1151.35–6 *Yn lle syndal ygkylch y wal. gbelit carpeu* [am y baban Iesu].
- 225 **cyn** Cydier wrth l. 223 *atregwch*.
trechddydd Dydd angau gyda'i ganlyniadau alaethus.
- 226 **llym les** Cyfeiriad, y mae'n debyg, at y lles a ddaw i Gristion trwy ddiodefaint. Sylwer ar y gwrtheiriad.
- 228 **llogail sail Selyf** Cf. Bl BGCC 94 (11.7–8) *Deheu Reen, mynyd adien, mwyn kyfundawt, / Yn ran eluyd, yn temhyl Selyf, seil ogyffrawt* ('Duw cyfiawn [ar ei] fynydd hardd, tirion [ei] gymdeithas, / [Ac] ar y ddaear, yn nheml Solomon, y [bu] gofal am [ei] sail') lle y cyfeirir at y deml a gododd Solomon i Dduw a'r gofal mawr a gymerwyd wrth osod ei sylfeini (1 Br v–vii; gw. hefyd ODCC² 1287–8, 1346). Megis yno, ymddengys fod teml ddaearol Solomon yn cael ei chyfosod yma hefyd â thrigfan Duw yn y nefoedd; ymhellach gw. Bl BGCC 97–8. Deellir *llogail* yn enghraifft o gydgymeriad. Ar ei ystyron, gw. GPC 2202.
prifdde Yr a. *prif* a'r terfyniad *-dde* yn cyfleu natur neu ansawdd, gw. G 304, GPC 1154.
- 233 Y mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir *lle ydd*.
aeth ... ffrwythwledd Ar y gystrawen, gw. 2.53–4n.
ym medd medrwh Cyfeiriad at fuddugoliaeth Crist ar angau trwy Ei atgyfodiad.
- 237 **dadolwch** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

Math o farwysgafn yw'r awdl hon,¹ fel y dengys ei dechrau a'i diwedd, ac

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 181–90, 411–23. Ceir yr argraff yn WCCR 109 mai'r Deg Gorchymyn yw ei hunig neu ei phrif gynnwys, ond eu crybwyll yn unig a wneir (ll. 41) heb ymdrin dim â hwy.

os yw hi'n ddiogel cymryd mai personol yn hytrach na chyffredinol ei naws yw'r ail linell, *Rhediad yw ataf yngaf Angau!*, yna teg yw tybio mai yn fuan cyn ei farw y canodd y bardd hi mewn gwirionedd. Fodd bynnag, nid ar ei dynged ei hun yn unig y myfyria oherwydd y mae ei gerdd yn llawn anogaeth i eraill i fyw'n rhinweddol fel y byddont gadwedig. Ymagwedda'r bardd yn dra thebyg i ŵr crefydd yn rhoi pregeth, gan gyflwyno'r un *repertoire* cyfarwydd o themâu: Dydd y Farn (llau. 5–14), pechodau sy'n gas gan Dduw (llau. 15–22), y Tri Amser (llau. 23–34), datganiadau o wae i wahanol fathau o bechaduriaid (llau. 35–42), amryfal orchmynion cadarnhaol a negyddol (llau. 43–52), pwysigrwydd cyffesu (llau. 53–6), *memento mori* (llau. 57–8), y Saith Bechod Marwol (llau. 59–70), a Saith Weithred y Drugaredd (llau. 71–4).² Yn wir y mae'r holl gerdd mor bregethwrol a chymhellgar ei naws fel mai hawdd y gellid credu mai gŵr crefydd mewn gwirionedd—Ffransisgiad neu Ddominicianiad efallai³—a'i cyfansoddodd, a chadarnheir yr argraff hon tua'i diwedd pan gyfeiria'r bardd ato'i hun yn adrodd y Salmau yn gyson, yr union beth a wneid yn litwrgi dyddiol yr holl urddau crefyddol (gw. llau 77–8n).

Gwelir yr un math o ddyllanwadau ar y gerdd hon o ran ei themâu ag a nodwyd ynglŷn â'r gerdd flaenorol.⁴ O safbwynt ei chelfyddyd, nid yw hi'n un o gynhyrchion mwyaf cywrain Casnodyn, ac efallai fod a fynno hyn â'i natur fwy ymarferol.

Fe'i canwyd ar fesur gwawdodyn a'i therfynu ag englyn unodl union. Y mae hyd y llinellau yn rheolaidd ac fe'i cynganeddwyd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain bron yn llwyr, gyda nifer o linellau yn cynnwys cynghanedd sain deirodl ac eraill yn bengoll. Ceir cymeriad llythrennol, cynganeddol, a synhwyrol drwy'r gerdd. Cysylltir diwedd y gwawdodyn olaf â dechrau'r englyn trwy gyrch-gymeriad ac y mae gair olaf yr englyn yn cyrchu dechrau'r awdl.

1–4 Ergyd y llau. hyn yw fod y bardd wedi derbyn y fath ras (*blodau—pennaf*) gan Dduw fel na all beidio â'i garu'n ddiwylf a phur.

1 **rhaid oedd ym** Cf. GMB 23.1–2 *Reit y6 ynn dill6ng tyllued—pressent*, / *Kan y tym pryssur y houered* (Elidir Sais), 32.1–2, *Reittaf oed ymi, reittaf—y'm bywyt* / *Caru cymhlegyd y gryd grymaf* (Meilyr ap Gwalchmai).

blodau Ar yr ystyr, gw. G 59. Nis cynhwysir yn GPC 288.

2 **rhediad** Fe'i deallir yn gyfuniad o fôn y f. *rhedeg* a'r oidd. enwol *-iad* yn dynodi gweithredydd (gw. GPC 1997 d.g. *-iad²*); cf. 2.119 *rhediad*

² Y mae'r gerdd hon, yn enwedig o ran y rhestrau a geir ynddi, yn dwyn ar gof rannau o awdl Gruffudd ab yr Ynad Coch i Dduw, GBF cerdd 40.

³ Cf. hefyd lau. 55–6n.

⁴ Gw. y sylwadau rhagarweiniol iddi.

cad. Gthg. GPC 3045 lle y rhestrir *rhediad* yn unig fel bôn y f. a'r oldd. enwol *-iad* yn dynodi gweithred berf a'i chanlyniad, &c. Peth cyffredin oedd personoli angau, ond pur drawiadol yw ei ddisgrifio ymhellach fel rhedwr. Cf. hefyd l. 22 *dan draed angau* a'r gerdd 'Cywydd yr Angau' gan Hywel ab Ieuan ap Gronwy o Forgannwg a ganodd tua chanol y 15g., Card 5.44, 18^v (llau. 19–20), *drvd a dig ar droed a dav / di yngan i daw angav* (gw. hefyd E.I. Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982–3), 18–19). Awgrymog yw'r hyn a ddywedir yn ACDC 18, 'Oddi wrth y cyfeiriadau mynych at uffern fel lle llawn o ryfeddodau erchyll ... ymddengys fod Casnodyn wedi'i drwytho mewn syniadau a lluniau crefyddol', a dichon hefyd mai dyma'r esboniad ar l. 21 *[b]eryf cythrau wall, 7.59 Troch heol ysgol esgar boethfan, a 9.3 ym mwynball y mae* (am Fair). Os felly, daw i gof gywydd Dafydd ap Gwilym i luniau Crist a'r Apostolion, GDG³ 9–10 (cerdd 4) ac eiddo Iolo Goch i'r deuddeg Apostol a'r Farn, GIG 110–13 (XXVII).

5 **mesurau**—**iawn** Syniad sylfaenol *mesur* yma yw rhywbeth sy'n cyfyngu neu'n sianelu ymddygiad.

6 **rhylawn rolau** Gthg. llyfrau'r Beibl y cyfeirir atynt yn ll. 39. Daw *rhol* 'sgrol', &c., o'r S.C. *rolle*, gw. GPC 3093.

8 **yr berchir** Llsgr. *yr berchir*. Fe'i deellir yn gywasgiad o y a *rhy* a *perchir*, cf. GDF 30.42 *Gwae ni o'i drengi fal yr drengis* (Dafydd Benfras). Ar y gn. rhagferfol cadarnhaol gyda ffurf bres.fyn. y f. yn mynegi'r dyfodol, gw. GMW 168. Dylid hefyd ystyried cynnig ACDC 412 mai *erberchir* oedd y darlleniad gwreiddiol o f. dybiedig **erberchi*, cf. yr e. *erbarch* 'parch mawr, anrhydedd', &c. (gw. GPC 1228).

goënwir Dilynyr G 554 a GPC 1428 a'i ddeall yn a. yn golygu 'drwg, anfad'. Deellir *goënwir gau* yn ymadrodd enwol sy'n gwrthgyferbynnu â'r *pob gwir* a *berchir* ar Ddydd y Farn. Gthg. ACDC 412 lle y cymerir *goënwir* yn f. â'r ystyr 'ceryddu, condemnio, drwg-feirniadu', er nad oes unrhyw dystiolaeth yn G *l.c.* na GPC *l.c.* iddi.

9 **mynydd Pibl** Sef Mynydd yr Olewydd, gw. ODCC² 998, GIG 122 (XXVIII.1–6) *Pan ddangoso ... / Pobl y byd, peibl lu bedydd, / Garbron Duw cun ... / ... eu gweithredoedd, / Ar ben Mynydd, lle bydd barn, / I gyd, Olifer gadarn, / ...*

12 **pumoes** Gw. 7.88n.

13 **barn** Llsgr. *darn*; derbynnir diwygiad G 52.

hawl Yn llythrennol '[a chando] hawl [iddynt]' (sef y *gwythau*).

14 **ar** Cydier wrth *barn* yn y ll. flaenorol.

19 **cyrch** Yn G 265 fe'i deellir yn fa. 'cyrchu, ceisio', fel pe bai Duw yn oddrych iddi a *camweddog* yn wrthrych. Cymerir, yn hytrach, fod y f.

yn gyflawn a bod *camweddog* yn oddrych: *Ni chyrch camweddog ... / ... ar bregethau.*

20 **ar** Gw. 3.9n.

21–2 **beryf cythrau wall, / ... dan draed angau** Dadleuir yn ACDC 414, ynglŷn â *dan draed angau*, y dichon fod gan y bardd ryw ddarlun mewn cof. Dichon fod y geiriau *beryf cythrau wall*, hwythau, yn seiliedig ar ddarlun. Gw. hefyd l. 2n. Ar y llaw arall, gan fod y ddelwedd o adar rhaib ac ysglyfaeth (e.e. beryfod, brain, &c.) yn ysu milwyr marw ar faes y gad yn un dra chyffredin yn y farddoniaeth Gymraeg, efallai fod y geiriau hyn wedi tyfu'n naturiol o'r traddodiad brodorol.

cythrau Llsg. *kythreul*. Derbynnir diwygiad petrus G 138, 270.

22 **dall** Ar yr ystyr, gw. 7.39n.

23 **Gŵr clydwr** Ceir yr un ymadrodd yn 1.33 am Ieuan Llwyd.

24 **tri amser** Y tri chyfnod a ddisgrifir yn llau. 25–32, sef cyfnodau anghyfraith, cyfraith a gras. Y mae'r rhaniad hwn o hanes y byd yn dwyn ar gof y *pumoes* a grybwyllir yn ll. 12, ond y mae'n fyrrach a'r pwyslais ar y cyfnod o ymgnewsoliad Crist hyd Ddydd y Farn.

27 **ail cyngor** Cyfeiria hefyd at yr ail *amser* (ll. 24).

urddau Y tebyg yw mai at raddau'r angylion a'r ffyddloniaid y cyfeirir, gw. 7.139n.

28 **taplys** Benthyciad o'r S. *tables*, gw. EEW 85, 99, 100, I. Williams, 'Rhai Geiriau yn Peniarth 3', B ii (1923–5), 41.

30 **gynnau** Fe'i cynhwysir yn G 256 yn betrus d.g. *kynneu* 'tanllwyth' ond gwell yw'r adf. yn y cyd-destun.

33 **para** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *para*, sef amrywiad ar *parhau*, gw. GPC 2690, a cf. GCBM ii, 16.107.

35–41 Ar y datganiadau gwae, gw. 7.78–87n.

38 **na châr buchedd senedd seinau** Cf. ChO 5 (ll. 24)–6 (ll. 2) *Velly llawer o'r myneich, a'r ysgolheigyon, a'r lleygyon, pan darlleont, neu pan glywont darllein buchedeu seint, ... , diffrywyth vyd ganthunt wy hynny oll* Ar *seinau*, un o ffurfiau ll. *sant*, gw. GPC 3177.

39 **synnwyr llwyr uwch llyfrau** Cf. GLIF 5.1–2 *Gwyn, gbaranda6-dy ar synhwyr / A draetha llyfreu mor ll6yr* (Llywelyn Fardd I); GBF 40.69 *Kymmuna a chyffes a lles llyfureu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Y tebyg yw mai at wŷr crefydd yn benodol yr anelir y ll. hon, cf. y dyfyniad o 'Chwedlau Odo' yn y nodyn blaenorol.

40 **ni wyl cyfyl y rhaid cofau** Geiriau ansicr eu harwyddocâd ond cymerir mai *memento mori* yw'r byrddwn; cf. GBF 38.1–3 *Ponyt g6ann trymder—pechadur, / Pechodeu aniuer, / Na wyl dyn dyuot y amser*

(Gruffudd ab yr Ynad Coch). Dichon hefyd mai *rhaid* yn yr ystyr ‘angen’ sydd yma ac mai rhywbeth fel ‘agosrwydd yr angen [i ofalu am] feddyliau [pobl]’ a olygir.

- 41 **Deddfau—Dengair** Sef y Deg Gorchymyn. Mwy arferol yw'r cyfuniad *Dengair Deddf*, gw. GPC 917.
- 48 **na losg dai** Cyfeiriad diddorol. Yn ACDC 18, gwelir cysylltiad rhyngddo ac Emyr Curig a ddisgrifir yno fel ‘y swyn rhag llosgi tai’; eithr gweddi amddiffynnol yn gyffredinol oedd Emyr Curig, nid un rhag llosgi tai yn benodol, gw. B.F. Roberts, ‘Rhai Swynion Cymraeg’, B xxi (1964–6), 202–3.
- 55–6 Cysylltid cyffesu yn bennaf â'r Ffransisgiaid a'r Dominiciaid, gw. AWH 216, WCCR 180, 188, 189, 191. Enwog, wrth gwrs, yw cyffes Dafydd ap Gwilym wrth y Brawd Llwyd (sef Ffransisgiad), GDG³ cerdd 137.
- 55 **puror** Petrus ydyw yn GPC 2934 d.g. *puror*¹. Y mae'n bosibl hefyd mai'r dyfodol amheronol yn *-awr* a gynrychiolir gan ail elfen *puraθr* y llsg., gw. GMW 121.
- parau** Cf. y defnydd o brath yn YE 8.249–50 *Y prif wydyeu, bratheu angheuolyon ynt y lad yr eneit ony byd medeginyaeth a'i gwaretto*.
- 57 **bached** Dyma'r unig enghraifft yn G 49 o ffurf gyfartal *bach* ac nis nodir yn GPC 246.
- 59 **saith briwydd** Gw. 7.4n.
- rhywau** Llsg. *riweu*, ond aneglur fyddai arwyddocâd ‘bryniau o anweddeidd-dra’ neu'r cyffelyb, a dilynir awgrym ACDC 419, mai bai copïo sydd yma.
- 60 **lliaws yw** Deallir *lliaws* fel yr a., er y dichon hefyd mai'r e. ydyw. Ag yw, un o ffurfiau 3 ll. y rhagenw meddiannol blaen (gw. GMW 53), cf. ll. 71 *ac yw dolau*.
- 61–2 **Llewyd ... / Uffern ...** Enghraifft, fe ymddengys, o'r gystrawen lle yr hegorir yr ardd. ar ôl bf. yn dynodi symudiad, gw. 2.53–4n.
- llewyd** Llsg. *lleuyt*, ffurf anh.; cf. ll. 27.
- 63 **llygrid** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *llygru* gyda'r terfyniad annibynnol *-id*, gw. GMW 119.
- 67 **gwaeth weithredau** Gellir esbonio'r treigladd trwy ddeall y ddau air yn gyfansoddair llac, cf. ll. 75 [g]*warthaf wyrthau* ond gyda gradd eithaf yr a. Posibilrwydd arall yw fod *gwaeth* yn golygu ‘drygioni’ (ar yr ystyr hon, gw. G 602 (1), GPC 1551) felly ystyr *gwaeth weithredau* fyddai ‘gweithredoedd o ddrygioni’, er mai fel a. y trinnir yr enghraifft hon o *gwaeth* yn G 602 (2).
- 69 **amhryd** Llsg. *ampryt*; am enghreifftiau eraill o ddynodi'r sain ‘mhr’

yn orgraffyddol â *pr*, gw. 7.51n. Cyfeirir at ysfar glwth i fwyta o hyd heb fedru ymatal yn iawn tan y pryd nesaf. Awgrymir yn ACDC 420 y gall mai 'am bryd [o fwyd]' a olygir, ond *am bryd* a ddisgwyliid felly yn y llsgr.

- 70 **gwŷd gweddiâu** Cf. BI BGCC 127 (14.39) *A diwad pechaud, wid weti* ('Ac ymwrthod â phechod, deisyfiad drwg'). Sylwer ar ystyr *gweddi* yn yr enghreifftiau hyn.
- 71 **yw** Gw. ll. 60n.
- saith dylaith** Sef y saith bechod marwol. Yn GPC 1135 rhoddir i *dylaith* 'clo, bar ar ddrws, bollt; dolen' yr ystyron ffigurol 'amddiffyn, diogelwch, amddiffynnydd', ond ni weddant yma. Ar y diffyg treigladau ar ôl *saith*, cf. GGI² 219 (LXXXIII.11) *Saethwyd yma'r saith dinas*, a gw. Treigladau 135.
- 72 **tadmaethau** Deallir hyn yn gyfeiriaid at y cythreuliaid sydd megis yn meithrin y pechodau.
- 73–4 **Saith Weithred Cred ... / ... Trugaredd** Cf. LIA 146.6–16 *Gwedy gbyppo dyn nerthoed a grymyant rinbedeu yr eglbys. ac aruer ohonunt trby perffeithrbyd. dyledus yb idab gybot Seith weithret ydrugared yr gobrbyab idab nef. Sef ynt y gbeithredoed hynny. Rodi bbyt ynebynawc. Diabt y sychedic. lletty y bellynnic. Dillat ynoeth. Gofby claf. Rydhav carchara6r. Claddv ymar6. Ac ar ny allo g6nneuthur yseith beithret hynny yn gorffora6l. kyghor yb idab ygann yseint g6nneuthur ypvmb gbeithret hynn yn ysprya6l. kyghori annoeth ae lessav. achospi enbir yr dyscu. A phob trist galarus ydidanv. kyt doluryab a gbann trby y gar6. athros pob aghyfnernerthus gbann gbedia6 ar du6 y drugarhav vrtha6. Cyfeirir felly naill ai at y Saith Weithred o Drugaredd Gorfforol neu'r Saith Weithred o Drugaredd Ysbrydol. Gw. hefyd ODCC² 349, 1302.*
- 74 **nid trwy geryddaid** Nid yw'r arwyddocâd yn eglur, ond efallai mai'r hyn a olygir yw fod y bardd yn dymuno trugarhau wrth bobl yn eu gwendid yn hytrach na'u ceryddu.
- ceryddaid** Yn ôl G 137 gellir ei ystyried yn a. 'diwygiol, iawnol'; yn ll. yr e. **ceryddiad*; neu yn fe. 'haeru, edliw'. Ni fyddai'n gweddu i'r cyd-destun yma fel a., ac er y gallai fod yn fe., y mae'n fwy tebygol mai e.ll. ydyw.
- 76 **Colofn gwedd eofn** Cf. R 1317.13–14 *kolovyn ehovyn y6 llyw llawenaf* (Gruffudd ap Maredudd).
- 77–8 Cyfeiriad at yr arfer mewn urddau crefyddol o adrodd y Salmuau. Adroddid nifer ohonynt yn ystod y saith *officium* ('gwasanaeth') dyddiol ar bob un o saith diwrnod yr wythnos nes cyrraedd y diwedd. Seiliwyd y drefn hon, asgwrn cefn litwrgi'r urddau, ar Reol St. Benedict; gw. *The Rule of St. Benedict in Latin and English with*

Notes, ed. Timothy Fry, O.S.B. (Collegeville, Minnesota, 1981), 202, 204, 206, 208, 210, 212, 214, 216. Y mae'r cyfeiriad hwn yn rheswm cryf dros dybio bod Casnodyn yn aelod o urdd grefyddol. Ar *canon genau*, cf. Bl BGCC 344 (32.17) *Awendrut, tec dy gampeu, / Y mae'r ganon y'th eneu: / Dywëit py gardawt oreu* ('Un drud dy awen, teg dy gampau, / Y mae'r rheol ar dy enau: / Dywed pa elusen sydd orau').

80 Cf. GCBM i, 3.5–6 *Du6 a'm d6c y'm dogyn anryded / Y'w wennwlat, y'6 rat, y'6 ried*.

81 **dynblwyf** Dyma'r unig enghraifft hysbys o'r gair. Yn ôl G 424 'yr hil ddynol' yw ei ystyr, ond 'plwyfog, un yn perthyn i blwyf' yn ôl GPC 1141. Dilyniir G yma oherwydd barnu bod yr ystyr yn gweddu'n well i'r cyd-destun (ar *plwyf* yn yr ystyr 'trigolion plwyf, plwyfolion; pobl', gw. GPC 2839). Nid yw'n eglur ychwaith sut y gall olygu 'dyn plwyf, plwyfog' gan nad cyfansoddair afryw mohono, tyst o'r treigladd i *plwyf*.

9

Y mae'r gerdd hon¹ a'r un ddilynol gyda'r cerddi cynharaf i Fair sydd ar gadw o'r cyfnod.² Yn hyn o beth gwahanol ydynt i gerddi Beirdd y Tywysogion, lle y crybwyllir Mair ynghyd â Duw neu'r saint. Heblaw bod yn ddefosiynol, y maent hefyd yn drawiadol ddiwinyddol eu hosgo, ac y mae'n werth dyfynnu'r geiriau canlynol o'r *New Catholic Encyclopaedia*:

In the 13th-century doctrine and piety were intimately interwoven in the praise of Mary. Along with the great cathedrals of Marian dedication, Marian devotion was manifest in the lives of SS. Francis (d. 1226) and Dominic (d. 1221) and in the theological masterworks of SS. Bonaventure (d. 1274), Albert the Great (d. 1280), Thomas Aquinas (d. 1274), and of Duns Scotus (d. 1308).³

Hawdd y gellid credu mai i'r un ffrwd gyffredinol y perthyn cerddi Casnodyn.

Yn y gerdd hon gofyn y bardd am eiriolaeth Mair, eithr gan wahaniaethu'n llym ac yn gyson drwyddi rhwng lle Crist a lle Ei fam yng nghynllun iachawdwriaeth, gyda Mair bob amser yn ddarostyngedig i'w Mab (gw. llau. 1–8, 31–2 yn neilltuol). Oherwydd y pwyslais hwn, y mae'n

¹ Fe'i golygwyd yn ACDC 191–3, 424–9.

² Gw. hefyd y ddau englyn dienw iddi yn GLIBH cerdd 11. Diddorol sylwi ar debygrwydd patrwm a geiriad ll. 4 yno, *Gwargain haul firain, hael Fair* i 10.24 isod, *Haul gain hwyl firain hael Fair* ac i 3.8 i ferch o Fôn, *Gweddus hael feinus haul Fôn*. Sylwer hefyd ar yr englyn a chyfres englynion i Fair a briodolir i Ruffudd ab yr Ynad Coch mewn llsgrau. o'r 16g. ymlaen ond sy'n amheus eu hawduriaeth, gw. GBF 516. Ar y sylw a roddir i Fair yn y farddoniaeth, gw. Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999), pennod 1.

³ NCE ix, 366.

bosibl fod Casnodyn hefyd yn ceisio cywiro syniadau llac am le'r Forwyn Fair ym myd defosiwn, a da y gwna Dr G.C. Ballinger yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y gerdd hon yn hyn o beth a'r rhan o brydlyfr fersiwn Llyfr Coch Hergest o Ramadeg y Beirdd sy'n dweud sut y dylid moli Mair.⁴ Byddai'n haws credu mai ffrwyth hyfforddiant diwinyddol yw hyn yn hytrach nag ymgais lleygwr deallus a dysgedig (cf. sylwadau rhagarweiniol y gerdd flaenorol).

Fe ddichon mai rhywbryd wedi iddo gyfansoddi ei awdl i'r Drindod (cerdd 7) y cyfansoddodd hon a'r gerdd arall i Fair (cerdd 8), ond ni ellir bod yn sicr.

Plethiad sydd yma o englynion proest ac unodl union yn y drefn a ganlyn: dau englyn proest, dau englyn unodl union, dau englyn proest, dau englyn unodl union. Ac eithrio llinellau 2, 19, y mae hyd y llinellau yn rheolaidd a chynganeddwyd y gerdd drwyddi. Defnyddir y gynghanedd sain bron yn llwyr yn yr englynion proest a llinellau 1, 3, 4 o'r englynion unodl union, gydag ambell enghraifft bengoll; ond rhwng y gair cyrch ac ail linell yr englynion unodl union ceir cynganeddion sain a chroes, gyda dwy ohonynt yn bengoll. Ffurfia'r gyfres gyngogion, gyda diwedd pob englyn yn cysylltu â dechrau'r un dilynol â chyrch-gymeriad, a gair olaf y gyfres yn cyrchu'r dechrau.

- 2 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni thrinnir *Llanw* yn ddeusill, cf. ll. 19n. Gallai *Noe* fod yn ddeusill—*Noë*—(gw. BI BGCC 362), ond rhaid mai unsill ydyw yma i broestio'n gywir, cf. GDG³ 14 (5.47) *Hir oesog fu Noe, haer aesor—facwy*.

llanw Ymddengys ei fod yn dibynnu ar *gwedy* yn y ll. flaenorol, ond mewn ystyr amseryddol. Os felly, cyfeirir yn y ll. at y gyntaf o bum oes y byd (gw. 7.88n), sef o'r creu hyd Noa, er mwyn doddi Mair yn erbyn cefndir hanesol.

nawdd Sef arch Noa.

- 3 **mwynball** Ar *pall* 'mantell' ynglŷn â merch, cf. 6.28 a 5.35 *pallteg*; hawdd y gellid cymhwyso'r un peth i Fair. Dichon, er hynny, fod arwyddocâd pellach yma i *mwynball*, gw. NCE ix, 366, 'The artistic representation of the "mantle Virgin" was characteristic of the devotional outlook of the 15th century. Under her protecting mantle, Mary, Mother of Mercy, kept in her care all manner of men, nobles and humble folk alike.' Er bod cyfnod Casnodyn yn gynharach, dichon fod

⁴ ACDC 19. Dyma eiriau'r Llyfr Coch, GP 15 (llau.19–22), *Meir a volir o'y morwyndawt, a'e gwyrdawt, a diweirdeb, a'e gleindynt, a santeidrwyd, a'e thegwch nefawl, a'e thrugared, a'e gogonyant, a'e haelder, a'e anryded, a'e buched, a'e gwarder, ac o bop peth arall enrydedus o'r y moler y Harglwyd Uab ohonaw*. Fel y dywed S. Lewis, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1967) 11, 'Yn wir, mae'r cymal olaf yn bur anniwinyddol ac yn nes at goel boblogaidd.' Ar y llaw arall, ni cheir y gwendid yn fersiwn Pen 20, gw. GP 55 (llau.14–18).

y llun neu'r syniad yn bodoli cyn y 15g. Cf. hefyd 10.11 *Pall y mae*. Am yr elfen *mwyn*, cf. llau. 13 *fwyn fenwyd*, 28 *gwyrw fwyn*. Ar y llaw arall, gellid deall *mwynball* fel yr e. *mwyn* 'budd, bendith', &c. (gw. GPC 2519 d.g. *mwyn*³), a *pall* '... gorsedd, gwely dangos', &c. (*ib.* 2676 d.g. *pall*²), sef 'gorsedd fendith[iol]', cyfeiriad at swyddogaeth Mair fel brenhines nef—*Regina Caeli*—ac eiriolwraig nerthol. Dichon, fel yr awgrymir yn ACDC 425, fod gan y bardd ddarlun o Fair mewn golwg yma; os felly, cf. 8.2n.

- 5 **gair** Diau fod y bardd hefyd yn meddwl am ystyr arall, sef Crist fel y *logos*, gw. GPC 1372, 6 (a).

nef Llsgr. *nyf* ond fe'i diwygir er mwyn cael pedwar gair i broestio yn yr englyn.

- 19 Rhy fyr yw'r ll. o sill oni thrinnir *pibl* yn ddeusill, cf. ll. 2n.

- 22 Cynghanedd wreiddgoll. Diddorol sylwi, yn awdl Iolo Goch i Fair, fod dwy linell gyntaf yr ail englyn proest sy'n rhagflaenu'r awdl yn cynnwys y math hwn o gynghanedd, gw. GIG 139 (XXXI.5–6). Cf. hefyd 10.33.

llwyddwawd Petrus yw'r ystyr 'cân lwyddiannus neu ddedwydd' a gynigir yn GPC 2243.

- 25 **gwledd ... i'm dwyn** Ar y gystrawen, gw. 2.53–4n. Ond gellid hefyd roi coma ar ôl *cyfiawn*—'[Ynglŷn â'r] wledd ddaionus, ... i'm dwyn ... [iddi] ...'.

o'm dawn Ar y syniad, gw. 4.3–6n.

- 30 **canon** Llsgr. *gonon*, gair anh.; diwygir gan ddilyn awgrym G 108.

10

Dyma'r ail o ddwy gerdd Casnodyn i Fair (gw. hefyd sylwadau rhagarweiniol cerdd 9).¹ Yn hon myfyria'r bardd ar rinweddau Mair fel cynorthwywraig ac eiriolwraig iddo yn y gwaith o benydio ac ymburo er mwyn mynd i'r nef. Megis yn y gerdd flaenorol, dichon ei fod yn ceisio hybu defosiwn iach a diofergoel iddi, y tro hwn trwy apelio at awdurdod *preladiaid prudd* (ll. 1) a *pob dewin* (ll. 40)—sef gwŷr crefydd doeth a dysgedig—i ategu'r hyn a ddywed amdani, a hawdd drachefn fyddai credu ei fod yn perthyn i'w nifer ei hun. Ar ddyddiad posibl y gerdd, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 9 uchod.

Deg englyn proest sydd yma. Y mae'r llinellau'n rheolaidd o ran eu hyd. Ac eithrio llinell 5, cynganeddwyd y gerdd drwyddi gan ddefnyddio'r gynghanedd sain yn bennaf, gydag ambell linell bengoll. Ffurfia'r gyfres

¹ Golygwyd yn ACDC 195–9, 430–6.

gyngogion, gyda diwedd pob englyn yn cyrchu dechrau'r nesaf a diwedd y gyfres yn cyrchu ei dechrau.

- 1–2 Y tebyg yw mai at bregethau'r *preladiaid* (ll. 1) y cyfeirir, gw. hefyd ACDC 430. Â'r geiriau *Ni ddywaid ... gair gormodd*, cf. Bl BGCC 8 (1.5c) *Nid guor gnim molim Trintaut* ('Nid gormod o lafur yw moli'r Drindod').
- 4 **deddf hanner dydd** Cyfeirir at yr haul pan fo ar ei anterth.
- 4–8 Mynegir yma y syniad a oedd yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol fod Mair, a hithau'n fam Crist, yn ddigon grymus ei heiriolaeth i fedru perswadio ei Mab i achub eneidiau pobl a oedd wedi ei hanrhydeddu.
- 5 Odl yn unig a geir yn y ll. hon.
- 6 **Duw** Dilynir G 712 d.g. *gwrth* (3) lle y'i treigilir ar ôl *wrth* ar ddiwedd y ll. flaenorol. Tyr hyn ar y cymeriad yn *d-*, ond nid yw'n amhosibl fod yma enghraifft o gymeriad generig, sef peri bod cytsain yn cyfateb i'w ffurf dreigledig, gw. R.M. Jones, 'Gogynghanedd y Gogynfeirdd', YB xxii (1997), 60. Cf. yr englyn nesaf lle y ceir cyfatebiaeth *b: p*.
- hirwad** Cyfeirir at wadiad Duw o berson dynol ar Ddydd y Farn. Cf. R 1213.20–21 *meir nym gat hwyrwat* ['gwrthodiad maith neu derfynol', GPC 1945] *hirwae6 tosta6* (Gruffudd ap Maredudd).
- hwyrwarth** Rhydd GPC 1945 yr ystyron 'gwarth hir ei barhad; araf i gywilyddio, rhydd oddi wrth warth, diwaradwydd'.
- 9 **cyfrif** Yn ôl G 216 bôn y f. *cyfrifaw* ydyw, y mae'n debyg, ond haws yw ei ddeall fel y be. Ar y ffurf, nas nodir yn G 217, gw. GPC 716.
- 11 **pall y mae** Cf. 9.3 *ym mwynball y mae* a'r nodyn. Ymddengys mai'r un syniad a fynegir yma ond bod yr ardd. *mewn* wedi ei hepgor, yn unol, efallai, â dull cywasgedig Casnodyn. Cf. hefyd 3.20 *Rhwyl y mae*.
- 12 Llsg. *p6yll ma6r didwyll meirdodaf*. Dilynir G 382 a deall *meirdodaf* yn ddau air ar wahân. Gellid darllen *Pwyll mawr ddidwyll Mairddodaf*, 'Rhoddaf ddoethineb mawr i Fair', ond er y byddai'r f. gyfansawdd *Mairddodi* yn bosibl, y mae hefyd yn taro'n orgelfyddydol, a rhyfedd yw sôn am y bardd yn rhoi doethineb mawr i Fair. Fe ellid, er hynny, ddiwygio'r ll. i *Pwyll Mair ddidwyll mawrddodaf*, 'Rhoddaf ddoethineb Mair ddidwyll yn helaeth [amdanaf]' (â *mawrddodaf*, cf. GRhS 1.1 *Bryd ar olud byd, o bydd,—mawrddodaf* (Sefnyn)). Ar y syniad o wisgo *pwyll* Mair, cf. y cerddi llurig, sy'n cynnwys teitlau megis 'Llurig Dduw', 'Llurig Fair', 'Llurig Curig', gw. Bl BGCC 24–5.
- 14 **hawl** Cyfeirir at hawl Duw i gosbi'r bardd.
- 16 **didwyll fawr gannwyll** Cf. ll. 12 *Pwyll mawr didwyll*, ll. 18 *Cannwyll pwyll*, R 1315.16 *Kannwyll p6yll didwyll* (Gruffudd ap Maredudd).

- 18 **cannwyll pwyll** Dichon fod Casnodyn yn chwarae ar y ddihareb *Gorau canwyll pwyll i ddyn a geir, e.e., yn R 1032.29 tec agannbwyll pbyll y dyn* a D. Cf. hefyd GGDT 10.11 *Teg a gannwyll pwyll pell ynad—i ddyn* (Trahaearn Brydydd Mawr), ac *ib.n.*
- 23 **gogawn** Gthg. y ffurf *gwogawn* yn ll. 3.
- 24 Cf. GLIBH 11.4 *Gwargain haul firain, hael Fair* (anh.). Cyffelybir Mair i'r haul yn ll. 35 hefyd; ymhellach, gw. Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 199), 51–2.
- 29 **ergyd argoel** Hynny yw, y mae'r ffaith fod y bardd yn ymgymryd â phenyd yn golygu o reidrwydd y daw poen (*ergyd*) i'w ran.
- 31 **bo** Ar hepgor y rh.pth., gw. 2.18n.
- 35–6 **Haul ddwyrain fawr gain ... / Hwyl fawr ...** Cf. ll. 24 *Haul gain hwyl firain ...* Â *Haul ddwyrain*, cf. hefyd y gerdd amheus ei hawduraeth i ryw Forfudd yn GDG³ 416 (ll. 3) *Hoywliw ddeurudd haul ddwyrain*.
- 40 **dewin** Fel y dywedir yn ACDC 436, bron nad yw'n gyfystyr yma â *prelad* (gw. ll. 1).

11

Ar ddilysrwydd y gerdd hon, gw. uchod td. 14. Fel y dangosodd N.R. Costigan (Bosco), ateb ydyw i ddychan a ganasai Trahaearn Brydydd Mawr i'r bardd.¹ Ymddengys mai yn ystod ymweliad â Llywelyn ap Cynwrig, Arglwydd Llantriddyd a Radur ym Morgannwg, y canodd Trahaearn ei gerdd er mwyn gwneud Casnodyn yn gyff clêr.² Efallai na raid edrych y tu hwnt i'r arfer honno ei hun³ am achos ymosodiad Trahaearn, ond dichon hefyd fod rhesymau eraill, mwy penodol. Cyfeiria at Gasnodyn fel *bradwr cerdd watwar*;⁴ ymddengys mai ef hefyd sydd ganddo mewn golwg pan ddywed *Nid gnawd o ddefawd Ddofydd / Na chatwer ffyddlonder ffydd*;⁵ ac yn nes ymlaen edliw iddo am beidio â channmol Llywelyn ap Cynwrig, gan ychwanegu nad yw'n haeddu ei haelioni.⁶ Y mae'n bosibl fod hyn yn adlewyrchu rhyw anghytundeb gwleidyddol ei natur rhwng Casnodyn a Llywelyn ap Cynwrig.⁷ Os felly, efallai nad oedd tueddfryd gwleidyddol

¹ GGDT 94–5 ynglŷn â cherdd 13 yno. Ar Drahaearn, gw. *ib.* 91–7.

² *Ib.* 93–5, 132. Mynegwyd y farn hon gyntaf yn TLLM 7, eithr gan gredu mai Hywel Ystorm, nid Trahaearn, oedd yr awdur. Felly hefyd Ceri Lewis yn GCH iii, 482, 483.

³ Ymhellach ar yr arfer, gw. J.E.C. Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–9), 92–3.

⁴ GGDT 13.10.

⁵ *Ib.* llau. 15–16.

⁶ *Ib.* llau. 49–50, 55–6.

⁷ Nid da gan Gasnodyn y modd y rheolid Cymru gan estroniaid, tra oedd Llywelyn yn un o'r Cymry tiriog a niferus hynny a ymelwai trwy wasanaeth ffyddlon i'w meistri estron ac a

Casnodyn o bwys mawr gan Drahaearn, ond gallasai fanteisio arno i geisio ennill nawdd Llywelyn ar draul y bardd arall; neu efallai iddo gael ei gyfarwyddo gan Lywelyn ap Cynwrig ymlaen llaw i wneud yr ymosodiad. Ai ymateb i sen Trahaearn y mae Casnodyn yn y geirau *brad Benlli* (ll. 38), *du bradog* (ll. 117) neu ai confensiwn pur yw *brad a bradog* yma?

Y mae rhai llinellau yng ngherdd Casnodyn sy'n awgrymu rhyw ornest gerbron cynulleidfa a bod Trahaearn yn bresennol, megis pan fo Casnodyn yn ei gyfarch â'r gair *graso* (*graeso, groeso*) (llau. 1, 17, 33, 45, 53); pan ddatgan ei hyder y caiff fuddugoliaeth ar Drahaearn—*trech wyf, trwch wyd* (ll. 64), *Mab o ddysg doethion ... / ... a'i gorfydd* (llau. 91–2), *fy môr a'i gorfydd* (ll. 165); neu pan anoga ei wrandawyr i'w hel o'r cyffiniau—*Perwch ddeol ffôl, ffael anghelfydd wawd, / ... / ... / ... o bob elfydd* (llau. 97–100). Fodd bynnag, y mae hyd a chywreinrwydd y gerdd—ac yn enwedig ei strwythur (gw. isod)—yn ei gwneud yn haws credu nad yn union wedi ymosodiad Trahaearn y canwyd hi eithr yn ddiweddarach pan na fyddai Trahaearn, o reidrwydd, yn bresennol. Y mae'n dilyn hefyd nad yn llys Llywelyn ap Cynwrig, o reidrwydd, y gwnaeth Casnodyn ei ymosodiad.

Amlwg i *rhus drahäus Drahaearn* (ll. 4) fynd o dan groen Casnodyn yn o arw, a llym iawn yw ymateb hwnnw. Gwrthyd [*ffarn rhwol* (ll. 5) Trahaearn arno ac â rhagddo i'w ddychanu fel bardd a phencerdd gwael,⁸ merchetwr, meddwyn diymarbed, ymborthwr ar gaul a maidd, milwr llwfr, perchennog fferm ddilewyrch, a gŵr boliog, gwladaid a budr. Nid ymatalia ychwaith rhag ymosod ar ei deulu, gan gynnwys ei hynafiaid (llau. 41, 43–4, 103) a'i blant (llau. 126–9). Ond yr hyn y dychenir ef amdano yn bennaf yw ei faint corfforol, yr un modd ag yr oedd Trahaearn wedi dychanu Casnodyn am ei fychander,⁹ a defnyddir cyfoeth o eiriau i'r perwyl hwn—*pren* (ll. 1), *dwys gemyw* (ll. 5), *tewfarch* (ll. 11), *arth* (llau. 17, 62), *tŵr* (llau. 19, 45, 76, 122, 171), *tarw* (llau. 20, 68, 88, 113, 117, 121), *bwlian* (llau. 21, 53, 58, 78, 101), *carn gwernfras* (ll. 25), *croendas* (*l.c.*), *cawr trillawr* (llau. 27 a cf. ll. 153 *sengi trillawr*), *march* (ll. 29, 89), *cefn dyfnaint* (ll. 34), *croesanfarch* (llau. 35, 75), *taerfarch* (ll. 45), *camel* (ll. 49), *cawr* (llau. 51, 138, 178), *carw* (llau. 51, 155), *eidion* (llau. 52, 61), *cawlfarch* (ll. 52), *morfarch mawrfin* (ll. 59), *Trwch ... Trwyd* (ll. 65), *mawrgi* (ll. 73), *tom* (ll. 76), *amws* (ll. 79), *wyll ... tramawr* (ll. 83), *llachwethan* (ll. 110), *baedd* (llau. 136, 145), *côr cewri* (ll. 137), *tom barlwm* (ll. 138), *car tramawr trwm* (ll. 139), *catarw* (ll. 143), [*c*]oet-hwch (ll. 143), *gwrhyd Cai, nid llai no Llŷr* (ll. 144), *a'i sôn uwch sŷr* (ll. 148), *rhyfawr* (ll. 149), *cerwyn cewri* (ll. 156), *maen bonllwm mwy no Benlli* (ll. 160), *bloeddgawr* (ll. 162), *crythawr mawr* (llau. 165, 177), *blif bleiddiau* (ll. 172), *blin yw maint* (ll. 173), *ysgraff* (ll. 179),

gefnogodd y Saeson yn ystod gwrthryfel Llywelyn Bren yn 1316. Ar Lywelyn ap Cynwrig, gw. J.B. Smith yn GCH iii, 84–5, GGDT 93. Awgrymir, *l.c.*, y gall mai gwrthryfel Llywelyn Bren oedd achos yr anghytundeb, ond os felly rhaid dyddio'r gerdd yn wahanol.

⁸ Ei air yw *athro*, llau. 15, 163 a gw. *ib.n.*

⁹ *Ib.* 94–5, 132.

caseg (ll. 180). Dywed hefyd wrth Drahaearn am aros gartref—*Trig i'th wlad* (ll. 67)—, ei alw'n *alltud* (llau. 80, 81) a *daramredwas* (ll. 85), a galw am ei hel ymaith (gw. uchod), arwydd sicr fod Trahaearn wedi crwydro o'i briod gynefin ac nad da gan Gasnodyn ei weld yn tresmasu, a hynny mor drahaus, ar ei diriogaeth ef.

Diddorol a phwysig yw cyfeiriad Casnodyn ato'i hun fel *mab o ddysg doethion ... / Môn ac Arfon ...* (llau. 91–2, a gw. ll. 92n) gan fod hyn yn awgrymu bod y fro honno wedi chwarae rhan bwysig yn ei ddatblygiad fel bardd (ymhellach, gw. tt. 3–4).

Cyfeiria Trahaearn ddwywaith yn ei gerdd ddychan at deulu ieirll de Clare ynglŷn â Morgannwg yn y geiriau *gloyw-wlad Glâr*¹⁰ a *tir Clâr*,¹¹ yr hyn sy'n awgrymu bod teyrnasiad y teulu hwnnw yn parhau ar y pryd.¹² Yn 1314, fodd bynnag, bu farw Gilbert de Clare, yr arglwydd olaf o deulu de Clare ar Forgannwg, ym mrwydr Bannockburn, ac ymddengys yn annhebygol y byddai Trahaearn wedi cyfeirio at Forgannwg fel tiriogaeth y teulu hwnnw ar ôl hynny. Mewn geiriau eraill, ymddengys mai rywbryd heb fod yn hwyrach na 1314 y cyfansoddodd Trahaearn ei gerdd, ac felly hefyd Gasnodyn ei gerdd yntau (er nad yw'n amhosibl fod Casnodyn wedi cyfansoddi ei gerdd yn fuan wedi'r flwyddyn honno). Ni fyddai'r dyddiad hwn yn anghyson ychwaith â blynyddoedd y gŵr y canasant yn ei lys, Llywelyn ap Cynwrig.

Cyfes sydd yma o 45 o englynion yn y drefn ganlynol: 14 englyn unodl union, 7 englyn proest, 10 englyn unodl union, 1 englyn proest, 13 englyn unodl union. Ac eithrio llinellau 43, 47, 55, 84, 118, 125, (?) 170, y mae'r llinellau yn rheolaidd o ran hyd a chynganeddwyd y gerdd drwyddi. Yn llinellau 1, 3, 4 o'r englynion unodl union ac yn yr englynion proest y gynghanedd sain sydd amlycaf ac y mae rhai yn bengoll. Ond yng ngair cyrch ac ail linell yr englynion unodl union gwelir gwahaniaeth trawiadol rhwng cynganeddiad y rhain a'r englynion unodl union yng ngherddi eraill Casnodyn, sef defnyddio'r gynghanedd sain yn llawer helaethach na'r gynghanedd gytsain gyda llawer iawn llai o linellau pengoll. Gwneir defnydd helaeth o'r amrywiol gymeriadau (cymeriad llythrennol yn bennaf), yn enwedig yn esgyll yr englynion unodl union.

Y mae'r gerdd wedi ei strwythuro'n gelfydd iawn. Rhannwyd y gyfres gyntaf o englynion unodl union yn bedwar caniad gyda'r cyntaf (llau. 1–16) ar y brifodl *-arn*, yr ail (llau. 17–32) ar y brifodl *-ail*, y trydydd (llau. 33–44) ar y brifodl *-i*, a'r pedwerydd (llau. 45–52) ar y brifodl *-arch*. Diweddir y gyfres ag englyn ar y brifodl *-od* (llau. 53–6). Cysylltir pob caniad ac englyn olaf y gyfres gan y gair cyntaf ynddynt, *graso* (neu *graes*). Y mae'r gyfres

¹⁰ *Ib.* 13.12.

¹¹ *Ib.* ll. 41.

¹² Ar deulu de Claire, gw. DWB 75–7, Michael Altschul yn GCH iii, 45–72.

o englynion proest (llau. 57–84) yn ffurfio cyngogion ond ni chysylltwyd ei dechrau â diwedd yr englyn blaenorol trwy gyrch-gymeriad. Rhannwyd yr ail gyfres o englynion unodl union yn ddwy adran, y gyntaf (llau. 85–112) yn ganiad ar y brifodl *-ydd*, a'r ail (llau. 113–24) yn dri englyn ar y prifodlau *-ir*, *-ar*, ac *-air* ond a'u gair cyntaf, *tarw*, yn eu cysylltu. Y mae gair cyntaf y caniad, *daramredwas* (ll. 85), yn odli â gair olaf yr englyn blaenorol, *haeddgas* (ll. 84). Saif yr englyn proest sy'n dilyn y gyfres (llau. 125–8) ar ei ben ei hun rhwng y gyfres honno a gweddill y gerdd, gan broestio â'r tri englyn blaenorol ar y prifodlau *-ir*, *-ar*, *-air* ond heb ymgysylltu'n ffurfiol â'r englynion dilynol. Rhannwyd y drydedd gyfres o englynion unodl union yn bedwar caniad, y cyntaf ar y brifodl *-wm* (llau. 129–40), yr ail ar y brifodl *-yr* (llau. 141–52), y trydydd ar y brifodl *-i* (llau. 153–64), a'r pedwerydd ar y brifodl *-ar* (llau. 165–76). Diweddir ag englyn ar y brifodl *-aff* (llau. 177–80) lle y mae'r gair olaf ond un, *[p]ren*, yn cyrchu trydydd gair llinell gyntaf y gerdd.

- 1 **graso** Amrywiad ar *graso* / *croeso*, &c., gw. G 585, GPC 1534 (*graso* a geir yn llau. 17, 33, a *groeso/groesaw* yn llau. 45, 53). Ar ei arwyddocâd, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 2 **coedawr** Cymerir mai *gawr* yw'r ail elfen, fel yr awgrymir yn betrus yn G 157. Ni restrir y ffurf yn GPC 528.
- 3 **barn** Cf. llau. 5 ([*b*]arn—*rhwol*) a 15. Cf. GP 56 (llau. 40–4) *Kanys kreffft prydyd yw kanmawl, a chlotuori, a digrifshau, a gwneuthur molyant a gogonyant a didanwch, a dosparthus yw y gerd, a barnu a ellir arnei; a chreffft y klerwr kroessan yw anghanmawl, ac anglotuori, a goganu, a gwneuthur kywilyd a mefyl ac anglot, a chroessangerd anossparthus yw heb allel barnu arnei ...*; IGE² 163 (llau. 7–8) *Pwy a beris it brisiaw / Fy ngherdd, briawd angerdd brow?* (Rhys Goch Eryri). Ymddengys oddi wrth gyfeiriadau fel y rhain fod i'r geiriau 'barnu' a 'prisio' ystyr sy'n ymylu ar fod yn dechnegol o fewn cyddestun cerdd dafod. Gellid meddwl mai'r hyn a olygir yw mesur gan un bardd deilyngdod neu annheilyngdod cerdd bardd arall.
- 5–6 **ym marn ... / Brwysg ...** Cf. ll. 15 *Athro anffawd fedd-dawd farn.*
- 5 **dwys gemyw** Llsg. *d6ysg emy6*. Cf. G, Atodiad iii [rhwng tt. 288 a 289] lle y cynigir y diwygiad hwn yn betrus.
disg Benthyciad o'r H.S. *disc* 'plate, bowl', GPC 1043 (d.g. *disg*²).
rhwol Un o ffurfiau cynharach *rheol* (o'r Llad. *regula*), gw. EL 7, GPC 3056.
- 6 **brwysg** Rhoddir yr ystyr 'meddw' yn betrus i'r enghraifft hon yn G 79.
- 7 **dyrnod ddarn** Ar yr ystyr hon i *dyrnawd*, a gynigir yma yn betrus,

gw. GPC 1147; ac â'r ymadrodd *dyrnod ddarn*, cf. disgrifiad Rhys Goch Eryri o Lywelyn ab y Moel fel *fflaw cerdd*, IGE² 168 (ll. 27). Os cywir y dehongliad hwn, gallai *dyrnod* gyfeirio at ddychan Trahaearn i Gasnodyn neu ynteu at safon ei gynnyrch prydyddol yn gyffredinol.

- 8 **gafael** Llsg. *aua*. Dywedir yn G 14 y gellir cynnig darllen *au(y)l* (o *gau(y)l* 'gafl, fforch, croth') ond rhy fyr fyddai'r ll. o sill a heb fod cystal o ran synnwyr.

brenhin 'n nhafarn Llsg. *brenhin auarn*. Nodir tair enghraifft o'r gair *afarn* yn G 14, a darlleniad y gyntaf yn ansicr, a chynigir yn betrus mai 'caled' neu 'meddal' yw ystyr yr enghraifft hon. Gthg. GPC 41 lle na restrir y gair. Cymerir, felly, fod cywasgiad o'r ardd. *yn* yn ddealedig rhwng *brenhin* ac *auarn*. Â *tafarn* ynglŷn â Thrahaearn, cf. llau. 11 *tewfarch tafarn*, 37 *Trahaearn tafarn*.

- 9 **gwarn** Petrus yw'r ystyr yn G 622 a GPC 1585.

ceidiog Gair ansicr. Ni wneir ond ei nodi ar wahân yn G 123 ac nis rhestrir yn GPC 451. Rhestrir yr e. afon neu e.prs. *Ceidio* (cf. 1.19) yn EANC 220–1 a'r ffurf lafar bresennol *Ceidiog*, ond ni welwyd enghreifftiau o'r ffurf gydag -g yn y Cyfnod Canol ac nid yw'n eglur beth yn union a olygid wrth *Ceidiog amlwg warn* o'i ddehongli'n ep. Cynigir yma yn betrus, felly, mai bôn y f. *cadw* ydyw a'r terfyniad enwol -iog (cf. *ceidw-ad*). Cymerir bod Casnodyn, trwy alw Trahaearn yn *amlwg warn—geidiog*, yn golygu bod ganddo flew hir uwch ei fferau megis bacsau ceffyl.

- 10 **mysog** Petrus yw'r ystyr yn GPC 2543.

- 12 **medd o garn** Sef y ddiod urddasol a geid mewn llys arglwydd; cf. ll. 17 *nid buail wallaw*. Cf. isod R 1377 (ll. 26) *yn y6 lys winllyn ef ny vynn veid* (Dafydd y Coed); IGE² 181 (llau. 21–2) *Haeru bod gwin teuluaid, / A medd, lle nid oedd ond maird* (Siôn Cent).

- 13–16 Nid yw'r gyfeiriadaeth yn glir, ond ymddengys mai math o fygythiad sydd yma i'r perwyl y bydd Trahaearn yn gweld eisiau ei ddiod yn arw (*eingwir, medd-dawd*), y mis nesaf (*blaenlloer gadarn*) pan gaiff ei gaethiwo neu ei garcharu (*hual haearn*) am ei ymosodiad hallt; cf. ll. 26 *Drahaearn dra huail* (ac *ib.n*), a llau. 111–12n lle y dywedir ei fod yn haeddu ei grogi.

- 15 **athro** Fel y dywedir yn GGDT 96, y mae hyn yn 'awgrymu'n gryf fod Trahaearn yn bencerdd, gan mai pencerdd yn unig oedd â'r hawl i hyfforddi disgyblion yn ôl y traddodiad'. Cliriach fyth yw ll. 163 *athro clêr*. Cf. hefyd gyfeiriad Gwilym Ddu o Arfon ato fel [*p*] *laid penceirddiaid, ib.* 8.32.

- 17 **nid buail wallaw** Cf. ll. 12n.

- 18 **cynnail** Yn ôl G 255 d.g. *kynneil*², nid hawdd ei ystyried yma yn ll. yr

e. *kynnal* nac yn 3 un.pres.myn. y f., ac yn GPC 794 rhoddir yr ystyr ‘adail, fframwaith’ gan ei darddu’n betrus o *cyn-* ac *ail*² ‘adeilad, pentis’, &c. Ond anodd, felly, yw gwybod beth yn union a olygir wrth *modd gynnail* a chynigir, yn hytrach, mai 3 un.pres.myn. y f. sydd yma. Ar hepgor y rhg.pth., gw. 2.18n.

19 **tŵr** Cf. llau. 45, 76.

21 **bwlian** Gair arall am ‘darw’ o’r S.C. *bulle* ac efallai’r terfyniad *-an* (megis yn *dynan*, *gwreigan* &c.), gw. GPC 353.

llychwelan Amrywiad o bosibl ar *lledchwelan*, gw. GPC 2250.

gweddail Llsgr. *wedeil* a all gynrychioli *wedail* neu *weddail*. Yn G 638 fe’i deellir yn gyfuniad o *gwe* a *tail* (yr e. neu fôn y f. *teilaw*) a’r ystyr ‘yn teilo gwe, yn gorchuddio gwe neu wisg â thail’. Felly hefyd GPC 1608 ond awgrymir hefyd y gall mai amrywiad ydyw ar *goddail*, a rhydd hyn well ystyr yn y cyd-destun.

22 **adail** Cf. ll. 19 *tŵr*. Rhydd G 8 hefyd yr ystyr ‘corff’.

23 **cail** Dywedir yn G 123 d.g. *keil*² y dichon mai ll. *kaly* (‘cal’) ydyw ond anaddas yw hynny yma ac unig ffurf l. *cal* a nodir yn GPC 390 yw *caliau*.

24 **bwlmant** Yn ôl G 84 gall fod yn fenthyciad o’r S. *bullimond*, un o ffurfiau hŷn *bullimong* ‘a mixture of various kinds of grain sown together (as oats, pease, and vetches) for feeding cattle’ yn yr ystyr ‘cymysgfa, cymysgedd’. Ond awgrymir yn GPC 353 mai benthyciad o’r S. *pulment* ‘pottage’ ydyw, a’r ystyr ‘potes, cawl, cymysgfa, cymysgedd’.

oesbarth Ar yr ystyr hon i *parth*, gw. GPC 2694, (b); gthg. GCBM ii, 4.265 *Post esbyd oesbarth Elifer* ac *ib.n* lle y’i deellir i olygu ‘cyson ei rannu’, yn gyfuniad o *oes* a bôn y f. *parthu* ‘rhannu, dosbarthu’.

25 **carn gwernfras** Ymddengys mai at berson Trahaearn y cyfeirir ac nad oes unrhyw arwyddocâd neilltuol i *gwernfras*; cf. llau. 33–4 *faint / Cefn dyfnaint*. Yn G 112 (a) rhoddir i’r enghraifft hon o *carn* yr ystyr ‘carn (ceffyl ac yml.)’, ond ni wedda hynny yma.

26 **huail** Fe’i deellir yn ffurf l. *hual*, cf. *gwial*, *gwaiail*, er nas nodir yn G 456–7 nac yn GPC 1904. Trwy gyfeirio at Drahaearn fel [T]*rahaearn dra huail*, chwarae y mae Casnodyn ar elfennau ei enw (*tra* a *haearn*) ac ensynio ar yr un pryd y dylid ei rwymo, cf. ll. 16 *I’th atal hual haearn*. Y mae’n llai tebygol mai cyfeiriad sydd yma at Huail mab Caw (*pace* TYP² 408).

27 **udfawr adfail** Gallai hefyd sefyll mewn cyfosodiad â *cawr trillawr* ac *adfail*, yn gyfeiriad at hagrwach neu flerwach Trahaearn.

28 **cyrf** Yn G 164 fe’i nodir yn betrus fel enghraifft o un o ffurfiau ll. *kor(y)f*.

- 29 **march gefail tinrhwth** Ymddengys, oddi wrth lau. 50 *gefail* a 54 *gof*, fod Trahaearn hefyd yn of, felly nid i farch yn cael ei drin mewn gefail y cyffelybir ef yma ond i of sy'n debyg i farch.
- 30 **oed** Oed i frwydro, fe ymddengys, sef cyfeiriad at ymosodiad Trahaearn ar Gasnodyn â'i gerdd ddychan sydd megis gwahoddiad i'r gad; cf. hefyd lau. 92, 165 *a'i gorfydd*, 64 *trech wyf, trwch wyd*. Gellid hefyd ddeall y geiriau *Oed fygwth* i olygu 'bygythiad i oed', sef oed rhwng Casnodyn a rhyw ferch ond ymddengys hynny'n llai tebygol.
- bygwth** Yn ôl G 86 e. yw *bygwth* yma ac ni nodir yno unrhyw enghreifftiau o'r ffurf *bygwth* ar y be. Yn GPC 363 un enghraifft a nodir a honno'n ddyddiedig 1588.
- adfugail** Fe'i deellir i olygu 'bugail drwg' yn G 46 (eithr gan betruso) a GPC 20. Awgrymir hefyd yn G *l.c.* y gellid darllen 'at fugail' (cf. llsg. *atuugeil*) ond chwithig fyddai hynny.
- 32 **pwyswest** Fe'i nodir yn G 673 d.g. *gwest* ond ni fanylir. Nis nodir yn GPC 2956. Gallai *pwys* hefyd olygu 'pwysigrwydd', ac ystyr *pwyswest* wedyn fyddai '[ar ôl bod mewn] gwledd bwysig'.
- maer biswail** Cf. WML 33 (llau. 4–6) *Maer bisweil ageiff y sbyf ar blonec or llys. Ef bieu crbyn ygbarthec alather yny gegin a vo teir nos ar warthec y maer ty.*
- 33 **dwlban gwlan** 'Ffwr di-liw' yw'r ystyr betrus a roddir yn G 401 a GPC 1105 ar gyfer *dwlban*, ac fe'i hesbonnir yn GPC *l.c.* yn gyfuniad o *dwl* a *pân* neu *fôn* y f. *pannu*. Cymerir mai 'brethyn' yw ei ystyr yma; cf. ll. 109.
- gwlan gwlad Eryri** Dichon mai'r ergyd yw fod Casnodyn yn ystyried y gwlan hwn yn fras a chyntefig, y math o wlan a fyddai'n apelio at rywun fel Trahaearn. Cf. hefyd l. 78n. Gallai Trahaearn fod wedi cael y brethyn ar daith glera i Wynedd—ac yn y cyswllt hwn cofier mai gŵr o Arfon a ganodd ei farwnad, gw. GGDT cerdd 8 (Gwilym Ddu o Arfon)—er y dichon hefyd, wrth gwrs, fod y cynnyrch hwn i'w gael yn ne Cymru hefyd.
- 34 **cafn defni** Ar *cafn* yn yr ystyr 'tin', gw. G 97 a cf. llau. 132 *cafnrhwth*, 145 *cafn gau*. Nis cynhwysir ymysg ystyron GPC 387. Dichon, er hynny, mai '[carwr] llestr [llawn] diferion [diod]' a olygir, cyfeiriad at feddwod Trahaearn, gyda *defni* yn ll. *dafn*, ond llai tebygol, efallai, yw hynny.
- 35 **croesanfarch cail** Cyffelybir Trahaearn i glown mawr a'i gynulleidfa i braidd hurt o anifeiliaid. 'Ceffyl gwirion', yn ffigurol, yw'r ystyr a roddir i *croesanfarch* yn G 178, ac yn betrus y cynigir yr ystyron 'march croesan, ceffyl gwael' yn GPC 605, er cydnabod y gellir ei ddefnyddio'n ffigurol. Yn G 123 cynhwysir yr enghraifft hon o *cail* yn

betrus.

cribddail cri Cf. llau. 49–50 *gribddail / Cwm*; hefyd ll. 24 *oesbarth ysbail*. Dilynir GPC 594—cf. G 175 d.g. *cri*² (er yn betrus)—sy'n rhestru 'bras, garw, cwrs' ymhlith ystyron *cri*. Cf. hefyd l. 159.

- 36 **crys arfau** Ai cyfystyr ydyw â *pais* yn yr ystyr 'arfwisg yn amddiffyn rhan uchaf y corff wedi ei chryfhau â dolennau neu blatiau metel, peistur, curas: *coat of mail, brigandine, cuirass*', GPC 2670, (e)? Os felly, ymddengys mai ymosodiad sydd yma ar rinweddau Trahaearn fel milwr, cf. llau. 54–6 ac *ib.n.* Llai tebygol ydyw o fod yn gyfystyr â *pais* yn yr ystyr 'arfbais', gw. GPC 2670, (f).

gweilgi Ymddengys fod Trahaearn yn byw yn agos i lannau'r môr. Os felly, cf., o bosibl l. 37 *aeth Teifi i'th gwm*, a ll. 145 *caedr ebyr—ambawr*.

- 37 **Teifi** Diddorol sylwi bod Gwilym Ddu o Arfon, yn ei farwnad i Drahaearn, yn galw ar *saint ceraint Carawn* i eiriol ar ei ran, gw. GGDT 8.34, oherwydd rhed afon Teifi heibio i Dregaron. Ai dyffryn Teifi oedd bro Trahaearn? Os e, fe all, er hynny, ar bwys y ll. flaenorol, mai yn Aberteifi, yn hytrach nag yn Nhregaron, yr oedd yn byw. Gthg. GGDT 91–2 lle y cysylltir Trahaearn ag Ystrad Tywi yn bennaf. Dywedir *ib.* 92 ar bwys y ll. hon ei bod yn awgrymu i Drahaearn ganu yn Nyffryn Teifi, fel pe bai ef wedi mynd yno o rywle arall, ond dibynna hynny ar ddeall *Trahaearn*, nid *Teifi*, fel goddrych *aeth*.

cwm Ar yr ystyr 'crombil, bol', gw. G 190 (ni restrir yr ystyr hon yn GPC 640) a cf. llau. 134 *ofergwm*, 137 *bloeddgwm*, 142 [*c*]eugwm. Ymddengys, fodd bynnag, mai'r ystyr arferol sydd iddo yn ll. 50.

- 38 **brad** Cf. ll. 117 *du bradog* a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

Benlli Sef Benlli Gawr, un o hen frenhinoedd Powys ac arwr traddodiadol y ceir nifer o gyfeiriadau at ei nodweddion yn y farddoniaeth, gw. G 55, TYP² lxxiii, lxxix n1, CLC 40, GBF 23.12n.

- 39–40 **Mab Gronwy ... / Foel ...** Gw. llau. 41–4n.

- 40 **bwri** Yn ôl G 84 e. lle neu eg. benthylg o'r S. *bury*. Ym marn betrus GPC 355, daw o'r S. *bury*, neu'r a. *bwr(r)* 'tew, cryf, mawr', neu'r e. *bwr*² '? caer, amddiffynfa', a chynigir yno yr ystyron 'bwrdeistref; tewdwr'.

- 41–4 **Mab Gronwy ... / ... / Fab Rhotbert ... / Fab ... Bledri** Ymhellach ar ach Trahaearn, gw. GGDT 91–2.

- 41 **bricni** Ni chynigir ystyr yn G 76 a dywedir na ellir sicrwydd nad *pricni* yw'r ffurf gysefin os ffurfia gyfuniad cyfansawdd â *llid*, er cydnabod y gall *bricni daeog* fod yn y cyflwr genidol ar ôl *llid*. Yn GPC 323 (d.g. *bricni*) cynigir yn betrus mai eg. neu a. ydyw â'r ystyr 'adyn, truan' a derbynir hynny.

- 43 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sill.
- 44 **pleidrwrth Bledri** Llsgr. *bleitr6th bledri*. Deallir *pleidrwrth* yn gyfuniad o *plaid* a *rhwth*. Dywedir yn G 57 am yr enghraifft hon o *Bledri* a honno yn ll. 103 (R 1344.33 *vledri*), 'Sylwer mai *Bledri*, nid *Bledri*, ydyw'r enw fel y prawf y gynghanedd, ond gellid *Bledri* o'r ffurf hŷn *Bledri*.' Ar y llaw arall, mwy arferol yn orgraff y Llyfr Coch yw i'r llythren *d*, yng nghanol gair, gynrychioli'r sain *dd*, a disgwyliad gweld *bletri* yn cyfateb i *bleitr6th*. Os *Bledri* a olygir, yna gellid diwygio *bleitr6th* yn *bleidr6th* 'barus fel blaidd'.
- 45–6 **ys awen / Ysgawen** Ffordd arall, fe ymddengys, o ddweud bod Trahaearn fel bardd yn anysbrodoledig.
- 47 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.
gorchwyddfaidd Yn G 558 dywedir bod yr ail elfen naill ai'n ll. *baedd* neu'n fôn y f. *beiddiaw* ond yn wyneb yr enghreifftiau o'r gair *maidd* yn llau. 12, 18, 28, (?) 112 a'r cyfansoddeiriau yn llau. 67 *meiddgest*, 99 *meidd-draul*, y mae'n fwy tebygol mai *maidd* sydd yma hefyd a gwell yw'r ystyr. Yn ôl G *l.c.* (1), ystyr *gorchwydd* yw 'balchder, ymorchest, llid, cynddaredd', ond gall hefyd olygu 'chwydd mawr', gw. GPC 1467, a'r ystyr honno a ddilynir yma.
- 49 **camel min uchel** Arwydd o hunanbwysigrwydd, yn ddiâu, fel yr awgryma D. Myrddin Lloyd, GWL ii, 43. Cf., e.e., yr a. *ffroenuchel*.
cribddail Cf. ll. 35 *cribddail cri*.
- 50 **cwm** Yn ôl G 190 yr un ystyr sydd iddo ag yn ll. 37 ('crombil, bol') ond nid ymddengys yr ystyr honno'n briodol yma.
- 51 **syrr** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *sorri*.
- 52 **cawlfarch** Yn betrus y cynigir yr ystyr yn G 118 (ni restrir y gair yn GPC 443).
- 53 **bwlian** Llsgr. *d6lyan*. Derbynnir diwygiad petrus G 84 d.g. *bwlyan*; cf. llau. 21, 58.
- 54–6 Enghraifft o'r *topos* a geir mewn cerddi dychan fod y sawl a ddychenir yn ddi-werth fel milwr; cf. dychangerddi Hywel Ystorm o bosibl i ryw Fleddyn, R 1340.3–4 *g6as nydyt y vryt. ar vr6ydyr castell*; a Dafydd ap Gwilym i Rys Meigen, GDG³ 61 (21.26) *Yn arfau anerfai, ib.* (ll. 32) *Cyfranc nac aer daer nid ai, ib.* 62 (ll. 54) *Hwyr ym mrwydr y safai*.
- 55 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni chyfrifir *masw* yn ddeusill.
- 57 **gwŷg gwag awen** Cf. GDG³ 392 (148.1) *Gruffudd Gryg, wyg wawg awen*.
- 58 **bwlian** Sylwer ar y diffyg treigladd ar ôl *o* a cf. ll. 78 *fwlian* sy'n cadarnhau mai *bwlian* yw'r ffurf gysefin, ac ni welwyd unrhyw enghreifftiau o'r ffurf *pwljan*. Gan mai gair benthg ydyw (gw. ll. 21n),

dichon ei bod yn haws ei gadw'n ddidreigladd er mwyn y gynghanedd.

- 60 **plumynnaid** Llsgr. *blumynneit*. Dyma'r unig enghraifft hysbys. Yn G 59 fe'i nodir fel *blumynneit*, ac ni chynigir ystyr. Dichon mai amrywiad ar *plwmyn*, ffurf fachigol *plwm*, yw'r elfen gyntaf *plumyn*, cf., e.e., *plumys* / *plwmws*, *dust* / *dwst* GPC 2829, 1101, neu wall amdano. Gellir deall yr ail elfen *-aid* fel y terfyniad a. Ceir y gair *plymnaid* 'ymosod trwm', gw. GCBM ii, 426, ond byddai'r ll. yn rhy fyr o sillaf.
- blewmon** Y mae'n bosibl mai ergyd y gair (ac yn ll. 105) yw fod Trahaearn yn dywyll ei wedd, cf. ll. 117 *du bradog*. Amrywiad yw *blewmon* ar *blowman* (o'r S.C. *bleo-man*), gw. GPC 290.
- 64 **Tyrstan** Ffurf arall ar *Trystan*, gw. 2.17n.
- 65 **Twrch ... Trwyd** IGE² 393, 'Yn y chwedl [sef 'Culhwch ac Olwen'] ceir *th*, yn yr hen farddoniaeth *d* ar ei ddiwedd ...'. Ymhellach ar y creadur chwedlonol hwn, gw. CA 363, CO³ lxiii–lxxii.
- tryfrwyd** Ymhellach arno, gw. GCBM i, 26.87n.
- 66 **gwaedfarn** Os yr ystyr yw un a'i farn yn tynnu gwaed, pa mor debygol fyddai balchder Casnodyn o gydnabod hynny ac yntau'n ceisio cael y trechaf ar Darhaearn yn yr ornest? Dichon, ar y llaw arall, mai'r ystyr yw mai barn Trahaearn sydd wedi ei niweidio bellach. Nodir *waetuarn* yn betrus yn G 52 d.g. *barn* ac *ib*. 599 d.g. *gwaet*, ond yn yr olaf awgrymir hefyd y dichon mai *gwarn*, megis yn ll. 9, yw'r ail elfen, neu *marn* megis yn R 1338.16. Ni wyddys ystyr *marn* ac nis nodir yn GPC 2362, ond gellid bod wedi ysgrifennu *waetuarn* y llsgr. ar gam am *waetwarn* yn ddigon hawdd, a'r ystyr fyddai 'gwaed[lyd] ei facsau' gan gyfeirio at y Twrch Trwyth brwydr y cyffelybir Trahaearn iddo yn y ll. flaenorol.
- 67 **trig i'th wlad** Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod a ll. 37n.
- baeddgad** Yn betrus y cynigir yr ystyr yn G 49 a GPC 248.
- 72 Dichon mai cynghanedd groes sydd yma, ond sylwer nad oes dim yn hanner cyntaf y llinell i gyfateb i *b* ac *dd* yn yr ail hanner.
- dibencerdd** Dilynir G 327 o ran yr ystyr, ond gellid hefyd ei ddehongli yn *di*, *bencerdd*.
- 74 **gwedd** Yn G 641 (d.g. *gweð¹*) nodir yr ystyr bosibl 'gwedd dda, harddwch, tegwch, gweddeiddrwydd' i rai o'r enghreifftiau, er nas ceir yn GPC 1609.
- nid gwaith** Cymerir hwn gyda *tewi â* yn y ll. flaenorol. Os deellir ef fel ychwanegiad o *nid gwedd*, gadewir yr englyn heb f.
- 76 **tom** Ar yr ystyr 'cruglwyth', gw. CLIH 142, 240.
- 78 **gwinllan** Llsgr. *v6inlan*. Derbynnir diwygiad G 681.
- gwlan gwlad** Cf. ll. 33 *gwlan gwlad Eryri*. Dichon, gan hynny, mai

Eryri a olygir (os felly, ar arwyddocâd hyn, gw. ll. 33n). Yn GGDT 12.12 ceir y ll. *Ail breimiad albrwn gwlad gwlan* (Trahaearn Brydydd Mawr) ac awgrymir *ib.n* y gall mai Iwerddon a olygir.

- 79 **pacsws** Nis nodir yn GPC 2665, er cyfeirio ato yn 246 (d.g. *bacsws*). Ceir y Llad.C. *paxus* a ddiffinnir yn Carolus du Fresne Dominus Du Cange, *Glossarium Mediae et Infimae Latinitatis* (Niort, Londres, 1884–7), vi, 232, fel: *id quod pro venditionis aut alienationis auctoramento, domino superiori solvitur, quasi ut Pax cum eo ineatur, et ut venditionem et alienationem non inturbet, dato ad id consensu suo* ('yr hyn a delir i arglwydd uwch am awdurdodi gwerthiant neu drosglwyddiad, megis pe gwneid *Pax* ['heddwch'] ag ef, ac er mwyn iddo beidio ag ymyrryd â'r gwerthiant, ac yntau wedi rhoi ei gydsyniad i'r perwyl hwnnw'). Os benthyciad o'r Llad. sydd yma, go brin mai'r ystyr hon sydd i'r Gym. ond nid yw'n amhosibl fod y gair ar arfer mewn rhai cylchoedd fel cyfystyr â *pacs* (o'r Llad. *pax*) 'cusan, cusan heddwch'. Os felly, dychanu cusanau Trahaearn a wneir, boed mewn eglwys neu (yn fwy tebygol, efallai) yn ei ymwneud â merched.
- 80 **Ulltach** Gw. GGDT 12.9n lle y cynigir mai benthyciad ydyw o'r H.Wydd. *Ultach*.
alltud Felly hefyd ll. 81 a cf. ll. 85 *daramredwas*. Gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 81 **cerddris** Yn betrus y cynigir yr ystyr 'yn ceisio canu' yn G 112 (ni restrir y gair yn GPC 466).
- 82 **enllys** Yn betrus y cynigir yr ystyr 'annerbyniol, anhygar, atgas' yn G 479 a GPC 1218.
- 83 **trimws** Fe'i deallir yn gyfuniad o *tri* a *mws*. Ar yr olaf, gw. GPC 2512 d.g. *mws*¹.
- 84 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.
- 85 **daramredwas** Gw. ll. 80n.
- 87 **trisestr** Fe'i deallir yn fenthyciad o'r S.C. *sester*, gw. MED d.g., '*A vessel for holding liquid; ? a brewing vat ...*'. Cf. ll. 140 *cansestr*. Yr un gair a geir hefyd yn *ysgothsestr* 'llestr ysgarthu', gw. GLIBH 19.138n.
- 91–2 **doethion ... / Môn ac Arfon** Cf. GGDT 8.15–16 *Da Elidir gwir, gwarant iawn—ganon, / Gŵr o ddoethion Môn, mynwes eigiawn* (Gwilym Ddu o Arfon). Awgryma D.M. Lloyd mewn adolygiad ar G, LICy i (1950–51), 135, mai llinach benceirddaidd Meilyr a Gwalchmai *et al.* y perthynai Elidir Sais iddi a oedd gan Wilym Ddu mewn golwg wrth sôn am *ddoethion Môn*, ond amlwg mai am ddysg y cyfryw bobl y mae Casnodyn yn meddwl.
- 92 **a'i** Llsg. *ae* a allai hefyd gynrychioli *a'u* a chyfeirio at *Môn ac Arfon*. Ond gan mai Trahaearn a'i amgylchiadau yw gwrthrych ymosodiad

Casnodyn trwy'r gerdd, y mae'n annhebygol y byddai Casnodyn yn troi'n sydyn i ymosod ar Fôn ac Arfon. Cf. llau. 165 *fj mâr—a'i gorfydd*, 64 *trech wyf*. Ar gysylltiad Casnodyn â Môn ac Arfon, , gw. tt. 3–4 uchod.

- 94 **ya caeth warthegydd** Sef Bledri, gw. ll. 44.
- 95 Sylwer bod odl hefyd rhwng *palfau* a *cau* a cf. ll. 111.
pryf Cf. GDG³ 62 (21.57) *Gwirawd o waddawd a weddai—i'r pryf*.
- 99 **rhaul** Llsg. *reul*, gair tywyll; cf. R 1340.16 *Gbann vngoryf coes reul* (?Hywel Ystorm).
meidd-draul 'Yn bwyta maidd' yn ôl GPC 2408 lle y cynhwysir yr enghraifft hon yn unig.
- 101 **argrai** Yn betrus y cynigir yr ystyron 'blin, chwerw' yn G 40, a 'garw, trist' yn GPC 200.
- 102 **ceyrydd** Ansicr yw ei arwyddocâd. Efallai mai lleoedd cyfannedd, poblog megis trefi a dinasoedd a olygir (gydag awgrym o wareiddiad) rhagor unigeddau cefn gwlad. Ynteu a ddylid diwygio *geyryd* y llsg. yn *geryd* 'cerydd'?
- 103 **Bledri** Gw. ll. 44n.
du Dichon mai 'tywyll' (ei groen) a olygir, cf. ll. 117n.
'n ei ddydd Llsg. *nyddydd*, ond os *nyddydd* ('nyddwr') a olygir, ni cheir cynganedd oherwydd disgyn o'r acen ar y sill anghywir.
- 104 Ymddengys mai mab Bledri, sef Goronwy (gw. ll. 39) a olygir.
- 105–8 Ymddengys mai ergyd y pennill hwn yw na fyddai Trahaearn yn fawr gwell ei fyd hyd yn oed pe bai'n ddedwydd.
- 105 **swyniad** Nid yw'n eglur pam y cyfeirir felly at Drahaearn oni bai fod awgrym (difriol) ei fod yn fath o ddewin; cf. GP 57 (llau. 7–10) *Ny rwy berthyn ar brydyd ymyrru ar vardoniaeth, na dewinyaeth, na swyneu kyuarwydyon, kany henynt o'y gerd nac o'y grefft nac o'y wassanaeth*. Gw. hefyd DGIA 17–18.
blewmon Gw. ll. 60n.
- 106 **godreon** Ai godreon bryniau a olygir?
- 107 **bac** Benthyciad o'r S. *back*, gw. G 49, GPC 245. Dyfynna G yr ystyron '*clothes*' a '*a large shallow vessel (chiefly for liquids); a tub, trough, vat, cistern*' ar gyfer *back*, a GPC yn betrus 'math o lestr' ar gyfer y Gym. Efallai mai 'dillad' sy'n gweddu orau yma. Ar yr ystyr hon, gw. hefyd MED d.g. *bak*, 3(b), '*a garment which covers the back; a cloak*'.
gwell Amrywiad ar *gwellt*, cf. *hollt / holl*, gw. GPC 1632.
- 108 **melin** Dichon fod rhyw air fel *mawl* neu *clod* yn ddealedig ar ei ôl yn

unol â'r ffordd y cyffelybir canu bardd weithiau i felin, e.e., GDG³ 425 (II. 6–7) *Mawlair cerdd, milwr a'i cant, / Melin y glod a'r moliant* (Madog Benfras), GSCyf 16.23 *Taliesin a melin mawl* (Llywelyn ab y Moel). Os felly, ergyd *melin clawdd* fyddai fod Trahaearn yn fardd pen-clawdd, sef yn fardd gwael.

ar fawdd Ai ar foddi gan ddiod a olygir?; cf. ll. 37 *Trahaearn tafarn, aeth Teifi—i'th gwm*.

109 **cebelydd** Ei nodi yn unig a wneir yn G 119 ac nis ceir yn GPC 372. Nodir y gair S.C. *keble* 'bucket' yn MED d.g. Byddai'r ystyr 'bwcedwr' yn gweddu i'r cyd-destun, cf. ll. 23 *celwrn cail*. Posibilrwydd arall yw mai benthyciad ydyw o'r S.C. *cable* (*cabel, kabel, cawble, gable*) 'cable' (gw. *ib.* d.g.) a'r ystyr 'rhaffwr', ond nid yw'r arwyddocâd yn eglur felly. Neu a yw'r gair i'w gysylltu rywffodd â *cabl* 'difenwad', &c. neu *cyboli* 'siarad lol', &c. (eithr ni nodir unrhyw enghreifftiau cynharach na'r 18g. o'r f. honno yn GPC 656)?

110 **llachwethan** Amrywiad ar *llywethan, llawethan* yn ôl GPC 2288. Awgrymir yn betrus, *l.c.*, fod y gair naill ai'n fenthyciad o'r Llad. *leviathan*, neu ynteu'r un gair â *llyweth* 'cudyn', &c. (gw. *ib.* 2288 d.g. *llyweth*²) neu a dylanwad y gair hwnnw arno. O feddwl am yr holl bethau mawr y cyffelybir Trahaearn iddynt yn y gerdd hon, haws credu mai o *leviathan* y daw'r gair.

111–12 Deellir y llau. hyn yn enghraifft o'r *topos* a geir mewn cerddi dychan fod y sawl a ddychenir yn haeddu ei grogi; cf. ll. 177 *mawr mygrgraff raff*; R 1340.24 *Gôir haedu crocprenn. gôratwyd garnbenn* (?Hywel Ystorm); GDG³ 62 (21.65–6) *Rhys Meigen, gwden dan gedyrn—goedwydd / Fydd dy ddihenydd, hynaif erddyrrn*; GTP 49 (29.1–4) *Gruffudd, ti a gai reffyn, / O'th unbais wrth y WINBEN, / A'th godi, hwyr y'th gedwyn, / Wrth gadwyn o nerth gwden* (Tudur Penllyn).

111 Sylwer bod odl hefyd rhwng *byddai* a *bawai* a cf. ll. 95.

112 **maidd nawn** Llsgr. *meidnaön*; os felly, '(Byddai[’r]) ... yn hanner dydd maidd ...', hynny yw, 'yn [un wedi ei grogi am] hanner dydd [ac a] maidd [ynddo]', efallai, ond anos yw cael synnwyr fel hyn.

115 **llusg** Llsgr. *llust*, bai amlwg.

117 **tewfwn** Y tebyg yw mai aelodau rhywiol y tarw a olygir, ensyniad fod Trahaearn yn drythyll.

tabar Benthyciad o'r S.C. *tabard* o'r H. Ffr. *tabart, tabard*, EEW 64.

du Efallai mai 'tywyll' (o ran gwedd) a olygir, cf. ll. 60n ar *blewmon*.

118 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.

di-bryd Llsgr. *dibryd*, amrywiad ar *dybryd* yn ôl GPC 956, ond gan y byddai aceniad y gynghanedd yn anghywir fe'i deellir i gynrychioli *di-*

- bryd* ‘afluniaidd, hagr’ neu’r cyffelyb (cyfuniad o’r rhgdd. neg. a *pryd*) er nas nodir yn G 328 a GPC 956.
- 119 **brynar** Amrywiad ar *braenar*, gw. GPC 305.
- 121 **cylch** Yn G 229 (2) fe’i cynhwysir yn betrus fel enghraifft o’r ardd. yn golygu ‘o gwmpas, o amgylch’.
- 122 **mwsglgryg** Cyfuniad o *mwsgl* a *cryg*. Dywedir yn GPC 1513 am *mwsgl* y dichon mai benthyciad ydyw o S.C. *mussel* ‘cragen las’ a bod perthynas *mwsglgryg* â *mwsgl* yn ansicr. Dichon, fodd bynnag, mai benthyciad o S.C. *muscle* ‘cyhyr’ sydd yma, gw. MED d.g. *muscle*². Yn sicr fe weddai’r ystyr honno’n well yma a gellir ei ddeall i gyfeirio at y tannau lleisiol.
- 124 **rhyw ... ddistriw** Ar odli *yw* ac *iw*, gw. J. Morris-Jones: CD 248–9; D.J. Bowen, ‘Pynciau Cynganedd: Odli I, U ac Y’, LICy xx (1997), 142. Ar yr ystyr hon i *distryw*, gw. GPC 1030.
- 125 Y mae’r ll. yn rhy fyr o sillaf. A ddylid darllen *y mae y maerwr*?
- 127 **ardd** Ffurf 3 un.pres.myn. *eredig* (Cym.Diw. *aredig*), gw. G 484.
carnhardd, carnhir Yn G 113 awgrymir yn betrus mai *carn* yn yr ystyr ‘corn, corn yfed’ sydd yn yr enghreifftiau hyn, a dyna’r ystyr sy’n gweddu orau yma.
- 128 **gwelltgur** Y tebyg yw fod yma awgrym rhywiol.
- 129 **eirch** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *erchi*, gw. G 483.
clerswm Petrus yw’r ystyr ‘clerddyn, crwydryn’ a roddir yn G 146. Nis nodir yn GPC.
mŵn Fe’i deellir yn amrywiad ar *mwyn* ‘*mineral*’, &c., gw. GPC 2519 d.g. *mwyn*².
- 131 **cefnrhwd** G 122 ‘cefnost (gan grafu neu rwbio)’, neu *eg.* ‘rhwd neu lwch cefn’. Er hynny, mynegir ansicrwydd hefyd ai *rhwd* yw’r ail elfen. Derbynnir yr ystyr a roddir i’r ffurf yn GLIBH 19.15 (Llywelyn Ddu ab y Pastard).
crwydrgwd Yn llythrennol ‘a’i gwd yn grwydrol’, gw. G 181 (ni restrir y gair yn GPC 617).
